


Tachwedd 2003

Y  
Comisiwn  
Etholiadol



# Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003

Yr adroddiad swyddogol a'r canlyniadau

## The Electoral Commission

Trevelyan House  
Great Peter Street  
London SW1P 2HW

Tel 020 7271 0500

Fax 020 7271 0505

[info@electoralcommission.org.uk](mailto:info@electoralcommission.org.uk)

[www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk)

## Y Comisiwn Etholiadol

Tŷ Caradog

1-6 Trigfan Sant Andrew

Caerdydd CF10 3BE

Ffôn 029 2034 6800

Ffacs 029 2034 6805

[infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

## Y Comisiwn Etholiadol

Corff annibynnol ydym ni a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw ennyn hyder y cyhoedd ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn y DU trwy foderneiddio'r broses etholiadol, hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion etholiadol, a rheoleiddio pleidiau gwleidyddol.

Ar 1 Ebrill 2003, daeth Pwyllgor Ffiniau Lloegr (Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr gynt) yn bwyllgor statudol o'r Comisiwn Etholiadol. Mae ei ddyletswyddau yn cynnwys adolygu ffiniau etholiadol lleol.

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003

ISBN: 1-904363-33-4

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>	<b>4 Ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r cyfryngau</b>	<b>45</b>
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>5</b>	Ffynonellau gwybodaeth cyhoeddus	45
Blaenoriaethau ac egwyddorion	5	Rôl y cyfryngau yn yr etholiad	46
Y nifer a bleidleisiodd	5	Prif gasgliadau	46
Cyfrifoldebau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol ei hun	7	Beth allwn ni ei wneud?	52
Etholiadau a redir yn broffesiynol a hwylus i bleidleiswyr	7	Y Comisiwn Etholiadol ac ymwybyddiaeth gyhoeddus	52
Ffeithiau a ffigyrau	8	Crynodeb o'r argymhellion	54
<b>Etholaethau a rhanbarthau etholiadol</b>		<b>5 Gweinyddu'r etholiad</b>	<b>55</b>
<b>Cynulliad Cenedlaethol Cymru</b>	<b>10</b>	Cyflwyniad	55
Map	11	Cynllunio ar gyfer yr etholiad	56
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>13</b>	Amserlen yr etholiad	56
Cyfrifoldebau'r Comisiwn Etholiadol	13	Hyfforddiant	58
Ein rôl wrth adolygu etholiadau	14	Cofrestru etholwyr	59
Proses yr adroddiad	14	Cyngor i ymgeiswyr ac asiantau	61
Blaenoriaethau ac egwyddorion	15	Ffurflenni etholiadol	61
Cwmpas	16	Cysondeb ymarfer	62
Gwariant ar yr ymgyrch	17	Pleidleisio trwy'r post	65
Argymhellion	17	Dosbarthu taflenni etholiad ymgeiswyr	71
<b>2 Cefndir yr etholiad</b>	<b>19</b>	Twyll a diogelwch	72
Demograffeg: Cymru yn 2003	19	Gweithgaredd diwrnod yr etholiad	72
Datganoli: y cefndir	20	Nifer y blychau pleidleisio	73
System etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru	20	Papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r broses bleidleisio	73
Rhedeg etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	21	Y cyfrif	74
Y broses o gyflwyno deddfwriaeth etholiadol y Cynulliad	22	Gwasanaeth canlyniadau etholiad	76
Ymwybyddiaeth y cyhoedd	25	Staffio a chyllido	77
Crynodeb o argymhellion	28	Cyfrifo cost yr etholiad	78
<b>3 Y nifer a bleidleisiodd</b>	<b>29</b>	Diwallu anghenion pleidleiswyr	79
Y nifer a bleidleisiodd – y stori fawr	29	Crynodeb o'r argymhellion	79
Nodi'r achosion	29	<b>6 Mynediad cyfartal i bawb</b>	<b>83</b>
Yr hyn a ddywedodd y cyhoedd	30	Cyflwyniad	83
Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus	31	Dull ymchwilio	83
Oedran ac ymddygiad pleidleisio	33	Mynediad at gofrestru	84
Mwy o ddemograffeg ac ymddygiad pleidleisio	35	Cyfle cyfartal i sefyll fel ymgeisydd	84
Agweddau pleidleiswyr at y Cynulliad Cenedlaethol	36	Mynediad cyfartal i'r broses bleidleisio i bobl	
Natur yr ymgyrch etholiadol	37	gydag anabledau	85
Yr angen am ddulliau pleidleisio mwy cyfleus	41	Ymgynghori gyda grwpiau mynediad i'r anabl lleol	86
Pwysleisio'r positif	43	Cyrraedd y gorsafoedd pleidleisio	86
Beth allwn ni ei wneud?	43	Lleoliad y gorsafoedd pleidleisio	87
Crynodeb o'r argymhellion	44	Mynediad i bobl gyda nam ar eu clyw	88
		Mynediad i bobl gyda nam ar eu golwg	88
		Staff etholiadau a mynediad i bobl gydag anabledau	88
		Yr iaith Gymraeg a mynediad i bobl gydag anabledau	89
		Ymarfer da	89

# 2

Pleidleisio drwy'r post a phobl gydag anableddau	89
Argymhellion SCOPE Cwmpas Cymru	90
Etholiadau yn y dyfodol a hygyrchedd	90
Crynodeb o'r argymhellion	91

## Atodiad 1

Ymchwil pŵl piniwn: cyfansoddiad y grwpiau ffocws	93
---	----

## Atodiad 2

Data etholiad	94
Y canlyniadau swyddogol	96
Y nifer wnaeth bleidleisio	116
Pleidleisio trwy'r post	122
Data pleidiau gwleidyddol	124
Data ymgeiswyr	148

# Rhagair

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gymharol newydd i'r broses ddemocrataidd ar draws y Deyrnas Unedig, felly hwn yw'n hadroddiad statudol cyntaf ar etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gofyn i ni adrodd ar weinyddu etholiad a chadw ystod o faterion parthed etholiadau dan arolygaeth.

Gan gadw at ein cyfrifoldebau i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus a moderneiddio etholiadau, nid materion gweinyddol yn unig y mae'r adroddiad hwn ar yr etholiadau a gynhaliwyd ar 1 Mai 2003 yn eu trin. Rydym yn adrodd ar bwnc anodd y gostyngiad yn y nifer sy'n pleidleisio, strwythur y cyfrifoldeb am reoli'r etholiadau a sut y cawsant eu cynnal yn ymarferol, yn ogystal â materion ehangach sy'n effeithio ar ganfyddiad etholwyr o'r hyn yr oedd yr etholiadau yn ymdrin ag ef.

Ni ddaethom at yr etholiadau hyn gyda dalen wag o'n blaenau. Mae'r Comisiwn eisoes wedi adrodd ar yr etholiad cyffredinol yn 2001, a esgorodd ar gyfres o ddiwygiadau i bolisi etholiadol yn ei dro. Roedd yr argymhellion yr ydym eisoes wedi eu gwneud i lywodraeth y DU ar gyfer moderneiddio'r system etholiadol yn gefndir i'n hymagwedd, ond fe wnaethom hefyd gomisiynu ystod o ymchwil benodol i Gymru a'r etholiadau hyn. Gosodwyd ein gwaith felly yn uniongyrchol yng nghyd-destun datganoli, gyda buddiannau etholwyr Cymru yn ganolog yn ein meddwl.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan y Comisiwn Etholiadol yn ein swyddfa yng Nghaerdydd gan dîm dan arweiniad Pennaeth y Swyddfa, Kay Jenkins. Hoffem ddiolch i bawb a fu yn ein cynorthwyo gyda chyngor, gwybodaeth a sylwadau, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, asiantau a swyddogion yn gweithio i'r Cynulliad ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Ond rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r Swyddogion Canlyniadau a'r staff gwasanaethau etholiadol sydd wedi rhoi eu hamser i gasglu gwybodaeth a data i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn ac am ein cynorthwyo gyda'n hymweliadau ag etholaethau. Mae gwasanaethau etholiadol yn parhau'n 'sinderela' mewn llywodraeth leol, gyda chyllideb isel, ac, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn nodweddiadol dim ond un neu ddau o staff yn gweithio gydol y flwyddyn ar gofrestru etholwyr ac etholiadau. Rydym yn cydnabod y pwysau penodol y maent yn ei wynebu wrth baratoi at etholiad o bwys, ac yn gwerthfawrogi eu cydweithrediad yn fawr.

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad cyfatebol ar etholiadau Senedd yr Alban ar 1 Mai, lle'r oedd rhai o'r materion dan sylw yn debyg, tra bod rhai eraill yn wahanol. Amcan y ddau adroddiad yw cyfrannu at gynnal etholiadau yn y dyfodol mewn modd teg ac effeithlon, ac i geisio mwy o gyfraniad gan y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.



**Glyn Mathias**  
Comisiynydd Etholiadol



British  
Ambassy  
for Wales  
Clyde Hall  
Cardiff  
Main Entrance  
The  
Complex

# Crynodeb gweithredol

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf gan y Comisiwn ar etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ein dyletswydd statudol yw adrodd ar weinyddu etholiad a chadw amrediad o faterion parthed etholiadau dan arolygaeth. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ystyried pob agwedd ar yr etholiadau o fewn ein cylch gorchwyl ac yn gyson â'n rôl fel corff annibynnol.

## Blaenoriaethau ac egwyddorion

Wrth adolygu'r etholiad hwn, bwriada'r Comisiwn osod buddiannau'r pleidleiswyr a'r etholwyr yng nghanol pethau. Ein blaenoriaeth nesaf yw y dylai trefniadau etholiadol greu yr amodau gorau posibl i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ymwneud â'r etholwyr. Yng nghyd-destun y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mai 2003, nid yw hyn yn fater bach. Ein trydedd flaenoriaeth yw sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadol yn medru gweinyddu'r prosesau etholiadol yn effeithiol ac effeithlon. Wrth wneud argymhellion i newid pethau, mae ein hadroddiad wedi ei wreiddio'n gadarn yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru.

## Y nifer a bleidleisiodd

Mae cyfranogiad pleidleiswyr yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, ar ddim ond 38%, yn gosod her ddifrifol i bawb sy'n ymwneud ag etholiadau a'r prosesau etholiadol. Rhaid gweithredu ar draws pob ffyrnt i atal gostyngiadau pellach a chael yr etholwyr yng Nghymru i gyfranogi. Mae gan bawb sydd â diddordeb mewn cynnal democratiaeth – pleidiau gwleidyddol yn arbennig, gweinyddwyr etholiadol, y Cynulliad a'r Comisiwn ei hun – gyfrifoldeb i archwilio sut y gallant ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac ennyn eu hyder. Mae angen dirfawr hefyd am well cyfathrebu gyda phobl ifanc, ac ennyn mwy o gyfraniad ganddynt.

Mae ein hadroddiad yn ymchwilio i'r rhesymau am y nifer isel a bleidleisiodd yn yr etholiad hwn. Rydym wedi tynnu ar ymchwil i farn y cyhoedd a gomisynwyd yn arbennig, dadansoddiad academaidd o'r canlyniadau a dadansoddiad arbenigol o sylw'r cyfryngau i'r etholiad. Rydym hefyd wedi adolygu sylwadau gan amrywiaeth eang o ffynonellau fel sail i'n casgliadau.

Mae'r niferoedd isel sy'n pleidleisio ymhell o fod yn ddiffyg sy'n perthyn i Gymru'n unig; ar draws y rhan fwyaf o'r DU a'r democratiaethau gorllewinol, mae'r duedd ar i lawr yn y niferoedd. Ond mae ffactorau sy'n benodol i Gymru ac yn benodol i'r etholiad hwn. Rydym yn dod i'r casgliad bod cyfuniad cymhleth o ffactorau wedi arwain at ganran o 38% yn pleidleisio yn yr etholiad hwn. Rydym yn nodi isod y themâu allweddol sy'n ymddangos yn ein hadroddiad.

## Diffyg gwybodaeth

O ran ymwybyddiaeth gyhoeddus, nodwyd gennym cyn yr etholiad fod angen gwybodaeth galed am y Cynulliad Cenedlaethol, ei bwerau, cyfrifoldebau a'i lwyddiannau. Heblaw am ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Cornisiwn Etholiadol ei hun, ychydig iawn a wnaed i ddiwallu'r angen hwn. Rhaid i strategaethau cyfathrebu pawb sy'n ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau – pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, Aelodau'r Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun – gyfeirio eu meddyliau tuag at y diffyg gwybodaeth, nid yn unig ar adeg etholiad, ond rhwng etholiadau ac yn y tymor hir. Heb strategaethau i roi gwybodaeth a denu diddordeb yr etholwyr, ni ellir cael unrhyw sicrwydd y bydd y duedd tuag at leihad yn y nifer sy'n pleidleisio yn cael ei hatal na'i gwrth-droi.

## Agweddau pleidleiswyr at y Cynulliad Cenedlaethol

Mae llawer o bleidleiswyr yn ystyried bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi methu cyflawni yn unol â'u disgwyliadau. Ond, mae casineb tuag at ddatganoli fel y cyfryw yn brin. Mae ein hadroddiad hefyd yn archwilio'r ddamcaniaeth a gyflwynwyd gan rai, gan nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau deddfu sylfaenol, nad yw pobl yn teimlo ei fod yn ddigon pwysig i bleidleisio iddo. Er bod y mwyafrif yn dweud y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio petai gan y Cynulliad fwy o bwerau i newid pethau sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd, mae'n bwysig peidio gor-bwysleisio'r ffactor hwn. Mae bron gymaint o bobl yn dweud y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio am resymau eraill, fel pe bai amheuaeth y byddai canlyniad yr etholiad yn agos a'u bod yn credu y byddai eu pleidlais yn gwneud gwahaniaeth.

## Natur yr ymgyrch etholiadol

Er bod cyfran o'r cyhoedd yng Nghymru wedi penderfynu cyn yr etholiad nad oeddynt am bleidleisio, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tua hanner yr etholwyr wedi penderfynu a fyddent yn pleidleisio neu beidio yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Gall effeithiolrwydd ymgyrch yr etholiad ei hun, felly, fod yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio, gan gynnwys pwysigrwydd ymddangosiadol y pynciau gwleidyddol sydd i'w penderfynu yn yr etholiad a natur y gystadleuaeth rhwng y pleidiau gwleidyddol. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod natur ddisylw'r ymgyrch mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, gan gynnwys diffyg cyswllt personol rhwng ymgeiswyr, ymgyrchwyr y pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd,

wedi effeithio ar y nifer a bleidleisiodd. Mater arall oedd y canfyddiad ymhlith rhai darpar bleidleiswyr nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y pleidiau o ran polisïau.

## Diffyg diddordeb pobl ifanc

Gyda'n hymchwil i farn y cyhoedd yn dangos mai dim ond 19% o'r rhai dan 35 a bleidleisiodd, mae'n amlwg bod angen i bawb sy'n ymwneud ag etholiadau a'r broses etholiadol wneud llawer iawn o waith i ennyn diddordeb pobl ifanc. Nid oedd yn amlwg bod unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol yn cyfeirio ymgyrchoedd tuag at bleidleiswyr iau, ac roedd lefel yr ymwybyddiaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r etholiad yn arbennig o isel ymhlith pobl ifanc.

## Rôl y cyfryngau

Ymdriniodd y cyfryngau â'r ymgyrch fel etholiad 'ail-reng', a dderbyniodd, ar y cyfan, ychydig o amlygrwydd. Dyfnhawyd hyn ymhellach gan nodweddion strwythurol y system gyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys absenoldeb gwasg gystadleuol, i Gymru gyfan, a'r ffaith bod gwylwyr teledu mewn rhai rhannau o Gymru yn troi at ddarllediadau newyddion o Loegr yn hytrach na Chaerdydd. Ond, er gwaethaf diffyg amlygrwydd yr ymgyrch yn gyffredinol, roedd swm sylweddol o newyddion yr etholiad ar gael i bleidleiswyr.

## Yr angen am ddulliau pleidleisio mwy cyfleus

Nid oedd dulliau pleidleisio dyfeisgar yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol – er enghraifft, pleidleisiau post cyflawn neu ddulliau electronig o bleidleisio – gan nad oes deddfwriaeth yn ei lle a fyddai'n caniatáu cynlluniau peilot o'r fath yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn wahanol i etholiadau cynghorau lleol. Mae ein hymchwil i farn y bobl yn dangos y byddai mwy o ddewis o ran dulliau pleidleisio a dulliau mwy cyfleus yn annog rhai nad ydynt yn pleidleisio i wneud hynny. Rydym yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth i bleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru gael y cyfle i brofi dulliau dyfeisgar o bleidleisio. Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno deddfwriaeth gan Senedd y DU i ganiatáu mwyo ddewis o ran dull pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cynlluniau peilot ac mewn isetholiadau.

## Pwysleisio'r positif

Mae casgliadau positif i'n hymchwil i farn y cyhoedd. Nid oes fawr o dystiolaeth bod y diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn lleihau, hyd yn oed pan fydd y nifer sy'n pleidleisio wedi gostwng. Cymharol ychydig o bleidleiswyr sy'n credu bod datganoli wedi gwneud llywodraethu Cymru neu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn waeth. Gall nifer sylweddol o bobl fod yn fwy tueddol o bleidleisio petai'r broses o bleidleisio yn cael ei gwneud yn haws ac y gellid eu darbwyllo bod etholiadau yn fwy tebygol o wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys argymhellion ar y camau i'w cymryd ar draws pob ffrynt a gan yr holl chwaraewyr perthnasol i ymdrin â'r materion hyn. Rydym yn nodi yn yr adroddiad yr hyn mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i ddatblygu ei strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus ei hun ymhellach.

## Cyfrifoldebau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol ei hun

Mae nifer o gyrrff a sefydliadau gwahanol yng Nghymru (a thu hwnt) gyda dyletswyddau amrywiol am agweddau ar reoli etholiadau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n drawiadol nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol ei hun gyfrifoldeb am ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y modd y mae ei etholiadau ei hun yn cael eu cynnal. Mae nifer o'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau etholiadol yn ansicr pa gorff neu sefydliad sy'n gyfrifol am beth.

Oherwydd nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb sylfaenol am ei etholiadau ei hun, mae'n ystyried ei fod yn gyfreithiol anabl i'w hyrwyddo nac i ddatblygu strategaeth gwybodaeth gyhoeddus a chyfathrebu amdanynt. Felly mae'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn methu diwallu'r anghenion yr ydym wedi eu nodi o ran lledaenu gwybodaeth glir i'r etholwyr am ei bwerau, cyfrifoldebau a llwyddiannau.

Yn enw effeithlonrwydd gweinyddol, mae'n bwysig i'r corff mwyaf addas roi arweiniad clir. Rydym yn argymhell i'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid ystyried datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad Cenedlaethol am ddeddfwriaeth etholiadol eilaidd yn rheoli'r modd y mae'n cynnal ei etholiadau ei hun. Byddai hyn hefyd yn ei alluogi i ddatblygu'r strategaeth gyfathrebu yr ydym yn ei hargymhell fel dull o roi gwybodaeth i bobl Cymru am yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau yn ei olygu iddynt hwy.

## Etholiadau a redir yn broffesiynol a hwylus i bleidleiswyr

Mae'n hadroddiad yn cynnwys adolygiad manwl o weinyddiad yr etholiad. Mae rhediad esmwyth yr etholiad yn elfen allweddol o ran cynnal hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol.

Mae'r hyn y sylwyd arno gennym ni yn y broses etholiadol a dadansoddiad o gyfweiliadau a holiaduron gyda phleidleiswyr a Swyddogion Canlyniadau yn awgrymu bod yr etholiad wedi rhedeg yn esmwyth. Mae nifer o enghreifftiau o ymarfer da wrth reoli etholiad yng Nghymru yr ydym yn bwriadu eu rhannu yn fwy eang trwy gynhyrchu 'papurau arfer gorau'. Ond, roedd yn etholiad na welodd fawr o flaengaredd yn yr elfennau hanfodol o reoli etholiad.

Mae rhai meysydd hefyd lle mae arfer anghyson. Mae rhai anghysondebau yn effeithio ar ymgeiswyr etholiadol, fel y gweithdrefnau enwebu ymgeiswyr. Mae rhai ohonynt yn effeithio ar gyfranogiad pleidleiswyr, fel y modd y mae pleidleisio trwy'r post yn cael ei hyrwyddo. Darganfu ein hymchwil fod mwy wedi defnyddio pleidleisiau post mewn rhai etholaethau yng Nghymru a lefel uwch o bleidleisio yn gyffredinol ymhlith y rhai sydd â phleidlais bost, rhywbeth sy'n deillio yn bennaf o'r lefel o hyrwyddo pleidleisiau trwy'r post a wnaed gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Swyddogion Canlyniadau yn lleol.

Roedd y Comisiwn Etholiadol yn y gorffennol wedi argymhell y dylid cyflwyno fframwaith o safonau ansawdd mewn gwasanaethau etholiadol ac atebolrwydd clir am gyrraedd y safonau hynny. Mae ein hadolygiad ar etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn atgyfnerthu ein cynigion cyfredol ar ddiwygio cyfraith etholiadol, sy'n rhan o'r darlun ehangach o etholiadau yn y DU. Rydym yn ailadrodd yr argymhellion hynny yn yr adroddiad hwn a'n galwadau am fuddsoddiad digonol i greu mwy o gysondeb mewn safonau ac yn y ddarpariaeth o gyllid craidd ar gyfer gwasanaethau etholiadol.

Yn codi o'r adolygiad etholiadol hwn, rydym yn argymhell y dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi datganiadau blynyddol o'u bwriadau a'u cynlluniau ar gyfer hyrwyddo cofrestru etholiadol a phleidleisio trwy'r post, er mwyn gwella'r tryloywder, yr atebolrwydd a'r cysondeb.

Rydym wedi adolygu hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yng ngoleuni anghenion pleidleiswyr gydag anableddau a hygyrchedd y broses etholiadol, fel cofrestru etholwyr. Mae'n amlwg bod llawer o bobl anabl yng Nghymru yn teimlo nad yw'r prosesau a'r arferion etholiadol yng Nghymru yn rhoi digon o ystyriaeth i'w hanghenion. Ar yr un pryd, mae Swyddogion Canlyniadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol yn nodi cyfyngiadau ariannol ac o ran adnoddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gwelliannau tymor hir a diffyg argaeledd adeiladau cyhoeddus sy'n hollol hygyrch i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Rydym wedi ailadrodd argymhellion cyfredol y Comisiwn y dylai Swyddogion Canlyniadau gael pwerau statudol i ddefnyddio pob adeilad mewn meddiant cyhoeddus sy'n hygyrch fel gorsafoedd pleidleisio ac y dylai Swyddogion Canlyniadau gynnal adolygiadau o'r ddarpariaeth o orsafoedd pleidleisio ddim llai na phob pedair blynedd, gan gynnwys grwpiau lleol o bobl anabl yn eu hadolygiadau.

## Ffeithiau a ffigyrau

### Y nifer a bleidleisiodd

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003	
Etholwyr cofrestredig	2,229,545
Cyfanswm y pleidleisiau dilys pleidleisiau etholaethol	851,357
Cyfanswm y pleidleisiau dilys pleidleisiau rhanbarthol	849,552
Nifer a bleidleisiodd yn ddilys yn yr etholaethau	38.2%
Nifer a bleidleisiodd yn ddilys yn y rhanbarthau	38.1%

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999	
Etholwyr cofrestredig	2,205,117
Cyfanswm y pleidleisiau dilys pleidleisiau etholaethol	1,023,018
Cyfanswm y pleidleisiau dilys pleidleisiau rhanbarthol	1,021,857
Nifer a bleidleisiodd yn ddilys yn yr etholaethau	46.4%
Nifer a bleidleisiodd yn ddilys yn y rhanbarthau	46.3%

Etholiad cyffredinol 2001	
Etholwyr cofrestredig	2,236,143
Cyfanswm y pleidleisiau dilys etholiad cyffredinol	1,372,324
Nifer a bleidleisiodd yn ddilys yn yr etholiad cyffredinol	61.4%

Newidiadau yn y nifer a bleidleisiodd	
Newid yn nifer a bleidleisiodd yn ddilys pleidlais etholaethol 1999-2003	-8.2%
Newid yn y nifer a bleidleisiodd yn ddilys pleidlais etholaethol 2001-2003	-23.2%
2003 y nifer uchaf a bleidleisiodd	Ynys Môn (50.5%)
2003 y nifer isaf a bleidleisiodd	Alun a Glannau Dyfrdwy (24.9%)
Gostyngiad mwyaf yn nifer ers 1999	Caernarfon (-15.4%)

## Canlyniadau Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003

Canlyniadau etholiad 2003							
Plaid wleidyddol	2003 ennill		2003 colli		Seddi enillwyd		Cyfanswm
	Etholaeth	Rhanbarth	Etholaeth	Rhanbarth	Etholaeth	Rhanbarth	
Plaid Lafur Cymru	+4	0	-1	-1	30	0	30
Plaid Cymru – The Party of Wales	0	0	-4	-1	5	7	12
Plaid Geidwadol Cymru	0	+2	0	0	1	10	11
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	0	0	0	0	3	3	6
Plaid Annibynnol John Marek	+1	0	0	0	1	0	1

## Pleidleisio trwy'r post ers cyflwyno pleidleisio trwy'r post yn ôl y gofyn

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003	
Pleidleisiau post a gyhoeddwyd	155,426
Pleidleisiau post a ddychwelwyd	98,415
Pleidleisiau post dilys a gyfrifwyd	92,695
Pleidleisiau post fel canran o gyfanswm y nifer wnaeth bleidleisio	4.4%

Etholiad cyffredinol 2001	
Pleidleisiau post a gyhoeddwyd	110,900
Pleidleisiau post a ddychwelwyd	91,395
Pleidleisiau post dilys a gyfrifwyd	86,862
Pleidleisiau post fel canran o gyfanswm y nifer wnaeth bleidleisio	4.1%

# 10

## Etholaethau a rhanbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Etholaethau

- 1 Dyffryn Clwyd
- 2 Alun a Glannau Dyfrdwy
- 3 Wrecsam
- 4 Gorllewin Abertawe
- 5 Dwyrain Abertawe
- 6 Aberafan
- 7 Pen-y-bont ar Ogwr
- 8 Ogwr
- 9 Rhondda
- 10 Pontypridd
- 11 Cwm Cynon
- 12 Merthyr Tudful a Rhymni
- 13 Caerffili
- 14 Islwyn
- 15 Blaenau Gwent
- 16 Torfaen
- 17 Dwyrain Casnewydd
- 18 Gorllewin Casnewydd
- 19 Gogledd Caerdydd
- 20 Gorllewin Caerdydd
- 21 Canol Caerdydd
- 22 De Caerdydd a Phenarth

### Rhanbarthau etholiadol

- Canol a Gorllewin Cymru
- Gogledd Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru
- Gorllewin De Cymru





# 1 Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw adroddiad cyntaf y Comisiwn ar etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ein dyletswydd statudol yw adrodd ar weinyddiaeth yr etholiad a chadw amrediad o faterion parthed etholiadau dan arolygiaeth. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi trafod pob agwedd ar yr etholiad o fewn ein cylch gorchwyl ac yn gyson â'n rôl fel corff annibynnol.

## Cyfrifoldebau'r Comisiwn Etholiadol

**1.1** Corff cyhoeddus yw'r Comisiwn Etholiadol a sefydlwyd ar 30 Tachwedd 2000 trwy Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar y Llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i Senedd y DU. Mae'n ymdrin â'r DU gyfan, dan arweiniad Cadeirydd gyda phump o Gomisiynwyr eraill nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau ag unrhyw blaid wleidyddol. Mae'r Comisiwn yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU trwy bwyllgor dan gadeiryddiaeth Llefarydd Tŷ'r Cyffredin.

**1.2** Y Comisiwn sy'n gyfrifol am reoleiddio nifer o agweddau ar gyfraith etholiadol, gan gynnwys cofrestru pleidiau gwleidyddol a thrydydd partiion, monitro a chyhoeddi manylion am gyfraniadau sylweddol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig, deiliaid swyddi yr etholir iddynt, rheoleiddio gwariant pleidiau yn genedlaethol ar ymgyrchoedd etholiadol a gwariant ymgeiswyr unigol. Mae gan y Comisiwn rôl hefyd o ran cynghori'r rhai sy'n ymwneud ag etholiadau ar arfer a gweithdrefnau ac mae'n ofynnol iddo adrodd ar weinyddu yr holl brif etholiadau. Mae'r ddyletswydd i adrodd yn cynnwys etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r ddyletswydd honno. Yn wahanol i lawer o gomisiynau etholiadol statudol y tu allan i'r DU, fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn gyfrifoldeb am gynnal a diweddarau cofrestru etholiadol, cyflogi staff gwasanaethau etholiadol nac am gynnal etholiadau. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw bwerau i gyfarwyddo staff gwasanaethau etholiadol ac ymgynghorol yw ei rôl mewn etholiadau.

### 1.3 Nodau'r Comisiwn yw:

- hyrwyddo a chynnal tryloywder a bod yn agored ym materion ariannol pleidiau gwleidyddol a rhai eraill sy'n ymwneud ag etholiadau;
- adolygu gweinyddiaeth a chyfraith etholiadau ac annog ymarfer gorau;
- annog mwy o gyfranogiad yn y broses ddemocrataidd a mwy o ddealltwriaeth ohoni;
- sicrhau bod y Comisiwn yn medru cynnal refferendwm yn effeithiol;
- darparu cydraddoldeb etholiadol ym mhob awdurdod lleol yn Lloegr tra hefyd yn adlewyrchu hunaniaeth a

diddordebau'r cymunedau, a chynnal adolygiadau o ardaloedd awdurdodau lleol fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn neu yn eu cyfarwyddo;

- gweithredu holl swyddogaethau statudol y Comisiwn yn ddiuedd, gan ddefnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus.

**1.4** Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol cyfredol yn y DU a'r rhai sy'n yr arfaeth a systemau llywodraeth leol a chenedlaethol cyfredol ac sy'n yr arfaeth yn y DU, yn ogystal â sefydliadau yr Undeb Ewropeaidd.<sup>1</sup> Gallwn gynnal rhaglenni i addysgu pleidleiswyr neu i roi gwybodaeth iddynt i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd a gallwn roi grantiau i eraill wneud hynny.<sup>2</sup>

**1.5** Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cwmpasu amrediad llawn cylch gorchwyl y Comisiwn. Yng Ngorffennaf 2001, agorodd y Comisiwn ei swyddfa yng Nghymru yng Nghaerdydd yn ffurfiol er mwyn galluogi'r Comisiwn i ymateb yn fwy llawn i anghenion pleidleiswyr a'n holl fudd-ddeiliaid, yng nghyd-destun datganoli. Mae'r Comisiwn mewn modd tebyg wedi sefydlu swyddfeydd yn Belfast a Chaeredin.

## Ein rôl wrth adolygu etholiadau

**1.6** Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb statudol y Comisiwn i adrodd ar etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 1 Mai 2003. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, yn dilyn etholiad perthnasol, baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weinyddu'r etholiad.<sup>3</sup> Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd gadw'r materion hynny parthed etholiadau y mae'r Comisiwn yn eu pennu dan arolygiaeth a chyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.<sup>4</sup>

**1.7** Yn gyson â'n cyfrifoldebau ehangach i foderneiddio etholiadau ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus, nid yw'r adroddiad hwn wedi ei gyfyngu i adolygu gweinyddiaeth yr etholiad yn unig. Rydym wedi ceisio cael golwg eang ac ystyried pob agwedd ar yr etholiad o fewn ein cylch gorchwyl ac yn gyson â'n rôl fel corff annibynnol.

**1.8** Mae'n briodol i ni wneud hynny yn arbennig yn yr etholiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, pan mai'r brif stori newyddion wedi'r etholiad, ar wahân i'r canlyniad ei hun wrth gwrs, oedd lefel isel cyfranogiad y cyhoedd yn yr etholiad – gyda'r nifer wnaeth bleidleisio cyn ised â 38.2%. Nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r farn gul lle gall arolygiad o weinyddu etholiad mewn rhyw ffordd gael ei ysgaru oddi wrth adolygiad o gyfranogiad pleidleiswyr. Mae canlyniad etholiadau, a chyfranogiad etholwyr ynddynt, yn deillio o gyd-berthynas gymhleth rhwng ffactorau sy'n bod ar y pryd mewn unrhyw etholiad penodol. Mae tueddiadau a themâu yn gyffredin iddynt oll ac mae ffactorau sy'n unigryw a phenodol i bob un.

**1.9** Cred y Comisiwn fod gan bob corff sy'n ymwneud â rhedeg a chymryd rhan mewn etholiadau, gan gynnwys staff gwasanaethau etholiadol, ymgeiswyr ac asiantau, yn ogystal â'r Comisiwn ei hun, ran i'w chwarae i annog pleidleiswyr i gymryd rhan. Mae'r adroddiad hwn ar etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cadarnhau'r farn honno. Rydym wedi ceisio adolygu achosion y gostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd o'u cymharu ag etholiad y Cynulliad ym 1999 tra ar yr un pryd yn gwneud argymhellion yr ydym yn gobeithio y byddant yn annog budd-ddeiliaid mewn etholiadau ac yn y broses etholiadol i ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr.

## Proses yr adroddiad

**1.10** Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn ac argymhellion y Comisiwn Etholiadol. Seiliwyd yr adroddiad ar ymchwil a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol a thrwy gydol y broses mae wedi manteisio ar gael barn ac arbenigedd unigolion yn cynrychioli amrediad eang o ddi-ddordebau budd-ddeiliaid. Barn y Comisiwn Etholiadol, fodd bynnag, a barn y Comisiwn Etholiadol yn unig a geir yn yr adroddiad – nid yw'n ailadrodd ymchwil a gomisiynwyd yn allanol yn unig ac nid yw'n adlewyrchu barn y rhai sydd wedi cyfrannu at y broses adolygu o angenrheidrwydd.

**1.11** Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi tynnu ar amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn yn cynnwys:

- holiaduron a gwblhawyd a data gan Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadol yn cynrychioli pob etholaeth yng Nghymru;

<sup>1</sup> A.13 PPERA 2000.

<sup>2</sup> Mae'r Comisiwn ar hyn o bryd yn gweithredu Cronfa Mentrau Newydd ar gyfer dibenion o'r fath, gweler [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk).

<sup>3</sup> A.5 PPERA 2000.

<sup>4</sup> A.6 PPERA 2000.

- casgliadau cyfres o ymweliadau arsylwi ag etholaethau, a gynhaliwyd gan Gomisiynwyr a staff y Comisiwn, i gasglu gwybodaeth ar y maes cyn y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod;
- trafodaethau manwl gyda chynrychiolwyr y prif bleidiau gwleidyddol, y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol mewn fforymau amrywiol;
- cyfraniadau at seminar wedi'r etholiad a gynhaliwyd ar y cyd gan y Comisiwn Etholiadol a rhaglen Datganoli a Newid y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, ym Mehefin 2003, ac a fynychwyd gan dros 85 o gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gyrrff;
- polau piniwn, gan gynnwys ymchwil meintiol ac ansoddol, i holi'r rhesymau am gyfranogiad (a pheidio cyfranogi) ac ymddygiad pleidleiswyr. Cynhaliwyd y rhain ar ran y Comisiwn gan NOP a Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth;
- casgliadau *Cymru'n pleidleisio?*, prosiect a gomisiynwyd fel sail i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn ac i gynnig gwaelodlin ar gyfer yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn a gomisiynwyd gan NOP a Sefydliad Gwleidyddiaeth Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn Ionawr 2003 ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk) neu wedi ei argraffu gan swyddfa Cymru y Comisiwn;
- adolygiad o sylw'r cyfryngau i'r etholiad, a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn gan James Thomas, John Jewell a Stephen Cushion yn Fforwm Cyfryngau Cymru, Prifysgol Caerdydd;
- adolygiad mynediad i'r anabl annibynnol a gynhaliwyd dros y Comisiwn gan SCOPE Cwmpas Cymru mewn partneriaeth â'r Comisiwn Hawliau Anabledd;
- compendiwm a dadansoddiad o ganlyniadau swyddogol yr etholiad, wedi eu llunio ar gyfer y Comisiwn gan yr Athro John Curtice o Brifysgol Strathclyde a Dr Stephen Fisher o Goleg y Drindod, Rhydychen;
- sylwadau a gyflwynwyd i'r Comisiwn gan ymgeiswyr, asiantau, gweithwyr lleol y pleidiau, ymarferwyr etholiadol,

gohebyddion a'r cyfryngau a gan aelodau o'r cyhoedd ar amrywiaeth eang o faterion yn ystod cyfnod yr etholiad;

- dadansoddiad olrhain annibynnol ar ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn, a gynhaliwyd dros y Comisiwn gan Beaufort Research, Caerdydd.

Mae copïau llawn o'r adroddiadau ymchwil a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol ar [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk) neu trwy gais i swyddfeydd y Comisiwn.

## Blaenoriaethau ac egwyddorion

**1.12** Mae amrywiaeth eang o wahanol fuddiannau yn y broses etholiadol ac yn yr etholiad felly mae'n bwysig bod yn glir am flaenoriaethau'r Comisiwn a sail y casgliadau a'r argymhellion yr ydym wedi eu cyrraedd yn yr adroddiad hwn. Yn gyffredin â'n cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith etholiadol ac ymarfer a gyhoeddwyd eisoes,<sup>5</sup> yn yr adroddiad hwn rydym yn anelu at osod buddiannau'r pleidleisiwr a'r etholwyr yn ganolog.

**1.13** Eto, gan adlewyrchu ein safiad cyfredol, ein blaenoriaeth nesaf yw i'r trefniadau etholiadol greu'r amodau gorau posibl ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i ennyn diddordeb yr etholwyr. Yng nghyd-destun y nifer a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad, nid mater bach mo hynny.

**1.14** Ein trydedd flaenoriaeth yw sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadau yn medru gweinyddu trefniadau etholiadol yn effeithiol ac effeithlon. Mae hyn eto yn adlewyrchu ein blaenoriaethau yn ein cynigion ar gyfer newidiadau.

**1.15** Yn ychwanegol, yn sylfaen i'n dadansoddiad yng Nghymru y mae'r gydnabyddiaeth o'r agenda datganoli. Credwn ei bod yn bwysig i drefniadau etholiadol yng Nghymru, cyn belled ag sy'n bosibl, fod yn llyfn ac mewn cytgod â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r prif etholiadau eraill. Mae'r rhai a ymatebodd i adolygiadau blaenorol y Comisiwn wedi galw am resymoli, harmoneiddio a symleiddio cyfraith etholiadol. Mae'r Comisiwn eisoes wedi mynegi ei farn yn glir bod achos cryf dros gydgyfnerthu cyfraith etholiadol mewn un 'Ddeddf Etholiadau' i ddisodli'r lluosogrwydd dryslyd sydd yn y fframwaith deddfwriaethol

<sup>5</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Voting for change*.

presennol.<sup>6</sup> Mae'r adroddiad hwn, fodd bynnag, wedi ei wreiddio'n ddwfn yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru ac nid yw ein hargymhellion ar harmonieiddio arfer etholiadol wedi eu bwriadu i dorri ar draws yr agenda datganoli mewn unrhyw fodd. Pan fydd hynny'n briodol, mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn nodi agweddau ar y gyfraith etholiadol a'r arfer yr ydym yn credu sy'n gofyn am ymagwedd wahanol yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU.

**1.16** Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi ceisio a derbyn llawer barn gan amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid. Ar rai materion maent gystal â bod yn unfryd, ar eraill mae'n bosibl canfod consensws, ac ar rai mae pegynnu ar farn gwahanol garfanau. Mae'n anorfod, tra bydd rhai o'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael cefnogaeth eang iawn, bod rhai eraill heb gonsensws barn, a gall rhai materion fod yn ddarllen annifyr iawn i rai. Ar y mater allweddol o'r nifer a bleidleisiodd, er enghraifft, nid oes un ateb i'r cwestiwn pam bod y niferoedd wedi gostwng, ond amrywiaeth o esboniadau posibl a chredadwy ac mae'r gwirionedd, mae'n debyg, yn gyfuniad o'r cyfan. Mae'n bwysig bod yn glir nad ydym wedi rhoi pwys ar farn unrhyw un grŵp neu fudd-ddeiliad yn fwy nag un arall.

## Cwmpas

**1.17** Cwmpas yr adroddiad hwn yw pob mater o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn parthed etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond ac eithrio adroddiad a dadansoddiad ar wariant ymgyrch etholiadol gan bleidiau gwleidyddol, a thrydydd partion cydnabyddiedig. Bydd hyn yn dilyn fel Cyfrol II, i'w chyhoeddi gan y Comisiwn yng ngwanwyn 2004, yn dilyn derbyn adolygiad ar holl adroddiadau'r ymgyrchoedd (gweler paragraffau 1.23–1.25).

**1.18** Mae cyfraith ac arfer etholiadol yng Nghymru yn rhan o ddarlun sy'n cwmpasu'r DU gyfan ac yn benodol i Gymru. Er enghraifft, mae elfennau allweddol o gyfraith etholiadol, fel y rhai parthed cofrestru etholiadol, yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth sylfaenol a rheoliadau sy'n berthnasol ar ffurf debyg ar draws Prydain ac weithiau ar draws y DU. Mae deddfwriaeth yn rheoli'r modd y cynhelir etholiad y Cynulliad, fodd bynnag, yn benodol i Gymru. Mewn llawer ffordd mae'n adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol i'r etholiadau i Senedd yr Alban ond, o ystyried natur wahanol y trefniadau datganoli yng Nghymru a'r Alban, y mae amrywiadau. Mae'r

adroddiad hwn yn nodi'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd pan fyddant yn berthnasol ac mae'r amrywiadau eu hunain yn destun i rai o'n hargymhellion.

**1.19** Mae'n bwysig nodi o'r dechrau, fodd bynnag, nad yw rhai materion sy'n codi yng nghyd-destun etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ac yn ymwneud â chyfraith ac arfer etholiadol yn unigryw i Gymru nac etholiad y Cynulliad. Mae nifer o faterion etholiadol allweddol eisoes wedi cael eu hadolygu gan y Comisiwn ac yn destun argymhellion i'r llywodraeth yn barod.

**1.20** Yn ein hadroddiad ar yr etholiad cyffredinol yn 2001,<sup>7</sup> gosodwyd 'Agenda for the Future' gennym, oedd yn nodi meysydd yn y gyfraith etholiadol yr oeddem yn eu hystyried fel y blaenoriaethau allweddol ar gyfer eu hadolygu. Wrth adolygu'r etholiad hwnnw, roeddem wedi casglu, er gwaethaf y newidiadau sylweddol a wnaed gan y Llywodraeth yn dilyn etholiad cyffredinol 1997, fod mwy i'w wneud o hyd i greu democratiaeth addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, wedi ei chanolbwyntio ar anghenion yr etholwyr.

**1.21** Cynhaliodd y Comisiwn gyfres o adolygiadau polisi, yn dilyn *Etholiad 2001*, ac mae eisoes wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau unigol ar ganlyniad yr adolygiadau hynny.<sup>8</sup> Cyhoeddwyd ein hadroddiad trosfwaol, *Voting for change*,<sup>9</sup> ym Mehefin 2003 ac roedd yn cynnwys nifer o argymhellion i ddiwygio cyfraith etholiadol. Mae argymhellion adroddiadau unigol a *Voting for change* yn rhai ar gyfer y DU gyfan neu Brydain gyfan pan fydd hynny'n berthnasol.

**1.22** O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn ystyried ein hadroddiadau a gyhoeddwyd eisoes ac yn gosod y materion a gododd yn yr etholiad hwn i'r Cynulliad, ac sy'n rhan o'r darlun ehangach o etholiadau yn y DU, yng nghyd-destun ein hargymhellion polisi cyfredol. Ar yr un pryd, rydym yn ymdrin â'r materion hynny sy'n benodol i Gymru wrth wneud argymhellion.

<sup>6</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Voting for change*.

<sup>7</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2001) *Election 2001: The Official Results*, Politicos: Llundain.

<sup>8</sup> Mae'r cyfan o'r rhain ar gael ar ein gwefan [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk) neu wedi eu hargraffu o swyddfeydd y Comisiwn Etholiadol.

<sup>9</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Voting for change*.

## Gwariant ar yr ymgyrch

**1.23** Yng ngwanwyn 2004 bydd y Comisiwn yn cyhoeddi Cyfrol II o'n hadroddiad ar etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003. Bydd yr ail ran o'r adroddiad yn ymdrin yn fanwl â gwariant a dynnwyd gan bleidiau gwleidyddol, trydydd partïon ac ymgeiswyr ar eu hymgyrchoedd etholiadol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn sefydlu'r Comisiwn Etholiadol, cyhoeddai'r Swyddfa Gartref fanylion gwariant gan ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol ac etholiadau Senedd Ewrop. Bydd adroddiad y Comisiwn yn parhau'r swyddogaeth hon, yn ogystal â darparu sylwebaeth a dadansoddiad o'r wybodaeth a gyhoeddwyd.

**1.24** Bydd yr adroddiad yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiadau gwariant a gyflwynir i'r Comisiwn yn uniongyrchol gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig a thrydydd partïon cydnabyddedig, ac yn yr adroddiadau treuliau a gopiwyd i'r Comisiwn gan y Swyddogion Canlyniadau y cyflwynwyd hwy iddynt gan yr ymgeiswyr. Y dyddiad cau terfynol i'r adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Comisiwn oedd 31 Hydref 2003. Defnyddir y wybodaeth yn yr adroddiadau i lunio cyfanswm y gwariant ar yr etholiad, i gymharu gwariant gan bleidiau, ac yn ôl categori (e.e. deunydd printiedig, hysbysebu, trafndiaeth ac yn y blaen). Yn ychwanegol, mae gwybodaeth am y cyllid a roddwyd i'r ymgeiswyr ar gael o adroddiadau'r ymgeiswyr.

**1.25** Bydd yr adroddiad hefyd yn tynnu ar adolygiadau cydymffurfio'r Comisiwn ar yr adroddiadau. Eir trwy'r holl adroddiadau a gyflwynir i wirio eu bod yn gyflawn, yn gywir ac unrhyw faterion eraill sy'n codi. Yn dilyn yr adolygiadau hyn, cytunir ar unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i'r ffigyrau a gyflwynwyd ar yr adroddiadau gan y Comisiwn, y pleidiau gwleidyddol neu drydydd partïon, fel sy'n berthnasol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi pan fydd y ffigyrau'n rhai terfynol.

## Argymhellion

**1.26** Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi fel cofnod cyhoeddus o'r modd y cynhaliwyd etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mai 2003, gyda'r gobaith y bydd pawb sy'n ymwneud â nhw yn nodi'r casgliadau a ddisgrifir yma ac yn cymryd sylw ohonynt. O ran argymhellion penodol ar gyfer newidiadau i'r gyfraith ac ymarfer, cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yng nghydestun ei gyfrifoldebau am Orchmynion parthed etholiadau'r

Cynulliad Cenedlaethol; i'r Arglwydd Ganghellor yng nghydestun cyfrifoldebau'r Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) am gyfraith etholiadol yng Nghymru a Lloegr ac i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran ei amrywiol ddyletswyddau datganoledig perthnasol.

**1.27** Gall rhai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn hefyd fod yn berthnasol i drafodaethau Comisiwn Richard y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n ystyried pwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad. Anfonwyd yr adroddiad hefyd i Gomisiwn Richard.

**1.28** Ymgyngorol yn unig yw rôl y Comisiwn o ran cyfraith etholiadol; nid oes gennym unrhyw bwerau i sicrhau bod unrhyw argymhellion ar newid cyfreithiol yn cael eu gweithredu. San Steffan a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am gychwyn unrhyw newidiadau i weithdrefnau ac argymhellion am newid deddfwriaethol ac yn y pen draw y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn penderfynu arnynt.

**1.29** Mae'r Comisiwn yn medru argymhell a rhannu cyfarwyddyd ar arfer gorau i Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol a bydd yn gwneud hynny pan fydd yn berthnasol.



Aeth y Comisiwn ati i gynnal gweithgareddau hyrwyddo ledled Cymru. Traeth Rhosili, Gwyr, 30 Ebrill 2003.



BLWCH PLEIDLEISIO

## 2 Cefndir yr etholiad

Ni fyddai asesiad o ganlyniad yr ail etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyflawn heb ddealltwriaeth o'r cyd-destun y digwyddodd ynddo. Yn arbennig, mae dealltwriaeth o'r ystod o gyrff a sefydliadau a fu'n ymwneud â rheoli'r broses etholiadau yn allweddol i ddeall y darlun cyflawn.

### Demograffeg: Cymru yn 2003

**2.1** Mae Cyfrifiad 2001 yn dangos Cymru gyda phoblogaeth o dros 2.9 miliwn, ychydig dan 5% o'r DU gyfan.<sup>10</sup> Yn yr 20 mlynedd diwethaf, cododd poblogaeth Cymru o 89,600, cynnydd o tua 3% o'i gymharu â chynnydd o tua 4% yn y DU gyfan a 5% yn Lloegr. Mae poblogaeth yr Alban wedi gostwng o 2% dros yr un cyfnod. Gwelwyd cynnydd ym mhoblogaeth y rhan fwyaf o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru, gyda cholledion mewn saith o'r rheini. Merthyr Tudful a welodd y gostyngiad mwyaf yn ôl cyfran gyda lleihad o dros 7%. Gwelwyd y cynnydd yn ôl cyfran mwyaf yng Ngheredigion, a gododd dros 23% ers 1981. Mae tua dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn byw yn y cymoedd yn y de a'r ardaloedd arfordirol. Mae proffil oedran poblogaeth Cymru yn fras yn adlewyrchu poblogaeth y DU gyfan, gyda'r bobl dros 60 am y tro cyntaf yn gyfran fwy o'r boblogaeth na phlant dan 16.

**2.2** Er bod ystadegau swyddogol yn dangos bod diweithdra yng Nghymru ar y lefel isaf ers 27 mlynedd, mae Cymru'n parhau'n un o ranbarthau tlotaf Ewrop. O ganlyniad i ddirywiad y diwydiannau trwm a'r problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth, mae ardaloedd trefol a gwledig mawr yn dioddef amddifadedd economaidd. Mae gan Gymru fwy o bobl ifanc yn ddi-waith, ar 14%, nag unrhyw ran arall o Brydain ac adroddwyd bod Merthyr Tudful yn un o'r mannau gwaethaf o ran diweithdra ym Mhrydain gyda 28% heb waith.<sup>11</sup> Mae'r gyfran o oedolion o oedran gweithio heb gymhwyster yn uchel o'i gymharu â chyfartaledd y DU – 21% o'i gymharu â 16% yn 2001.

**2.3** Mae dwy iaith swyddogol yng Nghymru. Rhoddir cydnabyddiaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg gan y gyfraith ac mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn gosod ymrwymadau ar gyrff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd yng Nghymru i ddarparu eu gwasanaethau yn ddwyieithog. Mae cyfartaledd o tua 19% o'r boblogaeth ar draws Cymru yn siarad Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn byw yn ardaloedd gwledig y Gogledd a'r Gorllewin, lle mae'r Gymraeg yn parhau yn iaith gyntaf i lawer o'r boblogaeth. Mae'r cyfrifiad diweddar hefyd yn dangos twf sylweddol yn y nifer sy'n siarad Gymraeg yn yr ardaloedd mwy trefol yn y De Ddwyrain, gan adlewyrchu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith y rhai sy'n gweithio, yn arbennig mewn llywodraeth, gweinyddiaeth gyhoeddus a'cyfryngau.

<sup>10</sup> Cyfrifiad 2001, Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol.

<sup>11</sup> Astudiaeth gan Brifysgolion Sheffield Hallam a Warwick, yr Athro Steve Fothergill, 2002.

## Datganoli: y cefndir

**2.4** Gyda sefydlu'r Swyddfa Gymreig yn 1964, roedd gan Gymru gynrychiolaeth uniongyrchol yn y llywodraeth am y tro cyntaf ers canrifoedd. Yna bu trafodaeth ehangach ar sut yr oedd Cymru yn cael ei llywodraethu a bu galw am ddatganoli pwerau i gorff etholedig. Ond, pan gynhaliwyd refferendwm ar sefydlu corff o'r fath yn 1979, 'na' pendant oedd y canlyniad, gyda phedwar o bob pump o'r pleidleiswyr yn pleidleisio yn erbyn y cynigion datganoli.

**2.5** Cynhaliodd y drafodaeth wleidyddol dros y degawd canlynol y diddordeb ym mhwc llywodraeth ddatganoledig. Etholwyd y Llywodraeth Lafur ym 1997 gydag ymrwymiad maniffesto i ddatganoli pwerau o San Steffan i weinyddiaethau yng Nghymru a'r Alban. Yn dilyn cyhoeddi argymhellion y Llywodraeth yn y Papur Gwyn 'Llais i Gymru', cynhaliwyd refferendwm ym Medi 1997, lai na phum mis wedi'r etholiad cyffredinol. Er mai cymharol isel oedd y nifer a bleidleisiodd, ychydig dros hanner yr etholwyr yng Nghymru, dangosodd y bleidlais dros ddatganoli fwyafrif bychan o 50.3%; gyda 49.7% yn erbyn.

**2.6** Yng Ngorffennaf 1998, derbyniodd Deddf Llywodraeth Cymru y Cydsyniad Brenhinol a sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd bron â bod holl bwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Ngorffennaf 1999. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i wneud deddfwriaeth eilaidd, a gellir ychwanegu at y pwerau hyn trwy ddeddfwriaeth benodol a wneir gan y Senedd. Nid oes gan y Cynulliad bwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol nac i godi trethi.

**2.7** Cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Mai 1999. Cynhelir yr etholiadau ar sail tymor sefydlog bob pedair blynedd ar ddyddiad y gellir ei amrywio o ddim mwy nag un mis cyn neu wedi pedair blynedd ers yr etholiad blaenorol. Y ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad yn 1999 oedd 46%.

## System etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**2.8** Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol 60 o aelodau etholedig. Mae gan bob pleidleisiwr mewn etholaeth yng Nghymru ddwy bleidlais, a ddefnyddir mewn system bleidleisio a elwir yn 'system aelod ychwanegol'. Mae'r system yn ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol ac mae hefyd yn cael ei defnyddio mewn etholiadau i Senedd yr Alban.

**2.9** Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol aelod yn yr etholaeth, ar sail y system etholiadol draddodiadol 'cyntaf dros y llinell'. Mae hyn yn arwain at ethol 40 o Aelodau Cynulliad (AC) etholaethol.

**2.10** Defnyddir yr ail bleidlais i ethol 20 o Aelodau Cynulliad o bum rhanbarth etholiadol. Mae'r rhan-barthau wedi eu seilio ar gyn-etholaethau Senedd Ewrop yng Nghymru a grëwyd ym 1994. Mae pob rhanbarth yn dewis pedwar Aelod Cynulliad. Mae'r etholwyr yn pleidleisio dros blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol, yn hytrach nag unigolyn penodol, mewn system 'rhestr gaeedig'. Mae'r papurau pleidleisio yn dangos y rhestr o ymgeiswyr a enwebwyd gan bob plaid wleidyddol a thynnir yr ymgeiswyr a etholir yn eu trefn o frig rhestr y plaid berthnasol.

**2.11** Gall plaid wleidyddol gofrestredig enwebu hyd at 12 ymgeisydd ar gyfer rhestr ranbarthol a gall ymgeiswyr sefyll yr etholiad ar lefel etholaeth a rhanbarth, ond nid ar gyfer etholaeth y tu allan i'r rhanbarth. Mae'n ymarfer cyffredin i bleidiau gwleidyddol enwebu ymgeiswyr yn y ddau etholiad, gyda'r rhestr ranbarthol yn cynnig rhwyd ddiogelwch i rai ymgeiswyr aflwyddiannus yn yr etholaethau.

**2.12** Rhoddir seddi ranbarthol y Cynulliad yn gyfrannol yn ôl y nifer o bleidleisiau a gafwyd, gan ddefnyddio'r fformiwla d'Hondt. Dim ond pan fydd y canlyniadau yn y ddwy ran o'r etholiad yn hysbys y gellir cyfrifo'r canlyniadau ranbarthol. Hynny yw, pan fydd yr holl ganlyniadau etholaethol wedi eu cyhoeddi mewn rhanbarth a'r holl bleidleisiau ranbarthol wedi eu cyfrif a'u cyhoeddi ym mhob etholaeth.

**2.13** Mae pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol o'r nifer o bleidleisiau a fwriwyd i bob un o'r pleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr annibynnol yn y bleidlais ranbarthol, yn ogystal â manylion y nifer o seddi etholaethol a enillwyd gan bob plaid wleidyddol. Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyfrifo cyfanswm y canlyniadau rhanbarthol ar gyfer pob plaid wleidyddol ac ymgeisydd annibynnol yn y bleidlais ranbarthol yn ogystal â'r nifer o seddi etholaethol a enillwyd yn y rhanbarth gan bob plaid wleidyddol.

**2.14** Yna bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi dyraniad y seddi yn y rhanbarth yn dilyn y cyfrifo gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Rhennir y nifer o bleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais ranbarthol i bob plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol gyda'r nifer o seddi etholaethol a enillwyd plws un. Mae hyn yn galluogi pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr annibynnol nad ydynt wedi ennill unrhyw sedd etholaethol i gael eu cynnwys yn y cyfrifiadau.

**2.15** Wedi'r cyfrifiad cyntaf, mae'r blaid wleidyddol gyda'r ffigwr uchaf yn ennill y sedd ranbarthol gyntaf. Er mwyn dyrannu'r ail sedd ranbarthol hyd y bedwaredd sedd ranbarthol, ailadroddir y cyfrifiad, ond bob tro ychwanegir unrhyw sedd a enillwyd gan blaid wleidyddol at y cyfrifiad.

**2.16** Nid yw'n rhyfeddod nad yw'r dull d'Hondt o gyfrifo yn hysbys ac yn ddealladwy ond i'r mwyaf brwd o wylwyr etholiadau'r Cynulliad. Archwilir dealltwriaeth y pleidleiswyr o'r system bleidleisio isod yn ein harchwiliad o ymwybyddiaeth pleidleiswyr.

## Rhedeg etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**2.17** Nodwedd drawiadol o etholiadau yn y DU yw nad oes un corff neu sefydliad yn gyfrifol am redeg etholiadau ond nifer o wahanol gyrff a sefydliadau gyda dyletswyddau amrywiol. Mae hyn yn wir yng Nghymru yn yr un modd â gweddill y DU ond mae natur y trefniant datganoli yn chwalu cyfrifoldebau etholiadol ymhellach eto, fel y mae hefyd yn yr Alban.

**2.18** Prin y gellir disgwyl i'r cyhoedd yng Nghymru wybod pwy sy'n gyfrifol am beth ac mae nifer o'r rhai

sy'n gweithio mewn etholiadau yn llai na chilir ar hynny. Ond, mae'r materion strwythurol hyn yn hanfodol. Rhaid i rôl a chyfrifoldebau gael eu diffinio'n glir pan ddaw'n fater, er enghraifft, o gynllunio a chynnal gweithgareddau etholiad ac yng nghyswllt ariannu. Daw rôl a chyfrifoldebau'r chwaraewyr amrywiol yn fater o bwys yn yr etholiad hwn yng nghyswllt y broses o gyflwyno deddfwriaeth ar y modd y cynhelir etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a hefyd o ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, pwyntiau sy'n cael eu datblygu isod.

## Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**2.19** Deddf Llywodraeth Cymru (GWA) 1998 a luniwyd gan Senedd San Steffan yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n pennu nifer o faterion allweddol parthed etholiad fel: amseru'r etholiadau; y dull o bleidleisio; yr etholaethau a'r rhanbarthau; yr hawl i bleidleisio a sail dros gymhwys (wahardd rhag) sefyll fel Aelod Cynulliad. Mae'r materion allweddol felly yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol a weithredwyd gan y Senedd ac ni all y Cynulliad ei hun ei diwygio.

**2.20** Mae'n drawiadol hefyd bod Deddf Llywodraeth Cymru yn nodi bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyfrifol am wneud Gorchmynion parthed y modd y cynhelir etholiadau; cwestiynu etholiadau a chanlyniadau anghysonderau; a dewis Aelod Cynulliad mewn modd ar wahân i etholiad.<sup>12</sup>

## Y Cynulliad Cenedlaethol

**2.21** Mae gan y Cynulliad bwerau i wneud cyfreithiau a roddir iddo gan Ddeddf Llywodraeth Cymru a thrwy ddeddfwriaeth benodol arall a chyfrifoldeb am wariant ar feysydd a ddatganolwyd iddo. Ni all wneud yn wahanol i'r hyn a ddynodir gan y gyfraith. Gan nad yw etholiadau yn gyfrifoldeb a ddatganolwyd, dim ond y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hynny a draddodwyd iddo y gall y Cynulliad ei hun eu cyflawni.

**2.22** Mae'r ddau Orchymyn allweddol a wnaed hyd yn hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y modd y mae etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal<sup>13</sup> wedi rhoi pwerau i'r Cynulliad i

<sup>12</sup> Deddf Llywodraeth Cymru adran 11. Mae Adran 11 yn diffinio'r darpariaethau a all gael eu gwneud yn benodol mewn Gorchmynion gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymhellach.

<sup>13</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003, yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999.

ddynodi trwy Orchymyn ffioedd a threuliau'r Swyddogion Canlyniadau.<sup>14</sup> Mae hyn yn golygu bod y Cynulliad yn gyfrifol am dalu costau Swyddogion Canlyniadau – sef cost yr etholiad mewn gwirionedd – a'r cynllun adfer costau. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol hefyd am dderbyn a storio dogfennau etholiad, fel papurau pleidleisio a chofrestri etholwyr wedi eu marcio.

### San Steffan: Adran yr Arglwydd Ganghellor

2.23 Mae gan Adran yr Arglwydd Ganghellor,<sup>15</sup> fel y'i gelwid ar adeg etholiad y Cynulliad, hefyd ddiddordeb yn yr etholiad o ran sicrhau bod deddfwriaeth eilaidd yng Nghymru yn gyson gyda'r hyn a geir mewn rhannau eraill o Brydain. Mae ganddi hefyd gyfrifoldebau cyllido penodol cyfyngedig, gan ddarparu hanner y cyllid am rampiau dros-dro i ganiatáu mynediad i orsafoedd pleidleisio i bobl ag anableddau.<sup>16</sup>

### Swyddogion Canlyniadau

2.24 Y Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau etholaethol yw'r Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a leolir yn gyfan neu'n rhannol yn yr etholaeth Cynulliad – os oes mwy nag un bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dynodi'r Swyddog Canlyniadau. Rhaid i'r pump Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd fod yn Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol o fewn y rhanbarth perthnasol ac fe'u dynodir yn bersonol gan y Cynulliad.<sup>17</sup> Mae'r Swyddogion Canlyniadau ym mhob achos yn gyfrifol am redeg etholiadau'r Cynulliad yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.<sup>18</sup> Mae staff etholiadau mewn awdurdodau lleol yn atebol i'r Swyddogion Canlyniadau unigol perthnasol am gyflawni eu dyletswyddau etholiad. Tra eu bod yn atebol yn y gyfraith, petai her gyfreithiol i etholiad ar ffurf deiseb etholiad, nid yw'r Swyddogion Canlyniadau yn uniongyrchol atebol i unrhyw adran o'r llywodraeth na chorff, nag i'r Senedd nag i'r Cynulliad Cenedlaethol.

<sup>14</sup> Ibid, adran 20 yng Ngorchymyn 1999 ac adran 21 yng Ngorchymyn 2003.

<sup>15</sup> Mae Adran yr Arglwydd Ganghellor yn awr wedi ei disodli gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, sydd hefyd yn cynnwys y Swyddfa Gymreig a fu ar wahân a Swyddfa'r Alban. Mae gan yr Adran gyfrifoldeb cyffredinol am gyfraith etholiadol ym Mhrydain.

<sup>16</sup> Yn yr adran hon, cyllidodd y Cynulliad y 50% arall o'r gost, a thrwy hynny alluogi cyllido llawn ar brynu rampiau dros-dro i orsafoedd pleidleisio.

<sup>17</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2003 a.17.

<sup>18</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2003 a.16.

2.25 Bu hon yn nodwedd o'r system etholiadol ym Mhrydain ers amser; i'r llysoedd yn unig y mae'r Swyddogion Canlyniadau yn atebol. Yn ymarferol, mae ganddynt ddisgresiwn sylweddol ar agweddau trefniadol yr etholiad. Yn gyffredinol mae'r Swyddog Canlyniadau yn brif weithredwr neu'n uwch swyddog arall mewn awdurdod lleol, sydd â chyfrifoldebau eraill pan na fydd etholiad.

### Y Comisiwn Etholiadol

2.26 Am y tro cyntaf mewn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol, roedd gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldebau i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd, gan gynnwys hyfforddiant ar arfer a gweithdrefnau, i bawb sy'n ymwneud ag etholiadau; i gofrestru pleidiau gwleidyddol a monitro gwariant ar yr ymgyrch etholiadol; arsyllu ar gyfraith etholiad; codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Cynulliad, ei system etholiadol ac, wrth gwrs, adrodd ar yr etholiad. Yn anorod roedd elfen o'r Comisiwn yn 'ffeindio ei ffordd' ac o'r rhai gyda chyfrifoldebau sydd wedi hen sefydlu yn addasu i rôl y Comisiwn fel partner newydd wrth reoli etholiad. Mae gan y Comisiwn rôl annibynnol, ac anelodd at gael deialog adeiladol gyda'r holl chwaraewyr allweddol a budd-ddeiliaid yr etholiad trwy ymagwedd ymgynghorol.

### Y broses o gyflwyno deddfwriaeth etholiadol y Cynulliad

2.27 Diwygiwyd rhai nodweddion pwysig o weithdrefnau etholiadol trwy ddeddfwriaeth sylfaenol wedi etholiad y Cynulliad ym 1999 ac fe'u gweithredwyd am y tro cyntaf yn etholiad cyffredinol y DU ym Mehefin 2001. Roedd y Swyddogion Canlyniadau a'r gweinyddwyr etholiadol felly wedi dilyn y rhain mewn un etholiad mawr ond roedd y gweithdrefnau yn effeithio am y tro cyntaf ar yr ail etholiad i'r Cynulliad. Y prosesau allweddol oedd: cofrestru treigl; pleidleisio trwy'r post yn ôl y gofyn; gwell trefniadau mynediad i bobl gydag anableddau; a threfniadau newydd ar gyfer monitro ac adrodd ar wariant a dynnir gan ymgeiswyr, asiantau a phleidiau gwleidyddol. Adolygir y prosesau penodol hyn yn ein hystyriaeth, isod, ar weinyddiad yr etholiad. Yma rydym yn archwilio'r broses y gweithredwyd hwy trwyddi ar gyfer etholiad y Cynulliad.

2.28 Nid oedd y gweithdrefnau newydd yn gymwys yn awtomatig i etholiadau'r Cynulliad (nac etholiadau Senedd yr Alban) yn dilyn eu cyflwyno yn 2001 cyn etholiad cyffredinol y DU, ond fe ddarparwyd ar gyfer hynny trwy ddeddfwriaeth

ar wahân, yn Gorchymynion Ysgrifennydd Gwladol Cymru a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Profodd y gwahanu hwn ar weithdrefnau deddfwriaethol, er nad oedd yn sgil-gynnyrch anorfod o ddatganoli, yn broblemus.

**2.29** Oherwydd diffyg amser Seneddol yn San Steffana'r adnoddau staff cyfyngedig i wneud y gwaith, ni welwyd y Gorchymynion gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn dilyn cyflwyniad y newidiadau mewn gweithdrefnau oedd yn berthnasol i etholiad Seneddol y DU ar unwaith. Yn wir, cynhaliwyd isetholiad i'r Cynulliad yn Nwyrain Abertawe ym Medi 2001 cyn i'r Gorchymynion oedd yn angenrheidiol yng Nghymru gael eu drafftio hyd yn oed, gan beri rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r gweithdrefnau oedd yn berthnasol i'r Swyddogion Canlyniadau a'r staff gwasanaethau etholiadol yn Abertawe oedd yn rheoli'r isetholiad. Yn y pen draw, cyflwynwyd y newidiadau mewn gweithdrefnau i adlewyrchu'r sefyllfa yn y DU yn gyfan mewn dau gyfnod; y cyntaf trwy Orchymyn Statudol<sup>19</sup> ddaeth i rym ym Mawrth 2002 a'r ail yn Orchymyn cydgyfnerthu<sup>20</sup> na wnaed yn y pendraw hyd 23 Chwefror 2003 ac mewn grym y diwrnod canlynol. Roedd Gorchymyn 2003 yn diddymu'r Gorchymyn blaenorol ar gyfer etholiadau 1999 a Gorchymyn Diwygio 2002 yr oedd yn ei ogynnwys.

**2.30** Efallai ei bod yn ffodus mai dim ond un isetholiad i'r Cynulliad a fu ers 1999 a chyn i'r deddfwriaeth gael ei gweithredu. Rhoddodd y Swyddogion Canlyniadau, staff gwasanaethau etholiadol a'r pleidiau gwleidyddol oll groeso i'r cydgyfnerthu a fu ar y deddfwriaeth berthnasol a ddigwyddodd yn y diwedd. Ond, araf oedd y broses o gydgyfnerthu, am y rhesymau a roddwyd uchod, ac fe berodd y ffaith bod y Gorchymyn cydgyfnerthu yn 2003 mor hwyr yn cael ei gyflwyno broblemau i reolwyr gwasanaethau etholiadol a phleidiau gwleidyddol oedd yn cynnig ymgeiswyr.

**2.31** Er i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru gylchredeg fersiwn drafft o'r Gorchymyn cyn yr etholiad, dim ond ran o'r ffordd tuag at leihau'r anawsterau y gallai hyn fynd. Roedd ymddangosiad hwyr y fersiynau drafft, yn Rhagfyr 2002 a Ionawr 2003, yn gwneud cynllunio yn anodd. Roedd y ffynonellau cyfeirio safonol ar gyfraith etholiadol, a ddefnyddir yn gyffredin gan staff gwasanaethau etholiad a'r prif bleidiau gwleidyddol, yn ddibynol

ar ddrafft cynnar. Ni allai argraffwyr papurau etholiad, ffurflenni yn arbennig, gyhoeddi eu papurau ar sail y darpariaethau statudol berthnasol ond roedd yn rhaid iddynt gyfeirio at Orchymyn 1999. Rhaid oedd i ddeunyddiau hyfforddi (a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol) gael eu cynhyrchu ar sail y drafft. Fel y digwyddodd pethau nid oedd y fersiwn derfynol o'r Offeryn Statudol ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi hyd ar ôl yr etholiad.

**2.32** Mae nifer bychan o anghysonderau yn parhau yng Ngorchymyn 2003 nad ydynt yn hollol gyson â'r deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r DU yn gyffredinol ac etholiadau eraill. Rydym wedi nodi'r rhai lle mae hynny'n berthnasol, yn ôl y ddarpariaeth benodol, ym Mhenod 5. Bydd rhaid cael deddfwriaeth bellach i ddiwygio'r rhain.

**2.33** Fel egwyddor gyffredinol, credwn hefyd y dylid rhoi ystyriaeth, yn enw effeithiolrwydd gweinyddol, i'r broses o gyflwyno deddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiadau yng Nghymru. Mae dwy agwedd ar hyn. Yn gyntaf, mae deddfwriaeth eilaidd sy'n benodol i etholiadau'r Cynulliad a'i brosesau etholiadol, fel yr un sy'n rheoli cyfrif pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol yn etholiadau'r Cynulliad. Yn ail, mae deddfwriaeth sy'n ailadrodd deddfwriaeth etholiadol y DU gyfan, fel yr un ar bleidleisio trwy'r post. Yn 2003, roedd y ddwy agwedd wedi eu cynnwys mewn un Gorchymyn cydgyfnerthu. Roedd Gorchymyn 2003 yn cydgyfnerthu a diweddar deddfwriaeth oedd yn berthnasol i etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999 gyda gweithdrefnau newydd a gyflwynwyd ar gyfer yr etholiad cyffredinol, i'r DU gyfan yn 2001.

**2.34** Credwn ni ei bod yn bwysig, yn enw effeithiolrwydd gweinyddol a chynnal etholiadau mewn modd effeithiol, bod arweiniad clir ar faterion deddfwriaethol yng Nghymru ar faterion etholiadol. Mae'n drawiadol, ar hyn o bryd, bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyfrifol am deddfwriaeth eilaidd ar gynnal etholiadau'r Cynulliad ond ei fod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am deddfu ar gyllido etholiadau'r Cynulliad i'r Cynulliad ei hun. Yng ngoleuni'r gysail hon, credwn y dylid ystyried i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd cyfrifoldeb am deddfwriaeth eilaidd yn rheoli'r modd y cynhelir ei etholiadau. Credwn ei bod yn adeg briodol i ystyriaeth o'r fath, o ystyried yr aildrefnu cyfrifoldebau yn San Steffan fel bod Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn awr yn rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Byddai hyn yn golygu na fyddai deddfwriaeth eilaidd a wneir yn awr yn y Senedd a thrwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn

<sup>19</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Diwygio) (Cynrychiolaeth y Bobl) 2002.

<sup>20</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003.

cystadlu am amser Seneddol. Byddai gan y Cynulliad gyfrifoldeb am gyflwyno a phennu deddfwriaeth eilaidd a fyddai er ei fudd ei hun i'w gyflwyno mewn da bryd.

**2.35** Rydym yn cydnabod y gall fod goblygiadau cyfansoddiadol ehangach i hyn y bydd yn rhaid eu harchwilio cyn gwneud penderfyniadau. Pe bai rhesymau cyfansoddiadol cryf sy'n atal datganoli'r cyfrifoldebau hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol, credwn, o leiaf, y dylid gwneud trefniadau cynllunio ac adnoddau addas trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ganiatáu i Orchmynion ar gynnal etholiadau Cynulliad gael eu pasio gan y Senedd ymhell cyn etholiad i'r Cynulliad.

Rydym yn argymhell i'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol, y dylid ystyried datganoli cyfrifoldebau am ddeddfwriaeth eilaidd yn rheoli'r modd y cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o gyfrifoldeb presennol Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**2.36** Byddai'r argymhelliad hwn hefyd yn cael effaith ar allu'r Cynulliad i gynllunio a gweithredu strategaeth gyfathrebu o gwmpas ei etholiadau ei hun, mater sy'n cael ei adolygu isod yn y bennod hon wrth ystyried ymwybyddiaeth y cyhoedd. Nid yw'r ddau beth o angenrheidrwydd yn ddiabynnol ar ei gilydd, fodd bynnag. Hyd yn oed heb y pwerau i wneud deddfwriaeth eilaidd, gall y Cynulliad gael grym i hyrwyddo ei etholiadau ei hun, fel yr ydym yn nodi isod.

**2.37** Byddai'r cyfrifoldeb am ddeddfwriaeth gynradd ar etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y mae'n cael ei nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru, yn parhau'n gyfrifoldeb y Senedd.

**2.38** Yn ail, mae'r agweddau hynny ar etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n rhan o'r darlun ehangach o etholiadau yn y DU, fel cyflwyno pleidleisio trwy'r post yn ôl y gofyn yn 2001. Heb danseilio prosesau datganoli mewn unrhyw ffordd, mae'n gwneud synnwyr i weithdrefnau etholiadol a fwriadwyd ar gyfer pob etholiad yn y DU wneud hynny ar yr un pryd.

**2.39** Bu'n nodwedd gyson o'r ymateb a dderbyniwyd gan staff gwasanaethau etholiadol a phleidiau gwleidyddol i ymgynghoriadau'r Comisiwn fel rhan o'i adolygiadau polisi etholiadol y byddai harmoneiddio a symleiddio cyfraith etholiadol yn cael croeso gan bawb.

Mae gormodedd o ddeddfwriaeth gynradd ac eilaidd yn rysâit ar gyfer dryswch ymhlith y rhai sy'n ymwneud yn broffesiynol â phroses ac ymarfer etholiadol, heb sôn am y cyhoedd.

**2.40** Cymeradwywyd y farn hon gan y Swyddfa Sefydliadau Democraidd a Lawnderau Dynol (ODIHR), yn Warsaw, Gwlad Pwyl, a grëwyd fel y Swyddfa Etholiadau Rhydd gan OSCE Arweinwyr Gwladol neu Lywodraeth yn Uwch-gynhadledd Paris yn 1990. Dyma'r asiantaeth sy'n arwain yn Ewrop o ran arsylwi ar etholiadau. Derbyniodd yr ODIHR wahoddiad gan gynrychiolaeth y Deyrnas Unedig i'r OSCE i arsylwi ar etholiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig ar 1 Mai. Mae ei adroddiad asesu yn cynnwys y sylw a'r argymhelliad canlynol:

I raddau sylweddol iawn, nid yw elfennau amrywiol y cyfreithiau perthnasol wedi eu llunio yn undod integredig. Y canlyniad yw set gymhleth iawn o offerynnau cyfreithiol, nad ydynt wedi eu casglu mewn un man ac felly nad ydynt yn hygyrch na dealladwy i ymgeiswyr na rhai eraill sy'n ymwneud â'r broses etholiadol. Er mwyn egluro a symleiddio cyd-destun cyfreithiol etholiadau, dylai awdurdodau'r DU ystyried mabwysiadu deddfwriaeth etholiad wedi ei chydgyfnerthu.<sup>21</sup>

**2.41** Rydym wedi nodi mewn adroddiad blaenorol, *Voting for change* bod dim llai na 19 o Ddeddfau newydd a 63 darn o ddeddfwriaeth isradd yn effeithio ar gyfraith etholiadol ers i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ddod i rym – a fwriadwyd i fod yn gam i gydgyfnerthu.

**2.42** Rydym yn cydnabod bod raid i ddeddfwriaeth etholiadol sy'n hollol benodol i Gymru ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ddilyn gweithdrefnau sy'n benodol i'r trefniant datganoli yng Nghymru. Ond, credwn y byddai budd o archwilio'r posibilïadau deddfwriaethol o gyflwyno diwygiadau etholiadol sylweddol, enghraifft o hyn yw pleidleisio trwy'r post yn ôl y galw, trwy weithdrefnau a fyddai'n berthnasol trwy'r DU ar yr un pryd. Credwn ei bod yn briodol, er budd effeithlonrwydd gweinyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn gorff sy'n arwain o ran cydlynu cyflwyniad gweithdrefnau o'r fath, cyn belled ag y maent yn berthnasol i Gymru. Byddai hyn yn gyson â'n argymhelliad y dylai'r cyfrifoldeb am ddeddfwriaeth eilaidd ar etholiadau Cynulliad Cenedlaethol gael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

<sup>21</sup> OSCE, Warsaw, 28 Mai 2003.

Rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol roi ystyriaeth i'r broses y mae deddfwriaeth etholiadol yn rheoli'r modd y cynhelir etholiadau a phrosesau etholiadol yng Nghymru yn cael eu cyflwyno, pan fydd y ddeddfwriaeth yn rhan o newid trwy'r DU gyfan. Y diben fyddai osgoi problemau a grëir gan oedi ac er mwyn cael harmonieiddio a chydgyfnerthu gweithdrefnau etholiadol cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl. Dylai ystyriaeth o'r fath gadw mewn cof ddymunoldeb harmonieiddio trwy'r DU a chyd-destun datganoli. Rydym yn argymhell mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n arwain o ran cydlynu'r gweithdrefnau diwygiedig, cyn belled ag y maent yn berthnasol i Gymru.

**2.43** Rydym yn cyfeirio'r ddau argymhelliad hyn yn benodol at y Cynulliad Cenedlaethol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Adran Materion Cyfansoddiadol i'w hystyried. Rydym yn barod i weithio gyda nhw ar y mater hwn.

## Ymwybyddiaeth y cyhoedd

**2.44** Elfen sylweddol sy'n ffurfio'r cefndir i'r etholiad yw ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono ac o'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn ein hymchwil i farn y cyhoedd, a gynhaliwyd yn union wedi'r etholiad ac a adolygir yn drylwyr ym Mhennod 3, rydym yn edrych ar agweddau pleidleiswyr tuag at yr etholiad a'r ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael i bleidleiswyr. Yma rydym yn adolygu dyfnder yr ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Cynulliad a'i etholiadau cyn y diwrnod pleidleisio.

### *Cymru'n pleidleisio?*

**2.45** Roedd yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, ymhell cyn Mai 2003, nad oedd yr arwyddion ar y lefelau tebygol o gyfranogiad pleidleiswyr yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn addawol. Mae'r duedd gyffredinol yn y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau yn y DU wedi bod yn disgyn, ac yng Nghymru, prin bod y nifer wnaeth bleidleisio yn y refferendwm ar ddatganoli yn 1999 yn 50%, ac yna 46% a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hyn yn cymharu â ffigwr y flwyddyn honno o 59% yn etholiadau Senedd yr Alban a 61% yng Nghymru yn yr etholiad cyffredinol yn 2001, oedd yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU o 59%.

**2.46** Yng ngoleuni hyn, fe wnaethom gomisiynu prosiect ymchwil, a gynlluniwyd i fod yn sail i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yr oeddem yn bwriadu ei datblygu a'i chydlynu yng Nghymru cyn etholiadau 2003. Ein bwriad hefyd oedd y byddai'r ymchwil ar gael i bawb oedd yn ymwneud â'r broses

etholiadol gyda diddordeb mewn hwyluso mwy o gyfranogiad a gwell cofrestru etholiadol a phleidleisio. Yn arbennig roedd yn berthnasol i weidyddion a phleidiau gwleidyddol o ran eu strategaethau cyfathrebu dros yr etholiad. Roedd yr ymchwil hefyd i fod yn fan cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn. Comisiynwyd ymchwil tebyg gennym yn yr Alban.

**2.47** Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil, *Cymru'n pleidleisio?* gan y Comisiwn yn Rhagfyr 2003<sup>22</sup> ac fe'i dosbarthwyd yn eang yng Nghymru. Cylchredwyd yr adroddiad i'r pleidiau gwleidyddol, Aelodau'r Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol, Swyddogion Canlyniadau, a chyrrf eraill perthnasol yng Nghymru ac roedd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Comisiwn ac fel copi caled ar gais.<sup>23</sup>

**2.48** Mae'r adroddiad yn cyflwyno casgliadau'r prosiect ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymreig ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, a'r NOP, ac roedd yn archwilio'r ffactorau a allai annog pobl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Roedd y prosiect yn cynnwys adolygiad o ymchwil i farn y bobl yn ddiweddar ac yna ymchwil ansoddol sylfaenol yn archwilio agweddau'r cyhoedd tuag at y Cynulliad a phleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar nifer o faterion, gan gynnwys agweddau yng Nghymru tuag at y Cynulliad, dealltwriaeth y cyhoedd o'i rôl a'i gyfrifoldebau, lefelau cofrestru presennol a'r nifer sy'n pleidleisio ymhlith is-grwpiau etholiadol a'r ffactorau a allai ysgogi, (neu atal) pobl rhag pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

**2.49** Amlinellir a datblygir ei themâu yn ein hadolygiad o'r nifer wnaeth bleidleisio ym Mhennod 3. Ond y mae'n addas, yng nghyd-destun ymwybyddiaeth y cyhoedd, i nodi casgliadau'r ymchwil ar y gofynion gwybodaeth i'r cyhoedd.

**2.50** Dynododd yr ymchwil ddiffyg gwybodaeth sylweddol ac awgrymodd bod angen gwybodaeth i'r cyhoedd am ddiben pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac am brif bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Yn fwy penodol, dynododd yr ymchwil bod y rhai sy'n pleidleisio'n 'ddewisol' – hynny yw, mewn rhai etholiadau ond nid yn y lleill – a'r rhai sydd byth braidd yn pleidleisio o gwbl yn annhebygol o gael eu darbwyllo gan ymgyrch yn defnyddio llwybr emosynol ar

<sup>22</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002) *Cymru'n pleidleisio?*.

<sup>23</sup> Mae'r adroddiad cyhoeddedig ar gael o hyd ar gais yn Saesneg a Chymraeg gan swyddfeydd y Comisiwn ac ar ein gwefan ar [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk). Mae crynodeb gweithredol ar gael hefyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

sail apêl tuag at hunaniaeth Gymreig, neu ar y sail bod pobl wedi gweithredu'n anghywir wrth beidio pleidleisio yn 1999.

Yn hytrach, roeddynt yn debygol o fod yn llawer mwy parod i ymateb i ymgyrch wybodaeth yn canolbwyntio ar y rhesymeg tu ôl i'r Cynulliad, ei bwerau a'i weithgareddau.

**2.51** Nododd ymchwil *Cymru'n pleidleisio?* hefyd, tra bod darparu gwybodaeth yn bwysig, mai dim ond hyn a hyn y gallai unrhyw ymgyrch fynd tuag at geisio annog pobl i ddefnyddio eu pleidlais ym Mai 2003. Atgyfnerthodd farn y Comisiwn bod y canfyddiad o apêl llwyfannau gwleidyddol a phersonél hefyd yn debygol o fod yn ffactorau allweddol wrth bennu'r nifer sy'n pleidleisio.

### Pwy fyddai'n gwneud rhywbeth am hyn?

**2.52** Roedd yn glir oddi wrth *Cymru'n pleidleisio?* i unrhyw un a allai fod yn amau, bod y nifer fyddai'n pleidleisio'n debygol o fod yn broblem a bod cyfres o ofynion gwybodaeth allweddol. Mae gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth pleidleiswyr ac roeddem yn glir fod gennym rôl arwyddocaol wrth ddiwallu'r gofynion hynny am wybodaeth i'r cyhoedd. Ar yr un pryd, dim ond hyn a hyn o effaith all un corff ei gael ac mae'r ymchwil wedi rhoi digon o dystiolaeth am yr angen i bawb sy'n ymwneud ag annog cyfranogiad mewn etholiad i weithredu. Un o'r rhesymau pam ein bod wedi hyrwyddo Cymru'n pleidleisio? yn gryf yng Nghymru oedd er mwyn annog gweithredu o'r fath. Fel y digwyddodd pethau, roedd yn ymddangos mai ychydig iawn o weithredu a fu i'r cyfeiriad hwn tu hwnt i'n hymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ni ein hunain. Yma rydym yn dynodi rhai o'r rhesymau posibl am hynny, gan gynnwys rhai o'r rhwystrau strwythurol.

### Cyrrff statudol

**2.53** Y Llywydd yn y Cynulliad Cenedlaethol, rôl amhleidiol, sy'n gyfrifol am wybodaeth gyhoeddus parthed y Cynulliad. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei pheirianwaith gyhoeddusrydd ei hun sy'n cael ei yrru gan pa bynnag weinyddiaeth wleidyddol sydd wedi ffurfio'r llywodraeth yn y Cynulliad. Ond, y mae cyfyngiad cyfreithiol ar y Llywydd a Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w hatal rhag cynnal unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrydd neu wybodaeth gyhoeddus am yr etholiad ei hun. Mae hyn, fel yr esboniwyd yn gynharach, oherwydd natur benodol cyfrifoldebau'r Cynulliad parthed etholiadau. Prif rôl a swyddogaethau'r

Cynulliad Cenedlaethol parthed etholiadau yw talu costau etholiad y Swyddogion Canlyniadau, penodi Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a storio dogfennau'r etholiad, fel papurau pleidleisio a chofrestri etholwyr wedi eu marcio a ddefnyddiwyd ar y diwrnod pleidleisio. Oherwydd nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb tu hwnt i hyn am ei etholiadau ei hun, mae'n ystyried ei hun yn anabl yn gyfreithiol i'w hyrwyddo nac i ddatblygu strategaeth wybodaeth gyhoeddus a chyfathrebu amdanynt.

**2.54** Yn gynharach yn y bennod hon rydym wedi argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i ddatganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad Cenedlaethol am ddeddfwriaeth etholiadol eilaidd i reoli'r modd y cynhelir ei etholiadau ei hun. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r ffaith bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd pwerau datganoledig am ei etholiadau ei hun ei alluogi hefyd i ddatblygu ac adolygu ei strategaethau cyfathrebu er mwyn rhoi gwybodaeth i'r etholwyr am yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau yn ei olygu iddynt. Boed y cyfrifoldeb yn cael ei ddatganoli neu beidio, os yw'n angenrheidiol i ddeddfwriaeth benodol gael ei chyflwyno a fyddai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu o'r fath, credwn y dylai deddfwriaeth felly gael ei chyflwyno.

Rydym yn argymhell, os bydd cyfrifoldeb deddfwriaethol am y modd y cynhelir ei etholiadau yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu ac adolygu ei strategaethau cyfathrebu fel modd o roi gwybod i'r etholwyr am yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau yn ei olygu iddynt. Boed y cyfrifoldeb yn cael ei ddatganoli neu beidio, os yw'n angenrheidiol i ddeddfwriaeth benodol gael ei chyflwyno a fyddai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu o'r fath, rydym yn argymhell y dylai gael ei chyflwyno i'r Llywodraeth a'r Cynulliad.

**2.55** Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth eilaidd parthed cynnal etholiadau'r Cynulliad. Nid oes ganddo locus gwirioneddol i hyrwyddo etholiadau'r Cynulliad ac mae'n ddadleuol a fyddai'n briodol i Weinidog yn Llywodraeth y DU fod yn gwneud hynny.

**2.56** Wrth gwrs, y mae yr un mor wir nad oes deddfwriaeth na pheirianwaith cyhoeddusrydd a fyddai'n galluogi Senedd y DU i hyrwyddo etholiadau cyffredinol ac nid ydym wedi awgrymu y dylai fod hyd yn hyn. Nid yw'n gymhariaeth gywir, fodd bynnag, cymharu sefydliad democrataidd

hanesyddol, gyda'r holl gyhoedduswydd a sylw yn y cyfryngau a grëir gan etholiad cyffredinol, â'r Cynulliad Cenedlaethol, sydd ond yn bedair blwydd oed. Fel yr ydym yn ei drafod isod yn ein hadolygiad o sylw'r cyfryngau i'r etholiad, nid yw cael proffil amlwg yn y cyfryngau i'r Cynulliad yn fater syml.

**2.57** Yn yr Alban, mae Senedd yr Alban dan gyfyngiadau tebyg i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran ei hetholiadau ei hun. Ond, ar 1 Mai 2003, bu etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban ac fe'u cyfunwyd ag etholiadau i Senedd yr Alban. Mae gan Weithrediaeth yr Alban gyfrifoldeb datganoledig am etholiadau llywodraeth leol nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru. Felly roedd gan Weithrediaeth yr Alban fudd mewn hyrwyddo etholiadau llywodraeth leol ac mewn gwirionedd fe gynhaliwyd gweithgareddau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar y cyd ar yr etholiadau gyda'r Comisiwn Etholiadol.

**2.58** Roedd *Cymru'n pleidleisio?* wedi nodi angen sylweddol am wybodaeth gyhoeddus a negeseuon clir am bwerau, cyfrifoldebau a llwyddiannau'r Cynulliad Cenedlaethol. Ond, am y rhesymau a nodwyd uchod, roedd Cymru'n wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol o ddiffyg gwybodaeth gyhoeddus. Y Comisiwn Etholiadol oedd yr unig gorff cyhoeddus gyda chyfrifoldebau statudol i'w lenwi; ond roedd cyfyngiadau ar ein cylch gorchwyl ninnau hefyd. Yn arbennig, nid gwaith y Comisiwn, corff annibynnol, yw esbonio na hyrwyddo llwyddiannau'r Cynulliad. Dim ond edrych ar gwmpas bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad, a'i system etholiadol y medrai ymgyrch y Comisiwn ei wneud. Roedd ystyriaethau ariannol hefyd; cyllideb benodol oedd ar gyfer ein hymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus a rhaid oedd iddi gwmpasu Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a ddigwyddai ar yr un diwrnod. Byddem hefyd wedi hyrwyddo Cynulliad Cenedlaethol Iwerddon pe bai etholiadau wedi cael eu cynnal.

**2.59** Ar sail casgliadau *Cymru'n pleidleisio?* ac ymchwil tebyg yn yr Alban, cynlluniodd y Comisiwn Etholiadol strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru, yr Alban a Lloegr gan lansio ymgyrch fawr i annog pleidleiswyr i gymryd rhan yn yr etholiadau. Rydym yn adolygu'r ymgyrch honno ochr yn ochr ag ystyried rôl y cyfryngau fel y brif ffynhonnell wybodaeth i'r cyhoedd ym Mhennod 4.

## Swyddogion Canlyniadau a chyrrff cymunedol

**2.60** Er mai'r Comisiwn Etholiadol oedd yr unig gorff cyhoeddus yng Nghymru yn 2003 gyda dyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus, nid oedd hyn yn atal cyrrff eraill rhag ymdrin â hyn. Yn wir, cynhyrchoedd nifer o gyrrff sector gwirfoddol yng Nghymru ddeunydd etholiadol gan gynnal gwaith hyrwyddo gwerthfawr mewn cymunedau penodol. Yn bwysicach na hynny, mae gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol rôl o ran hyrwyddo materion etholiadol, yn arbennig, cofrestru etholwyr, pleidleisio trwy'r post a diwrnod yr etholiad ei hun. Ym Mhennod 5 rydym yn adolygu i ba raddau y cyflawnwyd hyn.

**2.61** Ond eto, mae yma fater o egwyddor a phwerau statudol. Mynegodd nifer o Swyddogion Canlyniadau bryderon (yng Nghymru eleni ac mewn etholiadau blaenorol) nad yw'n addas iddynt hwy gynnal gweithgareddau hyrwyddo neu godi ymwybyddiaeth ochr yn ochr gyda'r cyfrifoldebau ehangach ar gyfer cynnal etholiad; a phryderon y gall unrhyw fentrau o'r fath danseilio eu statws 'amhleidiol'. Rydym wedi argymhell o'r blaen yn *Voting for change* y dylai sefyllfa gyfreithiol Swyddogion Canlyniadau gael ei egluro er mwyn sicrhau bod unrhyw ansicrwydd parthed eu sefyllfa o ran cynnal a chyllido cyhoedduswydd i annog cyfranogiad yn cael ei ddileu. Mae *Voting for change* yn argymhell:

Y dylai'r Llywodraeth egluro sefyllfa gyfreithiol y Swyddogion Canlyniadau parthed cyllido cyhoedduswydd i annog cyfranogiad. Dylai unrhyw ansicrwydd sy'n bodoli gael ei chwalu trwy ddarpariaeth ddeddfwriaethol fanwl. Dylai'r Llywodraeth hefyd nodi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i'r gyfraith i ganiatáu gwelliannau yn y modd y mae gwybodaeth i bleidleiswyr yn cael ei reoli ac annog cynlluniau peilot i brofi effaith newidiadau o'r fath.

## Crynodeb o'r argymhellion

Rydym yn argymhell i'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid ystyried, yn enw effeithlonrwydd gweinyddol, ddatganoli cyfrifoldeb am ddeddfwriaeth eilaidd i reoli'r modd y cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o gyfrifoldeb presennol Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Rydym yn argymhell i'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid ystyried y broses y bydd deddfwriaeth etholiadol yn rheoli'r modd y mae etholiadau a phrosesau etholiadol yng Nghymru yn cael ei chyflwyno, pan fydd y deddfwriaeth yn rhan o newid trwy'r DU gyfan. Y diben fyddai osgoi problemau a grëir gan oedi ac er mwyn cyflawni harmonieiddio a chydgyfnerthu gweithdrefnau etholiadol cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol. Dylai ystyriaeth o'r fath gadw mewn cof pa mor ddymunol fyddai harmonieiddio trwy'r DU a chyd-destun datganoli. Rydym yn argymhell mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n arwain wrth wneud y gwaith cydlynu a fydd yn ofynnol yng Nghymru.

Os bydd cyfrifoldeb deddfwriaethol am gynnal ei etholiadau ei hun yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu ac adolygu ei strategaethau cyfathrebu fel modd o roi gwybod i'r etholwyr am yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau yn ei olygu iddynt. Boed y cyfrifoldeb hwnnw'n cael ei ddatganoli neu beidio, os bydd yn angenrheidiol i deddfwriaeth benodol gael ei chyflwyno er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu o'r fath, rydym yn argymhell ei bod yn cael ei chyflwyno i'r Llywodraeth a'r Cynulliad.

Rydym eisoes wedi argymhell yn *Voting for change*:

Y dylai'r Llywodraeth egluro sefyllfa gyfreithiol y Swyddogion Canlyniadau parthed cyllido cyhoeddusrwydd i annog cyfranogiad. Dylai unrhyw ansicrwydd sy'n bodoli gael ei chwalu trwy ddarpariaeth deddfwriaethol fanwl. Dylai'r Llywodraeth hefyd ddynodi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i'r gyfraith i ganiatáu gwelliannau yn y modd y mae gwybodaeth i bleidleiswyr yn cael ei reoli ac annog cynlluniau peilot i brofi effaith newidiadau o'r fath.

# 3 Y nifer a bleidleisiodd

Mae nifer isel yn pleidleisio ymhell o fod yn 'glefyd Cymreig'; mae'r duedd ar i lawr ar draws y rhan fwyaf o'r DU a llawer o ddemocratiaethau gorllewinol eraill. Ond ni ellir diystyru'r nifer isel a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003 fel dim byd on rhan o'r duedd. Rydym wedi archwilio'n fanwl y rhesymau tu ôl i'r lefel o gyfranogiad gan bleidleiswyr a chomisiynu ymchwil cynhwysfawr i helpu i asesu'r dystiolaeth.

## Y nifer a bleidleisiodd – y stori fawr

**3.1** Roedd y nifer a bleidleisiodd yn yr ail etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn drawiadol o isel ar ychydig dros 38%. Disgynnodd y nifer o 8% o etholiad blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n cymharu gyda'r bleidlais o 61% yng Nghymru yn etholiad cyffredinol 2001, pan oedd y cyfartaledd yn y DU yn 59%. Dim ond dau o bob pump oedd wedi eu cofrestru i bleidleisio a wnaeth hynny. Yn draddodiadol mae Cymru wedi cadw lefel uwch o gyfranogiad na Lloegr a'r Alban. Arwyddocaol iawn i iechyd cyfranogiad pleidleiswyr yng Nghymru oedd y nifer a bleidleisiodd ymhlith pleidleiswyr ifanc, ar amcangyfrif o ddim ond 19% o'r rhai dan 35. Mae'r cyfranogiad ymhlith y grŵp hwn hefyd yn dangos y gostyngiad mwyaf ers 1999.

## Nodi'r achosion

**3.2** Felly beth aeth o'i le? Mae ein hadroddiad ymchwil, *Cymru'n pleidleisio?*, yn nodi'r tebygolrwydd mai nifer isel fyddai'n pleidleisio. Er mwyn asesu'r rhesymau am ymddygiad pleidleiswyr a lefelau cyfranogiad (neu ddiffyg hynny) yn fanylach, comisiynwyd ymchwil gennym i farn y bobl i gynnig dadansoddiad meintiol ac ansodol o'r canlyniadau. Atgyfnerthwyd hyn gan ddadansoddiad academaidd ar y canlyniadau. Yn ogystal, ceisiwyd barn dadansoddwyr gwleidyddol a sylwebyddion ar etholiadau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ddadansoddiad o gyfranogiad pleidleiswyr ymhlith yr ifanc, cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac yn ein hetholiadau eraill. Rydym wedi tynnu ar y ffynonellau hyn yn ein dadansoddiad o gyfranogiad pleidleiswyr yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003.

## Ymchwil i farn y bobl

**3.3** Comisiynwyd ymchwil gennym i farn y bobl gan NOP (Social and Political) a Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru yn Aberystwyth, y tîm fu'n gweithio cyn hynny ar *Cymru'n pleidleisio?*. Roedd hyn yn cynnwys elfennau ansodol a meintiol. Cynhaliwyd cyfweiliadau teleffon gyda sampl gynrychioliadol o 1,153 o oedolion yng Nghymru yn union wedi etholiad 1 Mai.<sup>24</sup>

**3.4** Mae holiadur y cyfweiliad a fersiwn lawnach o adroddiad NOP ar gael ar ein gwefan ar [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk).

<sup>24</sup> 1,000 o gyfweiliadau ar draws Cymru mewn cyfartaledd â phoblogaeth, gyda sampl cyfnerthydd o'r rhai dan 25. Cyfartaledd hyd y cyfweiliad – 20 munud.

**3.5** Dilynwyd y gwaith meintiol gan drafodaeth grŵp.<sup>25</sup> Nodir cyfansoddiad y grwpiau ffocws yn Atodiad 1.

**3.6** Roedd yr amcanion ymchwil ar gyfer y grwpiau ffocws fel a ganlyn:

- archwilio agweddau at wleidyddiaeth a phleidleisio:
- archwilio canfyddiadau ac agweddau tuag at wleidyddiaeth a gwleidyddion;
- archwilio ymddygiad pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau cyffredinol;
- archwilio gwybodaeth ac agweddau tuag at gofrestru treigl, pleidleisio trwy'r post a phleidleisio ar benwythnosau;
- archwilio ymddygiad yn etholiadau'r Cynulliad ar 1 Mai ac agweddau tuag atynt:
- nodi cymhellion a gwrthgymhellion i bleidleisio yn yr etholiadau hyn;
- archwilio lefelau'r ymwybyddiaeth o'r etholiadau, ymdriniaeth y cyfryngau a'r gwahaniaethau rhwng pleidleisiau etholaethol/rhestr ranbarthol;
- archwilio agweddau tuag at y Cynulliad:
- archwilio lefel yr ymwybyddiaeth a gwybodaeth;
- nodi agweddau tuag at y Cynulliad a'i lwyddiannau ers 1998;
- creu syniadau ar wella'r nifer sy'n pleidleisio yn y dyfodol.

### Dadansoddiad o'r canlyniadau

**3.7** Nid ymchwil i farn y bobl ar gyfranogiad pleidleiswyr yw'r unig ddangosydd o'r hyn a ddylanwadodd ar bleidleiswyr i gymryd rhan neu beidio, wrth gwrs. Yn ychwanegol at gomisiynu ymchwil i farn y bobl, comisiynwyd dadansoddiad gennym o ganlyniadau'r etholiad gan y dadansoddwyr academaidd amlwg yr Athro John Curtice o Brifysgol Strathclyde a Dr Stephen Fisher o Goleg y Drindod, Rhydychen. Mae eu dadansoddiad yn ystyried yr hyn y gellir ei gasglu o'r amrywiaeth yn lefel y nifer a bleidleisiodd rhwng etholaethau a sut y mae hyn yn cymharu â'r nifer wnaeth bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999 ac

etholiad cyffredinol 2001. Yn arbennig, fe wnaethant archwilio'r ffyrdd yr oedd y nifer wnaeth bleidleisio yn amrywio yn ôl nodwedd gymdeithasol a gwleidyddol yr etholaeth.

### Dadansoddiad o ymgyrchoedd a ffactorau eraill

**3.8** Yn ychwanegol at y ffactorau dros ymddygiad a chymhelliaid pleidleiswyr a nodwyd gan ymchwil NOP i farn y bobl a gan y dadansoddiad academaidd ar y canlyniadau, mae'n addas ystyried materion parthed yr ymgyrch etholiadol a ffactorau cysylltiedig. Wrth adolygu'r rhain, rydym wedi ceisio ystyried barn amrywiaeth eang o sylwebyddion ar etholiadau. Er enghraifft, cynhaliwyd seminar ôl-etholiad ar 17 Mehefin 2003, ar y cyd â Rhaglen Datganoli a Newid y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Cafwyd cefnogaeth dda gan yr holl gyrff fu'n ymwneud ag etholiad Mai i'r Cynulliad a gan ddadansoddwyr academaidd, a chynigiwyd nifer o resymau posibl i esbonio'r gostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd.

**3.9** Rydym yn ystyried yr holl fffynonellau hyn a'n casgliadau ein hunain, wrth lunio crynodeb o'r prif themâu i'w hystyried wrth asesu cyfranogiad pleidleiswyr a'r nifer wnaeth bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003. Y mae themâu sy'n gyffredin i'r duedd ar i lawr mewn niferoedd sy'n pleidleisio mewn etholiadau eraill yn y DU a nifer o ddemocratiaethau gorllewinol eraill. Ond mae ffactorau sy'n benodol i Gymru ac yn benodol i'r etholiad hefyd.

### Yr hyn a ddywedodd y cyhoedd

**3.10** Mae, wrth gwrs, amrywiaeth o resymau pam bod pobl yn dewis pleidleisio neu beidio. Yn ymchwil NOP i farn y bobl, gofynnwyd i'r lleiafrif oedd wedi pleidleisio yn etholiad 2003 (mewn cwestiwn penagored) pam eu bod wedi pleidleisio'r tro hwn.

**3.11** Crybwyllwyd yr ymatebion mwyaf cyffredin gan fwy na thraean y pleidleiswyr ac roeddent yn ymwneud â bod eisiau cael dweud eu dweud ac yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn pleidleisio mewn etholiadau bob amser – credai cyfran lawer llai y dylai pawb bleidleisio neu na allwch gwyno os nad ydych yn mynd i'r drafferth o bleidleisio. Dim ond 7% o'r sampl a ddywedodd eu bod wedi eu cymell i bleidleisio gan bwysigrwydd etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru – roedd y prif ymatebion yn fwy cyffredinol am gyfranogiad mewn etholiadau.

<sup>25</sup> Proffil demograffig gan gynnwys pob oedran a gwahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd.

3.12 Gofynnwyd y cwestiwn fel arall i'r rhai nad oeddynt wedi pleidleisio ac roedd mwy o amrywiaeth yn yr ymateb. Fel yn 1999, yr un rheswm mwyaf cyffredin dros beidio pleidleisio oedd bod yn rhy brysur a chaeth gyda phethau eraill – roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai iau nad oeddent wedi pleidleisio. Mae'n drawiadol bod llai o bobl yn rhy brysur i bleidleisio pan gynhelir etholiadau cyffredinol (fel y dangosir yn arolygon etholiadau 1997 a hyd yn oed yn y flwyddyn lle'r oedd y nifer wnaeth bleidleisio yn isel, 2001) a all awgrymu bod hwn yn fwy o esgus nag o reswm gwirioneddol.

3.13 Roedd yr ail reswm mwyaf cyffredin am beidio pleidleisio yn cyfeirio at y Cynulliad ei hun (gwastraff amser/arian) er mai dim ond gan tuag 1 o bob 10 o'r rhai na wnaeth bleidleisio y cafwyd y rheswm hwn. Roedd yr ymatebion eraill cymharol gyffredin yn cynnwys dadrith cyffredinol, diffyg diddordeb a beirniadaeth ar y gwleidyddion, tra dywedodd rhai eu bod wedi methu pleidleisio am eu bod i ffwrdd.

3.14 Roedd yr ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn cynnwys 10% o'r rhai nad oeddent wedi pleidleisio dros 65 yn dweud eu bod yn wael neu'n anabl neu na fedrent gyrraedd i bleidleisio eu hunain.

3.15 Adlewyrchodd y trafodaethau grŵp lawer o'r rhesymau hyn dros beidio pleidleisio ond dangosodd y gwaith ansoddol hefyd sinigiaeth parthed gwleidyddiaeth, gwleidyddion a systemau gwleidyddol. Yn ogystal â chael eu hystyried yn rhai sy'n gweithio 'er eu budd eu hunain', roedd gwleidyddion yn gyffredinol yn cael eu gweld yn bell oddi wrth y gwir faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.

3.16 Roedd canfyddiad hefyd ymhlith pobl hŷn yn y grwpiau bod dyfodiad gwleidyddiaeth teledu a 'spin ddoctoriaid' wedi gwneud i wleidyddion roi mwy o bwyslais ar sut y mae yr hyn y maent yn ei ddweud yn cael ei ailadrodd ar y cyfryngau na glynu at eu hegwyddorion a dweud beth y maent yn credu ynddo. Roedd gofid gwirioneddol nad yw'r arweinwyr gwleidyddol bellach yn ymddangos yn gymaint o arwyr ag y buont.


Roedd gan mam ddarlun o Lloyd George ar y wal.

**Pleidleiswraig CCC ymroddedig, Caernarfon**

Mae pethau wedi newid ers Margaret Thatcher.  
Mae'r llunwyr delwedd wedi symud i mewn.

**Pleidleisiwr CCC ymroddedig, Llanelli**

Figwr 1: Pam wnaethoch chi bleidleisio yn y Cynulliad Cenedlaethol ar Mai 1?



Sail: pawb a bleidleisiodd = 645. Heb anogaeth.

Holl gyfeiriadau at 5%+- codau llawn y tablau cyfrifiadurol.

Rydym yn archwilio'r themâu hyn ymhellach isod.

## Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

3.17 Rydym eisoes wedi adolygu lefelau ymwybyddiaeth pleidleiswyr yn ein dadansoddiad o'r cefndir i'r etholiad ac wedi tynnu sylw at y diffyg roedd yn rhaid ymdrin ag ef parthed gwybodaeth galed am y Cynulliad Cenedlaethol, ei bwerau, cyfrifoldebau a llwyddiannau. Rydym hefyd wedi adolygu pa gamau a gymerwyd i ymdrin â hyn gan ddod i'r casgliad, heblaw am ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol, mai ychydig iawn a fu. Ni fu unrhyw weithgaredd hyrwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol ei hun

yn ystod ymgyrch yr etholiad, am y rhesymau yr ydym wedi eu hesbonio. Ni fu ymgyrch hysbysebu wleidyddol gan unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol, heblaw hysbysebu trwy bosteri a ddefnyddiwyd gan ymgeiswyr unigol.

**3.18** Archwiliodd yr ymchwiliad i farn y bobl a gynhaliwyd gan NOP sut yr oedd pobl yn gwybod am y Cynulliad Cenedlaethol. Dim ond ychydig dros draean y bobl a holwyd a ddywedodd eu bod yn gwybod llawer iawn neu gryn lawer am Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ei bwerau, yr hyn y mae wedi ei wneud ers ei greu neu'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau i'r Cynulliad.

**3.19** Ar ben hynny, mae'r cyferbyniad yn yr ymateb yn ôl oedran yn drawiadol. Lefelau cymedrol iawn o wybodaeth oedd gan bobl iau a theimlent nad oeddent yn cael gwybodaeth am y Cynulliad a'i bwerau, llwyddiannau a systemau pleidleisio.

**3.20** Ym mhob un o'r pedwar asesiad, roedd dynion yn honni eu bod yn gwybod mwy na menywod. Roedd y grŵp proffesiynol/rheoli yn llawer mwy tebygol o deimlo eu bod yn hyddysg am y Cynulliad. Roedd y wybodaeth, fel y gellid disgwyl, yn uwch ymhlith y pleidleiswyr na'r rhai oedd heb bleidleisio ond hyd yn oed yma, dywedodd bron i hanner y rhai a bleidleisiodd ar 1 Mai mai ychydig iawn neu bron ddim a wyddent am y sefydliad ei hun.

**3.21** Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi derbyn gormod, rhy ychydig neu'r maint iawn o wybodaeth am agweddau amrywiol ar etholiad y Cynulliad. Yn gyffredinol roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a gredai fod ganddynt y

maint iawn o wybodaeth am etholiad y Cynulliad a'r rhai oedd yn meddwl ei bod yn rhy ychydig – ychydig iawn o bobl a honnodd fod gormod o fanylion.

**3.22** Teimlai 55–58% cyson o'r rhai a holwyd nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth o ran yr ymgeiswyr yn eu hetholaeth, polisïau'r pleidiau ac arweinyddwyr y pleidiau – roedd y ffigur ychydig yn uwch wrth gyfeirio at ymgeiswyr rhanbarthol yr etholiad. Y rhai dan 35 oedd fwyaf tebygol o gwyno am ddiffyg gwybodaeth – y grŵp yr oedd y nifer wnaeth bleidleisio wedi disgyn i ddim ond 19%. Yn gyffredinol roedd y rhai dros 55 yn fodlon ar y manylion a gawsant. Nid oedd 15% o'r rhai dan 25 yn gwybod bod yr etholiad yn digwydd.

**3.23** Dim ond un o bob pedwar oedd yn teimlo bod y papurau newydd wedi rhoi digon o sylw i'r etholiad tra bod llawer (41%) yn dweud nad oedd digon o wybodaeth. Siaradwyr Cymraeg rhugl, yr ymatebwyr ieuengaf a'r rhai yn byw yn y Gogledd oedd fwyaf tebygol o honni nad oedd digon o sylw yn y papurau newydd. Roedd y sylw ar y teledu yn cael ei feirniadu'n fwy hallt eto, gyda 50% yn dweud bod 'rhy ychydig' o wybodaeth.

**3.24** Mae rhai o gasgliadau'r grwpiau ffocws yn cynnig mwy o oleuni ar y mater hwn. Adroddodd rhai oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau, pobl ifanc yn arbennig, eu bod yn newid sianel/erthygl pan fyddent yn dod ar draws newyddion etholiad. Dangosodd yr ymchwiliad ansodol nad oedd yr ymdriniaeth a gâi'r etholiad yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn ddeniadol nac yn ennyn diddordeb neb ond y rhai â mwyaf o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Mae hwn

Tabl 1: Faint rydych chi'n teimlo eich bod yn gwybod ynglŷn â...

	Cynulliad Cenedlaethol Cymru %	Pwerau sydd gan y Cynulliad %	Yr hyn mae'r Cynulliad wedi'i wneud ers ei sefydlu %	Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad %
Llawer iawn	5	8	5	10
Tipyn	31	32	28	31
Ychydig	34	33	33	32
Bron dim	29	26	31	25
Ddim yn gwybod	0	1	2	1
Llawer iawn/tipyn	36	39	33	40
Ychydig iawn/bron dim	63	58	64	58

Sail:  $i$  gyd = 1,153

yn bwynt sy'n cael ei atgyfnerthu gan yr ymchwil a wnaed ar ran y Comisiwn ar ymdriniaeth y cyfryngau o'r etholiad, y ceir adroddiad manylach arno ym Mhennod 4. Roedd y feirniadaeth yn cynnwys sylwadau ar ymdriniaeth negyddol, fel adeilad newydd y Cynulliad.

Fyddwch chi byth yn clywed dim byd am hyn, yn na fyddwch? Yr unig beth fyddwch chi'n ei glywed yw'r gwastraff arian i godi'r Cynulliad. Efallai nad wyf fi'n ei weld ond dwi byth yn gweld dim byd.

#### Pleidleisiwr gwahaniaethol, Llanelli

**3.25** Isod rydym yn archwilio ymdriniaeth y cyfryngau o'r etholiad yn fanwl ac i ba raddau y gall y cyfryngau fod wedi cael effaith ar y canlyniad. Ar hyn o bryd, mae'n ddigon dweud bod nodweddion strwythurol allweddol y cyfryngau yng Nghymru – y diffyg cyfryngau 'cenedlaethol' a thra-arglywyddiaeth cyfryngau'r DU yng Nghymru – a'r driniaeth o etholiad y Cynulliad Cenedlaethol fel etholiad 'o'r ail reng', wedi golygu ei bod yn hawdd osgoi ymdriniaeth y cyfryngau â'r etholiad.

**3.26** Mae'n amlwg bod diffyg gwybodaeth yn ffactor sylweddol a effeithiodd ar y nifer a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid i strategaethau cyfathrebu yr holl brif chwaraewyr sy'n ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol a'i etholiadau ymdrin â'r diffyg gwybodaeth hwn, nid yn unig ar adeg etholiad, ond rhwng etholiadau ac yn y tymor hir. Heb strategaethau o'r fath, ni ellir cael unrhyw sicrwydd na fydd y duedd ar i lawr yn y nifer sy'n pleidleisio yn gostwng yn is eto.

**3.27** Fel rhan o'r asesiad o rôl y cyfryngau ac ymwybyddiaeth gyhoeddus ym Mhennod 4, rydym yn gwneud argymhelliad allweddol am strategaethau cyfathrebu o'r fath.

### Oedran ac ymddygiad pleidleisio

**3.28** Yn sampl ymchwil NOP i farn y bobl, roedd y rhai a ddywedodd iddynt bleidleisio yn etholiad Mai 2003 yn amrywio o ddim ond 16% o'r rhai dan 25 hyd at gymaint â 56% o'r rhai dros 55. Mae'r gostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd yn fwyaf amlwg yn y rhai dan 35. Roedd y nifer wnaeth bleidleisio yn drawiadol is ymhlith y rhai sy'n cefnogi annibyniaeth na'r rhai oedd yn cefnogi datganoli neu ddychwelyd dan reolaeth San Steffan.

Tabl 2: A lwyddoch chi i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ar 1 Mai

	Pawb %	18-24 %	25-34 %	35-44 %	45-54 %	55-64 %	65+ %
Do	37	16	21	30	36	56	57
Naddo	62	84	79	70	63	44	43
Ddim yn gwybod	*	*	0	0	0	0	1

Sail: i gyd = 1,153 \* = Llai na 0.5%

**3.29** Felly un o brif ffactorau y nifer wnaeth bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003 oedd diffyg cyfranogiad pobl ifanc. Disgynnodd y nifer a bleidleisiodd ymhlith pleidleiswyr ifanc yn anghymesur o'i gymharu â'r gostyngiad yn y nifer wnaeth bleidleisio ar draws yr etholwyr cyfan, ac ar ddim ond 16% o'r rhai dan 25 oed, roedd yn eithriadol o isel.

**3.30** Rhaid cymryd hyn yn y cyd-destun mai yn y DU y mae'r bwlch mwyaf o ran pleidleisio rhwng yr ifanc a'r hen ar draws y byd democrataidd.<sup>26</sup> Mae'r tablau canlynol yn dangos rhai cymariaethau perthnasol o'r amcangyfrif o'r nifer wnaeth bleidleisio rhwng 18-24 oed:

Tabl 3: Nifer a bleidleisiodd o'r rhai dan 25

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999	31% (Amcangyfrif arolwg etholiady Cynulliad Cenedlaethol)
Etholiad Cyffredinol 2001	39% (amcangyfrif MORI)
Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003	16% (amcangyfrif NOP)

**3.31** Mae'r gwahaniaethau yn y nifer a bleidleisiodd o ran oed yn cadarnhau'r ddamcaniaeth gyffredinol yn y gwaith safonol ar gyfranogiad etholiadol ac oedran:<sup>27</sup> mae adrannau ieuengaf cymdeithas yn fwy tebygol o beidio cymryd rhan yn y broses etholiadol na'u cymheiriaid hŷn. Yr hyn sy'n peri pryder yw'r raddfa y bu hyn yn wir yng Nghymru eleni.

**3.32** I ba raddau y mae'r gostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd ymhlith yr ifanc o bwys? Fel yr ydym wedi nodi yn ein papur ymgynghorol diweddar ar yr isafswm oedran ar gyfer pleidleisio ac ymgeisio yn etholiadau'r DU,<sup>28</sup> mae dau esboniad sy'n gwrth-ddweud ei gilydd am y newid yn y lefel

<sup>26</sup> M. Dyfynnod Wattenberg (2002) ym mhapur ymgynghorol *Pa mor hen yw digon hen?* y Comisiwn Etholiadol.

<sup>27</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002) *Cysylltiad pleidleiswyr a phobl ifanc*.

<sup>28</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Pa mor hen yw digon hen?*

o ddiddordeb gwleidyddol ymhlith pobl ifanc. Mae'r ddadl gyntaf yn seiliedig ar effaith 'cylch bywyd', lle mae diddordeb gwleidyddol yn cynyddu mwy neu lai gydag oedran, ac felly y bydd pobl ifanc heddiw yn datblygu mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth wrth iddynt fynd yn hŷn. Fel budd-ddeiliaid – trethdalwyr, deiliaid morgeisi ac yn y blaen – mae ganddynt rywbeth i'w gollu yn ogystal â rhywbeth i'w ennill. Yn y ddamcaniaeth hon ni fydd llawer yn newid dros amser.

**3.33** Yr ail esboniad posibl yw mai effaith carfan oedan neu genhedlaeth yw hwn – bod y rhai yn eu harddegau a phobl ifanc heddiw yn yn sylfaenol wahanol i'w cymheiriaid hŷn ac y byddant yn cadw'r gwahaniaethau hyn wrth iddynt fynd yn hŷn. O ganlyniad, bydd grŵp wedi dadrithio mwy a llai o ddiddordeb yn y pen draw yn disodli'r etholwyr presennol, a bydd yr effaith ar y nifer sy'n pleidleisio yn sylweddol.

**3.34** Mae angen llawer mwy o ymchwil a chasglu tystiolaeth cyn y gellir tynnu casgliadau diffiniol. Ond, o'n harolwg cyhoeddedig ar *Voter engagement and young people*<sup>29</sup> mae'n demtasiwn casglu bod y grŵp cohort etholiadol ieuengaf yn fwy sinigaidd neu amheus o wleidyddiaeth plaid nag yr oedd y rhai oedd yn pleidleisio am y tro cyntaf genhedlaeth yn ôl. Gall arferiad o beidio pleidleisio fod yn dechrau datblygu y byddai'n beryglus i'w anwybyddu.

**3.35** Dangosodd y trafodaethau grŵp ffocws agwedd sinigaidd ymhlith pobl iau, ynghyd â diffyg dealltwriaeth am y Cynulliad a theimlad nad yw pleidleisio yn rhywbeth y byddai eu grŵp cymheiriaid yn ei wneud. Gall hyn fod wedi ei atgyfnerthu gan y ffaith nad oedd yr un o'r pleidiau gwleidyddol yn yr etholiad hwn yn ymddangos fel pe baent yn gwneud ymdrech benodol i gyfeirio ei negeseuon at bleidleiswyr ifanc.

Nid yw pleidleisio'n 'cool'. Os oes 'na rhywun yn dweud nad ydyn nhw'n mynd, rydych chi'n dweud nad ydych chi'n mynd chwaith.

**Un na wnaeth bleidleisio, Caernarfon, benyw**

Dim ond un neu ddau o bobl yn fy oed i ydwi'n adnabod wnaeth bleidleisio, ond nhw ydi'r Tony Blairs nesaf, y rhai trist.

**Un na wnaeth bleidleisio, Caernarfon, benyw**

**3.36** Ond, mae gan lawer o bobl ifanc farn gref ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy. Mewn ymchwil i farn y cyhoedd a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn Etholiadol gan MORI, parthed yr etholiadau sydd i ddigwydd yn 2004,<sup>30</sup> roedd yn amlwg bod gan bobl ifanc farn gref iawn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau hwy, hyd yn oed y rhai sy'n dangos lleiaf o ddiddordeb:

Er bod ganddynt farn wedi ei ffurfio'n dda, ac yn medru trafod yn dda, materion fel ffonau symudol, rhyw, trosedd neu eu hardal leol, ychydig iawn o amynedd sydd ganddynt gyda thrafodaeth wleidyddol, sy'n ymddangos iddynt hwy fel petai yn byw mewn bydysawd arall i'r un y maent hwy yn ddo. Ni ddylid cymryd bod y grŵp hwn yn 'ddifater'. Ond nid ydynt yn gwneud y cysylltiad rhwng eu hanfodlonrwydd personol ag agwedd benodol o fywyd cyhoeddus a chymryd rhan yn y prosesau gwleidyddol traddodiadol fel ffordd o fynegi eu hanfodlonrwydd neu o chwilio am atebion i'r problemau hyn.

**3.37** Wrth geisio annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, mae felly'n hanfodol bod gwleidyddion, pleidiau gwleidyddol, ac ymgeiswyr etholiadol yn cyfleu eu neges mewn ffyrdd sy'n dangos y cysylltiadau rhwng y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc a'r prosesau democrataidd hynny.

**3.38** Roedd un ffactor penodol ym mhleidlais yr ifanc yng Nghymru ar 1 Mai a fu'n destun sylw wedi'r etholiad – y graddau yr oedd y boblogaeth fawr o fyfyrwyr yng Nghymru yn bresennol i bleidleisio mewn rhai etholaethau ar ddiwrnod yr etholiad. Mae tua 65,800 o fyfyrwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru,<sup>31</sup> a chyfanswm yr etholwyr cofrestredig yn 2,229,545. Nid oes ffigurau ar gael i ddangos faint o fyfyrwyr oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a dywedodd tua 17% o'r rhai ieuangaf na wnaeth bleidleisio nad oeddynt wedi cofrestru. Cychwynnodd rhai o'r sefydliadau addysg uwch y tymor wedi gwyliau'r Pasg ar 28 Ebrill, gan olygu y byddai'r myfyrwyr yn bresennol i bleidleisio os oeddynt wedi cofrestru i wneud hynny. Roedd hyn yn wir, er enghraifft, ym Mhrifysgolion Bangor, Aberystwyth, Abertawe a Llanbedr Pont Steffan.

<sup>29</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002).

<sup>30</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) – *Barn gyhoeddus ac etholiadau 2004*.

<sup>31</sup> Ffynhonnell: ystadegau addysg uwch ELWa, blwyddyn academaidd 2002/3.

**3.39** Yng Nghaerdydd, nid oedd llawer o'r myfyrwyr wedi dychwelyd o'u gwyliau Pasg ar 1 Mai. Dywedodd gwasanaethau etholiadol Caerdydd wrthym eu bod yn gwneud ymdrech arbennig i gofrestru myfyrwyr prifysgol Caerdydd, ac, er enghraifft, fod ganddynt tua 5,600 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru mewn neuaddau preswyl (nid yw'n bosibl casglu pa nifer o fyfyrwyr cofrestredig sy'n byw mewn llety preifat). Cofnododd y gorsafoedd pleidleisio mewn neuaddau preswyl yng Nghaerdydd lefelau isel iawn o bleidleisio. Byddai pleidleisio trwy'r post hefyd wedi bod yn bosibl, er ei bod yn drawiadol mewn un orsaf bleidleisio mewn neuadd breswyl yng Nghaerdydd, lle'r oedd dros 2,000 o bleidleiswyr wedi eu cofrestru i bleidleisio, mai dim ond wyth o'r rhain oedd wedi gofyn am bleidlais trwy'r post. Ond, ni ellir casglu o hyn, gan nad oedd llawer o'r myfyrwyr yn bresennol yng Nghaerdydd i bleidleisio yno, nad oeddynt wedi pleidleisio yn rhywle arall. Dywed gwasanaethau etholiadol Caerdydd wrthym, wrth annog myfyrwyr i gofrestru, eu bod yn eu hannog i gofrestru yn eu hetholaeth gartref ac yn etholaeth y brifysgol. Mae'n bosibl cofrestru mewn mwy nag un lle ar yr amod mai dim ond un bleidlais a ddefnyddir. Felly gall myfyrwyr o Gymru ym Mhrifysgol Caerdydd fod wedi pleidleisio yn eu hetholaethau cartref. Mae'n amheus faint o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru fyddai'n pleidleisio mewn etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**3.40** Mewn geiriau eraill, gall fod yn wir bod absenoldeb myfyrwyr addysg uwch ar eu gwyliau wedi bod yn ffactor fyddai'n lleihau'r nifer wnaeth bleidleisio mewn rhai etholaethau. Ond, gan y gall y myfyrwyr fod wedi pleidleisio yn eu hetholaethau cartref os ydynt yn byw yng Nghymru, mae'n anodd tynnu unrhyw gasgliadau, oherwydd y diffyg tystiolaeth, ond ei nodi fel ffactor yng nghyfranogiad myfyrwyr.

**3.41** Roedd lefelau isel cyfranogiad yr ifanc a'r nifer wnaeth bleidleisio yn fater arbennig yn yr etholiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol – na ellir ei esbonio yn syml gan y gostyngiad yn y nifer sy'n pleidleisio ar draws pob etholiad. Mae 'lfanc' yn achos yr etholiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymestyn i bawb dan 35 oed. Yr hyn sy'n glir yw bod angen cryn lawer o waith gan bawb sy'n ymwneud â'r broses etholiadol – ymgeiswyr, gweithwyr y pleidiau, gwleidyddion, Aelodau'r Cynulliad, gweinyddwyr etholiadol, ac nid y lleiaf, Y Comisiwn Etholiadol – i annog cyfranogiad ymhlith pobl ifanc. Rydym yn gwneud argymhelliad ar y mater hwn wrth adolygu yr hyn y gellir ei wneud i ymdrin ag ennyn diddordeb pleidleiswyr, yn ddiweddarach yn y bennod hon. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad rydym yn nodi sut y mae'r

Comisiwn Etholiadol yn bwriadu symud ei strategaeth ei hun ymlaen i hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc.

### Mwy o ddemograffeg ac ymddygiad pleidleisio

**3.42** Nid yw'r ymchwil i farn y cyhoedd yn 2003 yn awgrymu cysylltiad rhwng dosbarth cymdeithasol a'r nifer a bleidleisiodd (ac ni wnaeth ymchwil NOP ym 1999 chwaith). Nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith bod cysylltiad rhwng canfyddiad pleidleiswyr o hunaniaeth genedlaethol, a oeddynt yn gweld eu hunain fel Cymry neu Brydeinwyr. Ond roedd cysylltiad rhwng pa mor rhugl oeddynt yn y Gymraeg â'r nifer wnaeth bleidleisio – dywedodd 44% o'r rhai oedd yn rhugl yn yr iaith eu bod wedi pleidleisio ar 1 Mai o'u cymharu â dim ond 35% o'r rhai nad oedd yn medru'r Gymraeg o gwbl.

**3.43** Roedd tair o'r pum etholaeth gyda'r lefelau uchaf o ran nifer wnaeth bleidleisio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru tra bod pob etholaeth yn y rhanbarth hwnnw ymhlith y 15 uchaf. Yn gyffredinol, bwriodd ychydig dros 45% o'r etholwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru bleidlais ddilys yn yr etholiad, o'u cymharu â bron i 37% mewn rhannau eraill o Gymru. Er mai ychydig yr oedd lefel gyffredinol y nifer a bleidleisiodd yn amrywio dros y pedwar rhanbarth, roedd yn amrywio llawer mwy yn rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru nac yn unrhyw un o'r tri rhanbarth yn Ne Cymru. Roedd yr uchaf (Ynys Môn, 50.5%) a'r isaf (Alun a Glannau Dyfrdwy, 24.9%) yn rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru, yn y gorllewin a'r dwyrain yn ôl eu trefn.

**3.44** Dadansoddodd yr Athro Curtice a Dr Fisher y ffaith bod rhai rhannau o Gymru yn dangos mwy o ddiddordeb yn yr etholiad nag eraill. Mae'r nifer uwch a bleidleisiodd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn gyffredinol a'r gwahaniaethau yn rhanbarth Gogledd Cymru yn arbennig yn awgrymu patrwm cyffredinol – bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o bleidleisio na'r rhai mewn ardaloedd mwy trefol a'r rhai gyda mwy o weithwyr llaw.

Tabl 4: Y nifer a bleidleisiodd mewn cyfartaledd cymedrig

Gwledig	44.7	(12)
Cymysg	36.2	(22)
Trefol/maestrefol	34.1	(6)
Y gyfran sy'n rhugl yn Gymraeg		
Uwch na'r cyfartaledd	41.3	(20)
Is na'r cyfartaledd	35.6	(20)
Cyfran y gweithwyr corfforol rheolaidd		
Uwch na'r cyfartaledd	36.2	(20)
Is na'r cyfartaledd	40.7	(20)

Mae'r ffigyrau mewn cromfachau yn cynrychioli nifer yr etholaethau.

Gwledig: etholaethau gyda dwysedd poblogaeth ym 1991 o llai na 1.5 unigolyn yr hecтар.

Cymysg: Dwysedd poblogaeth rhwng 1.5 a 15 unigolyn am bob hecтар.

Trefol/maestrefol: dwysedd poblogaeth mwy na 15 unigolyn yr hecтар.

Y gyfran sy'n rhugl yn y Gymraeg— Uwch na'r cyfartaledd: mwy na chyfran y ganolrif (9.55) o unigolyn a ddywedir eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Is na'r cyfartaledd: 9.5% neu'n llai a ddywedir eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Cyfrifiad 2001).

Cyfran gweithwyr corfforol rheolaidd – Uwch na'r cyfartaledd: mwy na 9.8% o unigolion (canolrif Cymru) yn gweithio mewn gwaith corfforol rheolaidd (Cyfrifiad 2001). Is na'r cyfartaledd: cyfran yn gweithio mewn gwaith corfforol rheolaidd 9.8% neu llai.

**3.45** Felly mae'r ffigyrau ar y nifer wnaeth bleidleisio a'r ymchwil i farn y cyhoedd yn awgrymu bod pobl mewn ardaloedd lle mae mwy yn rhugl yn y Gymraeg yn fwy tebygol o fod wedi pleidleisio. Y cafeat y mae'n rhaid ei ychwanegu yw, tra bod y nifer wnaeth bleidleisio yn uwch ymhlith siaradwyr Cymraeg, pan fydd y canlyniadau yn cael eu cymharu â chasgliadau ymchwil NOP ym 1999, y gallai'r nifer sydd wedi pleidleisio fod wedi disgyn yn fwy amlwg ymhlith y grŵp hwn (i lawr 13%) nag ymhlith y rhai sy'n siarad Saesneg yn unig (i lawr 8%).

**3.46** Dangosodd yr arolwg hefyd wahaniaeth o 5% yn y cyfranogiad pleidleisio yn ôl rhyw (35% gwryw a 40% benyw). Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal rhagor o ymchwil i ffactorau rhyw mewn cyfranogiad ac ymddygiad pleidleiswyr ac nid oes digon o ymchwil cyfredol i dynnu unrhyw gasgliadau o'r gwahaniaethau hyn o ran rhyw. Ond, mae'n drawiadol, bod 30 o'r Aelodau Cynulliad a etholwyd yn fenywod, i fyny o'r 25 oedd yn y weinyddiaeth flaenorol, gan osod Cymru yn agos i'r brig ym myd y gyfran o fenywod mewn seneddau.

**3.47** Ni allwn dynnu unrhyw gasgliadau ar raddfa cyfranogiad cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn etholiad y Cynulliad ym Mai 2003. Mae hyn oherwydd na fyddai ein harolwg sampl yn galluogi i gasgliadau dilys yn ystadegol gael eu tynnu, o ystyried bod y gyfran o gymunedau heb fod yn wyn yng Nghymru ar 2.7% yn gymharol isel, o'i gymharu â DU gyfan lle mae'n 9%.<sup>32</sup>

## Agweddau pleidleiswyr at y Cynulliad Cenedlaethol

**3.48** Er gwaethaf y dystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth am y Cynulliad Cenedlaethol a'i weithgareddau, dywedodd llawer mwy o bobl ei fod wedi gwella pethau o ran y modd y mae Cymru yn cael ei rheoli (46%) nag oedd yn meddwl ei fod wedi gwneud pethau'n waeth (11%).

**3.49** Gwnaeth yr ymatebwyr mewn rhai o'r grwpiau sylwadau cadarnhaol, er eu bod yn gyndyn o wneud hynny.

Dwi'n meddwl mai dim ond tua 8 allan o 10 y maent wedi'i gael. Mae rhywun yn Llundain yn dal i ddal y chwip.

### Pleidleisiwr Ymroddedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Caernarfon

Maen nhw wedi gwneud un neu ddau o bethau da. Rydych yn cael eich presgripsiwn am ddim dan 25, dech chi ddim yn cael hynny yn Lloegr. Mae 'na bobl yn dod drosodd o Gaer i gael eu presgripsiwn.

### Pleidleisiwr ymroddedig i'r Cynulliad Cenedlaethol Caernarfon

**3.50** Mae posibilrwydd bod cyfranogiad isel yn yr etholiad yn adlewyrchu casineb tuag at ddatganoli. Daeth yr ymchwil a gynhaliwyd dros y Comisiwn gan y Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymreig ac a gyhoeddwyd yn *Cymru'n pleidleisio?* yn Rhagfyr 2002 i'r casgliad mai ychydig iawn o gefnogaeth oedd i'r esboniad hwn. Darganfu ymchwil NOP i farn y cyhoedd bod 25% yn y sampl yn teimlo y dylai Cymru aros yn rhan o'r DU heb Gynulliad etholedig; disgynnodd y ffigur hwn i 19% o rai dan 25 oed (yn eironig ddigon o ystyried bod lefel y nifer wnaeth bleidleisio yn ddim ond 16% ymhlith y rhai dan 25 oed) o'i gymharu â 38% o'r rhai dros 65 oed. Mewn cyferbyniad 9% o'r sampl oedd o blaid annibyniaeth

<sup>32</sup> Cyfrifiad 2001: 2.7% yn 2001 o'i gymharu â 1.5% ym 1991 yng Nghymru.

oddi wrth y DU; credai 37% y dylai Cymru aros yn rhan o'r DU gyda'i Senedd etholedig ei hun gyda phwerau deddfu a 25% o blaid Cymru fel rhan o'r DU gyda'i Chynulliad etholedig ei hun gyda phwerau deddfu cyfyngedig yn unig.

**3.51** Cynhyrchodd y casgliadau o Raglen Ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar Ddatganoli a Newid Cyfansoddiadol ganlyniadau tebyg, gyda 6 ym mhob 10 yng Nghymru yn ffafrio datganoli, gyda chefnogaeth i ddychwelyd at y sefyllfa cyn datganoli neu annibyniaeth yn llawer is.<sup>33</sup> Darganfu ymchwil i'r ESRC y byddai'n well gan ychydig dros yr hanner gael eu corff datganoledig eu hunain i gael mwy o ddweud am y ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg.

**3.52** Pwynt sy'n amhosibl ei anwybyddu, o ystyried y raddfa y mae wedi denu sylw'r cyfryngau a'r gwleidyddion, yw'r ddamcaniaeth, gan nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau deddfu cynradd fod pobl yn teimlo nad yw'n ddigon pwysig i bleidleisio drosto. Yn y sefyllfa hon, byddai mwy o bobl yn pleidleisio dros y Cynulliad Cenedlaethol petai yn derbyn mwy o bwerau neu yn dangos ei bwysigrwydd mewn ffordd arall.

**3.53** O ymchwil NOP i farn y cyhoedd, dywedodd 54% y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio petai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael llawer mwy o bwerau i newid pethau sy'n siapio bywydau pobl. Ond, ni ddylid gorbwysleisio'r ffactor hwn. Dywedodd pedwar deg saith y cant hefyd y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio petai canlyniad yr etholiad yn edrych yn agos ac y byddai eu pleidlais yn gwneud gwahaniaeth; byddai 44% yn fwy tebygol o bleidleisio petaent yn credu yn yr hyn yr oedd y pleidiau yn ei gynnig a 45% petaent yn gwybod mwy am yr hyn oedd yn y fantol yn yr etholiad. Mwy o bwerau a gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd yn y fantol fyddai'n cael mwyaf o effaith ar y rhai na wnaethant bleidleisio yn gyffredinol ac ar bobl ifanc yn benodol. Mae'r dystiolaeth o'r Alban yn awgrymu nad yw'r pwerau cryfach a roddwyd i'r Senedd yno wedi atal llawer o Albanwyr rhag gweld 2003 fel blwyddyn etholiad 'o'r ail reng'.

**3.54** Ceir peth cefnogaeth yn ymchwil barn NOP i'r sylwedyddion hynny a gredai nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cwrdd â disgywiliadau. Roedd strwythur ymchwil ansoddol NOP yn caniatáu ymchwilid mwy i rai materion na'r hyn oedd yn bosibl yn yr arolwg barn meintiol a chafwyd teimlad cryf oddi wrth y grwpiau ffocws bod

gweithgareddau'r Cynulliad yn dueddol o gael eu canolbwyntio yn y de, ac yng Nghaerdydd yn arbennig. Yn fwyaf nodedig, mae'r cyhoeddusrwydd ynglŷn ag adeilad newydd y Cynulliad yng Nghaerdydd a'r Ganolfan Mileniwm Cymru newydd wedi arwain at y canfyddiad bod gwariant anghyfartal y Cynulliad yn cael ei glustnodi i Gaerdydd.

**3.55** Roedd y teimlad bod y gogledd yn cael ei anwybyddu yn cael ei adlewyrchu mewn ymdeimlad o ddadrih a siom yng ngrwpiau ffocws NOP, gyda'r canfyddiad nad oedd y realiti wedi cwrdd â'r disgywiliadau ynglŷn â'r hyn allai'r Cynulliad gyflawni.

Rwy'n derbyn bod yn rhaid i'r rhan fwyaf ohono fod yng Nghaerdydd, ond dydw i ddim yn gweld pam llai na all rai o'r adrannau fod yn y gogledd neu yng nghanolbarth Cymru.

**Pleidleisiwr ymrwymedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, Caernarfon, gwryw**

Maen nhw'n anghofio amdanom ni yn y gogledd. Efallai mai'n bai ni yw o'n rhannol, dydyn ni ddim yn gwneud dim am y peth.

**Pleidleisiwr ymrwymedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, Caernarfon, benyw**

**3.56** Credai ychydig dros un rhan o dair o'r sampl bod gwahaniaeth mawr neu eithaf mawr pwy oedd yn ennill etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol – serch hynny, roedd nifer sylweddol yn fwy (hanner) o'r un farn wrth ystyried pleidlais San Steffan. Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y ddwy set o etholiadau yn tyfu gydag oedran ac, yn ôl y disgwyl efallai, yn llawer yn uwch ymhlith teuluoedd proffesiynol a rheolaethol na mewn grwpiau dosbarthau cymdeithasol eraill.

## Natur yr ymgyrch etholiadol

**3.57** Er bod peth o'r cyhoedd yng Nghymru wedi penderfynu yn barod i beidio â phleidleisio cyn yr etholiad, mae tystiolaeth o'n harolwg barn yn awgrymu bod tua hanner yr etholaeth yn gwneud eu penderfyniad i bleidleisio neu beidio yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Felly, gall effeithiolrwydd yr ymgyrch etholiadol ei hun fod yn ffactor sylweddol wrth effeithio ar y nifer sy'n dod allan i bleidleisio, gan gynnwys y canfyddiad o bwysigrwydd y materion

<sup>33</sup> Yr etholiadau yn yr Alban a Chymru: what's at stake? ESRC, Devolution and Constitutional Change Briefing, April 2003.

gwleidyddol i'w penderfynu yn yr etholiad a natur y gystadleuaeth rhwng y pleidiau gwleidyddol.

**3.58** Yn yr arolwg barn feintiol, dywedodd dwy rhan o dair o'r rhai a bleidleisiodd eu bod wedi gwneud eu penderfyniad cyn i'r ymgyrch ddechrau. Dywedodd oddeutu 40% o'r rheini a oedd heb bleidleisio nad oeddynt yn bwriadu pleidleisio yn etholiad y Cynulliad cyn i'r ymgyrch ddechrau. O gofio mai 38% oedd y nifer a bleidleisiodd, mae'n bosibl bod niferoedd cyfartal yn fras, oddeutu chwarter o'r etholaeth ym mhob achos, wedi penderfynu pleidleisio neu beidio cyn i ymgyrch yr etholiad ddechrau. Awgryma hyn felly bod oddeutu hanner yr etholaeth heb benderfynu ar bleidleisio ar ddechrau'r ymgyrch. Yn rhannol, gellir esbonio hyn gyda'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r Cynulliad a'r etholiad. Yn y diwedd, perswadiodd yr ymgyrch oddeutu un allan o bedwar yn unig o'r rheini nad oedd wedi gwneud eu penderfyniad cyn dechrau'r ymgyrch, i bleidleisio.

**3.59** Mae dadansoddiad ar ymatebion yr arolwg yn dangos hefyd bod yr ymatebwyr hŷn yn gyffredinol yn glir yn eu meddyliau ynglŷn â pha un a oeddynt am gymryd rhan yn yr etholiad cyn i'r ymgyrch ddechrau. Roedd y rhai dan 35 mlwydd oed yn fwy tebygol o benderfynu ar y diwrnod ynglŷn â phleidleisio neu ymwrthod. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth mawr yn ffigyrau'r nifer wnaeth bleidleisio yn y ddau grŵp oedran.

### Ymgyrch fer, dawel

**3.60** Cafwyd llawer o sylwadau gan wleidyddion a newyddiadurwyr yn ystod cyfnod yr etholiad bod yr ymgyrch i bob pwrpas wedi'i lleihau i 10 diwrnod. Roedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig wedi'u dominyddu gan sylw at Rhyfel Irac yn rhan gynnar cyfnod yr etholiad; daeth gŵyl y banc hir y Pasg wedyn a gellir dadlau na ddechreuodd yr ymgyrch yn iawn hyd at o leiaf y dydd Mawrth wedi'r Pasg, dim ond 10 diwrnod cyn yr etholiad ar Ddydd Iau 1 Mai.

**3.61** Caiff hyn ei gadarnhau gan yr ymchwil wnaethom ni ei chomisiynu ar sylw'r etholiad yn y wasg, sy'n cael ei hadolygu ym Mhennod 4. Yn wir, mae'r ymchwil honno'n awgrymu mai ond wedi ymweliad y Prif Weinidog, Tony Blair, wythnos cyn yr ymgyrch y dechreuodd y cyfryngau dalu sylw mewn gwirionedd, sy'n ei gwneud yn ymgyrch saith niwrnod yn nhermau'r cyfryngau.

**3.62** Mae'r ffaith pa un a fyddai ymgyrch hwy wedi dylanwadu neu gynyddu'r nifer a bleidleisiodd yn ddamcaniaethol ac, wrth gwrs, weithiau caiff ymgyrch dair wythnos yn yr etholiad cyffredinol ei feirniadu am fod yn rhy hir yn nhermau ei ddylanwad ar ddiwedd y cyhoedd. Ni ellir amau bod 7-10 diwrnod yn gyfnod byr o amser i greu diddordeb ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiad. Yn ogystal, mater o ddamcaniaeth yw a fyddai ymgyrch hwy wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad terfynol.

**3.63** Yn bendant roedd ymgyrch y Cynulliad Cenedlaethol yn dawel o'i chymharu ag ymgyrch yr etholiad cyffredinol. Roedd diffyg gweithgarwch ymgyrchu ar y strydoedd a phrinder canfasio gweledol mewn sawl rhan o Gymru. Mae pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yn adrodd trafferthion wrth recriwtio gweithwyr ymgyrchu lleol. Cwyn cyffredin oddi wrth aelodau'r cyhoedd, a oedd yn amlwg o'r grwpiau ffocws ymchwil barn ac atborth eraill yr ydym wedi derbyn, yw'r pryder ynglŷn â'r diffyg cyswllt personol oddi wrth ymgeiswyr a gweithwyr pleidiau gwleidyddol. Er bod aelodau'r cyhoedd yn aml yn cwyno ynglŷn â chael eu canfasio yn eu cartref gan ymgeiswyr a gweithwyr y pleidiau yn chwilio am bleidleisiau, maent hefyd yn ei ddisgwyl. 'Pam dylwn i bleidleisio iddynt, pan nad ydynt yn trafferthu curo ar fy nrws yn gofyn i mi a byth yn trafferthu gofyn beth yw fy marn ar unrhyw beth o un flwyddyn i'r llall?' oedd sylwadau un etholwr, sy'n nodweddiadol o nifer a dderbyniwyd gan swyddfeydd y Comisiwn Etholiadol.

**3.64** Mae rhai sylwebwyr wedi dadlau bod y ffaith nad oedd etholiadau llywodraeth leol ar yr un diwrnod ag etholiadau y Cynulliad Cenedlaethol yn ffactor o ran gostwng y nifer a bleidleisiodd. Pwysleisiwyd bod diffyg etholiadau lleol wedi arwain at absenoldeb ymgyrchu ar y strydoedd ac y byddai mwy o weithredwyr lleol wedi troi allan pe byddai ymgyrch leol hefyd. Gohiriodd y Cynulliad Cenedlaethol yn 2001 etholiadau llywodraeth leol o flwyddyn o'r dyddiad a drefnwyd yn wreiddiol i gyd-fynd ag etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, ar y sail y byddai hyn yn cynyddu cyfranogiad.

**3.65** A dweud y gwir, nid yw'r dystiolaeth ar y pwynt hwn yn derfynol. Cynhaliwyd etholiadau lleol yn yr Alban ar yr un diwrnod ag etholiadau Senedd yr Alban ac fe ddisgynnodd y nifer a bleidleisiodd yn fwy yr Alban nag y gwnaeth yng Nghymru. Mae pa un a fyddai'r lleihad yn y nifer a bleidleisiodd wedi'i atal yn gymharol pe bai etholiadau llywodraeth leol ar yr un diwrnod yn fater o ddyfalu.

**3.66** Nodwedd amlwg arall yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003 oedd y diffyg mewn unrhyw ymgyrch hysbysebu gan unrhyw un o'r prif bleidiau gwleidyddol. Nid archebwyd gofod hysbysebu yng Nghymru yn ystod cyfnod yr etholiad ar gyfer ymgyrchu gwleidyddol heblaw am ymgeiswyr unigol. Yn aml mae etholiadau cyffredinol wedi bod yn nodedig am ymgyrchoedd hysbysebu dadleuol y pleidiau gwleidyddol. Mae rhai o'r rhain wedi cynnwys dadlau gwleidyddol mewn ymgyrchoedd gwleidyddol, yn aml yn chwew, ond wrth wneud hynny byddai wedi cyfrannu at ymwybyddiaeth gyhoeddus fod etholiad yn cymryd lle a rhai o'r materion sy'n gysylltiedig.

**3.67** Ni ddigwyddodd dim o hyn yng Nghymru yn 2003. Heb os mae gan y pleidiau gwleidyddol resymau da iawn dros beidio trefnu ymgyrchoedd hysbysebu, un ohonynt yw'r diffyg arian. Ond fe all y diffyg mewn hysbysebu gwleidyddol fod wedi cyfrannu at lefel is o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r etholiad ac o'r materion sy'n gysylltiedig, ynghyd â'r teimlad bod yr ymgyrch yn gymharol dawel.

**3.68** Ni chafwyd ychwaith unrhyw hysbysebu gwleidyddol arwyddocaol oddi wrth 'drydydd person' mewn cefnogaeth at bolisiau neu bleidiau gwleidyddol penodol o'r math sydd yn nodwedd mewn etholiadau cyffredinol. Weithiau mae undebau llafur mawr yn hysbysebu yn ystod ymgyrchoedd etholiadol, yn arbennig ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus.

**3.69** Gyda'i gilydd byddai'r ffactorau hyn i gyd wedi cyfrannu at y teimlad, a nodwyd yn gyffredin, bod yr ymgyrch yn fer ac yn dawel o'i chymharu ag ymgyrch yr etholiad cyffredinol.

### Materion gwleidyddol a'r ymgyrch

**3.70** Ffactor o bwys mawr sy'n effeithio ar yr ymgyrch etholiadol a'r nifer sy'n pleidleisio yw'r materion gwleidyddol sydd i'w penderfynu yn yr etholiad a natur y gystadleuaeth rhwng y pleidiau gwleidyddol. Fel corff annibynnol, wedi'i ariannu'n gyhoeddus, ni all y Comisiwn Etholiadol wneud sylwadau ar y materion gwleidyddol y cyfeiriwyd atynt yn yr etholiad gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr, ond ni fyddai unrhyw ddatdamsoddiad o'r nifer a bleidleisiodd yn gyflawn heb rywfaint o gydnabyddiaeth ar natur yr ymgyrch etholiadol.

**3.71** Nododd nifer o sylwebwyr ar yr etholiad bod ymgyrchoedd etholiadol y prif bleidiau gwleidyddol i gyd yn weddol debyg, i'r fath raddau eu bod i gyd yn ymgyrchu ar agenda y gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod cyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn ymwneud â'r gwasanaethau cyhoeddus.

**3.72** Yn ymchwil barn NOP wedi'r etholiad, roedd ychydig dros hanner y sampl gyfan yn cefnogi'r syniad bod 'ychydig iawn o wahaniaeth rhwng yr hyn roedd y prif bleidiau gwleidyddol yn ei gynnig'. Hyd yn oed ymysg y rhai a bleidleisiodd yn yr etholiad, cytunodd ymron hanner ohonynt mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y pleidiau. Mae'r darganfyddiadau hyn yn awgrymu bod llai o wahaniaethau i'w canfod rhwng y pleidiau yng Nghymru yn 2003 nag a ddarganfuwyd ledled y Deyrnas Unedig mewn ymchwil barn a ymgwymerwyd gan MORI ar ran y Comisiwn Etholiadol yn 2001. Sylwodd ymchwil feintiol NOP bod yr ymatebwyr yn y grwpiau ffocws yn aml yn teimlo bod y pleidiau wedi agosáu yn nhermau eu hideoleg:

O'r blaen os oeddech chi'n pleidleisio dros Lafur neu'r Ceidwadwyr byddai'n gwneud gwahaniaeth pa un fydddech yn gwneud.

**Pleidleisiwr ymrwymedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, Llanelli, gwryw**

**3.73** Trafodwyd ffactorau gwleidyddol a effeithiodd ar y nifer a bleidleisiodd yn hir yn ein seminar wedi'r etholiad. Gosodwyd damcaniaeth gerbron gan rai sylwebwyr academiaidd bod ffactorau gwleidyddol gwahanol yn effeithio ar y pleidleisio yng Nghymru o'i gymharu ag etholiadau cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Yn y ddamcaniaeth hon, mae Plaid Cymru yn gwneud yn well mewn etholiadau sy'n cael eu hystyried yn 'Gymreig', tra fod y blaid Lafur a'r Ceidwadwyr yn gwneud yn well mewn etholiadau sy'n cael ei hystyried yn 'DU', megis yr etholiadau cyffredinol. Dadleuir er bod y duedd hon yn parhau yn amlwg yn 2003, disgynnodd pleidlais Plaid Cymru yn arbennig. Dadleua Richard Wyn Jones a Roger Scully:

dylem bwysleisio bod canlyniadau 2003 yn ffitio'n agos gyda'r hyn a ymddengys yn batrwm sy'n dod i'r golwg...tuedd gref am wahanol batrymau pleidleisio i ddigwydd rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan. Yn arbennig, gwelsom fod Llafur a'r Ceidwadwyr yn gwneud yn systematig well yn etholiadau San Steffan na'r rheini dros y Cynulliad

Cenedlaethol, tra mai'r gwrthwyneb sy'n wir gyda Phlaid Cymru... Cafodd y gosodiad pleidleisio gwahaniaethol ei gadarnhau gan y canlyniadau yn 2003. Disgynnodd Llafur a'r Ceidwadwyr (mewn blwyddyn dda) o dan gyfran eu pleidleisiau yn etholiad cyffredinol 2001; tra gwnaeth Plaid Cymru (mewn blwyddyn wael) yn sylweddol well na dwy flynedd cyn hynny.<sup>34</sup>

### 3.74 Esboniodd John Osmond o'r Sefydliad Materion Cymreig:

Y brif stori yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, Mai 2003 oedd bod Llafur wedi ailgipio eu cadarnleoedd yn seddi'r Cymoedd... Serch hynny, mae'r ffigyrau yn awgrymu bod Plaid Cymru drwyddi draw wedi colli'r ymgyrch cymaint ag yr oedd Llafur wedi'i hennill.<sup>35</sup>

**3.75** Felly, ffactor gwleidyddol a all fod wedi effeithio ar y nifer a bleidleisiodd oedd methiant Plaid Cymru i gasglu pleidleiswyr, ond ni ddylid gorliwio hyn – mae cydweithio cymhleth y materion eraill i gyd sy'n effeithio ar y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad hwn yn golygu nad oes un ffactor yn llywodraethu.

### Etholiad 'eilradd'

**3.76** Mae tystiolaeth o ddarganfyddiadau'r ymchwil barn yn cefnogi'r syniad bod yr etholaeth yn gweld etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn llai pwysig na'r etholiad cyffredinol – etholiad 'eilradd'.

**3.77** Honnodd mwy na hanner y sampl (60%, ond sy'n cynnwys 82% o'r rhai dros 65 a 72% o grŵp cymdeithasol AB) eu bod wastad yn pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol, tra dywedodd y lleiafrif mawr (43% i gyd ond yn cynnwys tri chwarter o bensiynwyr) eu bod yn wastad yn pleidleisio mewn etholiadau lleol. Roedd cyfranogiad yn y sampl yn llai ymhlith ymatebwyr iau – gan adael y rhai rhwng 18 a 24 o'r neilltu, rhai ohonynt na fyddent wedi cael y cyfle i bleidleisio yn y gorffennol, dim ond 46% o'r rhai rhwng 25 ac

35 ddywedodd eu bod wastad yn pleidleisio yn etholiadau San Steffan a dim ond 20% ohonynt honnodd eu bod yn bleidleiswyr cyson yn y polau lleol. Llond llaw o bobl yn unig oedd yn pleidleisio'n anaml, os o gwbl, ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a gymerodd ran yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol 2003.

**3.78** Wrth edrych ar etholiadau unigol, dywedodd mwy na hanner y sampl (60%) eu bod wedi pleidleisio yn y refferendwm datganoli tra bod cyfran debyg yn meddwl eu bod wedi troi allan ym mhôl cyntaf y Cynulliad yn 1999. Roedd cyfranogiad y rheini a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio yn yr etholiadau cyffredin diwethaf yn uwch fyth. Wrth ystyried sefyllfa 2003 a ddisgrifiwyd ynghynt, roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei uchaf ymysg yr ymatebwyr hŷn ac, yn achos y pleidleisiau Cymreig, ymhlith uniaethwyr Cymreig a siaradwyr Cymraeg.

**3.79** Roedd y pleidleiswyr gwahaniaethol yn y grwpiau ffocws yn dueddol o feddwl yn bendant iawn fod eu pleidlais yn yr etholiad cyffredinol yn bwysicach na'u pleidlais yn etholiadau y Cynulliad Cenedlaethol.

Gan fod ganddynt fwy o bŵer a'u bod yn dweud wrth y Cynulliad beth i'w wneud. Yn amlwg mae'n mynd i effeithio arna i'n fwy.

**Pleidleisiwr gwahaniaethol, Llanelli, gwryw**

### Cyfes o gystadlaethau lleol

**3.80** Ffactor arall yn nhermau ymgyrchu pleidiau gwleidyddol nododd y sylwebwyr yw bod yr etholiad yn gyfres o gystadlaethau lleol yn bennaf;<sup>36</sup> dadleuwyd bod y prif bleidiau gwleidyddol yn dueddol o ganolbwyntio eu hymgyrchoedd mewn etholaethau ffiniol. Gall hyn fod yn effeithiol i bleidiau gwleidyddol yn nhermau y canlyniad, ond nid yw'n fuddiol ar gyfer y nifer sy'n pleidleisio a chyfranogiad yn gyffredinol.

**3.81** Mae'r dadansoddiad canlyniadau a wnaed gan yr Athro Curtice a Dr Fisher ar ein rhan yn dangos lle'r oedd canlyniad etholiad yn agos yn 2001, anogwyd ychydig yn fwy o bleidleiswyr i fynd i'r polau. Efallai ein bod yn disgwyl i bleidleiswyr fod yn fwy tebygol o fynd i'r polau os oedd y gystadleuaeth yn yr etholaeth leol yn agos. Serch hynny, mae'r hyn yr oedd pleidleiswyr yn meddwl amdano fel

<sup>34</sup> R. Wyn Jones a R. Scully (2003) 'Pwysigrwydd Cymreictod'. Agenda, Sefydliad Materion Cymreig, haf.

<sup>35</sup> J. Osmond, Sefydliad Materion Cymreig (2003) 'Election Fall-out'. Canllaw y Cynulliad 2003, Strategaeth Cymru, 2003.

<sup>36</sup> Gweler, er enghraifft, esiampl John Osmond, ibid.

etholaeth ffiniol yn etholiad 2003 yn fater o farn; mae'r canlyniad gwahanol iawn rhwng etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 a'r etholiad cyffredinol diwethaf yn 2001 yn golygu nad oedd etholaethau lle'r oedd y canlyniadau'n agos yn 1999 o reidrwydd yr un fath â'r rhai oedd yn agos yn 2001 ac i'r gwrthwyneb.

**3.82** Mae dadansoddiad o'r canlyniadau, sy'n cael eu torri i lawr i lefel y nifer a bleidleisiodd a'r ddau ganlyniad yn 1999 a 2001, yn awgrymu bod y ddau wedi cael dylanwad. Roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei isaf yn y seddi hynny lle'r oedd mwyafrif yr enillydd dros 10% yn y ddau etholiad. Roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei uchaf ar gyfartaledd yn y seddi hynny lle'r oedd y canlyniadau yn agos yn 2001 ond nid yn 1999.

**3.83** Ar yr olwg gyntaf, mae patrwm y nifer a bleidleisiodd yn 2003 yn drawiadol o debyg i'r hyn ydoedd yn 1999. Y pedair etholaeth gyda'r nifer isaf o'r rhai a bleidleisiodd ar y bleidlais gyntaf y tro hwn oedd pedair o'r pump o'r rhai lle gwelwyd patrwm tebyg bedair blynedd yn ôl. Yn yr un modd, roedd y pedair etholaeth gyda'r nifer uchaf a bleidleisiodd yn 2003 ymhlith y dwsin uchaf y rhai a bleidleisiodd yn 1999. Dim ond un etholaeth a aeth yn erbyn y duedd; Wrecsam, lle cafodd John Marek ei ethol yn AS Llafur yn 1999 ond a gafodd ei ailethol fel Annibynnwr. Mae dadansoddiad Curtice a Fisher yn dangos, ar y cyfan, fod y gydberthynas rhwng y nifer a bleidleisiodd yn 1999 ac yn 2003 mor uchel â 0.9.

Tabl 5

	Newid mewn % o bleidleiswyr dilys ers	
	2001	1999
Gwledig	-21.0	-9.2 (12)
Cymysg	-23.8	-7.9 (22)
Trefol/maestrefol	-24.4	-7.7 (6)
Y gyfran yn rhugl yn Gymraeg		
Uwch na'r cyfartaledd	-21.9	-9.0 (20)
Is na'r cyfartaledd	-24.1	-7.5 (20)
Cyfran y gweithwyr corfforol rheolaidd		
Uwch na'r cyfartaledd	-23.7	-7.8 (20)
Is na'r cyfartaledd	-22.4	-8.7 (20)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cynrychioli nifer yr etholaethau.*

**3.84** Er hynny, mae'r gwahaniaeth yn y nifer a bleidleisiodd yn y seddi hynny gyda'r nifer uchaf a bleidleisiodd a'r rheini gyda'r nifer lleiaf yn llai na'r hyn ydoedd bedair blynedd yn flaenorol. Disgynnodd y nifer a bleidleisiodd o ddau bwynt canran yn fwy ymhlith yr etholaethau gyda'r 20 uchaf o'r nifer a bleidleisiodd yn 1999 nac ymhlith yr 20 isaf. Fel mae Tabl 5 yn dangos, beth bynnag yw'r gwahaniaeth rhwng y nifer a bleidleisiodd yn ardaloedd gwledig yn bennaf a gweddill Cymru yn 2003, roedd yn rhywfaint yn llai na'r hyn ydoedd bedair blynedd cyn hynny. Felly, disgynnodd y nifer a bleidleisiodd fwy mewn seddi gwledig, y rheini â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg rhugl, a'r rheini gyda chanran uwch na'r cyfartaledd o weithwyr corfforol cyffredin nag y gwnaeth mewn seddi trefol, y rheini gyda llai o siaradwyr Cymraeg a'r rheini gyda mwy o weithwyr corfforol cyffredin.

## Yr angen am ddulliau mwy cyfleus o bleidleisio

**3.85** Mae ein hymchwil barn yn dangos y byddai mwy o ddewis mewn dulliau pleidleisio a gwell cyfleustra wedi annog rhai nad oeddynt wedi pleidleisio, i wneud hynny. Mae deddfwriaeth eisoes mewn grym sy'n caniatáu treialon ar wahanol ddulliau pleidleisio – er enghraifft, pleidleisio post yn unig neu ddulliau electronig o bleidleisio – mewn etholiadau cyngor lleol. Serch hynny, ni chafwyd unrhyw ddulliau dyfeisgar o bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol gan nad oes deddfwriaeth mewn grym eto a fyddai'n galluogi hynny.

**3.86** Cyflwynwyd nifer o newidiadau potensial i'r system pleidleisio yn ein hymchwil barn i gael syniad i ba raddau y gallant annog bobl ymhellach i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Dywedodd oddeutu 4 o bob 10 y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad pe baent wedi cael gwneud hynny naill ai'r drwy'r post neu drwy bleidlais ffôn er bod hynny, wrth gwrs, yn cynnwys nifer o bobl a bleidleisiodd ar 1 Mai. Hefyd, roedd pleidlais bost ar orchymyn ar gael mewn gwirionedd yn yr etholiadau hyn ac felly mae'r ymatebion yn awgrymu nad oedd pawb o bell ffordd yn ymwybodol o hyn.

**3.87** Mae hyrwyddo'r bleidlais bost ar orchymyn yn lleol yn ffactor y mae dadansoddiad o'r canlyniadau yn dangos ei fod wedi effeithio ar y nifer a bleidleisiodd. Mae dadansoddiad yn dangos mai'r hyn sy'n cyfrif orau am yr amrywiaeth yn amllder y bleidlais bost ledled Cymru yw i ba raddau mae'r awdurdodau lleol wedi neu heb hyrwyddo'r ffaith bod pleidlais bost ar gael ar gais. Mae'r nifer uwch a

Tabl 6

Pleidleisiau post	2003	2001
Dosbarthwyd	155,426	110,900
Dychwelwyd	98,415	91,395
Barnu'n ddilys	92,695	86,862
Dychwelyd/dosbarthu	63.3%	82.4%
Dilys/dychwelyd	94.2%	95.0%

*Nid oes gwybodaeth am nifer y pleidleisiau a farnwyd yn annilys ar gael ar gyfer Caernarfon a Meirionnydd Nant Conwy ac felly mae'r ffigurau ar gyfer 2003 ryw faint yn gor-ddweud y nifer o'r pleidleisiau dilys a fwrwyd.*

bleidleisiodd lle cafodd pleidlais bost ei hyrwyddo yn ategu'r ffaith bod cyfleustra yn factor yng nghyfranogiad y pleidleisiwr.

**3.88** Mae'r ymchwil a wnaed ar ein rhan gan y dadansoddwyr academiaidd yr Athro Curtice a Dr Fisher yn cynnwys dadansoddiad o ddylanwad y bleidlais bost ar y nifer a bleidleisiodd ac mae'r pwyntiau allweddol yn eu canfyddiadau fel a ganlyn.

**3.89** Bwridd cyfanswm o 4.2% o'r etholaeth bleidlais ddilys drwy'r post, dim ond ychydig yn fwy na'r rhai a bleidleisiodd drwy'r post, 3.9%, yn 2001. Fel cyfran o'r rheini a bleidleisiodd, serch hynny, roedd pleidleisiau post yn cynnwys 10.9% o gyfanswm y bleidlais ddilys, cynnydd o 6.3% o 2001.

**3.90** Felly roedd pleidleiswyr post yn fwy tebygol o bleidleisio na'r etholaeth ar y cyfan. Dychwelodd ychydig dros 63% o'r rheini a gafodd bleidlais bost eu papurau pleidleisio. Serch hynny, hyd yn oed ymysg y rheini a oedd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post, roedd y nifer a bleidleisiodd yn is na'r hyn ydoedd yn 2001 pan ddychwelodd 82% o'r pleidleiswyr post eu papurau pleidleisio. Gan fod y lleihad yn y nifer a bleidleisiodd ymhlith y pleidleiswyr post wedi disgyn, o 19 pwynt, yn dod yn agos i'r gostyngiad o 23 pwynt ar draws yr etholaeth gyfan, gellir casglu nad yw caffaeledd pleidleisio post ar gais yn cynorthwyo i ynysu'r etholaeth rhag y ffactorau hynny sy'n cynhyrchu cynnydd a gostyngiadau yn y nifer a bleidleisiodd ymysg yr etholaeth yn gyfan gwbl.

**3.91** Roedd y lefel a'r cynnydd mewn pleidleisio post ers 2001 ymhell o fod yr un peth ar draws Cymru gyfan. Er enghraifft, yn Alun a Glannau Dyfrdwy dim ond 1.6% o'r etholaeth a dderbyniodd pleidlais bost, ac yng Nghastell-

nedd cafwyd dim llai na 12.5%. Yn Nhorfaen, roedd cymaint â 20.7% o'r bleidlais ddilys wedi'i bwrw drwy'r post, tra ym Mlaenau Gwent, 3.4% yn unig. Yn y cyfamser, cafwyd cynnydd o 14.1 pwynt cyfartaledd yng nghanran y bleidlais ddilys a fwrwyd drwy'r post yng Ngorllewin Casnewydd, tra ym mhen arall y sbectwm roedd gostyngiad cyflawn o 2% yng Ngorllewin Caerdydd.

**3.92** Rydym yn gwneud argymhelliad ar hyrwyddo'r bleidlais bost yn lleol yn ein dadansoddiad o weinyddiaeth yr etholiad ym Mhennod 5.

**3.93** Yn ôl ein hymchwil barn, byddai pleidleisio ar y penwythnos ac ar y rhyngwrwyd wedi cael dylanwad bychan ar y nifer a bleidleisiodd, petaent ar gael, ond roeddynt yn apelio fwyaf at y grŵp oedran 25-34 mlwydd oed. Mae cyneffindra â phrynu a rhyngweithio gyda gwahanol sefydliadau drwy'r rhyngwrwyd a'r SMS wedi annog nifer yn y grwpiau i awgrymu y dylid gwneud pleidleisio yn bosibl drwy'r dulliau hynny. Yn gyffredinol, roedd teimlad bod pleidleisio wedi methu â symud gyda'r oes, ac nad oedd wedi'i ganolbwyntio ar y cwsmer:

Dylent ddechrau defnyddio lleoedd mwy anffurfiol, yn hytrach na'i fod yn beth mor ffurfiol lle mae'n rhaid i chi fynd i neuadd y pentref a sefyll y tu ôl i flwch a thicio darn o bapur. Efallai y dylid ei wneud ar y Rhyngwrwyd.

Gallwch bleidleisio dros Big Brother ar y ffôn neu drwy anfon neges destun, pam na ellwch chi wneud hynny mewn etholiad? Mae ganddynt y peiriant swing electronig ffansi ar y teledu ond mae'n rhaid i chi fynd i ryw neuadd ysgol filltiroedd i fwrdd a defnyddio pensel.

#### Pleidleisiwr gwahaniaethol, Llanelli, gwryw

**3.94** Rydym yn ei hystyried yn flaenoriaeth bod pleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru yn cael y cyfle i brofi dulliau dyfeisgar o bleidleisio. Roedd cant a deuddeg ar hugain o gynlluniau peilot wedi cymryd lle erbyn Mai 2003 mewn etholiadau llywodraeth leol, yn bennaf yn Lloegr. Credwn ei bod yn hollbwysig bod pleidleiswyr a thimau gwasanaethau etholiadol yng Nghymru yn cael y cyfle i brofi dulliau dyfeisgar cyn eu bod yn cael eu defnyddio ar raddfa fawr mewn etholiad cenedlaethol. Mae ein hasesiad statudol o gynlluniau peilot llywodraeth leol a wnaed yn etholiadau<sup>37</sup>

<sup>37</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Siâp yr etholiadau i ddod*.

Mai 2003 wedi dangos y ffordd ac yn arbennig wedi awgrymu bod holl etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal fel polau post yn unig, oni bai fod rhesymau cryf pam y byddai pleidlais bost yn unig yn amhriodol neu'n anfanteisiol ar gyfer grŵp neu grwpiau o etholwyr.

**3.95** Rydym, serch hynny, wedi argymhell na ddylai pleidleisio post yn unig ddatblygu y tu hwnt i statws peilot hyd nes bod ein hargymhellion manwl ehangach ar gydrannau integrol pleidlais bost yn eu lle. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion grymus ar ddatblygiad pleidleisio a chyfrif electronig yn y dyfodol – mewn cyferbyniad â phleidlais bost yn unig, sy'n dal yn ei ddyddiau cynnar. Credwn fod y rhaglen beilot etholiadol yn hanfodol ar gyfer moderneiddio'r gwasanaethau etholiadol. Wrth ddatblygu'r rhaglen hon, rydym yn edrych yn arbennig ar faterion defnydd cyfartal a diogelwch.

Rydym yn argymhell i Lywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol fod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i alluogi cyflwyno pleidleisiau post yn unig yn etholiadau'r Cynulliad ac i alluogi cynlluniau peilot yn defnyddio dulliau dyfeisgar o bleidleisio yn isetholiadau'r Cynulliad.

### Pwysleisio'r ochr gadarnhaol

**3.96** Er gwaethaf ffigyrau trist y nifer a bleidleisiodd, mae darganfyddiadau cadarnhaol o'n ymchwil barn. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o ddirywiad yn y diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Er gwaethaf y nifer bychan a bleidleisiodd, dywedodd ychydig dros hanner y sampl (59%) fod ganddynt ddiddordeb mawr/gweddol mewn gwleidyddiaeth – roedd y diddordeb uchaf ymhlith dynion, ymatebwyr canol oed a hŷn a'r rheini mewn cartrefi dosbarth canol. Mae'r canlyniad hwn yn debyg i'r 57% yn sampl Gymreig<sup>38</sup> Astudiaeth Etholiad Prydeinig 2001 a ddywedodd fod ganddynt ddiddordeb mawr iawn/tipyn o ddiddordeb a llawer o ddiddordeb/peth diddordeb cyffredinol mewn gwleidyddiaeth. Mae'r darganfyddiadau hyn yn ategu'r awgrym nad yw'r diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn dirywio, mewn gwrthwyneb i'r nifer sy'n pleidleisio.

**3.97** Mae hyn yn awgrymu bod diddordeb mewn materion yn uwch na'r diddordeb mewn etholiadau a bod angen i wleidyddion ac eraill wneud gwell cysylltiadau rhwng materion sy'n effeithio ar fywydau dyddiol pobl a phleidleisio

mewn etholiad. Roedd yn amlwg o'n grwpiau ffocws bod pobl yn aml yn teimlo'n gryf ynglŷn â materion gwasanaeth cyhoeddus, o fewn cwrpas cyfrifoldebau'r Cynulliad, sy'n dylanwadu ar eu bywydau a'u gwaith. Mae'n bosibl eu bod yn teimlo'n anfodlon, ond nad ydynt yn teimlo bod cymryd rhan yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn ffordd o fynegi'r anfodlonrwydd hwnnw nac yn fodd o ddatrys eu problemau.

**3.98** Roedd gwahaniaeth sylweddol o ran diddordeb yn ôl rhyw ac oedran. Dywedodd dynion fod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth na menywod (65% o'i gymharu â 54%) ar roedd diddordeb gryn lawer yn uwch ymysg y rhai dros 45 nag ymhlith yr ymatebwyr iau (69% o'i gymharu â 49%).

**3.99** Roedd pobl oedd â rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn fwy tebygol o fod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth (67%) na'r bobl ddi-Gymraeg (54%). Mae'n werth nodi nad yw arolygon yr etholiad cyffredinol yn awgrymu'r un math o raniad mewn diddordeb yn ôl grwpiau iaith, felly mae'r gwahaniaeth hwn eto yn debygol o adlewyrchu natur arbennig etholiad y Cynulliad.

**3.100** Nid yw'n syndod mai'r rheini oedd â'r diddordeb lleiaf mewn gwleidyddiaeth oedd y grŵp oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi pleidleisio yn etholiad y Cynulliad (dim ond 15% a ddaeth allan i bleidleisio ar 1 Mai).

**3.101** Cytunodd ymhell dros hanner y sampl (61%) â'r datganiad eu bod yn teimlo ei bod yn ddyletswydd arnynt i bleidleisio yn yr etholiad. Roedd y cytundeb yn cynyddu'n sylweddol gydag oedran ac roedd yn arbennig o gryf ymhlith y rhai dros 65 (75%). Cafwyd rhaniad cyfartal mwy neu llai mewn perthynas â chredu na fyddai pleidleisio yn gwneud llawer o wahaniaeth – roedd y rhai nad oeddynt yn pleidleisio yn llawer mwy tebygol o gytuno â hyn, 59% o gymharu â 29% o'r rhai a bleidleisiodd yn mis Mai.

### Beth ellir ei wneud?

**3.102** A oes gwahaniaeth mai'r nifer isel a bleidleisiodd oedd stori fwyaf etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi'r canlyniad gwleidyddol? Mae'r Comisiwn Etholiadol yn bendant yn credu hynny. Heb ymrwymiad y trigolion yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gymdeithas maent yn byw ynddi, ni ellir ystyried unrhyw ddemocratiaeth yn wirioneddol iach. Mae theorïau academaidd am gyfranogiad etholiadol hefyd yn tynnu sylw at ethol aelodau

<sup>38</sup> Astudiaeth Etholiad Prydeinig 2001, Sanders et al, www.essex.ac.uk/BES.

i unrhyw senedd neu gynulliad cyfansoddol yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn gyflwr angenrheidiol, er nad yn ddigonol, ar gyfer cymdeithas ddemocrataidd iawn; a dyna oedd wrth wraidd yr achos dros sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ethol yn ddemocrataidd.<sup>39</sup> Nid oes lle, felly, i deimlo'n fodlon.

**3.103** Rhag ofn bod unrhyw amheuaeth ynglŷn â difrifoldeb yr achos, ystyriwch eto nifer y bobl ifanc a bleidleisiodd yn yr etholiad hwn. Fel yr amlinellwyd uchod wrth adolygu nifer yr 'ieuenctid' a bleidleisiodd (go brin ei fod yn air priodol yn yr achos hwn), mae perygl i arfer ddatblygu ymhlith pobl ifanc i beidio â phleidleisio ymhlith y garfan o bleidleiswyr sy'n fwy sinigaidd ac amheugar ynglŷn â gwleidyddiaeth bleidiol na chenhedlaeth yn ôl. Gall arferion y garfan hon gymryd lle y niferoedd sy'n gostwng sy'n ystyried bod pleidleisio'n ddyletswydd sifil. Ni ellir cymryd yn ganiataol pan fydd y bobl iau yn cael swyddi sefydlog, morgeisi a theuluoedd, hynny yw mwy o ran mewn materion gwleidyddol sy'n effeithio arnynt yn bersonol, y byddant o reidrwydd yn magu'r arfer o bleidleisio. Mae'r ffaith bod graddau cyfranogiad isel iawn yn ymestyn yn arbennig yn yr etholiad hwn, nid yn unig i'r rhai dan 25 ond i fyny at y rheini oddeutu 35, yn dadlau yn erbyn y dybiaeth honno.

**3.104** Yr hyn sy'n amlwg o'r dadansoddiad hwn o'r nifer a bleidleisiodd yw bod nifer o ffactorau wedi cyfuno i ostwng y nifer a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, heb un ffactor yn dominyddu'r llall. Roedd rhai ffactorau yn unigryw, yn arbennig y sylw llywodraethol i Ryfel Irac ar gyfryngau'r Deyrnas Unedig – ond gall digwyddiadau neu drychinebau byd-eang neu fawr ddylanwadu ar unrhyw etholiad. Nid yw oedran na ffactorau demograffig yn debygol o newid yn ystod hynt un ymgyrch wleidyddol ond mae'n rhaid wynebu cyfranogiad yr ieuenctid yn yr hir dymor er mwyn cadw iechyd democrataidd yng Nghymru i'r dyfodol.

**3.105** Yn yr un modd, mae'n amlwg bod ffactorau ymgyrchu a natur yr ymgyrch yn 2003 wedi dylanwadu ar gyfranogiad y pleidleisiwr. Fel y gwnaeth y diffyg yn yr wybodaeth a'r lefelau cymharol isel o ymwybyddiaeth gyhoeddus. Gellir wynebu'r ffactorau hyn, ynghyd â'r angen am ddulliau mwy cyfleus o bleidleisio.

Rydym yn annog y rheini sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol, yn arbennig ymgeiswyr mewn etholiadau, gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun, i edrych yn ofalus iawn ar yr angen am gysylltu â'r etholwyr yng Nghymru ac ar y ffactorau mewn cyfranogiad pleidleiswyr y gellir eu hwynebu, yn y byr a'r hir dymor.

**3.106** O ran Y Comisiwn Etholiadol, amlinellwyd ym Mhennod 4 pa fesurau yr ydym yn eu cymryd i hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus. Rydym yn argymhell cyflwyno dulliau mwy cyfleus o bleidleisio. Rydym hefyd yn ystyried gwneud ymchwil gymharol (yn defnyddio astudiaethau achos rhyngwladol a domestig), gyda'r nod o adnabod enghreifftiau o arfer gorau o bleidiau gwleidyddol yn cysylltu â'r cyhoedd a byddwn yn trafod hyn gyda'r pleidiau gwleidyddol.

Rydym hefyd yn ystyried gwneud ymchwil gymharol gyda'r nod o adnabod enghreifftiau o arfer gorau o bleidiau gwleidyddol yn cysylltu â'r cyhoedd a byddwn yn trafod hyn gyda'r pleidiau gwleidyddol.

## Crynodeb o'r argymhellion

Rydym yn argymhell i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol fod angen cyflwyno deddfwriaeth i alluogi cyflwyno polau pleidlais bost yn unig yn etholiadau'r Cynulliad ac i alluogi cynlluniau peilot sy'n cynnwys dulliau dyfeisgar o bleidleisio yn isetholiadau'r Cynulliad.

Rydym yn annog y pawb sydd yn gysylltiedig ag etholiadau a'r broses etholiadol, yn arbennig ymgeiswyr etholiadol, gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun, i edrych yn ofalus iawn ar yr angen am gysylltu â'r etholwyr yng Nghymru a'r ffactorau mewn cyfranogaeth pleidleiswyr a ellir eu hwynebu, yn y byr a'r hir dymor.

Rydym hefyd yn ystyried gwneud ymchwil gymharol gyda'r nod o adnabod enghreifftiau o arfer gorau o bleidiau gwleidyddol yn cysylltu â'r cyhoedd a byddwn yn trafod hyn gyda'r pleidiau gwleidyddol.

<sup>39</sup> Er enghraifft, gweler adolygiad gan R. Wyn Jones a R. Scully (2003) yn J. Osmond and J. B. Jones (eds) *Genedigaeth Ddemocrataeth Gymreig*, Sefydliad Materion Cymreig.

# 4 Ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r cyfryngau

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd darparu gwybodaeth yn yr adroddiad hwn drosodd a throsodd. Mae'r bennod hon yn archwilio'r materion yn fwy manwl, gan edrych yn arbennig ar ddylanwad y cyfryngau – ffynhonnell wybodaeth allweddol ar gyfer y cyhoedd – ac ymgyrch ymwybyddiaeth y Comisiwn ei hun. Mae ein dadansoddiad yn defnyddio ymchwil annibynnol ar rôl y cyfryngau yn yr etholiad, sy'n cynrychioli'r arolwg mwyaf cynhwysfawr o sylw'r etholiad a wnaed hyd yma yng Nghymru.



Y sylw yn y papurau Cymreig i etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Ffynonellau gwybodaeth gyhoeddus

4.1 Asesodd ymchwil barn gyhoeddus NOP ar gyfer y Comisiwn i ba raddau y llwyddodd yr ymgyrch etholiadol i gyrraedd yr etholwyr, gan archwilio'r modd y cafodd aelodau'r cyhoedd eu gwybodaeth ynglŷn â'r etholiad. Dywedodd 90% eu bod wedi derbyn pamffledi neu lythyrau gwleidyddol y Cynulliad drwy eu blwch llythyrau. Mae mwy na hanner y sampl hefyd yn cofio gweld sylw neu ddarllediadau'r etholiad ar y teledu neu roeddynt yn cofio hysbysebion y Comisiwn yn annog pobl i bleidleisio.

Tabl 7: Yn ystod ymgyrch etholiad y Cynulliad pa un o'r canlynol, os oes un, oedd yn berthnasol i chi?

	I gyd %
Derbyn unrhyw bamffledi neu lythyron gwleidyddol drwy'r blwch postio	89
Gweld unrhyw sylw at yr etholiad ar y teledu	65
Gweld unrhyw ddarllediadau etholiadol unrhyw blaid ar y teledu	60
Gweld unrhyw un o hysbysebion y Comisiwn Etholiadol	60
Trafod yr etholiad gyda ffrindiau neu deulu	49
Darllen unrhyw faint o sylw'r etholiad yn y papurau newydd	47
Clywed unrhyw faint o sylw'r etholiad ar y radio	29
Derbyn galwad personol oddi wrth gynrychiolydd plaid	16
Defnyddio'r rhyngwyd i gael mynediad i wybodaeth ar yr etholiad	5
Dim un o'r rhain	1

*Yn seiliedig ar: i gyd = 1,153*

4.2 Mae rhai gwrthgyferbyniadau amlwg rhwng y darganfyddiadau hyn a chanlyniadau ymchwil etholiad 2001 ar gyfer y Comisiwn adeg yr etholiad cyffredinol. Er enghraifft, roedd y ganran a welodd sylw at yr etholiad ar y teledu 24% yn is yn etholiad y Cynulliad nag yn arolwg barn San Steffan. Roedd gostyngiad nodedig tebyg yn y niferoedd a oedd wedi darllen sylw i'r etholiad yn y papurau newydd. Mae'r ffaith bod yr un nifer yn cofio pamffledi etholiadol drwy'r drws yn 2003 a 2001 yn awgrymu bod y cyfryngau wedi ymdrin ag ail etholiad y Cynulliad mewn ffordd lawer llai cynhwysfawr na'r etholiad cyffredinol.

4.3 Ar y cyfan, teimlai'r grwpiau ffocws fod sylw'r cyfryngau i'r etholiad yn gyfyngedig ac nad oedd wedi rhoi teimlad o gyffro na disgwyliad i'r etholiad.

Roedd ganddo broffil isel mewn gwirionedd, fel arfer pan fo rhywbeth fel hyn yn digwydd rwy'n sylweddoli ei bwysigrwydd. Ni chawsom yr wybodaeth gywir amdano, roedd yn wael iawn. Cawsom ychydig o bamffledi drwy'r drws a dyna ddiwedd ar y peth.

Byddai llawer mwy o sylw ar y BBC pe tai Etholiad Cyffredinol hefyd, felly byddem yn gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd.

Un na phleidleisiodd, Caernarfon, benyw

## Swyddogaeth y cyfryngau yn yr etholiad

**4.4** Mae gan y cyfryngau rôl amlweddol mewn unrhyw Etholaeth. Mae'n darparu ffynhonnell allweddol o wybodaeth i'r cyhoedd, ac mae sicrhau sylw yn y cyfryngau yn ganolog i ymgyrchu pleidiau gwleidyddol. Cyhuddodd gwleidyddion y cyfryngau yn ystod ac wedi ymgyrch etholiad y Cynulliad Cenedlaethol o esgeuluso'r ymgyrch a chanolbwyntio'u sylw ar y nifer isel a bleidleisiodd. Wrth ystyried cwestiwn cyfranogiad gan bleidleiswyr a'r nifer a bleidleisiodd, mae'n amhosibl anwybyddu rôl y cyfryngau.

**4.5** Felly a gafodd y cyhoedd wasanaeth da gan y cyfryngau yn ystod ymgyrch yr etholiad? Comisiynwyd ymchwil ar sylw'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ceisio ateb y cwestiwn hwn a chwestiynau perthnasol ynglŷn â rôl y cyfryngau. Ymgymerodd James Thomas, John Jewell a Stephen Cushion o Fforwm Cyfryngau Cymru yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd ag astudiaeth ymchwil helaeth ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

**4.6** Roedd eu dadansoddiad yn seiliedig ar fonitro sylw'r cyfryngau i'r etholiad, yn wreiddiol rhwng 1 a 13 Ebrill ac yn fwy helaeth rhwng 14 Ebrill–2 Mai. Roedd eu hymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad cynnwys meintiol a dadansoddiad ansoddol mwy manwl o'r sylw yn y cyfryngau, wedi'u cyfuno ag arolwg ehangach o'r llenyddiaeth academaidd ac eraill a'r defnydd o ystadegau cynulleidfa diwydiant swyddogol i ddarparu crynodeb diweddaraf o sail y gynulleidfa. Cafodd dros 900 o eitemau newyddion ynglŷn â'r etholiad eu cynnwys yn yr ymchwil. Monitryd y teledu Prydeinig a Chymreig a phapurau newydd y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod, ynghyd â detholiad o bapurau newydd eraill er mwyn sicrhau'r uchafswm cwrmpas daearyddol, cylchrediad, cynnwys ac iaith. Cafwyd astudiaeth ffocws ar y radio, yn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus allweddol a bwletinau newyddion

masnachol yng Nghymru. Adroddodd yr ymchwil ar ehangder, ansawdd ac amrywiaeth y newyddion oedd ar gael ac a dreuliyd gan gynulleidfaoedd yng Nghymru ar lefel Brydeinig, cenedlaethol a lleol.

## Darganfyddiadau allweddol

**4.7** Mae'r pwyntiau allweddol canlynol yn seiliedig ar yr ymchwil a wnaed gan Thomas, Jewell a Cushion. Mae adroddiad llawn yr ymchwil ar gael ar [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk) neu ar gais oddi wrth Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru.

## Ffynonellau y newyddion ynglŷn â'r etholiad

**4.8** Roedd teledu ymhell ar y blaen fel ffynhonnell allweddol y newyddion ar yr etholiad. Darganfu'r ymchwil barn wedi'r etholiad a wnaed gan NOP ar ran y Comisiwn Etholiadol<sup>40</sup> fod teledu'n cael ei ddefnyddio gan 65% o'r etholaeth yng Nghymru ar gyfer newyddion yr etholiad, o'i gymharu â 47% yn achos papurau newydd, 29% yn achos y radio a 5% yn unig yn achos y rhyngwrdd. Darganfu arolwg barn ar wahân a gomisiynwyd gan y BBC a'i arwain yn annibynnol gan Beaufort Research Ltd fod 42% yn cael eu newyddion am yr etholiad gan BBC 1 Wales, ac yna 25% gan HTV. Defnyddiwyd papurau newydd dyddiol y bore yn llai, gyda 9% yn achos y *Welsh Mirror*, 7% yn achos y *Western Mail* a 5% yn achos y *Daily Post*, tra bod y defnydd o radio BBC Wales hefyd yn isel (6%). Ychydig dros 1% yn unig a ddefnyddiodd BBCi Wales, y gwasanaeth rhyngwrdd, tra bod y defnydd o gyfryngau'r iaith Gymraeg hefyd wedi'i gyfyngu i leiafrif bychan o siaradwyr Cymraeg hyd yn oed, gyda dim ond 9% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio S4C fel ffynhonnell newyddion. Defnyddiwyd Ceefax a Teletext gan 4% o'r boblogaeth.

## Ymgyrch saith niwrnod y cyfryngau

**4.9** Ymdriniodd y cyfryngau â'r ymgyrch fel 'etholiad eilradd' a oedd, ar y cyfan, yn derbyn amlygrwydd isel. Hyd at benwythnos y Pasg, roedd y wasg Brydeinig wedi'i dominyddu gan sylw i Ryfel Irac. Wedi hynny, ar draws y cyfryngau, roedd 'effaith Blair' yn weledol yn ymgyrch saith niwrnod y cyfryngau. Cynhyrchodd ymweliad y Prif Weinidog â Chymru wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ddyblod yn y straeon am yr etholiad ac, wedi'r ymweliad, dyblodd y sylw o'i gymharu â'r cyfnod cyn hynny. Roedd amlygrwydd isel yr etholiad hefyd yn weledol yn y nifer cyfyngedig o benawdau

<sup>40</sup> Mae adroddiad llawn ar y canfyddiadau ar gael ar [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk).

neu straeon blaenllaw ar draws yr ymgyrch. Ymddangosodd yr etholiad mewn 15% yn unig o'r straeon blaenllaw ar y teledu neu'r wasg ddyddiol Gymreig yn ystod y cyfnod rhwng 14 Ebrill ac 1 Mai.

### Nodweddion strwythurol y cyfryngau yng Nghymru

**4.10** Dwysawyd amlygrwydd isel yr etholiad ymhellach gyda nodweddion strwythurol gwaelodol system y cyfryngau yng Nghymru. Yn hinsawdd newyddion cyffredinol o 'ddigonedd', lle mae'n hawdd taro i mewn i'r newyddion, mae'n hawdd osgoi newyddion ynglŷn â Chymru a gwleidyddiaeth Cymru. Mae gwasg ddyddiol y Deyrnas Unedig yn dominyddu'r farchnad Gymreig tra bod papurau Gymreig, er gwaethaf eu rhinweddau i gyd, â chylchrediad ac adnoddau cyfyngedig.

**4.11** Yn y blynyddoedd diweddar gwelwyd dirywiad yn y gynulleidfa ar gyfer prif fwletinau newyddion Cymreig, oherwydd tyfiant treiddiad lluosog-sianeli (sydd erbyn hyn yn cyrraedd 57% o bobl), ac ymlediad radio masnachol sy'n cynnwys ychydig o newyddion, tra bod defnydd y rhyngwyd fel ffynhonnell newyddion wedi'i gyfyngu i'r lleiafrif.

**4.12** Mae nifer o bobl yn derbyn eu newyddion o ffynonellau yn seiliedig yn y Deyrnas Unedig ac yn syml nid yw niferoedd sylweddol o bobl yn derbyn newyddion ynglŷn â Chymru. Ychydig iawn o newyddion ynglŷn ag etholiad y Cynulliad Cenedlaethol oedd yn y papurau newydd ledled y Deyrnas Unedig.

**4.13** Un maes mwy penodol sydd wedi achosi pryder yn y gorffennol yw'r ffaith bod oddeutu 35-40% o'r boblogaeth yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd lle mae trosglwyddyddion teledu yn gorgyffwrdd lle gellir derbyn teledu Saesneg hefyd. Y prif ardaloedd gorgyffwrdd yw De Ddwyrain Cymru, lle gall gwylwyr dderbyn gwasanaeth BBC ac ITV o drosglwyddydd yng Ngorllewin Lloegr, Gogledd Ddwyrain Cymru lle gall gwylwyr dderbyn Granada a BBC North West a rhannau o ffiniau canolbarth Cymru.

**4.14** Mae penderfynu yn union ar yr hyn mae pobl yn ei wneud yn yr ardaloedd gorgyffwrdd hynny lle mae'r potensial i diwnio allan o Gymru yn rhywbeth sy'n fwy anodd ei binbwyntio. Mae darlledwyr heddiw yn awgrymu bod y sefyllfa yn llai difrifol na'r hyn ydoedd, oherwydd y cynnydd yn y defnydd o sianeli lluosog yng Nghymru (yn awr yn cyrraedd 57% o bobl) yn arbennig lloeren ddigidol. Canlyniad hyn yw bod gwylwyr yn derbyn newyddion yn

awtomatig o'r ardaloedd côd post y maent yn byw ynddynt, ac yn derbyn BBC Wales yn hytrach na'r bwletinau Saesneg yr oeddynt yn eu derbyn gyda theledu daearol. Er gwaethaf hynny, mae gwylwyr mewn cartrefi sianeli lluosog yn dueddol o wyllo llai o newyddion.

**4.15** Mae amcangyfrifon cyffredol y BBC, yn seiliedig ar ddata annibynnol BARB, yn awgrymu bod cyfran y bobl yng Nghymru sy'n derbyn gwasanaethau newyddion Cymru wedi cynyddu o 75% i 88%.

**4.16** Ar yr un pryd nid oes gwasg genedlaethol gystadleuol i Gymru gyfan. Mae yna ddau gyhoeddiad sydd yn eu hanfod yn rhanbarthol yn eu darllenwyr. Mae cylchrediad y *Western Mail* yn seiliedig yn y de ac mae'r *Daily Post* yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar y gogledd. Gellir cymharu absenoldeb gosodiad agenda gref set o bapurau newydd â'r Alban, lle mae 85% o bapurau a gynhyrchir yno yn cael eu darllen yno. Yng Nghymru, mae dros 85% o bapurau a brynir yn cael eu cynhyrchu mewn man arall.

**4.17** Adolygodd ein hymchwylwyr cyfryngau sylw i'r etholiad gan y *Welsh Mirror* a daethant i'r casgliad, er gwaethaf yr hyn y gellir ei ddweud am ei sylw, efallai mai'r peth pwysicaf ynglŷn â'r *Welsh Mirror* yw'r ffaith ei fod yn bodoli, fel cyhoeddiad poblogaidd yn seiliedig yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys peth sylw i wleidyddiaeth Cymru. Mae'n anffodus felly, ers i'n hymchwil ar y cyfryngau gael ei gwneud, fod y *Trinity Mirror* wedi cyhoeddi ei fod yn dod â'r *Welsh Mirror* i ben ar sail cost.

**4.18** Mae canlyniadau nodweddion strwythurol y cyfryngau hyn ac amlygrwydd isel yr ymgyrch, yn golygu ei bod yn eithaf hawdd osgoi newyddion yr etholiad hyd yn oed os oeddech yn ddefnyddiwr eithaf trwm o newyddion cyffredinol. Adlewyrchir hyn yn y ffaith nad oedd o leiaf draean o'r etholwyr a mwy yn ôl pob tebyg, fel petaent yn defnyddio unrhyw ffynonellau newyddion o gwbl am wybodaeth ynglŷn â'r etholiad.

### Amlygrwydd cyfyngedig - ond sylw helaeth

**4.19** Er gwaethaf amlygrwydd cyffredinol isel yr ymgyrch, roedd swm sylweddol o newyddion ar gael i'r etholwyr. Ar y teledu roedd BBC Wales yn rheolaidd yn neilltuo traean o brif fwletin y noson i'r etholiad. Roedd newyddion S4C, a gynhyrchir gan y BBC hefyd, yn rhoi hyd yn oed fwy o le i'r ymgyrch. Roedd bwletin 'BBC Wales Today' yn rhoi dwy a

hanner gwaith yn fwy o newyddion ar yr etholiad nag HTV, er bod yr olaf wedi profi yn fwy parod i rhoi lle mwy blaenllaw i newyddion yr etholiad ac fe gynyddodd ei sylw yn sylweddol i oddeutu 25% o'i bwletinau yn ystod y saith diwrnod olaf.

**4.20** Roedd y ddwy sianel hefyd yn darlledu dwy raglen gyfoes yr wythnos yn ystod yr etholiad gan gynnal rhaglenni canlyniadau arbennig ar noson yr etholiad. O ran y papurau newydd y *Western Mail* a roddodd y sylw mwyaf, gyda'r Daily Post yn ail. Roedd papurau dyddiol gyda'r nosau i gyd hefyd yn rhoi sylw sylweddol, ac roedd y sylw yn y wasg leol wythnosol Saesneg yn amrywio, tra oedd y wasg Gymraeg hefyd yn rhoi sylw sylweddol i'r etholiad. Cynigiodd *The Welsh Mirror* sylw cyfyngedig ond bywiog a lliwgar a chynyddol yn sylweddol yng nghyfnod olaf yr ymgyrch. Roedd swm mawr o newyddion y radio ar gael ar y BBC – er nad ar y radio masnachol. Darparodd HTV, Trinity Mirror ac yn fwyaf nodedig y BBC wasanaethau newyddion eithaf trawiadol ar-lein.

### Arolygon barn

**4.21** Yr unig sefydliad i gomisiynu arolygon barn i brofi'r gefnogaeth gyhoeddus dros wahanol bleidiau yn ystod yr ymgyrch oedd HTV a darparodd y rhain straeon blaenllaw iawn yn eu bwletinau gan gynhyrchu sylw ehangach. Byddai arolygon barn pellach wedi cynyddu amlygrwydd sylw'r cyfryngau. Mae polisi'r BBC yn Llundain wedi penderfynu na ddylai BBC Wales gomisiynu arolygon barn yn dangos bwriad y pleidleiswyr. Daeth ein hymchwilyr i'r casgliad y gellir dadlau bod y polisi canolog hwn yn cyfyngu ar gwmpas a hyblygrwydd BBC Wales i gysylltu'n llawn â gofynion unigryw y mae ar ddatganoli eu hangen wrth hysbysu a chysylltu â chynulleidfaoedd lleol. Mae hyn yn arbennig o wir yma yng Nghymru o ystyried safle llywodraethol iawn y sefydliad o fewn y system gyfryngol yma.

### Edrychwch pwy sy'n siarad

**4.22** Roedd sylw etholiad y cynulliad yn ailadrodd patrymau blaenorol wrth roi mwy o sylw i'r ymgyrch ei hun nag amlinellu polisïau'r pleidiau. Roedd deugain a phedwar y cant o'r straeon am bolisïau, o gymharu â 54% am y broses ymgyrchu. Iechyd, yna'r economi, addysg a'r amgylchedd oedd y polisïau a gafodd y prif sylw. Nid yw'n fawr o syndod i'r sylw gael ei ddominyddu gan y pedair prif blaid a phedwar arweinydd y pleidiau

**4.23** Er gwaethaf datblygiad merched yn yr etholiadau a hyd yn oed o eithrio pedwar arweinydd y pleidiau (gwryw), dyfynnwyd gwleidyddion gwrywaidd (77%) lawer yn fwy na gwleidyddion benywaidd (23%). Ymhlith aelodau'r cyhoedd a gynrychiolwyd yn sylw'r cyfryngau, rhoddodd y wasg Gymreig lawer yn fwy o amlygrwydd i ddynion (65%), ond rhoddodd newyddion y teledu fwy o sylw i ferched (53%) na dynion. O ran ethnigrwydd, er gwaethaf rhai eithriadau pwysig, roedd y delweddau o drigolion Cymreig a gwleidyddiaeth Gymreig yn sylw'r cyfryngau yn parhau bron yn gyfyngedig wyn ac amddifad o gymunedau ethnig lleiafrifol.

### Etholiad ar gyfer JG nid BB

**4.24** Ardal arall o ddiddordeb arbennig ar gyfer y Comisiwn ac ar gyfer unrhyw un sy'n pryderu am gyfranogiad pleidleiswyr yw sut i ailgysylltu â'r rhai sydd wedi datgysylltu – sut i gyrraedd y rheini sydd heb unrhyw ddiddordeb yn yr etholiad. Y cwestiwn allweddol yw i ba raddau mae'r cyfryngau yn cyrraedd y rhai sydd wedi datgysylltu a throsglwyddo'r negeseuon hyn.

**4.25** Dywedodd adroddiad diweddar yr Hansard Society (2003) y gellir adnabod dau grŵp eang ymhlith yr etholwyr, y Jyncis Gwleidyddol (JG) sy'n gwylio 'Newsnight' a ffans 'Big Brother' (BB) sydd heb unrhyw ddiddordeb yn system y pleidiau a rhaglenni newyddion cyfredol ond nad ydynt o reidrydd wedi troi eu cefnau ar wleidyddiaeth. Yn bendant roedd y sylw ar etholiad y Cynulliad bron yn gyfan gwbl ar gyfer y JG. Pan wnaeth Fforwm Cyfryngau Cymru ymchwil ar ba un a oedd straeon yn ddirifol neu'n ysgafn, gwelsant fod 95% yn ddirifol a bod, yn gyffredinol, llawer yn llai o sylw ar gael yn arddull poblyddwyr, dychanol a thabloid ar gyfer darllenwyr a gwylwyr.

**4.26** Cafwyd hefyd ychydig iawn o wybodaeth 'bersonol' am arweinyddion y prif bleidiau. Gellir dadlau bod y sefyllfa yn llawer mwy traddodiadol yn nhermau'r sylw yng Nghymru o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig, lle mae dychan gwleidyddol ar y teledu, er enghraifft, fel petai'n ffynhonnell allweddol o newyddion ar gyfer y bobl iau sydd wedi troi'u cefnau ar y modd mae'r cyfryngau confensiynol yn 'gwneud' gwleidyddiaeth.<sup>41</sup> Ar gyfer rhai, mae diffyg yr arddull hon yng nghyfyngau Cymru yn cynnig sicrwydd sydd ei angen yn fawr nad yw sylw'r wasg wedi bychanu dadl yr etholiad.

<sup>41</sup> I. Hargreaves a J. Thomas (2002) *Newyddion Newydd, Hen Newyddion*. ITC/BSC.

**4.27** Ond diwedd y gân yw nad yw'r math hwn o sylw yn syml yn cyrraedd canran sylweddol o'r bobl. Darganfu'r ymchwil ansoddol a wnaed ar gyfer y Comisiwn Etholiadol gan NOP nad oedd sylw yn cael ei gyfrif yn atyniadol nac yn cysylltu â neb ond y rheini sydd â mwyaf o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Teimlai'r bobl iau yn arbennig fod sylw yr etholiad a sylw ar y Cynulliad yn gyffredinol heb fod yn ddiddorol iddynt, tra teimlai nifer nad oeddynt wedi tynnu gwybodaeth a fyddai'n eu cynorthwyo i fod â barn ar yr etholiad. Roedd canfyddiad bod sylw'r teledu yn ddiflas ac yn anodd ei ddeall o ganlyniad i'r iaith a ddefnyddiwyd ac fe'i gwelwyd fel rhywbeth ar gyfer yr elite yn hytrach na'r bobl gyffredin. Dadleuodd un aelod o'r grŵp ffocws: 'defnyddiwch bobl fel ni, sy'n swnio fel ni, ac nid mewn siwt. Rhywun sydd wedi bod ar y dŵl, sydd wedi profi bywyd go iawn'.

**4.28** Un broblem a nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn yw nad yw pobl yn teimlo eu bod yn gwybod rhyw lawer am sut mae'r Cynulliad yn gweithio na'r hyn mae'n ei wneud. Mae ymchwil ansoddol NOP yn y grwpiau ffocws yn atgyfnerthu darganfyddiadau *Cymru'n pleidleisio?* – hynny yw, canfyddiad ymhlith pobl bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth isel am y Cynulliad o ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael. Gwelsant fod angen mawr am ffynhonnell wybodaeth 'gadarn' ar brif weithgareddau'r Cynulliad, a dadansoddiad o'i gyfrifoldebau meysydd ei wariant.

**4.29** Yn yr ystyr hwn, daeth ymchwilwyr Fforwm Cyfryngau Cymru i'r casgliad bod y broblem real yn gorwedd yn y ffaith bod y sylw i wleidyddiaeth Gymreig yn 'cael ei chwarae i lawr' ond nad yw 'lawn ddigon'. Mae'n honni nad yw lefel gwybodaeth rhywun mewnol am y byd gwleidyddol yn cael ei rhannu gan niferoedd mawr o bobl. Mae cwyn tebyg wedi cael ei wneud ers amser maith ynglŷn â newyddion teledu Prydeinig ac mae hyn yn esbonio'n rhannol boblogrwydd rhaglen newyddion i blant 'Newsround' ymhlith oedolion (mae 70% o'i gynulleidfa dros 16<sup>42</sup>), lle mae pob adroddiad yn cymryd yn ganiataol nad oes gan y gynulleidfa unrhyw lefel o wybodaeth.

**4.30** Mae creu cynulleidfa iau ar gyfer newyddion a rhaglenni materion cyfoes wedi bod yn bryder i ddarlledwyr yn y Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd diweddar. Yn bennaf oherwydd y dirywiad yn nifer y bobl iau sy'n gwyllo'r

newyddion (hyd yn oed os mai'r wir broblem yw nad ydynt erioed wedi gwyllo rhaglenni newyddion mewn niferoedd mawrion beth bynnag). Mae darlledwyr yng Nghymru wedi arbrofi gyda rhaglenni materion cyfoes newydd megis 'First Past the Post' HTV, a'i nod oedd dod o hyd i ymgeisydd etholiadol o blith y 'bobl gyffredin'.

**4.31** Mae 'Politics Show' newydd y BBC, amser cinio dydd Sul, sydd ychydig yn iau ei naws â fersiwn 20 munud o Gymru wedi'i gyflwyno gan Rhun ap Iorwerth, tra bod 'Dragon's Eye' yn cynnig math mwy poblogaidd o wleidyddiaeth i'w gwylwyr. Mae BBC Wales yn cynnig nifer o newyddbethau etholiadol ar y radio y mae'n ystyried eu datblygu ar gyfer y teledu ar gyfer etholiadau'r dyfodol. Ceisiodd 'The People's Champion', eitem nodwedd reolaidd ar y rhaglen foreol boblogaidd 'Good Morning Wales', egluro pryderon y werin bobl drwy eu hannog i gysylltu â newyddiaduron y rhaglen, a aeth â'u hagenda at y gwleidyddion yn eu tro. Hefyd fe ddatblygodd Radio Wales News broffil sef 'The Street' a oedd yn defnyddio trigolion stryd yn Abertawe i ddangos materion allweddol yn ystod yr ymgyrch.

**4.32** Ond mae'r achos yn parhau bod y rhaglenni hyn, a'r cyfryngau Gymreig yn gyffredinol, yn siarad yn bennaf â'r rhai sydd wedi'u hargyhoeddi. Yn ei hanfod mae'r cyfryngau yn rhoi gwybodaeth i'r rheini sy'n weddol gyfarwydd ac sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Nid yw'n gwneud cystal wrth gyrraedd y niferoedd sylweddol hynny (gellir dadlau, mwyafrif yr etholaeth Gymreig) sydd y tu allan i'r ddolen hon. Os nad yw'r system bresennol ond yn darparu ar gyfer y grwpiau mwy llewyrchus ac sydd wedi'u haddysgu'n dda, yna mae angen i'r gwasanaeth darlledu cyhoeddus (oherwydd mewn dyma'r gwirionedd unig le y gall neu y bydd unrhyw fenter newydd yn dod ohono) ymestyn allan y tu hwnt i'r cylch hwn i sicrhau bod niferoedd mwy yn cael eu hysbysu am Gymru a gweinyddiaeth Cymru. Mae rhaglenni materion cyfoes megis rhaglen gyngor y prynwr HTV 'The Ferret' wedi bod yn llwyddiannus o ran denu cynulleidfaoedd mawr. Y dasg yw trosglwyddo'r llwyddiant hwn i wleidyddiaeth.

**4.33** Mae ailgysylltu gyda mwyafrif etholwyr Cymru nad ydynt wedi'u hysbysu'n dda ac nad ydynt â diddordeb yn parhau yn dasg enfawr i bawb sy'n gysylltiedig â wleidyddiaeth yng Nghymru. Mae tystiolaeth o'n ymchwil

<sup>42</sup> Ibid.

yn awgrymu'n gryf na ddylai darlledwyr adael i gyhuddiadau o 'chwarae i lawr' gan y rheini sydd wedi'u hysbysu i'w rhwystro rhag cyrraedd y rheini nad ydynt wedi'u hysbysu ac i ddarparu arddulliau ac ymdriniaethau mwy poblogaidd, sylfaenol, personol, tabloid a dychanol i gyd fynd â'u sylw traddodiadol, lle bo'n briodol.

### 'Difaterwch', y cyfryngau a'r etholaeth

**4.34** Roedd 'difaterwch' yn thema allweddol yn ystod sylw'r etholiad, gan gyfrif am oddeutu 10% o'r straeon i gyd ac yn is-thema i nifer mwy. Dylid nodi, serch hynny, bod y defnydd o'r term 'difaterwch' yn y cyfryngau yn llwythog. Mae sôn am 'ddifaterwch' y pleidleisiwr yn awgrymu bod bai ar y pleidleisiwr am eu diffyg cyfranogiad mewn etholiadau, yn hytrach nac ar wleidyddion am eu methiant i gysylltu â'r etholwyr. Er mwyn deall yn llawn y gwir achosion am y diffyg cyfranogiad, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y gwir ddifater (e.e. diog) a'r rheini sydd yn agored i gael eu hysbrydoli a'u perswadio i bleidleisio.

**4.35** Beth bynnag fo'r semanteg, roedd cyfeiriadau at ddifaterwch yn niferus yn sylw'r cyfryngau. Mae'r cwestiwn a gynorthwyodd y cyfryngau i 'creu difaterwch' wedi bod yn bwnc llosg, lle nad oes ateb syml. Gellir gweld enghraifft – a nodwyd gan ein hymchwilyr – o arddull nodweddiadol o adrodd yn yr etholiad mewn adroddiad etholiadol ar deledu'r BBC o Fro Morgannwg a oedd yn cynnwys isadran ar farn y bobl am eu diddordeb yn yr etholiad. Ymhlith y sylwadau oedd: 'Nid oes gen i fawr o ddiddordeb yn y Cynulliad a'r hyn sy'n digwydd yno', 'Byddwn i'n meddwl bod 98% o bobl yn dioddef o ddifaterwch llwyr'. Yn yr un modd, adroddodd newyddion HTV o farchnad Glyn Ebwy fod 'dulliau gwerthu pobl y farchnad yn profi yn fwy deniadol nag addewidion etholiad y gwleidyddion'.

**4.36** Adroddodd 'BBC Wales Today' o Aberhonddu i geisio darganfod a allai pleidleisiwr adnabod ymgeisiwr y pleidiau. Rhodri Morgan a oedd yn cael ei adnabod amlaf a Nick Bourne leiaf – 'dim syniad' medd un dyn – a phan ofynnwyd am farn y bobl ar union gyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol, dangoswyd ychydig iawn o wybodaeth. Aeth ei gohebydd i 'Assembly Road' yn Wrecsam i ganfasio barn y bobl. Roedd yr adroddiadau hyn yn dangos amrywiaeth o farnau, o gwynion am esgeulustod tuag at ogledd Cymru, teimladau 'nad oeddynt yn gwrando ar y bobl gyffredin' a rhai sylwadau mwy cadarnhaol megis 'os nad ydych yn pleidleisio, nid ydych yn trosglwyddo'ch neges'.

**4.37** O bryd i'w gilydd, roedd sianeli'r cyfryngau i gyd yn ymddangos i fod yn llithro i'r stori difaterwch rhagosodedig a oedd yn cyfyngu ar farnau eraill am yr etholiad. Ymateb un ferch a gafodd ei chanfasio ar 'BBC Wales Today', er syndod amlwg i'r newyddiadurwr, oedd y byddai'n pleidleisio. Gofynnwyd iddi'n syth wedyn, nid ynglŷn â'i chymhelliad na'r materion a oedd yn bwysig iddi, ond 'Pam...pam rydych chi'n meddwl nad yw pobl yn mynd i drafferthu pleidleisio?'. Mewn un rhifyn o'r Daily Post yn ystod yr etholiad cafwyd tudalen am yr etholiad, a oedd wedi'i wneud yn gyfan gwbl o dair stori ar wahân, i gyd yn sôn am ddifaterwch y pleidleisiwr fel y thema, gyda'r brif nodwedd yn ailgylchu arolwg barn bythefnos oed fel stori newyddion. Roedd yr un peth i'w weld yn amlwg ar draws y cyfryngau eraill a samplwyd.

**4.38** Mae pwyslais o'r fath, fel y nododd Golygydd Gwleidyddol y BBC David Williams yn ystod yr ymgyrch, yn pryfocio cyhuddiadau gan wleidyddion bod newyddiadurwr yn euog o fynd o amgylch y wlad yn 'creu difaterwch'.<sup>43</sup> Ond wrth fyfyrto ar y dilema ar 'Sut i adrodd ar y difaterwch heb gael eich cyhuddo o'i greu,' gwrthododd Williams y farn fel nonsens a bod dweud bod pobl yn ddifater yn gwneud pobl yn fwy felly a phwysleisiodd na fyddai'r bobl sy'n wirioneddol ddifater yn gwylio beth bynnag.

**4.39** O'r safbwynt hwn, gellir dadlau bod sylw'r teledu i'r difaterwch yn syml yn ei adlewyrchu, yn wir mewn sawl agwedd yr oedd yn rhy gynnil. Gellir dadlau bod deg y cant o adroddiadau ar ddatgysylltu yn nifer isel iawn ar y thema o ystyried na wnaeth 63% o'r boblogaeth bleidleisio. Mae'r syniad bod y cyfryngau ryw ffordd yn 'gwneud' pobl yn ddifater hefyd yn seiliedig ar syniad nawddoglyd o effeithiau'r cyfryngau ar y tyrfaoedd sy'n cynnig ychydig o ddealltwriaeth o'r ffordd gymhleth mae pobl yn rhyngweithio gyda negeseuon y cyfryngau.

**4.40** Mae'r ddadl rhwng y gwleidyddion a'r cyfryngau hefyd yn adlewyrchu'r drafodaeth ehangach o fewn llenyddiaeth academiaidd ar berthynas y cyfryngau â gwleidyddiaeth a phleidleisio. Dadl boblogaidd ac academiaidd amlwg iawn yn y blynyddoedd diweddar yw bod cyfryngau wedi'i 'chwarae i lawr' yn cyffroi ac yn diddanu yn hytrach na hysbysu. Dywed y ddadl eu bod yn tanseilio ymddiriedaeth y dinasyddion mewn democratiaeth drwy newyddiaduraeth ymosodol negyddol a sinigaidd ac maent yn gyfrifol am lawer o'r difaterwch, dieithrwyd, sinigrwydd a'r diffyg

<sup>43</sup> D. Williams (2003) 'Creu difaterwch'. *Agenda*, Sefydliad Materion Cyfoes, yr haf.

ymddiriedaeth sy'n treiddio i agweddau poblogaidd tuag at wleidyddiaeth fodern. Yn y dadansoddiad hwn, mae cyfathrebu torfol modern yn arwain at yr hyn sydd wedi'i alw yn Saesneg yn 'mediamalaise' o ddinasyddion difater, heb wybodaeth gywir ac sydd wedi creu 'argyfwng o gyfathrebu cyhoeddus' democrataidd.

**4.41** Er ei bod yn bosibl awgrymu y gwrthwyneb yn llwyr – bod gan y cyfryngau rôl gadarnhaol yn hytrach na negyddol i'w chwarae wrth wella cysylltiad a chyfrifoldeb democrataidd y dinasyddion. Mae cyfathrebu torfol modern wedi rhoi mynediad i ddinasyddion, am bris isel, i newyddion gwleidyddol mwy ac o well ansawdd nag erioed o'r blaen, ac mae ganddo'r effaith o addysgu a pharatoi'r dinasyddion yn wleidyddol. Yn y dadansoddiad amgen hwn, mae'r cyfryngau yn tiwnio pobl i mewn i newyddion yr etholiad, gan atgyfnerthu diddordeb y bobl yn eu pwnc gan greu cylch daionus o ddinasyddion hysbys. Mae ganddynt llai o bŵer i greu cylch dieflig negyddol sy'n atgyfnerthu barnau dinasyddion heb wybodaeth gywir, yn syml gan fod yr olaf yn llai tebygol o fod yn talu fawr o sylw.

**4.42** Mae darganfyddiadau ymchwil barn NOP yn awgrymu'n gryf bod cysylltiad clir a chadarnhaol – er nad yw'n gyswllt achosol – rhwng defnydd y cyfryngau a phleidleisio. Os oeddech chi wedi darllen, gwrandao neu wyllo'r newyddion am yr etholiad, yna roeddech yn fwy tebygol yn hytrach na llai tebygol o bleidleisio.

**4.43** Roedd 78% o'r pleidleiswyr a holwyd yn gwylio sylw'r etholiad ar y teledu o gymharu â 57% yn unig o'r rhai na wnaeth bleidleisio. Roedd y rheini a oedd yn darllen newyddion yr etholiad yn y papurau newydd hyd yn oed yn fwy tebygol o bleidleisio na'r rhai nad oeddynt. Mae hyn i gyd yn profi bod cydberthynas rhwng pleidleisio a defnydd y cyfryngau yn hytrach nag achosiad. Mae'r cwestiwn a yw pleidleiswyr yn fwy tebygol o diwnio i newyddion yr etholiad, neu ba un a yw newyddion yr etholiad yn annog pobl i bleidleisio yn parhau yn gwestiwn agored, er mai'r ateb mwyaf credadwy yw fod y ddwy broses yn digwydd.

**4.44** Ond roedd yna sawl pwynt y gellid eu gwneud am ffocws y cyfryngau ar y stori difaterwch. Yn bendant cafwyd diffyg cyd-destun a oedd weithiau'n llwyr gyflwyno problem ehangach o ddatgysylltiad dinasyddion yn unigryw i Gymru neu yn hollol oherwydd methiant gwleidyddion Cymreig neu'r prosiect datganoli i gysylltu â phobl y wlad. Yn ail, mae'n amheus pa un a oedd ffocws gwaelodol ar y mater

hwn yn debygol o gysylltu â'r etholwyr. Efallai fod y sylw wedi adlewyrchu'r ymdeimlad ehangach o ddieithrwch, ond mae'n parhau yn amheus pa un a yw dweud wrth y boblogaeth pa mor ddatgysylltiedig neu heb wybodaeth gywir ydynt yn mynd i wneud rhyw lawer i'w gwneud yn llai difater neu anwybodus.

**4.45** Byddai ffocws mwy ar union pam oedd yr etholwyr yn teimlo fel hyn a beth ellir ei wneud i'w oroesi wedi bod yn llawer anos, ond efallai y byddai wedi bod yn fwy cynhyrchiol. Cafwyd ychydig iawn o drafodaethau ar yr awyrgylch poblogaidd a oedd yn ceisio annerch yn fwy cadarnhaol yn union yr hyn yr oedd ar bobl ei eisiau gan eu gwleidyddion. Efallai y gellir esbonio hyn drwy'r ffaith bod rhedeg stori difaterwch yn rhad, hawdd ei gwneud heb hyd yn oed siarad â'r rhai, yn ôl y sôn, a oedd yn ddifater ac a oedd yn ffitio'r ffrâm gyfryngol ddominyddol ynglŷn ag agweddau poblogaidd y broses wleidyddol a oedd o leiaf yn rhannol wedi'u cefnogi gan dystiolaeth arolwg barn. Roedd darganfod yr hyn yr oedd ar bobl ei eisiau, neu'r hyn y gellir ei wneud i oresgyn eu dieithrwch yn llawer anos, yn cymryd yn hirach ac yn mynd yn erbyn llif y stori. Fel yr ydym eisoes wedi trafod ym Mhennod 3, roedd y diffyg pleidleisio yn grwpiau ffocws NOP wedi'i briodoli yn anad dim i'r diffyg gwybodaeth yn hytrach na difaterwch neu anfodlonrwydd ar y system ddatganoli.

**4.46** Daeth ymchwilwyr Fforwm Cyfryngau Cymru i'r casgliad bod sylw'r cyfryngau nid yn unig yn adlewyrchu difaterwch y pleidleisiwr ond hefyd wedi cynorthwyo i dynnu sylw at y diffyg ymddangosiadol ym mhwsigrwydd yr etholiad ac yn atgyfnerthu a siapio'r canfyddiad bod peidio pleidleisio yn dderbyniol yn gymdeithasol. Serch hynny, daethant i'r casgliad os mai hyn yw'r achos, mae'n ddyledus iawn, os nad mwy, i'r ffordd mae stori difaterwch wedi dominyddu'r modd mae gwleidyddiaeth Brydeinig i gyd wedi cael sylw o ymgyrch 2001 ymlaen.

### Beth ellir ei wneud?

**4.47** Comisiynwyd ymchwil gennym i sylw'r cyfryngau i'r etholiad er mwyn creu gwell dealltwriaeth o rôl y cyfryngau mewn perthynas â chyfranogiad y pleidleisiwr ac i ystyried pa un a oedd y cyhoedd wedi'i wasanaethu'n dda gan sylw'r cyfryngau yn yr etholiad. Nid oes modd datrys y cwestiynau hyn yn gyflym ond rydym yn rhoi crynodeb o'r darganfyddiadau allweddol yn yr ymchwil i sylw'r cyhoedd ar gyfer gweithrediad gan bawb sy'n gysylltiedig.

**4.48** Yn arbennig, mae'n rhaid i ymgeiswyr etholiadol ac asiantau, pleidiau gwleidyddol a gwleidyddion, y Cynulliad Cenedlaethol a'i reolwyr cyfryngau priodol gymryd i ystyriaeth y materion y daethpwyd o hyd iddynt yn yr adroddiad hwn yn ymgyrchoedd y dyfodol – ac nid yn ystod etholiad yn unig, ond yn yr hir dymor. Mae'r neges ar gyfranogiad y pleidleisiwr yn yr etholiad hwn yn glir: mae ar yr etholwyr angen gwybodaeth gadarn am y Cynulliad, ei bwerau a'i gyfrifoldebau ac mae angen trosglwyddo'r wybodaeth honno mewn ffyrdd y gellir eu deall yn hawdd, drwy ffyrdd sy'n apelio ac sy'n cyrraedd pleidleiswyr potensial.

Rydym yn argymhell bod holl wleidyddion, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau yng Nghymru yn adolygu eu strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys negeseuon allweddol a strategaethau cyfryngau, er mwyn wynebu'r angen i gysylltu â'r etholwyr a hybu cyfranogiad y pleidleiswyr. Dylai strategaethau o'r fath ystyried yr angen gysylltu â'r etholwyr nid yn unig yn ystod yr etholiad ond hefyd yn yr hir dymor, rhwng etholiadau. Hefyd, dylai strategaethau o'r fath gymryd i ystyriaeth yr angen yn arbennig i hybu cyfranogiad yng Nghymru ymhlith y rhai dan 35 mlwydd oed.

**4.49** Ceir sialensiau arbennig i gyflawni hyn mewn etholiadau yng Nghymru, o ganlyniad i nodweddion strwythurol y cyfryngau yma. Ni ddylai pryderon ynglŷn â'r graddau mae'r cyfryngau yn creu difaterwch guddio'r ffaith yng Nghymru bod y wasg Brydeinig yn dominyddu'r farchnad Gymreig a bod gan y papurau newydd Cymreig gylchrediad, adnoddau a dylanwad cyfyngedig. Tynnodd Fforwm Cyfryngau Cymru, yn eu hymchwil ar ein rhan, ein sylw at y ffaith ei bod yn ddigon hawdd osgoi newyddion yr etholiad hyd yn oed os ydych yn ddefnyddiwr eithaf trwm o newyddion cyffredinol. Ychwaneger at hyn y ffaith bod y cyfryngau yn siarad â'r rhai sydd wedi'u hargyhoeddi, i bob pwrpas yn hysbysu'r rhai sydd eisoes wedi'u hysbysu'n gymharol yn wleidyddol, ac mae'n amlwg bod tasg gwybodaeth gyhoeddus anferth i'w ymgymryd â hi.

Byddwn yn trefnu seminar gyda'r pleidiau sydd â diddordeb a'r cyfryngau yng Nghymru, er mwyn annog adolygiad strategol gan y cyfryngau o'u rhesymwaith wrth ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar etholiadau yng Nghymru.

**4.50** Credwn y byddai'r broses etholiadol gyfan yn cael budd o well eglurder; byddai hyn yn gwella gwybodaeth gyhoeddus ond fe allai hefyd gynorthwyo pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau yn eu strategaethau ymgyrchu a'u hymgais i gysylltu â'r etholaeth.

Rydym yn argymhell i'r cyfryngau yng Nghymru eu bod yn amlinellu cyn unrhyw etholiad y gwasanaeth maent yn bwriadu cynnig i'w gwylwyr, darllenwyr neu wrandawyr a, mewn termau ehangach, sut maent yn bwriadu rhoi sylw i'r etholiad.

## Y Comisiwn Etholiadol ac ymwybyddiaeth gyhoeddus

**4.51** Fel yr amlinellwyd yn fras ym Mhennod 2, datblygodd y Comisiwn Etholiadol ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i geisio datrys y diffyg gwybodaeth yr oedd ein hymchwil *Cymru'n pleidleisio?* wedi'i ddarganfod. Y neges allweddol a dynnwyd o'r ymchwil hon er mwyn ategu'r ymgyrch hysbysebu oedd yr angen am fwy o wybodaeth gyhoeddus ynglŷn â phwrpas pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae ein hymchwil yn awgrymu mai diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynulliad yng Nghymru, yn hytrach na gwrthwynebiad i'r egwyddor o ddatganoli, a oedd yn debygol o effeithio ar y nifer a oedd yn pleidleisio.

**4.52** Cynlluniwyd yr ymgyrch o amgylch y thema 'os ydych yn poeni, dangoswch hynny' gan dynnu sylw at y materion allweddol y mae gan bleidleiswyr yng Nghymru y pŵer i ddylanwadu arnynt megis gofal iechyd, addysg a'r amgylchedd. Roedd gan bosteri ar hysbysfyrdau, hysbysebion radio a theledu ddylanwad mawr wrth gario'r neges os oedd pleidleiswyr yn poeni am y materion a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau dyddiol, dylent fynegi eu barn yn y blychau pleidleisio. Roedd y neges yr oeddem yn ceisio ei chyfleu drwy'r ymgyrch yn un syml: pleidleisio yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddangos sut mae pleidleiswyr yn teimlo ynglŷn â pholisïau'r Cynulliad yng Nghymru.

#### 4.53 Roedd tair rhan i'r ymgyrch:

- Hysbysebion mewn papurau newydd i dynnu sylw at yr angen i gofrestru pleidlais. Defnyddiwyd y rhan hon o'r ymgyrch ar ddiwedd mis Chwefror dechrau Mawrth, cyn dyddiau cau 11 Mawrth ar gyfer ychwanegiadau neu newidiadau i'r gofrestr etholiadol.
- Hysbysebion mewn papurau newydd ac ar hysbysfyrddau ynglŷn â phleidlais bost, ar ddiwedd Mawrth a dechrau Ebrill, er mwyn tynnu sylw at y cyfleustra i bleidleiswyr i wneud cais am bleidlais bost.
- Rhan 'pleidleisiwch yn awr', yn ystod y tair wythnos cyn yr etholiad, gan gynnwys hysbysebu yn y papurau newydd, ar hysbysfyrddau, ar y radio ac ar y teledu. Roedd yr hysbysebion teledu yn Saesneg ar HTV Wales ac yn Gymraeg ar S4C.

Roedd hysbysebion yn cael eu cynnal yn Saesneg a'r Gymraeg ar wahân.

**4.54** Ategwyd yr ymgyrch yng Nghymru gan strategaeth gysylltiadau cyhoeddus. Roedd yr agwedd hon ar yr ymgyrch ar ffurf cyfarwyddiadau golygyddol ac mewn papurau newydd, datganiadau'r wasg, deunydd a chyfweiliadau ar gyfer papurau newydd a darllediadau nodwedd a golygyddol a chyhoedduswydd ar gyfer digwyddiadau megis cystadleuaeth cynllunio ar gyfer pobl ifanc ar y thema 'Pŵer yw pleidleisiau'.

**4.55** Yn ychwanegol at yr hysbysebu a'r ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus, cynhyrchodd y Comisiwn bamffledi gwybodaeth gyhoeddus: 'Eich Pleidlais' a'r 'Canllaw hawdd i bleidleisio'. Dosbarthwyd 'Eich Pleidlais' yn Gymraeg a'r Saesneg yn eang i gartrefi ledled Cymru y tu mewn i bapurau newydd am ddim lleol ac o ddrws i ddrws mewn ardaloedd nad oeddynt yn derbyn papurau newydd am ddim. Yr oedd ar gael hefyd mewn canghennau o archfarchnadoedd Tesco ledled Cymru. Roedd "Eich Pleidlais" yn tynnu sylw at bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn disgrifio'r broses bleidleisio. Dosbarthwyd dros filiwn o gopiau. Anelodd 'Canllaw hawdd i bleidleisio', ar ffurf graffig, i ddisgrifio'r broses bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr am y tro cyntaf ac oedolion gyda phroblemau dysgu. Dosbarthwyd hwn mewn manau cyhoeddus megis colegau, llyfrgelloedd a meddygfeydd. Gellid archebu'r ddau bamffled am ddim o'r Comisiwn

drwy'r Swyddog Etholiadol ar gyfer eu dosbarthu'n lleol ac roedd ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol ac ar ffurfiau eraill megis Braille a thapiau sain.

**4.56** Roedd ymgyrch hysbysebu'r Comisiwn Etholiadol wedi'i chyfyngu gan yr un diffyg strwythurol â threiddiad papurau newyddion Cymreig a theledu Cymru ymhlith yr etholaeth a oedd yn dylanwadu ar sylw'r newyddion ar yr etholiad, a nodwyd uchod. Nod yr ymgyrch oedd digolledu'r trafferthion drwy gynyddu swm yr hysbysebu ar hysbysfyrddau, er enghraifft, mewn manau lle gwyddys bod gwyllo darllediadau teledu Cymru yn gymharol isel.

**4.57** Rydym i gyd yn ymwybodol, mewn unrhyw achos, nad yw ymgyrchoedd hysbysebu ar eu pennau eu hunain ddim yn ddigonol i gynyddu cyfranogiad y pleidleisiwr. Er bod 60% o'r rheini yn ymchwil barn NOP yn cofio gweld hysbysebion, ni wnaeth hyn droi yn bleidleisiau mewn niferoedd tebyg.

**4.58** Mae ein hymchwil ar ymrwymiad yr ifanc hefyd yn dweud wrthym bod pobl iau yn llai tebygol o ymateb i ymgyrchoedd hysbysebu sy'n galw arnynt i bleidleisio; hwy yw'r mwyaf gwybodus ynglŷn â'r cyfryngau a'r mwyaf sinigaidd o holl adrannau'r etholaeth ac yn annhebygol o ymateb, er enghraifft, i dactegau megis ardystiadau pobl enwog.<sup>44</sup> Mae angen gwneud llawer yn fwy o waith yn yr hir dymor i wella'r lefelau o ymwybyddiaeth gyhoeddus. Rydym yn bwriadu adeiladu ar ganfyddiadau'r cyfryngau a'r ymchwil barn wrth ddatblygu ein strategaeth gyhoeddus ein hunain ymhellach.

**4.59** Mae'r Comisiwn wedi datblygu strategaeth cyrraedd ymhell ac mae'n apwyntio tîm o swyddogion gwaith allanol ym mhob un o'r swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd, Caeredin a Belfast. Rydym yn bwriadu datblygu a chyflwyno gweithgareddau allanol yn ein cymunedau lleol, gweithio ar y maes gyda'n partneriaid, gyda rhwydweithiau cyfredol a datblygu rhai newydd. Ein targed gwreiddiol ar gyfer y gwaith hwn yw'r rhai sydd rhwng 16 a 24 mlwydd oed. Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith hyrwyddo o fewn y sector addysg drwy rwydweithiau cenedlaethol i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol addysg yn ymwybodol o rôl y Comisiwn Etholiadol ac yn cymryd mantais o'r rhaglen waith allanol yr ydym yn ei datblygu.

<sup>44</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002) *Cysylltiad y pleidleisiwr a phobl ifanc*.



Parhaodd ymgyrch ymwybyddiaeth y Comisiwn trwy gydol y cyfnod hyd at y diwrnod pleidleisio.

**4.60** Rydym hefyd wedi sefydlu Cronfa Mentrau Newydd i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer prosiectau newydd sydd wedi'u hanelu at godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd. Rydym yn awyddus i annog ceisiadau am rantiau prosiectau oddi wrth sefydliadau o bob maint ac mae nifer bychan o brosiectau eisoes ar y gweill yng Nghymru o ganlyniad i'n nawdd grant. Er enghraifft, mae gan Gyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth y Byd Cymru, Clybiau'r Bechgyn a'r Merched, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a Chymdeithas Hansard 'Aelodau y Cynulliad mewn Ysgolion' i gyd brosiectau newydd ar y gweill.

**4.61** Mae'r rhaglenni gwaith mawr i gyd wedi'u cefnogi gan fentrau eraill, megis cystadleuaeth cynllunio blynyddol ar gyfer pobl ifanc, a oedd ar y thema 'Pŵer yw Pleidleisiau' yn 2002/3. Byddwn yn parhau i adolygu a datblygu ein strategaethau a'n gwaith ymwybyddiaeth gyhoeddus gyda'n holl bartneriaid yng Nghymru wrth ddatblygu hyn.

## Crynodeb o'r argymhellion

Rydym yn argymhell bod yr holl wleidyddion, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau yng Nghymru yn adolygu eu strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys negeseuon allweddol a strategaethau'r cyfryngau, i wynebu'r angen am gysylltu'r etholaeth nid yn unig yn ystod etholiad ond hefyd yn yr hir dymor, rhwng etholiadau. Hefyd, dylai strategaethau o'r fath gymryd i ystyriaeth yr angen yn arbennig i hybu cyfranogiad yng Nghymru ymhlith rhai o dan 35 mlwydd oed.

Byddwn yn trefnu seminar o'r pleidiau sydd â diddordeb a'r cyfryngau yng Nghymru, er mwyn annog adolygiadau strategol gan y cyfryngau o'u rhesymwaith wrth ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar etholiadau yng Nghymru.

Rydym yn argymhell bod y cyfryngau yng Nghymru yn pennu cyn unrhyw etholiad y gwasanaeth maent yn bwriadu ei ddarparu i'w gwylwyr, darllenwyr neu wrandawyr ac, yn nhermau ehangach, sut maent yn bwriadu rhoi sylw i'r etholiad.

# 5 Gweinyddu'r etholiad

Rydym yn gosod budd y pleidleiswyr wrth wraidd ein hasesiad o weinyddu'r etholiad. Mae rhediad esmwyth etholiad yn elfen allweddol wrth gynnal hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol. Dylai trefniadau etholiadol hefyd greu yr amodau gorau posibl ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i gysylltu â'r etholaeth.

## Cyflwyniad

**5.1** Mae hyder y cyhoedd yng ngweinyddiad yr etholiadau yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn draddodiadol uchel; mae ein prosesau a dulliau etholiadol yn gyffredinol yn amddifad o'r gwleidyddoli a brofwyd gan nifer o wledydd y byd; yn brin o gyhuddiadau o dwyll, torri unrhyw ddiogelwch neu sgamiau pleidleisio, ac yn gyffredinol yn cael ei weld i'w reoli'n dda. Mae hyn i gyd yn wir am etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2003.

**5.2** Nododd prif asiantaeth arsylwadau etholiad, y OSCE/ODIHR, yn ei hadroddiad swyddogol ar yr etholiad:

Mae gan y Deyrnas Unedig draddodiad hir o etholiadau democrataidd. Mae gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a'r pleidiau lefel uchel iawn o hyder yng ngonestrwydd a chywirdeb y broses etholiadol, sy'n ymestyn dros ganrif o arfer da... o ganlyniad i'r lefelau uchel iawn o ymddiriedaeth yn y system etholiadol, ychydig iawn o bryder sydd dros rai dulliau a fyddai'n broblemus mewn gwledydd eraill.<sup>45</sup>

**5.3** Ar yr un pryd, ychydig iawn o gafwyd yn yr etholiad a bydd yr amcangyfrif o 50% o'r rhai a bleidleisiodd dros<sup>46</sup> mlynedd oed wedi gweld newidiadau bach iawn yn eu profiad gorsaf bleidleisio dros y blynyddoedd. Y cefndir i weinyddu'r etholiad oedd y sôn eang am nifer isel y rhai a fyddai'n pleidleisio. Mynegwyd pryderon arbennig, ym Mhwyllgor Cyfleoedd Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol yn enwedig, am hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Mae elfen o bob un o'r materion hyn yn y graddau mae budd y pleidleiswyr mewn proses etholiadol yn cael ei osod yn gyntaf.

**5.4** Mae unrhyw etholiad mawr yn costio miliynau o bunnau o arian cyhoeddus. Rydym yn adolygu gwariant yr etholiad hwn yn ddiweddarach yn y bennod hon. Wrth ystyried gweinyddiaeth yr etholiad, mae'n bwysig adolygu pa un a oedd yr arian wedi'i wario'n effeithlon ac yn effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ystyried gwelliannau effeithiolrwydd ynghyd â meysydd lle y byddai buddsoddiad yn cael ei wario'n dda.

<sup>45</sup> Swyddfa Sefydliadau Democratig a Hawliau Dynol, Warsaw, 28 Mai 2003.

<sup>46</sup> Yn seiliedig ar sampl o 1,153 o oedolion a arolygwyd ym mhôl piniwn NOP ar gyfer y Comisiwn Etholiadol, Mai 2003.

## Cynllunio ar gyfer etholiad

**5.5** Roedd cynllunio ar gyfer etholiad yn dechrau ac yn cael ei gyd-drefnu gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd grŵp cynllunio, a oedd yn cynnwys swyddogion yn cynrychioli adrannau perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cyn Adran yr Arglwydd Ganghellor, y Swyddogion Etholiadau, y gweinyddwyr etholiadol drwy Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, a'r Comisiwn Etholiadol.

**5.6** Roedd y grŵp yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn cyn yr etholiad. Roedd hyn yn darparu fforwm effeithiol ar gyfer cynllunio, yn arbennig, ar gyfer adolygu materion deddfwriaethol; adolygu costau a phrisiau etholiadol; ystyried materion o arferion etholiadol; adnabod problemau potensial yn ystod cyfnod cynnar ac yn gyffredinol darparu fforwm ar gyfer trafod ymhlith pwysigion o fewn rheolaeth etholiadol. Roedd 'llwybr critigol' dadansoddol, yn nodi camau i'w cymryd, dyddiadau a digwyddiadau perthnasol, yn cynorthwyo'r cynllunio.

**5.7** Mae'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru wedi sefydlu Panel Pleidiau Gwleidyddol sy'n cynnwys pleidiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad Cenedlaethol ac yn fras yn copïo strwythur y Panel Pleidiau Gwleidyddol y mae'r Comisiwn yn cydweithio ag ef yn San Steffan. Darparodd Panel Pleidiau Gwleidyddol Cymru fforwm ar gyfer trafod materion yr etholiad gyda'r pleidiau gwleidyddol lle y gellir codi a thrafod unrhyw faterion perthnasol. Er gwaethaf eu gwahaniaeth gwleidyddol, mae nifer o faterion lle ceir diddordeb cyffredin ymhlith pleidiau gwleidyddol ac nid yw'n syndod bod hyn yn arbennig o wir am gyfraith, prosesau ac arferion etholiadol.

**5.8** Roedd cael dau fforwm ar wahân yn golygu bod modd i unrhyw faterion perthnasol a godwyd yn y naill neu llall gael eu hadrodd yn ôl, drwy gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol, i'r llall. Profodd hyn yn arbennig o effeithiol, er enghraifft, yng nghyd-destun hyfforddi staff etholiad, lle y gallai'r pleidiau gwleidyddol gael mewnbwn.

**5.9** Ystyriwn fod cynllunio ar gyfer etholiad ar y lefel facro hon yn effeithiol a phriodol ar gyfer y tasgau wrth law. Roedd yr holl sefydliadau a oedd yn cael eu cynrychioli yn croesawu hygyrchedd ac agosatwydd swyddogion allweddol y llywodraeth drwy'r fforwm hwn. Digwyddodd problemau cynllunio y tu hwnt i hyn, megis y rhai sydd

eisoes wedi'u nodi o ran cyflwyno'r Gorchymyn yn hwyr iawn a oedd yn llywodraethu dull o gynnal yr etholiad. Mae hefyd yn un peth i ymgymryd â chynllunio lefel uchel ac yn beth arall i arfer gael ei weithredu yn gyson ar lefel leol.

**5.10** Er enghraifft, bu gweinyddwyr etholiadau awdurdodau lleol yn cwrdd yn rheolaidd mewn cyfarfod i'r canghennau yng nghyfarfodydd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yng Nghymru. Serch hynny, mae'r fforwm hwnnw yn darparu cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyd-drefnu, sy'n dueddol o fod ar sail mater wrth fater, ac nid yw pob gweinyddwr yng Nghymru o bell ffordd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae rhai awdurdodau lleol cyfagos yn dilyn arferion tebyg ac mae hyn hefyd yn wir am awdurdodau lleol o fewn rhanbarthau etholiadol. Er hynny, mae mesur mawr o ryddid i weithredu yn lleol yn normal yng Nghymru. Roedd diffyg cysondeb ar sail materion etholiadol yn nodweddiadol yn yr etholiad hwn, thema a drafodir ymhellach isod ac y mae nifer o'n argymhellion yn ceisio'u datrys. Maen bwysig cydnabod, serch hynny, fod Swyddogion Etholiadau yn annibynnol wrth natur ac nad ydynt wedi'u gorfodi i ddilyn cyfarwyddiadau gan unrhyw sefydliad na chorff heblaw am y llysoedd a bennir gan ddeddf. Nid yw'n ofynnol iddynt ychwaith fod yn gyson â'i gilydd ar bob mater.

## Amserlen yr etholiad

**5.11** Penderfynwyd ar amserlen etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003 drwy ddarpariaethau Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003. Lle na nodir amser y dyddiau cwblhau oedd hanner nos ar y diwrnod hwnnw. Nid oedd gan Swyddog Etholiad ryddid i weithredu ymestyn unrhyw ddyddiad cwblhau dan y gyfraith.

Tabl 8: Amserlen yr etholiad

Digwyddiad	Diwrnod
Cofrestru i bleidleisio: Dyddiad cau i gofrestru bleidleisio ar Mai 1 2003	Dydd Mawrth 11
Rhybudd etholiad: Ddim hwyrach na	Dydd Llun 24 Mawrth
Dyddiad olaf i gofrestru plaid wleidyddol: Ddim hwyrach na	Dydd Llun 24 Mawrth
Dosbarthu papurau enwebu: Ddim hwyrach na hanner dydd ar	Dydd Mawrth 1 Ebrill
Diwrnod olaf i dynnu ymgeisiaeth yn ôl: Ddim hwyrach na hanner dydd ar	Dydd Iau 3 Ebrill
Rhybudd penodiad asiantau etholiad: Ddim hwyrach na hanner dydd ar	Dydd Iau 3 Ebrill
Cyhoeddi datganiad personau a enwebwyd a rhybudd pleidlais: Ddim hwyrach na hanner dydd ar	Dydd Gwener 4 Ebrill
Ceisiadau i newid pleidlais bost i bleidlais drwy ddirprwy, neu'r ffordd arall, neu i gael papur pleidleisio post wedi'i anfon at gyfeiriad gwahanol, neu i ganslo pleidlais bost neu drwy ddirprwy: Ddim hwyrach na 5pm ar	Dydd Gwener 11 Ebrill
Ceisiadau i gael eu trin fel pleidleisiau post neu drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol: Ddim hwyrach na 5pm ar	Dydd Mercher 23 Ebrill
Rhybudd penodi asiant pleidleisio neu gyfrif: Ddim hwyrach na	Dydd Mawrth 29 Ebrill
Diwrnod pleidleisio: Rhwng 7am a 10pm	Dydd Iau 1 Mai
Gwiriad a chyfrif etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyn gynted â phosib ar ôl cau'r pleidleisio ar	Dydd Iau 1 Mai
Diwrnod olaf ar gyfer derbyn a datgan costau etholiad:	
Datgan canlyniad cyn hanner nos ar y diwrnod pleidleisio	Dydd Iau 5 Mehefin
Datgan canlyniad ar ôl hanner nos ar y diwrnod pleidleisio	Dydd Gwener 6

## Hyfforddi

**5.12** Rydym yn ei hystyried yn hanfodol i onestrwydd ac effeithiolrwydd y broses etholiadol i sicrhau bod y staff i gyd sy'n gysylltiedig yn mabwysiadu ymdriniaeth gyson a phroffesiynol. Yn ystod cyfnod pan fo'r nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau i gyd ar draws y Deyrnas Unedig yn gostwng, credwn ei bod o bwysigrwydd allweddol bod wyneb cyhoeddus yr etholiadau yn broffesiynol ac yn gyfeillgar i'r pleidleiswyr. Mae llawer yn digwydd yn y cefn yn ystod cyfnod yr etholiad, ond mae profiad y cyhoedd wedi'i siapiro mewn gorsafoedd pleidleisio a gan y Swyddogion Etholiadau a Chlercod Etholiadau. Fel rhan o ddatblygiad arfer da y Comisiwn Etholiadol, felly, darparwyd hyfforddiant a pheccyn cefnogaeth ar gyfer etholiadau Mai a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer y rheini a oedd yn gysylltiedig â gweinyddu'r etholiadau.

**5.13** Ymhlith y rheini a oedd yn gysylltiedig roedd Swyddogion Etholiadau, staff swyddfa'r etholiadau, Swyddog Llywyddol a Chlercod Etholiadau. Sicrhodd y Comisiwn nawdd o £300,000 ar gyfer cyflwyno'r rhaglen hyfforddi hon ledled yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r Comisiwn yn ddarparwr hyfforddiant fel y cyfryw felly rhoddwyd y gwaith ar gytundebau o dan drefniadau tendro.

**5.14** Felly, dyfarnwyd y cytundeb ar gyfer hyfforddi yng Nghymru a'r Alban i ddau dîm ar wahân ond a oedd yn gydgyssylltiedig o SOLACE Enterprises Ltd (The Society of Local Authority Chief Executives) a'r Association of Electoral Administrators.

**5.15** Cynhyrchwyd y deunyddiau canlynol:

- llawlyfrau cyngor ar gyfer Swyddogion Etholiadol a staff etholiad;
- llawlyfrau cyngor ar gyfer Swyddogion Llywyddol a Chlercod Etholiadau;
- llawlyfrau cyflym ar gyfer Swyddogion Llywyddol a Chlercod Etholiadau;
- seminar hyfforddi un diwrnod ar gyfer Swyddogion Etholiad a staff etholiad;
- fideo ar gyfer Swyddogion Llywyddol;
- cyflwyniad Powerpoint ar gyfer Swyddogion Llywyddol.

**5.16** Datblygodd y Comisiwn y deunydd hyfforddi, gan ymgynghori ar ddrafftiau gydag aelodau grŵp cynllunio etholiadau y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd siâp y seminar hyfforddi felly yn ganlyniad i ymgynghori â chynrychiolwyr y grwpiau perthnasol.

**5.17** Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol i ariannu costau'r Swyddogion Llywyddol a Chlercod Etholiadau i fynychu sesiynau hyfforddi lleol. Roedd hyn y ffactor pwysig wrth gyflwyno hyfforddiant, oherwydd heb ad-daliadau mae'n annhebygol y byddai staff a recriwtiwyd ar sail achlysurol i ymgymryd â'r rholiau hyn wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi.

**5.18** Nod y cynllun a'r deunyddiau hyfforddi oedd darparu deunydd cyfarwyddyd i Swyddogion Etholiadau a staff etholiadau a darparu patrwm a deunyddiau a oedd yn addas ar gyfer hyfforddiant cynyddol ar lefel leol i Swyddogion Llywyddol a Chlercod Etholiadol.

**5.19** Cafwyd presenoldeb da iawn yn y seminar hyfforddi un diwrnod a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt ar 14 Mawrth gyda phob un awdurdod lleol yng Nghymru yn anfon cynrychiolwyr.

**5.20** Ymhlith y cytundeb hyfforddi ar gontract roedd darpariaeth ar gyfer monitro a gwerthuso'r hyfforddi gan y rheini a oedd yn cymryd rhan ynddo. Mae asesiadau'r contractwyr yn dangos bod 95% o'r rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant wedi'i ddisgrifio yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol.

**5.21** Fel mater o arfer da, trefnwyd bod yr hyfforddiant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei asesu'n annibynnol.<sup>47</sup> Roedd yr asesiad yn bennaf i ddibenion mewnol, gan gynnwys adolygiad o'r dogfennau tendro a chaffaeliad, cynlluniau prosiect, dulliau adrodd ac yn y blaen. Mae'r asesiad wedi profi'n werthfawr o ran adnabod meysydd lle y gellir dysgu gwersi o'r broses o osod contractau, rheoli eu cyflwyniad er mwyn sicrhau safonau uchel cyson o gyflenwadau. Rydym yn ddiweddar wedi penodi Rheolwr Datblygu Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau hyfforddi er mwyn datblygu ein strategaeth hyfforddi.

<sup>47</sup> Er bod etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Gogledd Iwerddon wedi'u gohirio, mae deunyddiau a chynlluniau hyfforddiant wedi'u cynhyrchu yn barod er hynny.

**5.22** Mae nifer o awgrymiadau wedi'u gwneud ar gyfer gwelliannau i ddeunyddiau hyfforddi'r Comisiwn i'r dyfodol gan staff etholiadau ac fe fyddwn yn cymryd i ystyriaeth gynifer o'r gwelliannau yma ag sy'n bosibl wrth ddatblygu ein strategaeth a deunyddiau hyfforddi ymhellach. Yn arbennig, rydym yn cydnabod bod rhai gwallau testunol na chawsant eu cywiro mewn pryd cyn argraffu. Mae cael y cydbwysedd rhwng darparu deunyddiau sy'n ddefnyddiol ar gyfer staff profiadol a newydd yn yr un modd yn dasg gymhleth ond roedd adborth gan staff etholiadau ar y deunyddiau hyn yn gadarnhaol ar y cyfan.

**5.23** Gwnaeth pob un ond un o'r 22 awdurdod ddefnyddio'r deunyddiau i gyd neu ran ohonynt a ddarparodd y Comisiwn i Swyddogion Etholiadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol am ddim. Dewisodd un awdurdod lleol gynhyrchu eu deunyddiau hyfforddi eu hunain ar eu cost eu hunain, er eu bod wedi derbyn y rheini a ddarparwyd am ddim gan y Comisiwn, ar y sail bod yn well ganddynt ddeunydd a oedd wedi'i gynhyrchu'n lleol. O'r rheini a ddefnyddiodd y deunydd, gwnaeth rai fân newidiadau neu ddefnyddio deunyddiau ychwanegol a oedd yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau lleol ac fe ddefnyddiodd eraill hwy heb unrhyw atodiadau na diwygiadau.

**5.24** Adroddodd y tîm OSCE/ODIHR, yr asiantaeth arweiniol yn Ewrop ym maes arsylwadau etholiadol ac wrth arsylwi ar etholiadau yng Nghymru a'r Alban ym mis Mai:

Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol awdurdod dros Swyddogion Etholiadol nac ymddygiad gwirioneddol etholiadau. Y mae, serch hynny, wedi ymgymryd ag ymgais sylweddol i wella hyfforddiant swyddogion etholiadol.<sup>48</sup>

## Cofrestru pleidleiswyr

### Cefndir

**5.25** Mae'r Comisiwn yn gweld cofrestrriad etholiadol fel y bachyn mewn proses etholiadol. Os nad ydynt wedi'u cofrestru'n gywir, ni all ddinesydd bleidleisio. Mae'r broses gofrestru pleidleiswyr hefyd yn elfen allweddol o ran diogelwch etholiadol ac atal twyll. Mae ganddo'r potensial i hwyluso pleidleisio electronig. Mae'n rhaid iddo fod yn fwy hygyrch ac yn hwylus i bleidleiswyr.

**5.26** Mae'r ymchwil barn a wnaed gan NOP a gomisiynwyd gennym ar gyfer yr etholiadol hwn yn nodi bod nifer mawr iawn o'r rhai nad oeddynt wedi pleidleisio (89%) yn dweud eu bod wedi'u cofrestru i bleidleisio. O'r 1,153 o oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg sampl, dim ond 5% o'r cyfanswm a ddywedodd nad oeddynt wedi'u cofrestru. Serch hynny, mae hyn yn cynnwys 17% o'r rhai rhwng 18 a 24 mlwydd oed o'i gymharu â 1% o'r rhai dros 55. Honnwyd yr union yr un lefel o'r rhai a oedd heb gofrestru yn yr arolwg cyn yr etholiadol.<sup>49</sup> Elfen hynod yn nhrefnadaethau'r grwpiau ffocws ymchwil barn oedd bod elfen o gamddealltwriaeth ymhlith pleidleiswyr a'r rhai nad ydynt yn pleidleisio ynglŷn â'r broses gofrestru, gyda phobl yn y ddau grŵp yn credu'n anghywir bod cofrestrriad yn awtomatig wrth dalu treth y cyngor. Mae'r Comisiwn yn bwriadu ymchwilio ymhellach i raddfa'r tangofrestru ac i'r rhesymau am hynny, er mwyn cynorthwyo i daclo tangofrestru ymhlith grwpiau arbennig mewn cymdeithas.

**5.27** Yr etholiadol hwn yw'r etholiadol cyntaf yn hanes Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle'r oedd cofrestru treiglol ar gael i'r etholwyr. Cyflwynwyd y broses o gofrestru treiglol ym mis Chwefror 2001 ac erbyn hyn mae'n fodd o alluogi pleidleiswyr potensial i gofrestru dros etholiadol y Cynulliad unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Mae cyflwyno'r broses hon yn golygu bod y system gyfredol o gofrestru etholiadol yn awr yn seiliedig ar gyfuniad o gofrestru yn y cartref neu gofrestru unigol. Mae cofrestru treiglol yn darparu modd lle gellir ychwanegu cofnod at y gofrestr neu ddileu ar draws y flwyddyn, ar fenter yr unigolyn. Mae ei ddylanwad yn ymarferol wedi bod yn gyfyngedig; er bod y dystiolaeth yn bennaf yn anecdotaidd, gan fod newidiadau i'r gofrestr ond yn effeithio ar ganran fychan iawn o'r etholaeth bob mis. Bydd y Comisiwn yn ymgymryd ag ymchwil i sefydlu yn fwy effeithio ar raddfa newidiadau o'r fath.

**5.28** Mae ein hadolygiad o'r broses gofrestru etholiadol<sup>50</sup> yn cynnwys diwygiadau arfaethedig gan gynnwys cyflwyno gwir gofrestru parhaus. Er enghraifft, mae'r dyddiau cau y mae hawl gan unigolyn i bleidleisio i bob pwrpas yn chwech neu saith wythnos cyn y diwrnod pleidleisio. Mae'r dyddiad wastad cyn cyhoeddi hysbysiad yr etholiadol, sy'n nodi dechrau ffurfiol yr ymgyrch; yn yr etholiadol hwn, caeodd y cofrestrau ar 11 Mawrth. Rydym wedi cynnig diwygiadau sy'n caniatáu i ddyddiad olaf cofrestru fod yn agosach at yr

<sup>48</sup> Adroddiad Asesiad OSCE/ODIHR, 28 Mai 2003.

<sup>49</sup> *Ymchwil farn Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003*, NOP World, Gorffennaf 2003, [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk).

<sup>50</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) Y broses gofrestru etholiadol: adroddiad ac argymhellion

etholiad – mae'n amlwg yn anffodus ei bod yn rhy hwyr i gofrestru i bleidleisio os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny neu i gofrestru newid cyfeiriad erbyn i bobl sylweddoli bod etholiad yn dod. Nid oes rheswm pam y dylai pobl fod yn ymwybodol o'r dyddiad cau ar 11 Mawrth, gan ei fod yn amherthnasol i unrhyw ddyddiau neu ddigwyddiad yn yr ymwybyddiaeth gyhoeddus.

**5.29** Mae'n rhaid i hyrwyddo cofrestru pleidlais, yn ystod blwyddyn etholiad, fod yn flaenoriaeth. Rydym wedi cyhoeddi a dosbarthu argymhellion arfer da ar gyfer hybu cofrestriad etholiadol y gellir eu cymryd i ystyriaeth mewn pryd ar gyfer yr etholiad hwn. Yn arbennig, rydym wedi bod yn bryderus a ddylid hybu cofrestriad etholiadol yn effeithiol ar lefel leol ac mae *Gwneud argraff: hyrwyddiad lleol ar faterion etholiadol*<sup>51</sup> yn darparu canllawiau arferion da ar gyfer awdurdodau lleol.

### Ymwybyddiaeth gyhoeddus o gofrestriad etholiadol

**5.30** Rydym eisoes wedi disgrifio ein cyfres o hysbysebion ledled Cymru a gynlluniwyd i atgoffa pobl o'r angen i gofrestru i allu defnyddio eu pleidlais yn yr etholiadau ar 1 Mai, fel rhan o'n strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus cyn yr etholiadau. Canolbwyntiwyd ar yr ymgyrch hon ym mis Chwefror 2003, cyn y dyddiad cau ar 11 Mawrth. Cynhaliwyd ymgyrch a chyfres o hysbysebion gennym hefyd wedi'u hanelu at bobl ledled y Deyrnas Unedig ym mis Medi 2002, adeg y canfasio blynyddol, o dan y faner 'Pŵer yw pleidleisiau'.

**5.31** Ni all ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol a mentrau cenedlaethol ond cyrraedd mor bell. Mae angen hybu cofrestriad etholiadol hefyd ar lefel leol. Mae'n rhaid nodi felly, heblaw am ymgyrch y Comisiwn Etholiadol, na chafwyd ymdriniaeth gyson ar draws Cymru yn nhermau annog cofrestriad pleidleisiwr cyn yr etholiad hwn. Cymerodd rhai awdurdodau lleol fesurau gweithredol er mwyn ceisio gwneud y mwyaf o'r ymwybyddiaeth ar gyfer yr etholiad a oedd ar ddod, tra bod eraill, yn ystod y flwyddyn etholiad hon, wedi gweithredu fawr ddim o gwbl y tu hwnt i ymarfer canfasio blynyddol arferol yr hydref.

**5.32** Roedd nifer y Swyddogion Cofrestriad Etholiadol (ERO) y ceir adroddiadau iddynt ymgymryd â mentrau hybu yn fach, ond cafwyd enghreifftiau o arfer da. Adroddodd un awdurdod trefol mawr lwyddiant anecdotaidd sylweddol drwy hysbysebu ar fysiau, er na chafodd y canlyniadau eu

gwerthuso'n ffurfiol. Roedd yr ERO yn ystyried ei bod yn ffordd effeithiol o ran cost o arwain ymgyrch ymwybyddiaeth o fewn etholaethau perthnasol gan ddarparu sylw da i'r uchafswm o bobl leol. Dewisodd un ERO mewn ardal wledig yn bennaf ddefnyddio erthyglau nodweddig yn y wasg leol, a thalu amdanynt fel hysbysebion, i drosglwyddo neges debyg. Defnyddiodd ERO yn y cymoedd ddeunyddiau hyrwyddo ar gofrestriad treiglol, megis posteri 'Are you on a roll?', cardiau pen-blwydd 18 'X rated' a phamffledi 'Welcome to your new home', yn defnyddio sefydliadau lleol gwirfoddol i gynorthwyo gyda'u dosbarthu. Anfonodd ERO yng Ngogledd Cymru wybodaeth cofrestriad treiglol allan gyda ffurflenni treth y cyngor, at lyfrgelloedd, canolfannau'r di-waith a defnyddio'r wasg leol am gyhoedduswydd

**5.33** Gwnaeth gweinyddwyr etholiadol sylwadau bod y broses cofrestru pleidleisiwr yn un gymhleth; roedd rhai yn ei gweld yn anodd ei hesbonio mewn ffordd hygyrch a'i bod yn brin o ysgogiadau i annog pobl i gofrestru. Nododd gweinyddwyr fod hyn yn arbennig o wir wrth ystyried cysylltiad ag ieuencid ar draws Cymru. Mae'n anffodus, serch hynny, gan mai dim ond amcangyfrif o 16% o'r rhai dan 25 a bleidleisiodd a bod 17% o'r un grŵp wedi dweud nad oeddynt wedi cofrestru i bleidleisio, fe ymddengys mai ychydig o ymgais dwys a wnaed i annog bobl ifanc yng Nghymru i gofrestru i bleidleisio. Fel a adroddwyd yn *Gwneud Argraff*, ceir enghreifftiau cyfredol o arferion da wrth hybu cofrestriad etholiad y gellir tynnu ohonynt.

**5.34** Rydym hefyd wedi darganfod peth tystiolaeth yn yr etholiad hwn o densiynau mewn nifer bychan o awdurdodau lleol, ar lefel wleidyddol, dros hybu gweithredol cofrestriad etholiadol cyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym wedi nodi nad oedd gan nifer bychan o awdurdodau lleol unrhyw gynlluniau i hybu cofrestriad etholiadol yn ystod y flwyddyn 2002/3 ond bod ganddynt gynlluniau i wneud hynny ar gyfer 2003/4, pan fydd etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cymryd lle.

**5.35** Rydym yn ystyried y byddai cynlluniau'r ERO i hybu cofrestriad yn cael budd o adolygiad blynyddol. Hefyd, dylai'r cynlluniau hyn fod yn amlwg a chael eu cyhoeddi'n flynyddol.

**5.36** Rydym eisoes wedi cynnig ymgymryd ag ymchwil i raddfeydd cofrestru ar draws cymdogaethau ac adnabod i ba raddau mae tangofrestriad yn digwydd mewn cymunedau arbennig. Byddwn yn tynnu ar yr ymchwil hon,

<sup>51</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002).

ac ymchwil arall i resymau dros dan gofrestriad, er mwyn datblygu canllaw arfer da ar daclo tan gofrestriad. Rydym hefyd wedi cynnig fframwaith cenedlaethol ar gyfer monitro graddau cofrestriad etholiadol ar y cyd ag argymhellion ehangach i gyflwyno safonau perfformiad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau etholiadol. Rydym wedi cynnig casglu gwell data er mwyn datblygu cywirdeb etholiadol, ac i dynnu ar hynny i roi canllaw arfer da pellach i ERO.

Rydym yn argymhell bod Swyddogion Cofrestriad Etholiadol yng Nghymru yn adolygu yn flynyddol ac yn cyhoeddi eu strategaethau hybu ar gyfer cofrestriad etholiadol. Wrth adolygu cofrestriad, dylai ERO ystyried enghreifftiau o arfer da a ardystiwyd gan y Comisiwn. Rydym yn argymhell bod strategaethau o'r fath yn arbennig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i annog rhai dan 25 mlwydd oed i bleidleisio.

## Cyngor i ymgeiswyr ac asiantau

**5.37** Cynhyrchodd y Comisiwn ganllaw ar gyfer ymgeiswyr, asiantau a phleidiau gwleidyddol yn yr etholiad. Roedd hon yn ganllaw ar sefyll fel ymgeisydd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi manylion ar sut i gydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion cyfreithiol ar gostau ymgeiswyr a materion eraill. Cynhyrwyd y ganllaw ar linellau tebyg i'r rhai oedd ar gael i ymgeiswyr yn etholiadau Senedd yr Alban ac mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr. Roedd cynrychiolwyr y pleidiau ar Banel Pleidiau Gwleidyddol Cymru y Comisiwn wedi'u hymgyngori ar y drafft. Cyhoeddwyd ein canllaw gennym ar ein gwefan ym mis Ionawr a dosbarthwyd copïau yn ôl galw. Rhoddwyd gwybod hefyd i Reolwyr Gwasanaethau Etholiadol yn lleol am y ganllaw er mwyn iddi/iddo dynnu sylw ymgeiswyr lleol ati.

**5.38** Cyhoeddodd y Comisiwn ganllaw ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar wariant ymgyrch cenedlaethol. Mae gwariant ymgeiswyr rhanbarthol wedi'i osod yn erbyn gwariant y blaid yn genedlaethol ac roedd y ganllaw yn esbonio manylion hyn.

**5.39** Roedd yr adborth ar y ganllaw hon yn gadarnhaol ac fe brofodd yn un o'r dogfennau mwyaf poblogaidd a gynhyrwyd gan y Comisiwn yn y cyfnod cyn yr etholiadau. Dim ond un awdurdod lleol allan o 22 a adroddodd iddynt beidio â thynnu sylw ymgeiswyr a'r asiantau at y ganllaw o gwbl. Gwnaeth un awdurdod sylw y byddent yn hoffi gweld y Comisiwn yn cyhoeddi memorandwm i gyd-fynd â'r ganllaw hon i'r ymgeiswyr a'i asiantau ei ddefnyddio yn ystod y broses enwebu. Adroddodd rhai awdurdodau eu bod wedi

creu deunyddiau, ffurflenni yn bennaf, a brynwyd o ffynonellau eraill i gyd-fynd â chanllaw ymgeiswyr ac asiantau'r Comisiwn. Ni ddefnyddiodd un awdurdod ond ffurflenni ymgeiswyr a'i asiantau a oedd wedi'u darparu'n fasnachol. Roedd peth deunyddiau a oedd wedi'u darparu'n fasnachol yn cynnwys gwallau, yn bennaf yn amserlen yr etholiad, a chreodd y rhain rywfaint o ddrwschwch.

## Ffurflenni etholiadol

**5.40** Nododd cynrychiolwyr y prif bleidiau gwleidyddol i ni bod mwy o ffynonellau cyngor ar gael i ymgeiswyr a chynrychiolwyr yn yr etholiad hwn nag erioed o'r blaen. Er eu bod yn croesawu cyngor y Comisiwn, roeddynt yn dweud bod potensial i ddrwschwch godi o ganlyniad i gyngor croes heb un ffynhonnell derfynol. Roedd cynrychiolwyr y prif bleidiau gwleidyddol yn edrych am gysondeb yn yr ymdriniaeth. Mae hyn yn ddealladwy; o'u safbwynt hwy, ble bynnag mae ymgeisydd yn edrych am enwebiad neu etholiad yng Nghymru, dylai'r prosesau y mae ef neu hi yn dod ar eu traws fod yr un peth.

**5.41** Yn ymarferol, roedd pleidiau gwleidyddol wedi canfod fod gwahanol Swyddogion Etholiadol yn dilyn gwahanol arferion. Ymddangosodd hyn yn broblem arbennig i ymgeiswyr ac asiantau mewn perthynas â'r defnydd o ffurflenni etholiadol yr oedd gofyn iddynt eu cwblhau. Mae Swyddogion Etholiadol yn defnyddio gwahanol ffurflenni, rhai wedi'u cynhyrchu'n fasnachol, eraill wedi'u cynhyrchu gan y Swyddogion Etholiadol perthnasol a rhai yn seiliedig ar fodolau y Comisiwn etholiadol yn ein canllaw i ymgeiswyr ac asiantau.

**5.42** Gwnaed cais gan y prif bleidiau gwleidyddol yn yr etholiad hwn i safoni y defnydd o ffurflenni a ddefnyddir mewn etholiad. Nid oes yn rhaid i hyn o reidrydd olygu bod yn rhaid cael cyfarwyddeb statudol well ond gellir cael canllaw arfer da.

Rydym yn cynnig paratoi patrymau o'r holl ffurflenni sy'n angenrheidiol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymhell bod y rhain yn cael eu defnyddio gan Swyddogion Etholiadol, gyda'r nod o sicrhau cysondeb yr arfer ar draws Cymru.

### Cysondeb yr arfer

**5.43** O ran cysondeb gwneud penderfyniadau ac arfer gan Swyddogion Etholiadau a staff gwasanaethau etholiadol y mae'r pleidiau gwleidyddol yn ceisio'i sicrhau, mae'n nodwedd yn etholiadau Cymru fel ag y mae yn gyffredin yn y Deyrnas Unedig fod Swyddogion Etholiadol yn annibynnol a bod ganddynt fesur o ryddid i weithredu wrth wneud penderfyniadau. Mae gofyn iddynt weithredu yn unol â'r ddeddf berthnasol y maent yn gyfrifol drosti yn y llysoedd. Er hynny, o fewn cwmpas caniatáu ar gyfer rhyddid i weithredu yn lleol, fe ddylai fod y bosibl cyrraedd cysondeb yr arfer ar faterion a ddigwydd yn gyffredin, fel y rheini a godir yn ystod y trefniadau enwebu.

**5.44** Er enghraifft, mwy o drafodaethau arddull seminar ymhlith Swyddogion Etholiadau ar draws Cymru a staff yr etholiad cyn yr etholiad, er mwyn ceisio rhagweld cwestiynau a fyddai'n codi, a all gynorthwyo, fel ag y gall trafodaethau wedi'u cynllunio gyda chynrychiolwyr o'r prif bleidiau gwleidyddol. Gellir trafod materion megis penderfyniadau ar y broses enwebu yn y modd hwn. Byddai deddfwriaeth berthnasol mewn grym ymhell cyn etholiad hefyd yn ei gwneud yn bosibl i faterion gael eu hadnabod a'u hwynebu – yn 2003, fe wnaeth ymddangosiad hwyr y gorchymyn etholiadau perthnasol wneud cynllunio ar gyfer cynllunio ymlaen llaw yn anodd i Swyddogion Etholiadol a staff etholiad. Rydym eisoes wedi wynebu'r mater hwn mewn argymhelliad cynharach.

**5.45** Rydym hefyd wedi derbyn awgrymiadau adeiladol gan weinyddwyr etholiadol ynglŷn â'r angen am ganllaw ychwanegol oddi wrth y Comisiwn ar faterion o fanylion.

Rydym yn bwriadu hyrwyddo, mewn etholiadau'r dyfodol yng Nghymru, trafodaethau ar ffurf seminar ymhlith Swyddogion Etholiadau a staff etholiad, ar faterion prosesau ac arferion etholiadol manwl, gyda'r nod o gyrraedd cysondeb yn yr ymdriniaeth a chytuno ar yr arfer da ar faterion cyffredin, ac ar yr un pryd yn cydnabod cyd-destun penderfyniadau lleol.

Rydym hefyd yn cynnig adolygu ein darpariaeth hyfforddi a deunyddiau cyfarwyddyd, mewn ymgynghoriad â phleidiau gwleidyddol, Swyddogion Etholiadau a staff etholiad, er mwyn ceisio adnabod agweddau a fyddai'n cael budd o gyfarwyddyd mwy manwl a gytunwyd arno ar gyfer etholiadau'r dyfodol, gyda'r nod o hybu arfer gorau a chyson.

### Cyfarfodydd cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr a chynrychiolwyr

**5.46** Roedd y rhan fwyaf o Swyddogion Etholiadau wedi trefnu rhyw fath o gyfarfod gyda'r ymgeiswyr a/neu asiantau yn yr etholaethau yr oeddynt yn eu rheoli. Serch hynny, unwaith eto, nid oedd hyn yn arfer cyson ar draws Cymru. Tra bod un Swyddog Etholiadol wedi trefnu cyfres o hyd at bedwar cyfarfodydd gyda'r cynrychiolwyr i'w hysbysu ynglŷn â sut y byddai'r broses etholiadol yn cael ei chynnal, ni chynigiodd eraill 'ddrws agored' mewn grym ar gyfer yr ymgeiswyr a'r asiantau i gyd os oedd angen cyngor arnynt.

**5.47** Ar sail adborth a dderbyniwyd gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau a gweinyddwyr etholiadol rydym yn credu bod manteision pendant trwy drefnu cyfarfodydd cyfarwyddyd rhwng staff gwasanaethau etholiadol ac ymgeiswyr a/neu asiantau ym mhob etholaeth. Mae cyfarfodydd cyfarwyddyd o fudd o ran cynnig triniaeth gyson a chyfiawn i bob ymgeisydd ac eglurder. Mae hefyd o fudd o ran adnabod materion o bwys a all fod yn anodd i ymgeiswyr neu asiantau eu deall neu a all greu ansicrwydd, felly'n rhagatal problemau, yn hytrach na'u hwynebu wrth iddynt godi.

**5.48** Gall ymgeiswyr a chynrychiolwyr mewn etholiad, yn arbennig rhai newydd neu ddibrofiad a rhai heb gefnogaeth peiriant plaid sylweddol, deimlo bod y broses etholiad yn gymhleth a brawychus. Mae rhai cynrychiolwyr pleidiau wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod rhai staff gwasanaethau etholiadol yn eu gweld fel yr ochr 'front' (yn wleidyddol), sydd yno i greu anawsterau. Yn bendant nid dyma brofiad pawb ac mae llawer o arfer da i adeiladu arno. Gwnaeth un gweinyddwr etholiadol sylwadau wrthym ei fod yn gweld ei rôl fel hwylyso'r broses ddemocrataidd a chynorthwyo ymgeiswyr potensial i bori drwy'r ffurflenni a'r prosesau perthnasol i sefyll mewn etholiad, nid i osod rhwystrau yn eu ffordd. Rydym yn cymeradwyo'r agwedd honno ac yn credu bod budd i bawb sy'n gysylltiedig mewn sgwrs strwythurol.

Fel mater o arfer da, rydym yn argymhell bod Swyddogion Etholiadau yn trefnu cyfarfodydd cyfarwyddyd etholiadol rhwng Swyddogion Etholiadau, staff gwasanaethau etholiadol, ac ymgeiswyr ac asiantau, er mwyn amlinellu prosesau etholiadol allweddol.

### Y broses enwebu yn ymarferol

**5.49** Fe enwebir ymgeiswyr ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dwy broses arbennig. Yn gyntaf, enwebir ymgeiswyr a'u hethol mewn etholiadau 'cyntaf heibio i'r postyn' ar gyfer 20 etholaeth Aelodau Cynulliad unigol ac, yn ail, enwebir ymgeiswyr a'u hethol o restr plaid wleidyddol fel ymgeisydd rhanbarthol unigol mewn pum rhanbarth yng Nghymru, gyda phob un yn dychwelyd pedwar o Aelodau Cynulliad.

**5.50** Mae enwebiadau ar gyfer y ddau wahanol fath o ymgeisyddiaeth yn wahanol. Yn etholiad yr etholaeth, mae asiantau ar ran ymgeisydd etholiadol neu'r ymgeisydd ei hunan yn cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Etholiad wedi'u harwyddo gan un tanysgrifiwr. Mae modd felly eich enwebu'ch hunan. Yn yr etholiad rhanbarthol, dewisir ymgeiswyr y rhestr ranbarthol gan blaid wleidyddol ar gyfer lle ar restr y blaid honno. Bydd y gyfran o'r pleidleisiau y mae plaid yn ei derbyn mewn unrhyw un rhanbarth yn arwain at aelodau yn cael eu hethol yn y drefn maent wedi'u gosod ar y rhestr ranbarthol yn ystod yr enwebiad. Mae swyddogion enwebu pleidiau gwleidyddol yn gwneud enwebiad ymgeiswyr ar gyfer rhestr y rhanbarth a'u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod papurau enwebu yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob un o'r pum Swyddog Etholiad Rhanbarthol.

**5.51** Mae gan y broses effeithiau cynyddol ar gyfrif ymgeisydd a chyfyngiadau gwariant plaid wleidyddol. Mae gwariant ymgyrch etholiad ymgeiswyr rhestr ranbarthol yn ffurfio rhan o wariant ymgyrch y blaid yn genedlaethol ac yn gweithredu o fewn y cyfyngiad hwnnw. Mae gan ymgeiswyr etholiadol eu cyfyngiadau gwariant eu hunain ac yn cyflwyno eu gwariant i'w Swyddog Etholiad lleol, yn annibynnol ar wariant y blaid gyfan. Mae ar y Swyddog Etholiad rwymedigaeth i gyflwyno'r wybodaeth honno i'r Comisiwn.

**5.52** Ar gyfer y rhan fwyaf o etholiadau yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd am gael eu hethol gasglu nifer arbennig o danysgrifwyr i gefnogi eu henwebiad. Mae tanysgrifwyr yn rhan o'r broses enwebu yn y Deyrnas Unedig er 1872. Ynghyd â'r system blaendal, yr angen am danysgrifwyr ar bapurau enwebu i sicrhau bod y rhai sy'n

cyflwyno'u hunain i weinyddiaeth gyhoeddus yn gwneud hynny mewn modd rhesymol.

**5.53** Mae Gorchymyn 2003 sy'n llywodraethu ymddygiad etholiad y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer un tanysgrifiwr ar bapurau enwebiad ymgeiswyr etholaeth.<sup>52</sup> Mae ymgeiswyr, asiantau, pleidiau gwleidyddol a gweinyddwyr yn gyffredinol yn croesawu hyn. O'i gymharu â'r broses enwebu ar gyfer etholiadau San Steffan, lle mae gofyn am 10 llofnod, ystyrir y broses hon yn symlach i'w gweithredu i bawb sy'n gysylltiedig. Mae'n darparu proses symlach ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau ac sy'n golygu bod modd enwebu'ch hunan.

Mae'r broses o'ch enwebu'ch hunan yn dderbyniol iawn i ymgeiswyr; mae'n osgoi'r angen iddynt gael gafael ar 10 llofnod megis yn achos yn etholiadau Seneddol a lleol. Dylid rhoi ystyriaeth i ymestyn y broses hon i etholiadau eraill... mae'r system hon hefyd yn lleihau'r broses weinyddol.

### Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol

**5.54** Adroddwyd am beth dryswch ynglŷn ag union natur tanysgrifwyr o'u cyferbynnu â thystion. Nid oedd rhai ymgeiswyr a chynrychiolwyr yn glir nad oes yn rhaid i danysgrifwyr fod yno yn gorfforol i dystio llofnod y darpar ymgeisydd ar y papurau enwebu. Nid oedd hyn yn broblem sylweddol a byddai'n cael ei datrys drwy eglurhad ar y papurau enwebu a ddarperir i ymgeisiwyr ac asiantau.

**5.55** Yn ein hadroddiad ar system enwebu ymgeisydd, *Sefyll mewn etholiad yn y DU*: adroddiad ac argymhellion<sup>53</sup> adolygydd y gwahanol systemau a ddefnyddiwyd ar gyfer enwebu ymgeiswyr yn etholiadau San Steffan, etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gennym. O ganlyniad i'n hymchwil ac ymgynghoriad, mae'r Comisiwn wedi argymhell y dylid cyflwyno system safonol ar gyfer yr etholiadau i gyd. Hoff fodel y Comisiwn yw diddymu y blaendaliadau a'r tanysgrifwyr yn gyfan gwbl, oherwydd credwn fod anfantaision y system yn gorbwyso'r manteision. Serch hynny, ein hargymhelliad amgen – os na dderbynnir ein hoff opsiwn – yw dilyn model Senedd yr Alban, a chaniatáu hunanenwebiad gydag un tyst. Mae profiad yn etholiadau Cynulliad yn dangos y byddai diwygiad o'r fath yn cael ei groesawu yn gyffredinol.

<sup>52</sup> Amserlen 5, adran 4(4)Gorchymyn 2003.

<sup>53</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003).

**5.56** Y blaendal sydd ei angen ar gyfer ymgeiswyr etholaeth yn etholiad y Cynulliad yw £500, sy'n cael ei ddychwelyd os yw'r ymgeisydd yn erbyn mwy nag ugeinfed ran o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth honno. Y blaendal ar gyfer pobl plaid wleidyddol neu ymgeisydd yn y bleidlais ranbarthol yw £500. Bydd yn cael ei ddychwelyd os yw'r ymgeisydd yn ennill dros un rhan o ugain o'r pleidleisiau dilys yn y rhanbarth neu os yw ymgeisydd yn ennill sedd ranbarthol, er gwaethaf derbyn llai nag un rhan o ugain o'r bleidlais ddilys o fewn y rhanbarth hwnnw. Rhoddir y blaendaliadau yng ngofal y Swyddog Etholiad perthnasol. Ni chodwyd materion gyda'r Comisiwn gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr neu staff gwasanaethau etholiadol ynglŷn â gweithredu y system o flaendal yn yr etholiad hwn.

## Enwau a symbolau pleidiau gwleidyddol

**5.57** Yn yr etholiad hwn, fel mewn etholiadau cyffredinol blaenorol a'r etholiadau blaenorol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rhoddwyd cyfyngiad o chwe gair i enwau pleidiau gwleidyddol a ddefnyddir ar bapurau enwebu.

**5.58** Effaith Gorchymyn 2003 oedd fod yn rhaid i unigolyn, er mwyn cael ei enwebu yn yr etholiad hwn fel ymgeisydd etholaeth yn cynrychioli plaid wleidyddol gofrestredig, ddarparu ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau yn cynnwys ei enw/ei henw a chyfeiriad llawn; disgrifiad o'r plaid wleidyddol yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu ei ddefnyddio, neu'r gair 'independent' neu, yn Gymraeg, *annibynnol*, neu'r ddau.<sup>54</sup> rhwng 24 Mawrth a 1 Ebrill 2003 yn gynwysedig. Rhaid i unrhyw gysylltiad rhwng ymgeisydd a phlaidd wleidyddol yn y papurau enwebu gael tystysgrif i gyd-fynd ag ef, a ddarperir yng Ngorchymyn 2003, ac wedi'i arwyddo gan swyddog enwebu'r plaid.

**5.59** Nid oedd ffurflen enwebu benodedig, er fe ddefnyddiodd rhan fwyaf y Swyddogion Canlyniadau y sampl o Orchymyn 2003, neu ddefnyddio ffurflenni a ddarparwyd yn fasnachol. Byddai enw'r ymgeisydd a'r plaid wleidyddol, fel y'u hysgrifennwyd ar y papurau enwebu a gyflwynir gan yr ymgeisydd, yn cael eu dangos yn yr union yr un ffurflen ar y papur pleidleisio ar ddiwrnod y pleidleisio. Yn ogystal caniatawyd i ymgeiswyr – fel y gwelai'r Swyddog Canlyniadau yn ddoeth ac ar yr amod fod y swyddog enwebu wedi cymeradwyo hyn – ddefnyddio disgrifiad a oedd, er nad yn union enw cofrestredig y plaid, yn eu cysylltu nhw â'r plaid ac nad oedd yn arwain at gymysgu eu

ymgeisiaeth gydag ymgeisiaeth ymgeisydd o blaid arall oedd yn sefyll yn yr etholiad. Er enghraifft, roedd y plaid 'Cynghrair Sosialaidd Cymru' yn medru defnyddio 'Cynghrair Sosialaidd Cymru yn erbyn y Rhyfel'.

**5.60** Fe ddehonglodd Swyddogion Canlyniadau ddarpariaethau'r Gorchymyn fel eu bod yn cynnwys cyfieithiad Cymraeg o enw'r plaid, hynny yw, dehonglwyd bod y cyfyngiad o chwe gair yn berthnasol i enw plaid wleidyddol a ddefnyddiwyd ar ffurflen enwebu yn y Saesneg a'r Gymraeg.

**5.61** Mae'n nodedig nad yw hyn wedi peri anhawster i'r pedair prif plaid wleidyddol yng Nghymru, gyda'r cwbl yn defnyddio fersiynau o'u henwau nad ydynt yn gwneud cyfanswm o fwy na chwech yn Saesneg a Chymraeg. Er enghraifft, mae 'Plaid Cymru – The Party of Wales' yn gyfanswm o chwe gair. Fodd bynnag credai pleidiau gwleidyddol eraill a oedd yn rhoi ymgeiswyr ymlaen yn yr etholiad fod gan hyn botensial o fod yn anfantais i bleidiau gyda'u henwau, wrth eu cyflwyno yn ddwyieithog, yn gwneud cyfanswm o fwy na chwe gair. Roedd hyn yn broblem benodol, er enghraifft, i Blaid Annibynnol y Deyrnas Unedig. Golygai nad oeddent yn medru cyflwyno'u henw yn ddwyieithog ar y papurau enwebu a'r papurau pleidleisio. Dywedasant wrthym ni eu bod yn gweld hyn fel anfantais etholiadol. Nid hwy oedd yr unig plaid i gael eu dal gan ddehongliad o'r cyfyngiad. Roedd y broblem yn arbennig o wael i bleidiau llai, gyda rhai ohonynt ond yn rhoi un neu lond dwrn o ymgeiswyr ymlaen – heb beiriant plaid wleidyddol effeithiol i ddibynnu arno, roedd hi'n annhebygol y byddent wedi bod yn ymwybodol o'r broblem nes iddynt geisio enwebu ymgeiswyr.

**5.62** Achoswyd cymhlethdodau pellach gan anghysonder ymddangosiadol yng Ngorchymyn 2003, gan nad oedd y cyfyngiad chwe gair yn berthnasol i ymgeiswyr yn y rhestr ranbarthol. Felly gallai ymgeiswyr ar y rhestr ranbarthol ddefnyddio enwau'r pleidiau yn Saesneg ac yn Gymraeg ar ffurflenni enwebu a phapurau pleidleisio heb unrhyw gyfyngiadau.

**5.63** Mae'r ddeddfwriaeth ar y pwynt hwn ar gyfer etholiadau Seneddol a llywodraeth leol yn glir. Dim ond pleidiau gwleidyddol wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn all ddefnyddio gair ar wahân i independent neu *annibynnol*, ac ni ddylai'r geiriau a ddefnyddir fod yn fwy na chwe gair.<sup>55</sup>

<sup>54</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Amserlen 1, Rheolau etholiad seneddol 6 (2) (c) a Rheolau Etholiad Lleol (Prif Ardaloedd) 1986, Rhan II, 4 (3) (wedi'i newid am Rheolau Etholiad Lleol (Prif Ardaloedd) (Diwygiwyd) 2001.

<sup>54</sup> Gorchymyn 2003, Amserlen 5, adran 4.

Rydym eisoes wedi argymhell caniatáu i ymgeiswyr annibynnol ddefnyddio'r un cyfyngiad geiriau â'r rheini o bleidiau gwleidyddol.<sup>56</sup>

**5.64** Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi esbonio mai bwriad Gorchymyn 2003 oedd caniatáu defnyddio enwau pleidiau gwleidyddol Saesneg a Chymraeg mewn enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O gofio'r ansicrwydd ynghylch y mater hwn, mae adolygiad o'r mater yn ffordd briodol ymlaen, yn seiliedig ar ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol ac yn cynnwys gofyn am gyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Rydym yn cynnig adolygu'r darpariaethau deddfwriaethol cyfredol sy'n rhoi cyfyngiad o chwe gair ar enwau pleidiau gwleidyddol ymgeiswyr sy'n sefyll am etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer eglurder deddfwriaethol ar ddwyieithrwydd, mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**5.65** Mae symbolau pleidiau gwleidyddol, i'w defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau wrth baratoi papurau pleidleisio wedi iddynt dderbyn enwebiadau, ar gael yn ganolog gan y Comisiwn a gellir eu lawrlwytho o wefan y Comisiwn. Adroddodd rhai Swyddogion Canlyniadau am broblemau gyda gwefan y Comisiwn wrth geisio cael mynediad i'r symbolau hyn. Roedd hyn o ganlyniad i fod pleidiau gwleidyddol cofrestredig am gofrestru symbolau newydd ar adeg cyflwyno enwebiadau ac roedd peth amser cyn y gellir prosesu'r rhain a'u bod yn ymddangos ar ein gwefan. Mae'r problemau technegol hyn yn awr wedi'u datrys.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y problemau a achoswyd i rai Swyddogion Canlyniadau yn ymwneud â chael mynediad i symbolau pleidiau ar ein gwefan, ac mae wedi cymryd camau i sicrhau na fydd hyn yn cael ei ailadrodd mewn etholiadau yn y dyfodol.

## Pleidleisio post

**5.66** Yr etholiadau hyn oedd yr ail yng Nghymru a'r etholiad Cynulliad cyntaf ble roedd pleidleisio post ar gael i bawb, ar gais. Cyflwynwyd pleidleisio post ar orchymyn cyn yr etholiad cyffredinol yn 2001. Ers cyflwyno pleidleisio post ar orchymyn, cafwyd derbyniad gyfatebol uwch o bleidleisio post yng Nghymru. Yn etholiad cyffredinol 2001, profodd pleidleisio post i fod fwyaf poblogaidd yng Nghymru, ble dosbarthwyd pleidlais bost i bron 5% o'r etholaeth, o'i gymharu â thua 4% yn Lloegr a llai na 3% yn yr Alban.

**5.67** Mae'r Comisiwn yn ei gweld hi'n hanfodol y dylai staff gwasanaethau etholiadol gael pŵer i gynnal hyrwyddiad effeithiol o bleidleisio absennol. Ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff annog cyfranogiad yn ein prosesau democratig yn weithredol— yn union fel y mae gofyn i'r Comisiwn ei wneud o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. I'r perwyl hwn, mae'r Comisiwn eisoes wedi argymhell i'r llywodraeth y dylid egluro safle Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas ag ariannu cyhoedduswydd i annog cyfranogiad, ac y dylid cael gwared ar aneglurder pellach drwy newidiadau deddfwriaethol penodol. Rydym hefyd wedi adolygu'r arfer gorau wrth hyrwyddo pleidleisio post ac wedi cynhyrchu cyfarwyddyd ar 'beth sy'n gweithio' ar lefel awdurdod lleol yn adroddiad 2002, Gwneud argraff.

**5.68** Yn ogystal fe wnaeth y Comisiwn gyhoeddi adroddiad ac argymhellion ar gyfraith ac arfer yn ymwneud â phleidleisio post a drwy ddirprwy ym mis Mawrth 2003.<sup>57</sup> Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaeth y Comisiwn adnabod hyrwyddiad pleidleisio post fel mater hanfodol bwysig wrth gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn y broses ddemocratig. Roeddem felly am weld i ba raddau oedd yr argymhelliad hwn wedi cael ei weithredu cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**5.69** Roedd ail gam ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled Cymru yn y cyfnod cyn yr etholiadau yn canolbwyntio ar atgoffa pobl y gallant ddewis defnyddio pleidlais bost. Fel gyda cham cyntaf ein hymgyrch, wrth amlygu'r angen i gofrestru i bleidleisio, dyma oedd yr unig strategaeth hyrwyddo cydlynol yng Nghymru ar bleidleisio post. Fe wnaeth nifer o Swyddogion Canlyniadau ddewis hyrwyddo pleidleisio post mewn deunyddiau a gynhwysir

<sup>56</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Sefyll am etholiad yn y Deyrnas Unedig: Adroddiad ac argymhellion*.

<sup>57</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Pleidleisio absennol ym Mhrydain: Adroddiad ac argymhellion*.

gyda'u canfasio blynyddol, ar gardiau pleidleisio, neu mewn rhai achosion, drwy'r wasg leol. Fodd bynnag, fe adroddodd saith na wnaethant hyrwyddo pleidleisio post o gwbl.

**5.70** Mae dadansoddiad o'r ystadegau yn dangos amrywiaeth eang rhwng etholaethau Cymru gyda derbyn pleidleisio post yn yr etholiad cyffredinol. Roedd hyn yn bennaf berthnasol i lefel hyrwyddiad lleol o bleidleisio post. Roedd Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn y 10 uchaf o holl etholaethau'r DU ar gyfer nifer y pleidleisiau post a gyhoeddwyd (16% a 15% yn y drefn honno) a'r niferoedd a ddychwelwyd (84% ac 81% yn y drefn honno)<sup>58</sup> yn dilyn ymgyrch hyrwyddo a wnaed gan Gyngor Caerdydd cyn yr etholiad cyffredinol.

**5.71** Cyhoeddwyd saith y cant o'r etholaeth yng Nghymru â phleidlais bost ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003. Fe ddangosodd y Swyddogion Canlyniadau a'r awdurdodau lleol hynny a wnaeth hyrwyddiad uniongyrchol am fod pleidleisio post ar orchymyn ar gael, megis yng Nghastell-nedd Port Talbot, gynnydd clir mewn ceisiadau am bleidleisiau post. Fe wnaeth yr etholaethau hynny sydd wedi adrodd am ddim ymgyrch hyrwyddo penodol yn lleol i annog pleidleisio post, yn gyffredinol, ddangos derbyniad llawer yn is. Mae'r dadansoddiad hwn o dderbyniad pleidleisiau post ledled etholaethau yng Nghymru yn arwain at y casgliad anochel fod hyrwyddo pleidleisio post ar lefel leol yn cael effaith ar nifer y pleidleiswyr. Mae dychweliad pleidleisiau post, fel ffactor mewn nifer y pleidleiswyr yn cael ei ddadansoddi ym Mhennod 3 uchod.

Defnyddiwn y cyfle hwn felly i ailadrodd argymhelliad o'r hadroddiad Pleidleisio absennol ac ehangu arno:

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau ac Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu eu strategaethau hyrwyddo a mabwysiadu'r arfer gorau a nodwyd yn adroddiad 2002 y Comisiwn *Gwneud argraff*.

Argymhellwn ymhellach y dylai Swyddogion Canlyniadau ac Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru adolygu ac adrodd yn gyhoeddus yn flynyddol ar eu strategaethau hyrwyddo mewn perthynas â phleidleisio absennol.

**5.72** Nododd un Swyddog Canlyniadau, er na wnaethon nhw hyrwyddo pleidleisio post yn eu hetholaeth, fe wnaeth un o'r prif bleidiau gwleidyddol hynny. O'r wybodaeth oedd ar gael i ni o adroddiadau a dderbyniwyd, ein hymweliadau ein hunain ag etholaethau, a'n holiaduron, mae'n glir fod Swyddogion Canlyniadau ledled Cymru wedi mabwysiadu dulliau amrywiol ar gwestiwn pleidiau gwleidyddol yn hyrwyddo pleidleisio post yn uniongyrchol. Er enghraifft, fe wnaeth rhai pleidiau gwleidyddol lleol gais am ffurflenni cais pleidleisio post i'w dosbarthu'n lleol. Ni wnaeth rhai Swyddogion Canlyniadau ateb y ceisiadau hyn, tra gwnaeth rhai eraill. Ymddengys mai'r rhesymau dros wrthod yw, y dylai'r holl bleidiau gael eu trin yn gyfartal a gallai hyrwyddo pleidleisio post gan un blaid fod yn fantais etholiadol. Hefyd cafwyd pryderon y gallai cyhuddiadau o dwyll godi – er enghraifft, pe bai gweithredwyr pleidiau gwleidyddol yn cael eu gweld yn rhoi pwysau ar unigolion i gwblhau'r cais post wrth i'r gweithwyr pleidiau aros iddo gael ei gwblhau. Fel y mae hi, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyhuddiadau o'r fath yn yr etholiadau hyn.

**5.73** Mae cynrychiolwyr y prif bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ac asiantau wedi dweud wrthym y byddent yn croesawu ymagwedd gyson gan Swyddogion Canlyniadau ar y pwynt hwn. Fel gyda materion a godwyd yn y broses enwebu, mae dadl gref dros gysondeb ar sail, ymhle bynnag mae ymgeisydd yn sefyll am etholiad yng Nghymru, dylai amgylchiadau tebyg fod yn berthnasol mewn cyfraith ac mewn ymarfer. Yn arbennig yng nghyswllt ceisiadau pleidlais bost, nid oes amheuaeth fod gan bleidleiswyr ddisgwyliadau tebyg o arfer cyfartal.

**5.74** Rhoddodd ein hadroddiad *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* sylw i'r mater hwn. Nodwyd gennym ei bod hi wedi dod yn arfer cyffredin yn gynyddol i weithwyr pleidiau ganfasio preswylwyr i'w hannog nhw i gwblhau ffurflenni cais pleidleisio post ac yna'u hannog i ddychwelyd papurau pleidleisio post, gyda'r risg y gallant gael eu temtio i weithredu fel tyst i'r datganiad hunaniaeth yn y broses. Rydym yn glir y dylid annog yn amlwg ymdrechion gwirioneddol pleidiau gwleidyddol i wella nifer y pleidleiswyr, ond byddai pryderon difrifol yn codi pe bai gweithwyr pleidiau yn ceisio rhoi pwysau.

<sup>58</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2001) *Pleidleisiau post, pleidleisiau drwy ddirprwy a phleidleisio a ddifethwyd yn etholiad cyffredinol 2001*.

Tabl 9: Derbyniad pleidleisio post

Etholaeth	Canran o'r etholaeth a wnaeth gais am bleidlais bost 2001	Canran o'r etholaeth a wnaeth gais am bleidlais bost 2003
Aberafan	3.9	11.5
Alun a Glannau Dyfrdwy	2.2	1.6
Blaenau Gwent	2.8	2.2
Brycheiniog a Maesyfed	4.8	7.2
Pen-y-bont ar Ogwr	4.1	7.4
Caernarfon	3.9	6.4
Caerffili	2.8	8.1
Canol Caerdydd	12.8	8.9
Gogledd Caerdydd	15.9	12.2
De Caerdydd a Phenarth	11.2	8.5
Gorllewin Caerdydd	15.1	11.5
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	5.2	5.0
Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro	4.0	3.1
Ceredigion	3.6	3.0
De Clwyd	3.1	5.7
Gorllewin Clwyd	3.8	5.1
Conwy	4.3	4.2
Cwm Cynon	3.1	10.5
Delyn	2.5	1.7
Gŵyr	4.3	8.0
Islwyn	2.5	7.8
Llanelli	4.3	4.1
Meirionnydd Nant Conwy	4.5	4.1
Merthyr Tudful a Chwm Rhymini	3.1	4.3
Mynwy	5.6	4.7
Sir Drefaldwyn	3.8	6.1
Castell-nedd	5.4	12.5
Dwyrain Casnewydd	2.0	8.4
Gorllewin Casnewydd	3.0	11.8
Ogwr	2.8	7.1
Pontypridd	2.5	8.5
Preseli Penfro	4.3	3.3
Y Rhondda	4.9	12.1

**5.75** Yn dilyn canlyniadau ein hymgyngoriadau ar y mater hwn daethom i'r casgliad na ddylai ymgeiswyr, asiantau na gweithwyr pleidiau lleol drafod papurau pleidleisio. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen peidio ag annog trin ceisiadau pleidleisio post neu drwy ddirprwy; yn wir, i'r gwrthwyneb yn llwyr. Gall pleidiau gwleidyddol chwarae rôl hanfodol wrth annog cyfranogiad drwy hyrwyddo'r ffaith fod dulliau pleidleisio absennol ar gael a hwyluso ceisiadau drwy ddarparu'r etholwyr â'r ffurflenni angenrheidiol i ymgeisio a chasglu ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau.

Rydym hefyd wedi cynnig adnabod arfer gorau mewn perthynas â thrin ceisiadau pleidlais bost a phapurau pleidleisio gan gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a datblygu Cod Ymarfer ar y cyd â'r pleidiau gwleidyddol. Mae *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* yn cynnwys y datganiad canlynol:

Mae'r Comisiwn yn cynnig adnabod arfer gorau mewn perthynas â thrafod ceisiadau pleidlais bost gan gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a datblygu Cod Ymarfer ar y cyd â phleidiau gwleidyddol. Byddai'r Cod yn adlewyrchu barn y Comisiwn na ddylai ymgeiswyr, asiantau na gweithwyr pleidiau lleol drin papurau pleidleisio. Fodd bynnag, os nad yw hunan-reoli yn gweithio, mae'n bosib y bydd angen deddfwriaeth yn y dyfodol.

Yng ngoleuni'r profiad yng Nghymru eleni, argymhellwn y canlynol yn awr hefyd:

Mae'r Comisiwn yn argymhell i bleidiau y dylent gytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer gwirfoddol i'w gynhyrchu gan y Comisiwn mewn perthynas â thrin pleidleisiau post.

**5.76** Yn y cyfamser, byddem yn cymeradwyo casgliadau *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* i Swyddogion Canlyniadau a staff etholiad yng Nghymru.

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru adolygu eu harferion mewn perthynas â thrin a hyrwyddo ceisiadau pleidleisio post gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau yng ngoleuni argymhellion y Comisiwn yn *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* a chyhoeddi datganiadau o'u harfer cyn unrhyw ymgyrch etholiad.

## Pleidleisiau Post Tramor

**5.77** Mae'n bosib y bydd nifer o bobl sy'n gymwys i bleidleisio, dramor ar adeg unrhyw etholiad, megis y rheini sy'n gweithio dramor am gyfnod. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae gan yr etholwyr hynny nad ydynt yn medru pleidleisio yn bersonol hawl i bleidlais absennol, un ai drwy bleidlais bost neu drwy ddefnyddio dirprwy. Gellir anfon pleidlais bost at gyfeiriad tramor.

**5.78** Oherwydd anghysonder yng Ngorchymyn 2003 sy'n llywodraethu cynnal etholiadau, o'i gymharu â'r darpariaethau pleidlais bost a gyflwynwyd yn 2001 ac sy'n berthnasol i etholiadau eraill y DU, nid oedd y pleidleiswyr hynny a wnaeth gais am bleidlais bost, ac a oedd dramor ar y pryd, yn gymwys i dderbyn eu pleidlais mewn cyfeiriad y tu allan i'r DU. Pan ddaeth yr esgeulustod hwn i'r golwg, cyhoeddodd y Comisiwn gyfarwyddyd addas i Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol. Dywedodd tri Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol wrthym iddynt atgoffa etholwyr a oedd yn cael eu heffeithio, o'u hawl i ddefnyddio dirprwy fel dewis arall. I roi syniad o raddfa'r rheini oedd ynghlwm â hyn, mewn un awdurdod lleol ble roedd tair etholaeth, cafodd llai nag 20 o bleidleiswyr eu heffeithio gan hyn. Ni chafodd mwyafrif y gweinyddwyr etholiadol a adroddodd i ni ar y mater, gais gan unrhyw bleidleiswyr am ddirprwy fel dewis arall. Yn ymarferol, mae'n debyg mai nifer bychan iawn yn unig o'r etholwyr a gafodd eu heffeithio gan yr anghysonder.

Argymhellwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol fel eu bod yn darparu ar gyfer pleidleisiau post i gael eu hanfon at gyfeiriadau y tu allan i'r DU, ar gais.

## Dychwelyd pleidleisiau post

**5.79** Nid adroddwyd am unrhyw broblemau nodedig ynghylch dosbarthu a dychwelyd pleidleisiau post. Fe wnaeth mwyafrif y Swyddogion Canlyniadau ddarpariaethau arbennig gyda'r Post Brenhinol wrth baratoi ar gyfer yr etholiad. Ni wnaeth ychydig o dan draean ohonynt unrhyw drefniadau penodol. O'r rheini, dewisodd un awdurdod, oedd ag ardal ddaearyddol gymharol fach, ddefnyddio ei staff ei hun i ddosbarthu pleidleisiau post, ac ni ddefnyddiasant y Post Brenhinol. Fe ystyriwn mai'r arfer gorau yw cysylltu â darparwyr gwasanaeth post a chynllunio fel bod yr effaith ar bleidleisiau post y lleiaf posib gan unrhyw ymyrraeth botensial i wasanaethau post.

**5.80** Mae gennym beth gwybodaeth gan sampl o weinyddwyr etholiadol ym mis Gorffennaf 2003 i asesu cyfran pleidleisiau post a gafodd eu dychwelyd yn hwyr, hynny yw, ar ôl diwrnod y pleidleisio. Er bod peth amrywiaeth yn y sampl, ymddengys fod tua 50-75 o bleidleisiau ymhob etholaeth wedi cael eu dychwelyd yn hwyr. Nid oedd patrwm clir i ble a phryd y cafodd y pleidleisiau hyn eu dychwelyd, yn wir roedd nifer fechan yn dal yn cael eu derbyn mewn ambell swyddfa gwasanaethau etholiadol ledled Cymru, ddiwedd mis Mehefin 2003.

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau, fel mater o arfer gorau, gysylltu â'u darparwyr gwasanaeth post ymhell cyn yr etholiad ac y dylid bod â chynllun wrth gefn fel bod yr effaith ar bleidleisiau post y lleiaf posib gan unrhyw ymyrraeth potensial i wasanaethau post.

### Agor pleidleisiau post

**5.81** Cyn eu hagor, mae pleidleisiau post sydd wedi'u dychwelyd yn cael eu rhoi, yn eu hamlenni, mewn blychau pleidleisiau post sydd wedi'u selio. Cyn y gellir cyfrif pleidleisiau post, mae angen eu hagor a'u gwirio, mae hyn mewn gwirionedd yn broses o ddilysu. I fod yn ddilys, mae'n rhaid i bleidleisiau post hefyd gynnwys datganiad dilys o hunaniaeth (gweler ymhellach isod).

**5.82** Mae gofyn i Swyddogion Canlyniadau roi rhybudd o leiaf 48 awr i ymgeiswyr ac asiantau ynghylch pryd mae'r pleidleisiau post yn cael eu hagor, ac mae gan ymgeiswyr ac asiantau hawl i fod yn bresennol i arsylwi'r broses. Gellir cynnal y broses agor pleidleisiau post unrhyw bryd wedi'r chweched diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio, sef y diwrnod olaf ar gyfer anfon pleidleisiau post.

**5.83** Mae'r broses o agor pleidleisiau post yn cael ei chynnal fel y gwêl yr ardal leol yn ddoeth. Mewn etholaethau gyda niferoedd mawr o bleidleisiau post, megis etholaethau Caerdydd, mae'r broses o agor pleidleisiau post yn digwydd yn ddyddiol wedi'r chweched diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio. Roedd etholaethau eraill gyda niferoedd llai o bleidleisiau post yn agor y rhain ddiwrnod cyn yr etholiad, fel arfer.

**5.84** Roedd rhai Swyddogion Canlyniadau yn wynebu ymholiadau gan ymgeiswyr ac asiantau o ran dilysu pleidleisiau post cyn y diwrnod etholiad, ar fater a ddylai pleidleisiau post gael eu gwirio yn wynebu i fyny neu i lawr. Nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol benodol ar y pwynt

hwn a'r Swyddog Canlyniadau sydd i benderfynu ar y mater. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai unrhyw ymgais i danseilio cyfrinachedd y bleidlais drwy ddarllen a chofnodi'r marciau ar bapurau pleidleisio unigol gan unrhyw un sy'n bresennol, yn cael ei weld yn anghyfreithlon. Adroddodd rhai gweinyddwyr etholiadol bryderon y byddai ymgeiswyr ac asiantau a welai pleidleisiau wedi'u gwirio a'u hwyneb i fyny yn medru rhoi amcan am nifer y pleidleisiau o'u plaid nhw.

**5.85** Mae cyfarwyddyd arfer gorau'r Comisiwn i weinyddwyr etholiadol, mewn partneriaeth â Sefydliad Gweinyddwyr Etholiadol, yn argymhell y dylai papurau pleidleisio gael eu gwirio â'u hwyneb i lawr, a dyna oedd ein cyngor ar unrhyw ymholiadau a dderbyniwyd. Ymhellach, fel rhan o'n harfarniad statudol o gynlluniau etholiadol peilot a gynhaliwyd mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr ym mis Mai 2003, ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003, argymhellwn gyflwyno deddfwriaeth i ddatrys y mater.**59**

### Datganiad hunaniaeth

**5.86** Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai datganiad hunaniaeth yw un o'r materion mwyaf cynhennus yng nghyd-destun pleidleisio post. Fe gyflwynwyd y datganiad tyst sy'n ofynnol drwy gyfraith ar hyn o bryd er mwyn atal twyll. Fodd bynnag, mae profiad yn benodol o'r cynlluniau peilot pleidleisio post etholiadol yn unig a arfarnwyd gan y Comisiwn mewn rhannau eraill o'r DU wedi codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y datganiad fel ffordd o atal twyll.

**5.87** Fe wnaeth profiad o etholiadau'r Cynulliad atgyfnerthu'r hyn y daethpwyd ar eu traws mewn etholiadau eraill. Adroddwyd am ddryswch ymhlith pleidleiswyr wedi cwblhau'r datganiad hunaniaeth. Er enghraifft, ysgrifennodd un pleidleisiwr arfaethedig, 'Rydw i'n 93 mlwydd oed a dydw i ddim yn deall' ar bapur pleidleisio annyls a ddychwelwyd gyda datganiad hunaniaeth gwag.

**5.88** Mae nifer y pleidleisiau post a bennir yn annyls yn awgrymu na chafwyd gwelliannau nodedig i ddealltwriaeth y pleidleiswyr o'r system pleidleisio post rhwng 2001a 2003. Fe ddatgenir bod pleidleisiau post yn annyls os nad ydynt yn cynnwys datganiad dilys o hunaniaeth. Yn 2001, gwrthodwyd 4.9% o bleidleisiau post a ddychwelwyd yng Nghymru. Yn 2003, gwrthodwyd nifer gyfatebol debyg hefyd: 5,720, neu 5.8% o'r cyfanswm a ddychwelwyd, gwahaniaeth o lai na 1%.

<sup>59</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Cyflwr etholiadau'r dyfodol*.

**5.89** Yn ein hadroddiad *Pleidleisio absennol ym Mhrydain*,<sup>60</sup> gwnaed nifer o bwyntiau yn ymwneud â'r datganiad hunaniaeth a nodwyd y gwahanol opsiynau ar gyfer gwella'r elfen hon mewn pleidleisio post. Mae ein hargymhellion terfynol ar ddyfodol datganiad hunaniaeth wedi'u cynnwys yn ein harfarniad statudol o gynlluniau peilot etholiadol a oedd yn ystyried etholiadau lleol Lloegr ym mis Mai 2003, ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003.<sup>61</sup> Rydym wedi argymhell y dylid disodli'r datganiad hunaniaeth cyfredol gan osodiad diogelwch newydd i gyd-fynd â'r pleidleisiau post, prun a yw hyn yng nghyd-destun holl bleidleisiau post neu beidio.

Ein hargymhelliad yn *Cyflwr etholiadau'r dyfodol* yw:

Dylid disodli'r datganiad hunaniaeth cyfredol gyda gosodiad diogelwch newydd i gyd-fynd â'r pleidleisiau post prun a yw hyn yng nghyd-destun holl bleidleisiau post neu beidio. Dylai'r gosodiad diogelwch hwn wneud y canlynol:

- gofyn i'r pleidleiswyr arwyddo gosodiad mai ef/hi yw'r unigolyn y cyfeiriwyd y papur pleidleisio ato/ati;
- peidio â gofyn am unrhyw fath o lofnod tyst;
- cynnwys esboniad clir o rôl a defnydd y datganiad, yn benodol y bydd yn cael ei wahanu oddi wrth y papur pleidleisio cyn y gellir dechrau cyfrif ac y byddai methu â chwblhau'r gosodiad yn gwneud y papur yn annilys;
- cael ei gynllunio a'i brintio i'w gwneud hi'n amlwg i'r pleidleiswyr y bydd y gwahaniad hwn yn digwydd.

**5.90** Yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, derbyniassom nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch 'llythyr un darn' a ddefnyddiwyd gan Swyddogion Canlyniadau yng Nghaerffili, Wrecsam, Powys a Chastell-nedd Port Talbot. Cafodd y rhain eu croesawu gan weinyddwyr etholiadol a chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol. Gwnaeth y gweinyddwyr etholiadol perthnasol ddadansoddiad o bapurau pleidleisio post a ddatganwyd yn annilys oherwydd datganiad hunaniaeth annilys yng ngoleuni peilot y llythyr un darn hwn. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu, gan fod y datganiad hunaniaeth wedi'i gynnwys fel rhan o'r amlen ddychwelyd, lleihawyd dryswch ymhlith pleidleiswyr post

ac arweiniodd at ostyngiad yn nifer y pleidleisiau post annilys a ddychwelwyd yn yr etholiadau hynny. Er enghraifft, mae Tabl 10 yn dangos y sefyllfa yn Ne Ddwyrain Cymru.

**5.91** Dywedodd y Cynulliad Cenedlaethol wrthym eu bod wedi derbyn nifer sylweddol o bleidleisiau post a oedd wedi'u dosbarthu i'w swyddfeydd hwy. Ymddengys fod hyn yn wir oherwydd bod y pleidleiswyr wedi defnyddio'r amlen oedd yn cynnwys papurau pleidleisio'r Cynlluniad Cenedlaethol fel eu hamlen ymateb, ac a ddychwelwyd i'r Cynulliad wedyn. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu fod dealltwriaeth y pleidleiswyr o'r system pleidleisio post yn is na'r hyn a allai fod, ac y gallai mesurau megis defnyddio'r llythyr un darn helpu lleihau dryswch.

## Dosbarthu taflenni etholiad ymgeiswyr

**5.92** Mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan bob ymgeisydd unigol a phob grŵp o ymgeiswyr rhestr pleidiau gwleidyddol hawl i anfon unai un ohebiaeth bost heb ei chyfeirio yn rhad ac am ddim drwy unrhyw ddarparwr post cyffredinol neu un ohebiaeth bost wedi'i chyfeirio at bob etholwr. Golyga hyn y cyfeiriad etholiad.<sup>62</sup>

**5.93** Darganfuwyd na ddosbarthwyd nifer o gyfeiriadau etholiad a oedd i'w dosbarthu gan y Post Brenhinol cyn yr etholiad. Effeithiwyd ar fwy nag un blaid wleidyddol yng Nghymru ar y cyfan, ond roedd y sefyllfa yn hynod o wael i Blaid Cymru yn eu cyfeiriadau i etholiadau Ogwr, Gorllewin Abertawe a Chonwy a rhai o'r cyfeiriadau ar gyfer rhestr ranbarthol De Orllewin Cymru. Yn ogystal fe adroddodd Plaid Cymru na ddosbarthwyd cyfeiriadau mewn rhannau penodol o Ferthyr Tudful, Cwm Cynon, Gŵyr, Port Talbot, Preseli Penfro, Brycheiniog a Maesyfed, Wrecsam, Dyffryn Clwyd, a De Clwyd. Dosbarthwyd nifer o daflenni yn hwyrach gan y Post Brenhinol yn ystod y cyfnod ymgyrchu. Fodd bynnag, achosodd y broblem bryderon sylweddol i'r ymgeiswyr a'r asiantau oedd ynghlwm â hyn. Roedd hyn yn achos penodol yng Nghonwy, lle enillodd yr ymgeisydd llwyddiannus o drwch blewyn – 72 pleidlais. Amcangyfrifodd Plaid Cymru nad oedd cyfran uchel o'u 35,000 o gyfeiriadau wedi'u dosbarthu tan, ar y gorau, ddiwrnod cyn y diwrnod pleidleisio ac mewn nifer o achosion ddim o gwbl.

<sup>60</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003).

<sup>61</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Cyflwr etholiadau'r dyfodol*.

<sup>62</sup> Gorchymyn 2003, adran 64

**5.94** Mae cyfeiriadau etholiad yn darparu gwasanaeth hanfodol, nid yn unig wrth hysbysu'r etholaeth o lwyfannau polisi'r ymgeiswyr, ond hefyd wrth annog cyfranogiad democrataidd yn gyffredinol.<sup>63</sup> Maent yn codi ymwybyddiaeth o'r etholiad sy'n digwydd. Mae'r ymchwil farn a gynhaliwyd ar ein cyfer ni yn yr etholiad hwn yn dangos mai taflenni gwleidyddol oedd y ffynhonnell wybodaeth fwyaf i bleidleiswyr ynghylch yr etholiad, gyda 89% o'n sampl ni yn cofio gweld y rhain.

**5.95** Nid yw'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Post Brenhinol ynghylch dosbarthiad cyfeiriadau etholiad yn etholiadau'r Cynulliad ar waith eto. Mae trafod cytundeb o'r fath gan y pleidiau perthnasol yn bwysig gan y bydd yn darparu gradd o gydraddoldeb ledled y broses ddemocrataidd i'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau gwleidyddol.

**5.96** Mae'r Comisiwn wedi bod ynghlwm â llunio cytundeb lefel gwasanaeth newydd gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Post Brenhinol, ynghlwm â dosbarthiad cyfeiriadau etholiad. Bydd hyn yn creu systemau monitro perfformiad fwy cadarn a bydd yn cosbi darparwr gwasanaeth dosbarthu post am beidio â chyrraedd targedau lefel gwasanaeth penodol. Bydd y cytundeb newydd ar waith adeg yr etholiadau nesaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007.

## Twyll a diogelwch

**5.97** Mae gan argymhellion y Comisiwn ar gyfer diwygiad etholiadol, fel un o'u hamcanion allweddol, yr angen i adeiladu hyder cyhoeddus yn nidwylledd y broses

etholiadol. Y mater hanfodol sy'n cael ei adnabod yn ddieithriad gan bleidleiswyr mewn perthynas â phleidleisio, yn enwedig dulliau newydd, yw diogelwch. Fe nodwyd yn *Pleidleisio dros newid*, fod diogelwch dulliau pleidleisio presennol i raddau helaeth yn seiliedig ar ganfyddiad a hyder a geir o gynefindra yn hytrach na phresenoldeb amddiffyniadau sylweddol yn erbyn toriadau diogelwch – mae'n dibynnu'n fwy ar onestrwydd y pleidleiswyr nag ar fesuriadau systematig i atal twyll.

**5.98** Mae pryderon pleidleiswyr yn deillio yn benodol o bryderon fod pleidleisio twyllodrus yn dod yn haws wrth i'r pleidleiswyr symud allan o amgylchedd rheolaethol yr orsaf bleidleisio draddodiadol a phan fo pleidleisiau'n cael eu bwrw gartref neu rywle arall. Yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003, roedd y posibilrwydd hwn ar gael i'r rheini oedd yn pleidleisio drwy'r post yn unig (er ei fod hefyd yn codi mewn perthynas ag etholiadau drwy'r rhyngwrwyd neu dros y ffôn). Mae'n rhaid i etholiadau nid yn unig fod yn deg, ond hefyd gael eu gweld i fod yn deg er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y system. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion amrywiol i'r Llywodraeth yn ein hadroddiad blaenorol ar *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* ac mewn manau eraill mewn perthynas â gwella diogelwch y broses etholiadol.

**5.99** Yn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003, nid oedd dulliau arloesol o bleidleisio, megis pleidleisiau post yn unig, pleidleisio'n electronig, drwy'r rhyngwrwyd neu negeseuon testun. Ar hyn o bryd, mae'r rhain ond yn gweithio gan ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiadau llywodraeth leol. Fel yr adroddwyd gennym mewn perthynas â phleidleisiau

Tabl 10: Dadansoddiad o bleidleisiau post annyls

Rhanbarth Etholaeth De Cymru Dwyrain, 1 Mai 2003							
	Etholaeth	Etholwyr	% Cyhoeddwyd	Etholwyr	% Derbyniwyd	Derbyniwyd	% Gwrthodwyd
Blaenau Gwent	52,927	1,159	2.19	824	71.1	151	18.33
Caerffili	68,151	5,536	8.13	3,421	61.8	152	4.44
Islwyn	51,167	3,998	7.81	2,627	65.7	111	4.23
Merthyr/Rhymni	53,763	2,390	4.4	1,527	63.8	99	6.48
Mynwy	62,459	2,918	4.67	2,022	69.3	76	3.76
Dwyrain Casnewydd	59,408	4,771	8	2,546	53.4	141	5.54
Gorllewin Casnewydd	67,161	7,222	10.8	4,160	57.6	261	6.27
Torfaen	60,749	7,535	12.4	4,264	56.59	219	5.14
<b>Cyfanswm</b>	<b>475,785</b>	<b>35,529</b>	<b>7.3</b>	<b>21,391</b>	<b>62.41</b>	<b>1,210</b>	<b>6.8</b>

<sup>63</sup> NOP, Gorffennaf 2003, [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk).

post, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw honiadau na phryderon a oedd wedi'u hadrodd ynghylch arferion twyllodrus. Fel rhan o'n hadolygiad o'r etholiad, gofynnwyd i Swyddogion Canlyniadau, staff etholiad a chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol am unrhyw gyhuddiadau o dwyll neu faterion ynghylch diogelwch yn yr etholiadau hyn yn gyffredinol. Nid adroddwyd am unrhyw un.

### Gweithgarwch diwrnod etholiad

**5.100** Adroddwyd yn eang bod strydoedd sawl rhan o Gymru ar 1 Mai, o feddwl ei fod yn ddiwrnod etholiad, yn gymharol ddistaw. Byddai sawl aelod o'r cyhoedd oedd yn cofio diwrnodau etholiad gyda gweithgarwch lleol bywiog, megis ymgeiswyr yn galw am bleidleiswyr o faniau gyda chyn siarad a nifer o weithwyr o'r pleidiau yn cnocio eu drysau, wedi bod yn siomedig. Er nad oedd hyn yn fawr o gymorth wrth annog pleidleiswyr i gymryd rhan, o safbwynt gweinyddol, golygai na chafwyd nifer o broblemau. Dywedodd mwy nag un gweinyddydd etholiadol wrthym fod nifer isel o bleidleiswyr yn golygu diwrnod sy'n rhedeg yn llyfn.

**5.101** Mae pleidiau gwleidyddol yn adrodd am anawsterau cynyddol wrth recriwtio gweithwyr pleidiau lleol, yn enwedig fel 'Rhifwyr' gorsafoedd pleidleisio. Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol, ond yn draddodiadol maent yn mynychu gorsafoedd pleidleisio er mwyn amcangyfrif lefelau cefnogaeth leol i bleidiau. Maent yn ceisio adnabod cefnogwyr tebygol nad dynt wedi pleidleisio fel y gallant eu cymell i bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Fodd bynnag, does dim rhwymedigaeth ar etholwyr i roi ei enw na'i rif etholwr, nac ateb unrhyw gwestiynau eraill a ofynnir iddynt gan rifwyr.

**5.102** Fe wnaeth rhai pleidiau gwleidyddol yn well nag eraill wrth recriwtio rhifwyr, ond yn gyffredinol ychydig iawn o rifwyr oedd yna ar 1 Mai, gyda nifer o orsafoedd pleidleisio gyda dim un o gwbl neu un yn unig. Nid yw'n syndod na chafwyd llawer o adroddiadau am wrthdaro rhwng rhifwyr a phleidleiswyr neu staff etholiad. Er hynny, roedd perthnasau rhwng staff etholiad, Swyddogion Llywyddol a rhifwyr yn amrywio'n sylweddol. Rydym eisoes wedi argymhell fod cyfarfodydd briffio rhwng Swyddogion Canlyniadau, Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol, ac ymgeiswyr a'u hasiantau yn arfer da ac mae rôl rhifwyr gorsafoedd pleidleisio yn un mater a ellir ei gynorthwyo gan drafodaeth cyn cyrraedd yr orsaf pleidleisio.

**5.103** Mae'r un peth yn wir am roi deunydd ymgyrchu gwleidyddol ar ddodrefn stryd awdurdodau lleol, maes arall lle mae'r pleidiau gwleidyddol yn galw am ymagwedd fwy cyson. Ar hyn o bryd mae rhai cynghorau lleol yn caniatáu hyn (nid yw yng ngallu'r Swyddog Canlyniadau) ond nid yw eraill yn ei ganiatáu. Er mwyn atal placardiau o'r fath fod yn berygl i draffig y ffordd, mae cynghorau sy'n caniatáu eu harddangos yn gosod rheolau llym, sydd, os na chânt eu dilyn, yn arwain i'r placardiau gael eu tynnu i lawr, a'r pleidiau gwleidyddol yn cael eu dirwyo yn unol â hyn.

**5.104** Mae peth dryswch yn codi pan fo ffiniau etholaeth yn croesi ffiniau cynghorau, sy'n arwain at sefyllfa lle y mae caniatâd i roi'r placardiau i fyny mewn rhai rhannau o'r etholaeth, a dim caniatâd mewn manau eraill. Er eu bod yn derbyn yr angen am ddiogelwch ar y ffyrdd yn llwyr, credai'r Comisiwn fod defnydd gyda chaniatâd o blacardiau o dan reolau llym yn ychwanegiad defnyddiol at y broses etholiadol gan ei fod yn creu rhan o gefndir yr etholiad ac mae'n codi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal. Mae'r Comisiwn yn bwriadu trafod y mater hwn gyda Sefydliad Llywodraeth Leol Cymru, ac maent am annog cynghorau i ganiatáu lleoli placardiau ar ddodrefn y stryd yn ystod etholiadau o fewn set o reolau a gytunir arnynt.

### Nifer y blychau pleidleisio

**5.105** Yng Nghymru, yn wahanol i'r Alban, gwnaed y penderfyniad i ddefnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer y papurau pleidleisio rhanbarthol ac etholaeth. Mae'r dewis rhwng y ddau opsiwn hwn yn ddewis rhwng defnyddio un blwch pleidleisio a lleihau dryswch i bleidleiswyr, neu ddefnyddio dau flwch pleidleisio gyda mantais botensial o gyflymu'r broses gwirio papurau pleidleisio (gan osgoi'r angen am ddidoli'r papurau pleidleisio) a chaniatáu mwy o le yn y blychau hyn os bydd nifer uchel o bleidleiswyr. Yn yr Alban ar 1 Mai, roedd tri blwch pleidleisio mewn gwirionedd, gan fod etholiadau Senedd yr Alban wedi'u cyfuno ag etholiadau llywodraeth leol.

**5.106** Roedd barn y mwyafrif o Swyddogion Canlyniadau a staff gwasanaethau etholiadol a dderbyniasom mewn adborth ar ôl yr etholiad yn ffafrio parhau i ddefnyddio blwch pleidleisio unigol. Er bod didoli papurau pleidleisio yn cael ei arafu o ganlyniad i ddefnyddio un blwch pleidleisio, ar gyfartaledd, pleidiwyd hyn yn hytrach nag achosi dryswch i'r pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio. O gofio'r hyn a

diffyg unrhyw achos gwirioneddol dros newid, ni welwn unrhyw reswm dros adolygu arfer cyfredol yng Nghymru. Mae adroddiad y Comisiwn ar yr etholiadau yn yr Alban ar 1 Mai yn casglu y dylai'r arfer cyfredol o ddefnyddio tri blwch pleidleisio yn yr Alban barhau. Mae ein casgliadau gwahanol yn achos yr Alban a Chymru yn adlewyrchu arfer, amgylchiadau a phrofiad lleol yn mhob achos.

**5.107** Cyfeiriwn at fater y broses cyfrif a gwirio fel mater ar wahân isod.

Argymhella'r Comisiwn i Swyddogion Canlyniadau y dylai arfer o ddefnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru barhau.

## Papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r broses pleidleisio

**5.108** Roedd mwy o bleidleisiau wedi'u difetha yn etholiad yma'r Cynulliad Cenedlaethol nag yn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Yn gyffredinol, roedd cyfran y pleidleisiau a fwrwyd a ddifethwyd dros ddwbl y ffigwr yn 2001: roedd 0.56% o'r holl bleidleisiau yn 2001 wedi'u difetha, o'i gymharu â 1.36% a 1.39% yn y pleidleisiau etholaeth a rhanbarthol yn y drefn honno yn 2003. Un esboniad posibl am y cynnydd hwn yw llai o ddealltwriaeth o'r system etholiadol a'r ddwy bleidlais. Gallai hyn arwain, yn rhesymegol, at nifer sylweddol uwch o bleidleisiau a ddifethwyd yn y bleidlais ranbarthol, ond nid dyma oedd yr achos.

**5.109** Dylid bod yn wylidwrus wrth ffurfio casgliadau o'r ffigyrau hyn. Roedd y gwahaniaeth, mewn gwirionedd, yn fach iawn ac nid yn unfurf ar draws yr holl etholaethau. Er enghraifft, yn Ogwr, roedd 122 yn fwy o bleidleisiau a ddifethwyd yn y bleidlais ranbarthol, ond yng Ngorllewin Caerdydd fe wnaeth 155 yn fwy o bobl ddifetha eu pleidleisiau etholaeth nag yn y bleidlais ranbarthol. Efallai mai rheswm posibl am yr achos olaf yw'r dymuniad i bleidleisio dros blaid neu ymgeisydd unigol penodol sy'n sefyll am yr etholiad rhanbarthol yn unig. Gallai'r cynnydd mewn papurau pleidleisio a ddifethwyd hefyd adlewyrchu gweithred fwiadol i gofrestru dadrithiad gyda'r etholiad neu faterion oddi fewn iddo.

**5.110** Mae ymchwil farn gyffredinol NOP ar gyfer y Comisiwn<sup>64</sup> wedi dangos fod yna lefelau gymharol isel o wybodaeth am y broses pleidleisio. Dim ond 40% o'n sampl

a deimlai eu bod yn gwybod cryn dipyn neu swm sylweddol am y system pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r Cynulliad (dim ond 10% oedd yn gwybod llawer iawn) a dywedodd 58% eu bod yn gwybod ond ychydig neu bron dim. Yn ogystal soniodd gweinyddwyr etholiadol am lefelau amrywiol o ddealltwriaeth gan bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ynghylch y system etholiadol neu'r broses pleidleisio.

**5.111** O gofio'r gwahaniaethau cymharol fach rhwng nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd yn yr etholiadau rhanbarthol ac etholaeth, ac er gwaethaf arwyddion yr ymchwil farn a'r adroddiadau o orsafoedd pleidleisio, gellir casglu, pe bai pleidleiswyr yn mynd i'r orsaf pleidleisio gyda bwriad i bleidleisio, eu bod yn gwneud hynny prun a oedd ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r system etholiadol neu'r broses pleidleisio ai peidio.

## Y cyfrif

**5.112** Cynhaliwyd cyfrifon mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled Cymru, gan gynnwys canolfannau hamdden, neuaddau dinasoedd, adeiladau dinesig, theatrau ac, mewn un achos, ffatri awyrennau. Cyfrifwyd y pleidleisiau ar noson y pleidleisio yn union wedi cau'r gorsafoedd. Gall y cyfrif fod yn fater annifyr mewn unrhyw etholiad, gyda ffawd pleidiau ac ymgeiswyr yn cael eu penderfynu yn oriau mân y bore.

**5.113** Mae'r broses gyfrif yn cynnwys, i ddechrau, dilysiad pleidleisiau etholaeth a rhanbarthol ar wahân. Dilyni'r hyn gan y cyfrif ei hun lle mae'r pleidleisiau'n cael eu didoli yn ôl ymgeisydd ar gyfer y bleidlais etholaeth ac yn ôl plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol ar gyfer y bleidlais ranbarthol. Mae papurau pleidleisio aneglur neu a ddifethwyd yn cael eu rhoi i'r naill ochr. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r ymgeiswyr a'r asiantau gyda phenderfyniad y Swyddog Canlyniadau ynghylch dilysrwydd y pleidleisiau hyn. Dim ond pan fo'r broses lawn wedi'i chwblhau y datgelir y canlyniad.

**5.114** Mae canlyniadau'r rhestr ranbarthol yn cael eu cofnodi i'r ganolfan gyfrif ranbarthol, sef ystafell ar wahân yng nghanolfan gyfrif y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fel arfer. Pan fo'r holl Swyddogion Canlyniadau Etholaeth wedi cofnodi'r canlyniadau ar gyfer eu pleidleisiau rhanbarthol, mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cynnal y cyfrifiad D'Hondt. Mae hyn yn dosbarthu'r 20 sedd aelodau ychwanegol i ba bynnag pleidiau gwleidyddol neu

<sup>64</sup> NOP, Gorffennaf 2003, [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk).

ymgeiswyr unigol sydd ar y papur pleidleisio rhanbarthol (gweler Pennod 2 am esboniad llawnach o'r broses pleidleisio a chyfrifiad rhanbarthol).

**5.115** Roedd gwahanol Swyddogion Canlyniadau yn rheoli eu cyfrif mewn gwahanol ffyrdd. Roedd gwneud penderfyniadau ar sut i gynnal y broses gyfrif yn dibynnu i raddau helaeth ar brofiad blaenorol o etholiadau cyffredinol ac etholiadau 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd Swyddogion Canlyniadau wedi penderfynu yn gynnar iawn i beidio â chynnal y cyfrif rhanbarthol ac etholaeth yn yr un drefn yn yr holl etholaethau – mewn gwrthgyferbyniad â'u cymheiriaid yn yr Alban. Yn yr Alban, fe benderfynodd Swyddogion Canlyniadau gynnal y cyfrif etholaeth yn gyntaf, ac, wedi ei gwblhau, cynnal y cyfrif rhanbarthol. Er hynny dechreuodd rhai wirio'r papurau pleidleisio rhanbarthol wrth gwblhau'r cyfrif etholaeth. Yng Nghymru, fe wnaeth rhai Swyddogion Canlyniadau gyfrif pleidleisiau etholaeth yn gyntaf, tra dewisodd eraill gyfrif y bleidlais etholaeth gan wirio'r papurau pleidleisio rhanbarthol yr un pryd.

**5.116** Mae Swyddogion Canlyniadau wedi esbonio'n glir i ni fod penderfyniad lleol yn bwysig iddyn nhw wrth benderfynu sut i reoli'r cyfrif. Fodd bynnag, mae cynrychiolwyr yr holl bleidiau gwleidyddol wedi dweud yn unfrydol wrthym yr hoffent weld yr un systemau ledled Cymru ar gyfer rheoli'r broses gyfrif. Mae darlledwyr a newyddiadurwyr yn adleisio'r un pwynt. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd caniatáu ar gyfer anghenion lleol wrth reoli'r cyfrif, ond deallwn hefyd fod y pleidiau gwleidyddol, yr ymgeiswyr a'r asiantau yn dymuno cael ymagwedd gyson ledled Cymru. Er na all anghenion y cyfryngau bennu arferion etholiadol, mae hi hefyd yn wir mai'r cyfryngau yw prif ffynhonnell wybodaeth y cyhoedd ar noson yr etholiad, ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth annog diddordeb y cyhoedd yn yr etholiad. Credwn y byddai arferion cyfrif yn manteisio o argymhellion ar arferion gorau.

Rydym yn bwriadu datblygu a chyhoeddi canllawiau arferion gorau ar drefniadaethau cyfrif ar gyfer pleidleisiau rhanbarthol ac etholaeth yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**5.117** Nododd rheolwyr etholiadau ledled Cymru fod y broses gyfrif wedi mynd yn dda, ac er gwaethaf y ffaith fod nifer o seddi etholaeth wedi'u penderfynu o drwch blewyn, ychydig iawn o adroddiadau am ailgyfrif nac unrhyw

broblemau sylweddol gyda'r broses gyfrif a gafwyd. Cafwyd un neu ddau o adroddiadau am broblemau cyfathrebu rhwng Swyddogion Canlyniadau Etholaeth wrth iddynt geisio anfon canlyniadau at Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn yr oriau mân. Ni chafwyd unrhyw geisiadau etholiadol yn herio unrhyw rai o'r canlyniadau. Er hynny, rydym yn ymwybodol o nifer o bwyntiau a allai achosi peryglon sylweddol i rediad llyfn y cyfrif yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol

**5.118** Datganwyd mwyafrif y canlyniadau etholaeth rhwng 1am a 2.30am ar 2 Mai. Fe gymerodd y cyfrif rhanbarthol lawer yn hwy i'w gwblhau, gyda'r datganiad olaf am tua 7.30am ar fore'r 2 Mai. Nododd rhai staff etholiad pe byddai nifer y pleidleiswyr wedi bod yn uwch byddai'n annhebygol y byddai'r cyfrif rhanbarthol wedi medru cael ei wneud yn ystod y nos. Roedd nifer o'r staff cyfrif wedi gweithio drwy'r dydd mewn gorsafoedd pleidleisio fel Swyddogion Llywyddol a Chlercod Pleidleisio. Teimlai Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol y byddai blinder y staff wedi golygu stopio'r cyfrif a dychwelyd y diwrnod canlynol, pe byddai nifer y pleidleiswyr wedi bod yn uwch.

**5.119** Roedd rhai gweinyddwyr yn credu y byddai hi wedi bod yn briodol cyfrif ar y diwrnod canlynol fel yn yr etholiad blaenorol – yn yr etholiad hwnnw, cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol yr un diwrnod. Yn yr Alban, lle y cyfunwyd yr etholiadau eleni, cyfrifwyd etholiadau Senedd yr Alban dros nos, ac fe ddychwelodd y staff yn hwyrach y diwrnod canlynol i gyfrif yr etholiad llywodraeth leol. Roedd hyd y cyfrif hefyd yn cael effaith sylweddol ar sylw'r cyfryngau o noson yr etholiad, gyda rhaglenni arbennig noson yr etholiad yn gorfod gorffen cyn i'r holl ganlyniadau ddod i mewn. Unwaith eto, mae sylw'r cyfryngau yn cael effaith ar ddiddordeb y cyhoedd yn yr etholiad.

**5.120** Byddai'r broses gyfrif, yn enwedig y cyfrif rhanbarthol, yn llawer gwell gyda chyfrif electronig. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes deddfwriaeth ar waith i alluogi cyfrif electronig i gael ei ddefnyddio mewn prif etholiad. Yn ogystal nid oes unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru wedi cael cyfle hyd yn hyn i dreialu'r systemau pleidleisio neu gyfrif electronig ar gyfer unrhyw fath o etholiad. Fodd bynnag, mae cyfrif electronig wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus mewn etholiadau llywodraeth leol a bydd yn cael ei ddefnyddio yn etholiadau Cynulliad Llundain Fawr ym mis Mehefin 2004. Rydym wedi adrodd ar ddefnydd o gyfrif

electronig, er enghraifft, yn ein hadolygiad strategol o'r cynlluniau peilot mewn etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2003.<sup>65</sup> Credwn y dylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ein galluogi i ddefnyddio cyfrif electronig yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol.

Argymhellwn i'r Llywodraeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n galluogi cyfrif electronig o bleidleisiau yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

**5.121** Codwyd nifer o bryderon ynghylch y papur pleidleisio rhanbarthol o amrywiol ffynonellau. Anfonwyd sylwadau gan Swyddogion Llywyddol, Clercod Pleidleisio a gweithwyr pleidiau ynghylch pryderon gan aelodau o'r cyhoedd, a wnaed yn ogystal i gynrychiolwyr y Comisiwn yn ystod ein hymweliadau ag etholaethau, ynghylch maint y papur pleidleisio rhanbarthol. Mewn rhai achosion roeddent yn rhy fawr i eistedd yn gyfforddus ar y ddesg a roddwyd mewn bythau pleidleisio bach. Roedd rhaid eu plygu fwy nag unwaith er mwyn iddynt fynd i mewn i'r blwch pleidleisio ac fe barodd hyn rhai problemau, er enghraifft, i bobl gyda mathau penodol o anableddau a rhai hen bobl. Yn ystod y cyfnod gwirio fe adroddodd rhai rheolwyr etholiad, o gofio maint a thrwch y papurau, fod agor papurau rhanbarthol yn cymryd gryn amser a chafodd hyn effaith ar y broses gyfrif. Cyflenwyd papurau pleidleisio yn lleol, ac ni chawsant eu cyfeirio'n ganolog, er enghraifft gan grŵp cynllunio etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn y dyfodol, mae'n bosib y bydd manteision i gyflenwadau cyffredin o bapurau pleidleisio neu rannu tarddiadau yn fwy. Hefyd efallai bydd manteision yn deillio o adolygu'r cynllun. Yn yr Alban, mae papurau pleidleisio rhanbarthol yn cael eu hargraffu gyda'r pleidiau gwleidyddol wedi'u rhestru yn fertigol; yng Nghymru, mae'r papurau pleidleisio'n cael eu hargraffu'n llorweddol. Mae'n bosib y gellir gwneud gwelliannau drwy gymharu profiadau ac arferion yn yr Alban.

Byddwn yn adolygu, mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol, gynllun papurau pleidleisio rhanbarthol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gymryd cyflwyniad potensial cyfrif electronig i ystyriaeth.

## Gwasanaeth canlyniadau etholiad

**5.122** Un o hynodweddau arferion etholiadol yn y DU yw nad oes cyhoeddiad swyddogol wedi'i wneud erioed o'r prif ganlyniadau etholiadol ar lefel genedlaethol neu DU ar noson yr etholiad. Er mwyn dod o hyd i gofnod o ganlyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, ymddengys mai'r ffynhonnell fwyaf cywir yw'r BBC. Casglodd y Comisiwn ei bod hi'n briodol datblygu – ar sail peilot – ffordd o gyhoeddi canlyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol 'yn fyw' ar noson yr etholiad ar ei wefan ei hun, a rhoi'r rhain ar gael fel cofnod cyhoeddus wedi hynny. Fe alluogodd beilot y data etholiad i'r Comisiwn dreialu dulliau o gasglu ac arddangos data etholiad cyn ymrwmo i wneud hyn ar raddfa DU. Gweithredwyd y prosiect mewn cyfnod byr iawn o amser, ond cafodd gefnogaeth gan fudd-ddeiliaid allweddol o'r cymunedau academiaidd, y cyfryngau a'r gwasanaethau etholiadol. Yr allbynnau cyntaf a gynlluniwyd oedd cronfa ddata o ddata etholiad sy'n deillio'n uniongyrchol o gofnodion Swyddogion Canlyniadau a modwl gwefan ryngweithiol sydd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Comisiwn ar noson yr etholiad a thu hwnt.

**5.123** Yn y pen draw, roedd y prosiect yn llwyddiannus o ran cyflawni'r nodau hyn. Fodd bynnag, tynnodd y prosiect sylw hefyd at faterion allweddol a fyddai angen sylw, pe byddai'r prosiect yn cael ei ailadrodd neu'n cael ei wneud ar raddfa fwy ar gyfer etholiadau a refferenda'r dyfodol. Roedd y problemau allweddol a ddaethpwyd ar eu traws yn arwain gan fwyaf o'r amserlenni tynn iawn a ganiatawyd i'r prosiect, a chymhlethdod datblygiad y feddalwedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ni wnaed gwaith datblygu'r wefan gan gontractwyr allanol i'r amserlenni y cytunwyd arnynt, a olygai fod rhyddhau'r wefan yn hwyr. Er i waith profi gael ei wneud gan rai aelodau allweddol o'r Tîm Prosiect, ni chafwyd digon o amser ar gyfer cynnal profion 'defnyddiwr terfynol' gan weinyddwyr etholiadol, er mai dyna oedd y bwriad gwreiddiol.
- Roedd y gronfa ddata a'r wefan wedi'u cynllunio fel bod enw'r pleidiau gwleidyddol yr oedd pob ymgeisydd yn cysylltu â nhw yn cael eu harddangos ar y cyd ag enw'r ymgeisydd ar y wefan. Wedi ymgynghoriad cychwynnol, penderfynwyd arddangos enwau pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ymddangos ar y gofrestr pleidiau

<sup>65</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Cyflwr etholiadau'r dyfodol*.

gwleidyddol. Wedi rhyddhau'r modwl, fodd bynnag, cafwyd adborth gan weinyddwyr i'r perwyl y dylai'r system ganiatáu i amrywiaethau o enwau pleidiau gael eu harddangos, er mwyn adlewyrchu'r disgrifiadau a ysgrifennwyd ar y ffurflenni enwebu a gyflwynwyd gan ymgeiswyr. Tynnwyd y safle yn ôl er mwyn cynnal datblygiadau pellach. Rhoddwyd cynllun cyfwng ar waith i alluogi gweinyddwyr i gyflwyno gwybodaeth enwebu drwy ffacs. Cafodd yr enwebiadau eu harddangos dros dro ar daenlen ar y wefan nes i'r addasiadau hanfodol gael eu gwneud.

- Roedd yn prosiect yn dibynnu'n fawr ar ewyllys da'r gweinyddwyr etholiadol. Er bod y mwyafrif yn help mawr, rydym yn ymwybodol fod rhai yn teimlo fod hyn yn golygu baich ychwanegol ar staff etholiadol.

**5.124** Mae'r Comisiwn yn adolygu ar hyn o bryd, a ddylid datblygu'r peilot ar gyfer etholiadau'r dyfodol, ac os felly, sut y dylid gwneud hyn, a bydd yn gofyn am safbwyntiau gweinyddwyr wrth symud unrhyw gynlluniau pellach ymlaen yn y maes hwn.

## Staffio ac ariannu

**5.125** Fe wnaeth y 22 Swyddog Canlyniadau ledled Cymru gyflogi 6,889 o Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio. Mae rhediad llyfn etholiad yn broses weinyddol gymhleth ac mae hyfforddiant a thaliadau aelodau staff sydd ynghlwm â hyn yn hanfodol ar gyfer rhediad llyfn y broses. Rydym wedi gwneud arolwg o niferoedd y staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod yr etholiad, materion yn ymwneud â'u recriwtio ac i ba raddau y defnyddir eu mewnbyn i ddatblygu arfer gorau wrth reoli etholiadau'r dyfodol.

## Cyllid a Staffio

**5.126** Cafwyd amrywiaeth eang yn nifer y staff a gyflogwyd mewn gwahanol etholaethau yn unol â nifer y gorsafedd pleidleisio yn yr etholaethau hynny. Soniodd tua thraean o'r awdurdodau lleol yng Nghymru am anawsterau wrth recriwtio staff o safon ddigonol.

Fe wnaeth Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 ddarparu ffordd i Swyddogion Canlyniadau gasglu taliadau am eu gwasanaethau yn etholiad 2003. Roedd yr orchymyn yn manylu'r swm mwyaf a oedd i'w gasglu am y gwasanaethau hyn.

**5.127** Roedd y taliadau hyn yn gyffredinol yn nodi cynnydd graddfa chwyddiant ar ben y rhai a osodwyd ar gyfer etholiad cyffredinol 2001, gyda'r arian ychwanegol ar gyfer taliadau yn ymwneud â'r etholiadau rhanbarthol. Yr eithriad nodedig i hyn oedd y cynnydd mewn arian oedd ar gael i gynnwys gweinyddiaeth pleidleisio post yn 2003. Yn 2001 pennwyd y taliadau hyn ar £9,500, ond fe'u codwyd ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003 yng ngoleuni'r cynnydd mewn ceisiadau am bleidleisiau post.

Tabl 11

	Ad-daliad pleidlais etholaeth	Ad-daliad pleidlais ranbarthol
Swyddog Canlyniadau	£2,077	£1,082
Pob Swyddog Llywyddol	£141	£37
Un Swyddog Llywyddol mewn gorsaf pleidleisio ddeuol	£8	£8
Pob Clerc Pleidleisio	£84	£21
Gweinyddu'r bleidlais post	£10,000	£9,000 +£46 ar gyfer pob 75 pleidleisiwr

**5.128** Fel yn 2001 ni roddwyd swm uchaf ar gyfer casglu taliadau teithio neu daliadau aros dros nos; argraffu papurau pleidleisio, cardiau pleidleisio a'u dosbarthu; rhentu ystafelloedd; taliadau ar gyfer addasu unrhyw adeilad neu ystafell dros dro; darparu blychau pleidleisio; papurau pleidleisio; papurau pleidleisio â phrint mawr neu nwyddau ysgrifennu.

**5.129** Roedd y Gorchymyn Taliadau yn destun ymgynghoriad adeiladol rhwng y Cynulliad a Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol ar lefel y ffioedd. Yn dilyn yr etholiad, fe wnaeth y Comisiwn gais am sylwadau gan Swyddogion Canlyniadau ar lefel y ffioedd yr oedd Gorchymyn Taliadau 2002 y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu ar ei gyfer. Mewn adborth i ni, dim ond dau awdurdod a ymatebodd drwy ddweud fod taliadau ar gyfer staff yn gyffredinol ar ddiwrnod pleidleisio yn annigonol ac y dylid eu cynyddu ar gyfer yr etholiad nesaf. Fodd bynnag, sylwodd nifer ohonynt eu bod yn teimlo fod y ffioedd ar gyfer Clercod Pleidleisio yn dod yn annigonol ac y dylid rhoi sylw i hyn cyn yr etholiad cyffredinol nesaf, neu etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**5.130** Rhoddodd un Rheolwr Gwasanaethau Etholiad sylwadau ynghylch a fyddai ffi benodol ar gyfer staff cyfrif yn cynorthwyo gyda recriwtio. Does dim darpariaeth ar gael

mewn deddfwriaeth ar gyfer talu staff cyfrif ac mae'r raddfa'n cael ei phenderfynu'n lleol. Golyga hyn y gall gwahanol Swyddogion Canlyniadau ddewis talu ar wahanol raddfeydd gydag oblygiadau o ran recriwtio mewn achos lle byddai un awdurdod yn talu mwy na'i gymydog.

**5.131** Nid oes llawer o gyspolondeb ar draws gwahanol awdurdodau yng Nghymru yn nhermau ysgogiadau eraill i annog staff cyngor i fod unai'n Swyddogion Llywyddol neu'n Glerciaid Pleidleisio. O'r rheini a ymatebodd i'n holiadur ar y pwynt hwn, nid yw mwyafrif yr awdurdodau yn gofyn i'w staff cyngorau gymryd diwrnod o wyliau i wneud gwaith etholiad, ond nid yw'r mwyafrif ychwaith yn caniatáu i staff gymryd diwrnod o wyliau y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio.

Mae gan nifer o staff etholiadau ddiddordeb gwirioneddol yn y broses etholiadol, ond mae'r mwyafrif yn croesawu'r cyfle i ennill incwm ychwanegol. Pe byddai raid i staff y cyngorau gymryd diwrnod o wyliau blynyddol i wneud y dyletswyddau hyn, credaf y byddai problemau yn codi (gyda recriwtio).

**Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol gyda 95% o staff etholiadol wedi'u recriwtio gan weithwyr cyngorau**

**5.132** Yn Ariannu gwasanaethau etholiadol,<sup>66</sup> adolygwyd y ffaith gennym fod arferion yn gwahaniaethu ledled y DU ynghylch a oes gofyn i staff cyngorau sy'n cael eu cyflogi ar ddiwrnod etholiad gymryd gwylliau blynyddol neu beidio. Mae caniatáu i staff weithio ar ddyletswyddau etholiad heb gymryd gwylliau yn amlwg yn golygu fod yr awdurdod yn mynd i gostau drwy golli oriau gwaith. Gall tensiynau godi hefyd pan fyddant ar ddyletswydd ar y cyd â staff etholiad eraill nad ydynt yn weithwyr yn y cyngor, a'u bod wedi'u gorfodi i gymryd gwylliau. Ar y llaw arall, mewn ardaloedd lle mae staff, yn draddodiadol, wedi cael eu talu i wneud dyletswyddau etholiad heb gymryd gwylliau blynyddol, mae'n amlwg y byddai Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol yn wynebu problemau recriwtio pe byddai raid i staff gymryd diwrnod o wyliau er mwyn gwneud dyletswydd etholiad. Mae Ariannu gwasanaethau etholiadol yn argymhell ymateb pragmatig:

Argymhellwn y dylai fod yn arfer safonol na ddylai gweithwyr cyngorau lleol orfod cymryd gwylliau blynyddol er mwyn cyflawni dyletswyddau etholiad, er mwyn sicrhau fod y Swyddog Canlyniadau yn medru dibynnu ar staff digonol i gyflwyno gwasanaeth etholiad effeithiol.

**5.133** Ystyriwn ei bod hi'n hanfodol fod gweinyddwyr etholiadol yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i reoli gweithrediadau diwrnod pleidleisio effeithiol yn rheolaidd. Mae *Ariannu gwasanaethau etholiadol* yn dangos fod y trefniadau cyfredol ar gyfer ariannu gwasanaethau etholiadol wedi datblygu mewn modd ad hoc, heb unrhyw resymeg nac egwyddorion ategol clir. Rydym wedi casglu nad ydynt yn 'addas i'r pwrpas' ac yn dioddef o nifer o wendidau strwythurol ynghyd â statws 'gwasanaeth Cinderella' o fewn awdurdodau lleol. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion ar gyfer ailstrwythuro mawr o'r trefniadau ariannol, gan symud i ffwrdd o gyllidebau lleol ar gyfer gwasanaethau craidd ac etholiadau cenedlaethol ar y lleiaf. Mae *Ariannu gwasanaethau etholiadol* yn nodi:

Argymhellwn y dylai nawdd craidd ar gyfer gwasanaethau etholiadol (h.y. nawdd i staffio, hyfforddiant, isadeiledd, gwasanaethau cofrestru ac etholiadau a refferenda'r DU) ddod o'r Gronfa Gyfunol drwy'r Comisiwn Etholiadol fel y gellir cyfateb y nawdd gyda safonau cenedlaethol y byddai'r Comisiwn yn eu gosod.

Yng nghyd-destun etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol, rydym wedi argymhell yn *Pleidleisio dros newid* y dylai:

Trafodaethau pellach gael eu cynnal gyda llywodraeth ganolog, y cyrrff deddfu sydd wedi'u datganoli a chynrychiolwyr llywodraeth leol (gan gynnwys cyngorau plwyf a chynghorau cymunedol) er mwyn adnabod y drefniadaeth ariannu fwyaf effeithlon ac effeithiol ar gyfer etholiadau o fewn y DU, er mwyn cyd-fynd â'r newidiadau strwythurol i ariannu gwasanaethau craidd ac etholiadau'r DU, yr ydym wedi'u cynnig.<sup>67</sup>

<sup>66</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003). Y Comisiwn Etholiadol (2003).

<sup>67</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) Pleidleisio dros newid.

## Cyfrifo cost yr etholiad

**5.134** Mae'n bosib amcangyfrif gwariant ar yr etholiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn seiliedig ar y taliadau y mae angen eu hateb drwy y gyfraith. Fel yr esboniwyd uchod, mae gofyn i'r Cynulliad ateb taliadau Swyddogion Canlyniadau fel a nodir yng Ngorchymyn Taliadau 2002. Ymhellach, mae gofyn i'r Cynulliad, yn unol â Gorchymyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2003 ateb taliadau'r darparwr gwasanaeth post cyffredinol, yn yr achos hwn y Post Brenhinol, wrth ddsbarthu cyfeiriadau etholiad yr ymgeiswyr at yr etholwyr.

- Amcangyfrifir gan y Cynulliad Cenedlaethol fod taliadau Swyddogion Canlyniadau, yn seiliedig ar yr hawliau a dderbyniwyd, tua £2.5 miliwn.
- Amcangyfrifir bod taliadau dosbarthu cyfeiriadau etholiad yr ymgeiswyr tua £2.2 miliwn.
- Fe wariodd y Comisiwn Etholiadol tua £100,000 ar ddarparu hyfforddiant a deunyddiau hyfforddiant i Swyddogion Canlyniadau, staff gwasanaethau etholiadol, Swyddogion Llywyddol a Chlercod Pleidleisio.
- Mae hyn yn rhoi cyfanswm o amcangyfrif gwariant o £4.8miliwn.

Gyda nifer yr etholwyr sydd wedi cofrestru ychydig dros 2.2 miliwn, mae hyn yn rhoi amcangyfrif o gost y pen etholwyr yng Nghymru o tua £2.20.

## Ateb gofynion y pleidleiswyr

**5.135** Mewn gorsafoedd pleidleisio, mae anghenion y pleidleiswyr yn hollbwysig. Mae peth tystiolaeth fod arferion pleidleisio yn cael eu lliwio gan brofiadau pleidleisio'r tro cyntaf<sup>68</sup> ac mae'n bwysig nad yw'r profiad gorsaf bleidleisio yn fygythiol, fod staff yn groesawgar a bod y broses yn syml ar gyfer pleidleiswyr y tro cyntaf. Mae'r Comisiwn yn awyddus i annog ymagwedd 'gwasanaeth cwsmeriaid', haws i'r pleidleiswyr mewn etholiadau. Mewn etholiad lle'r oedd nifer y pleidleiswyr ymhlith pobl ifanc mor aruthrol o isel, mae'n bwysig nad oedd y pleidleiswyr ifanc a wnaeth bleidleisiodd yn cael eu dadrithio gan y profiad. Mae mynd cryn bellter i gyflawni hyn yn golygu darparu hyfforddiant addas, lefelau cyflog sy'n ddigonol er mwyn recriwtio staff o ansawdd addas a sefydlu trefniadaethau ar gyfer monitro ac arfarnu. Mae angen i'r rhain i gyd fod o fewn fframwaith clir o ran safonau ansawdd, gan gynnwys atebolrwydd ar gyfer ateb yr anghenion hynny.

**5.136** Gellir hysbysu gwelliannau i gyflwyno gwasanaeth drwy drefniadaethau monitro ac arfarnu, gan gynnwys adborth gan staff sydd allan o gwmpas y wlad. Mae hi felly'n arfer da cael adborth gan staff gorsafoedd pleidleisio. Nid oedd ymagwedd gyson ledled Cymru tuag at wneud arolwg o safbwyntiau staff y diwrnod pleidleisio sydd o gwmpas y wlad i gynorthwyo wrth wneud gwelliannau i arferion gorsafoedd pleidleisio yn y dyfodol, er bod rhai enghreiffiau o arferion da. Fe adroddodd deuddeg awdurdod lleol eu bod wedi gwneud cais am holiaduron adborth ffurfiol gan holl, neu'r rhan fwyaf y Swyddogion Llywyddol ar y diwrnod. Fe wnaeth un awdurdod ddsbarthu holiaduron i sampl ar hap o staff ar ôl yr etholiad ac fe wnaeth un gynnal cyfweiliadau adborth strwythuredig gyda staff penodol wedi'r etholiad. Ni wnaeth wyth awdurdod ddsbarthu holiaduron ffurfiol er i rai o'r rhain gynnal cyfarfodydd dewisol gyda staff neu weithredu polisi 'drws agored' i bobl ddod â'u sylwadau atynt; fe wnaeth rhai o'r awdurdodau hyn gydnabod y byddent wedi hoffi gwneud mwy.

Mae adborth strwythuredig yn syniad braf ond nid yw'n ymarferol mewn swyddfa fach a physur.

**Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol**

<sup>68</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2002) *Cysylltiad pleidleiswyr a phobl ifanc*.

**5.137** Fel y nodir yn *Pleidleisio dros newid*, mae gwasanaethau etholiadol yn dod yn fwyfwy proffesiynol ac mae'r ethos gwella perfformiad sy'n berthnasol ar draws y sector cyhoeddus yr un mor gymwys i wasanaethau etholiadol. Yn Pleidleisio dros newid, rydym wedi argymhell y dylid cyflwyno safonau perfformiad cenedlaethol er mwyn darparu fframwaith fwy clir o safonau ansawdd a sefydlu atebolrwydd ar gyfer ateb y safonau hynny. Cyflwyniad lleol yw un o gryfderau gwasanaethau etholiadol yn y DU. Rydym wedi galw am safonau cenedlaethol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth wrth gadw penderfyniad ar sut yn union y mae'r safonau hyn yn cael eu hateb, yn lleol.

**5.138** Mae profiad o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2003 yn arddangos fod yna sawl enghraifft o arferion da mewn gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru. Ond y thema a ddaeth i'r amlwg gan ein holl ffynonellau gwybodaeth a'n hymchwil yw diffyg cysondeb ac ymagweddau amrywiol at wahanol faterion. Ni all gwelliannau i drefniadaethau proses ac etholiadol yn unig gynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio na chyfranogiad democrataidd. Ond gall trefniadau a phroses etholiadol greu'r amgylchiadau gorau posibl i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr gysylltu â'r etholaeth. Ac mae angen i fuddiannau'r pleidleiswyr a'r etholwyr fod wrth wraidd trefniadau etholiadol. Gyda'r egwyddorion hyn mewn cof y gwnaed yr argymhellion sy'n codi o'r adroddiad hwn a'r rhai o'n rhaglen ddiwygiad etholiadol a gyhoeddwyd.

## Crynodeb o argymhellion

Argymhellwn y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru adolygu'n flynyddol ac yna cyhoeddi eu strategaethau hyrwyddo ar gyfer cofrestru etholiadol. Wrth adolygu strategaethau, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried enghreifftiau o arferion gorau a gymeradwyir gan y Comisiwn. Argymhellwn y dylai strategaethau o'r fath gymryd i ystyriaeth yr angen am annog pobl dan 25 i goHey babefrestru i bleidleisio.

Cynigiwn baratoi templedau o'r holl ffurflenni hanfodol sydd eu hangen ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymhellwn y dylai'r rhain gael eu defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau, gyda bwriad o gysoni arfer ledled Cymru.

Bwriadwn hwyluso, mewn etholiadau'r dyfodol yng Nghymru, drafodaethau manylach mewn arddull seminar ymhlith Swyddogion Canlyniadau a staff etholiad, ar faterion proses ac arfer etholiadol manwl, gyda'r bwriad o feithrin ymagwedd cyson a chytuno ar arferion gorau ar faterion cyffredin, ar yr un pryd â chydabod cyd-destun gwneud penderfyniadau yn lleol.

Cynigiwn hefyd adolygu ein darpariaeth hyfforddiant a'n deunyddiau cyfarwyddyd, mewn ymgynghoriad â phleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau a staff etholiad, er mwyn ceisio adnabod agweddau a fyddai'n manteisio o gael cyfarwyddyd manylach y cytunwyd arno ar gyfer etholiadau'r dyfodol, gyda bwriad o hyrwyddo arfer gorau a chyson.

Fel mater o arfer gorau, argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau drefnu cyfarfodydd briffio etholaeth rhwng Swyddogion Canlyniadau, staff gwasanaethau etholiadol gydag ymgeiswyr ac asiantau, ar gyfer dibenion amlinellu prosesau etholiadol allweddol.

Rydym yn cynnig adolygu'r darpariaethau deddfwriaethol cyfredol sy'n rhoi cyfyngiad o chwe gair ar enwau pleidiau gwleidyddol ymgeiswyr sy'n sefyll am etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer eglurder deddfwriaethol ar ddwyieithrwydd, mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y problemau a achoswyd i rai Swyddogion Canlyniadau yn ymwneud â chael mynediad i symbolau pleidiau ar ein gwefan, a bydd yn sicrhau y bydd hyn yn cael sylw effeithiol mewn etholiadau yn y dyfodol.

Ailadroddwn y canlynol o *Pleidleisio absennol ym Mhrydain*:

Mae'r Comisiwn yn cynnig adnabod arfer gorau mewn perthynas â thrin ceisiadau pleidlais bost gan gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a datblygu Cod Ymarfer ar y cyd â phleidiau gwleidyddol. Byddai'r Cod yn adlewyrchu barn y Comisiwn na ddylai ymgeiswyr, asiantau na gweithwyr pleidiau lleol drafod papurau pleidleisio. Fodd bynnag, os nad yw hunan-reoli yn gweithio, mae'n bosib y bydd angen deddfwriaeth yn y dyfodol.

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru adolygu eu harferion mewn perthynas â thrafod a hyrwyddo ceisiadau pleidleisio post gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau yng ngoleuni argymhellion y Comisiwn yn *Pleidleisio absennol ym Mhrydain* a chyhoeddi datganiadau o'u harfer cyn unrhyw ymgyrch etholiad.

Argymhella'r Comisiwn y dylai pleidiau gytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer gwirfoddol a fydd yn cael ei gynhyrchu gan y Comisiwn mewn perthynas â thrin pleidleisiau post.

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu eu strategaethau hyrwyddo ar hyrwyddo pleidleisio absennol a chyhoeddi datganiadau blynyddol ar strategaethau o'r fath. Wrth adolygu eu strategaethau, dylai Swyddogion Canlyniadau ac Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried enghreifftiau o arferion gorau a gymeradwyir gan y Comisiwn.

Argymhellwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol fel eu bod yn darparu ar gyfer pleidleisiau post i gael eu hanfon at gyfeiriadau y tu allan i'r DU, ar gais.

Argymhellwn y dylai Swyddogion Canlyniadau, fel mater o arfer gorau, gysylltu â'u darparwyr gwasanaeth post ymhell cyn yr etholiad ac y dylid cael cynllun cyfwng fel bod yr effaith ar bleidleisiau post y lleiaf posib gan unrhyw ymyrraeth potensial i wasanaethau post.

Ailadroddwn ein hargymhelliad o *Cyflwr etholiadau'r dyfodol*:

Dylid disodli'r datganiad hunaniaeth cyfredol gyda gosodiad diogelwch newydd i gyd-fynd â'r pleidleisiau post prun a yw hyn yng nghyd-destun holl pleidleisiau post neu beidio. Dylai'r gosodiad diogelwch hwn wneud y canlynol:

- gofyn i'r pleidleiswyr arwyddo gosodiad mai ef/hi yw'r unigolyn y cyfeiriwyd y papur pleidleisio ato/ati;
- peidio â gofyn am unrhyw fath o lofnod tyst;
- cynnwys esboniad clir o rôl a defnydd y datganiad, yn benodol y bydd yn cael ei wahanu oddi wrth y papur pleidleisio cyn y gellir dechrau cyfrif ac y byddai methu â chwblhau'r gosodiad yn gwneud y papur yn annilyd;
- cael ei gynllunio a'i brintio i'w gwneud hi'n amlwg i'r pleidleiswyr y bydd y gwahaniad hwn yn digwydd.

Argymhella'r Comisiwn i Swyddogion Canlyniadau y dylai arfer o ddefnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru barhau.

Argymhellwn i'r Llywodraeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n galluogi cyfrif electronig o bleidleisiau yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn adolygu, mewn ymgyngoriad â budd-ddeiliaid perthnasol, gynllun papurau pleidleisio rhanbarthol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gymryd cyflwyniad potensial cyfrif electronig i ystyriaeth.

Ailadroddwn ein hargymhelliad o *Ariannu gwasanaethau etholiadol*:

Argymhellwn y dylai fod yn arfer safonol na ddylai gweithwyr cynghorau lleol orfod cymryd gwyliau blynyddol er mwyn cyflawni dyletswyddau etholiad, er mwyn sicrhau fod y Swyddog Canlyniadau yn medru dibynnu ar staff digonol i gyflwyno gwasanaeth etholiad effeithiol.

Argymhellwn y dylai nawdd craidd ar gyfer gwasanaethau etholiadol (h.y. nawdd i staffio, hyfforddiant, isadeiledd, gwasanaethau cofrestru ac etholiadau a refferenda'r DU) ddod o'r Gronfa Gyfunol drwy'r Comisiwn Etholiadol fel y gellir cyfateb y nawdd gyda safonau cenedlaethol y byddai'r Comisiwn yn eu gosod.

Ailadroddwn ein hargymhelliad yn *Pleidleisio dros newid y dylai*:

Trafodaethau pellach gael eu cynnal gyda llywodraeth ganolog, y cyrff deddfu sydd wedi'u datganoli a chynrychiolwyr llywodraeth leol (gan gynnwys cynghorau plwyf a chynghorau cymunedol) er mwyn adnabod y drefniadaeth ariannu fwyaf effeithlon ac effeithiol ar gyfer etholiadau o fewn y DU, er mwyn cyd-fynd â'r newidiadau strwythurol i ariannu gwasanaethau craidd ac etholiadau'r DU, yr ydym wedi'u cynnig.



# 6 Mynediad cyfartal i bawb

Adnabu ymchwil farn gyhoeddus fod 10% o'r rheini sydd dros 65 oed a oedd heb bleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol wedi dweud na wnaethant hynny oherwydd eu bod yn anabl, yn sâl neu oherwydd nad oeddent yn medru cyrraedd eu gorsaf bleidleisio. Mae mynediad cyfartal i'r holl etholaeth yn elfen allweddol o gyfranogiad pleidleiswyr.

## Cyflwyniad

**6.1** Credai'r Comisiwn, mewn democratiaeth iach, y dylai pawb allu cymryd rhan yn gyfartal yn y broses ddemocrataidd, a chyfrannu ati'n gyfartal. Credwn fod mynediad cyfartal i'r broses etholiadol yn hanfodol er mwyn sicrhau lefelau uchel o gyfranogiad pleidleiswyr o holl adrannau'r gymuned. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion i wella mynediad yn ein hadroddiad *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth*.<sup>69</sup> Roeddem yn ei gweld hi'n flaenoriaeth i gynnal adolygiad annibynnol o fynediad i brosesau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bobl ag anabledau.

**6.2** Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi amlygu pryderon ynghylch mynediad i orsafoedd pleidleisio ac mae wedi bod yn awyddus i'r mater gael sylw. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, fe ofynnodd y Comisiwn i SCOPE Cwmpas Cymru gynnal arolwg ar fynediad cyfartal. Yr un pryd, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi Poll Apart Cymru yn ei arolwg ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Fe gyfunwyd yr adolygiadau ac mae ein casgliadau a'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn ar hygyrchedd wedi cael eu hysbysu gan ddarganfyddiadau'r arolygon. Datblygwyd Poll Apart Cymru a'r Adolygiad Mynediad i'r Anabl ar y cyd ac maent yn rhannu'r un data ymchwil a chasgliadau cyffredinol.

## Methodoleg ymchwil

**6.3** Fe gynhaliodd SCOPE Cwmpas Cymru eu harfarniad o hygyrchedd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2003 gan ddefnyddio pedwar dull. Yn bennaf, cynhaliwyd arfarniad o sampl o ddefnyddwyr ble cwblhawyd holiaduron gan ymgyrchwyr ar anabledd pan roeddent yn pleidleisio. Yn ail, fe gynhaliodd SCOPE Cwmpas Cymru archwiliad ar hygyrchedd deunydd etholiad. Yn drydydd, cynhaliwyd nifer bychan o gyfweiliadau anffurfiol gydag ymgyrchwyr ar anabledd a gwleidyddion lleol a ddaeth â materion lleol penodol at sylw'r tîm. Yn olaf, fe gysylltodd y tîm ymchwil â phob awdurdod lleol i ofyn am enghreifftiau o arferion gorau y gallai'r Comisiwn eu cyhoeddi a'u dosbarthu i fudd-ddeiliaid eraill.

<sup>69</sup> Y Comisiwn Etholiadol (2003) *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth: adroddiad ac argymhellion*.

## Mynediad i gofrestru

**6.4** Rhoddwn bwysigrwydd mawr ar fynediad i'r broses gofrestru i bobl ag anableddau. Fe adroddodd gwirfoddolwyr, oedd yn ymateb i adolygiad SCOPE Cwmpas Cymru ar fynediad i'r anabl, mai dim ond chwarter o Swyddogion Cofrestru Etholiadol a wnaeth ddeunyddiau cofrestru ar gael yn hawdd mewn amrywiaeth o ddulliau hygyrch. Hwn, mewn gwirionedd oedd y feirniadaeth fwyaf cyffredin o'r broses gofrestru gan wirfoddolwyr SCOPE Cwmpas Cymru. Fe nododd gwirfoddolwyr SCOPE Cwmpas Cymru y byddent wedi hoffi cael Braille, ffurflenni print mawr a thapiau sain. Fe wnaeth eu tîm ymchwil ofyn am enghreifftiau o arferion gorau gan y 22 awdurdod lleol i gyd ar wella mynediad i'r broses gofrestru. Ni dderbyniwyd yr un.

Pan fyddwn yn cofrestru ar gyfer y gofrestr etholiadol, dylai fod yna gyfle i ofyn am ddeunydd mewn print mawr, Braille, sain ac yn eich dewis iaith.

### Sylw gwirfoddolwr SCOPE Cwmpas Cymru

**6.5** Yn ein hadroddiad ar Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth, fe wnaethom adolygu'r mater hwn o gofio'r anghenion hyn ac o gofio'r sylwadau a dderbyniwyd gan weinyddwyr etholiadol ar y problemau ymarferol. Rydym yn ymwybodol fod rhai ffurflenni cofrestru etholiadol eisoes yn cael eu cynhyrchu mewn print mân iawn, oherwydd bod angen cadw digon o le ar gyfer yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen.

Mae'r canlynol yn argymhelliad a wnaed gennym ni yn *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth*:

Dylid ehangu'r darpariaethau cyfreithiol presennol ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol er mwyn caniatáu ar gyfer peilotio cynlluniau sy'n cynnwys Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gofyn am anghenion mynediad unigol etholwyr wrth iddynt gofrestru, er mwyn ateb yr anghenion hynny ar adeg etholiadau.

**6.6** Rydym yn cydnabod fod y ffurflen gofrestru etholiadol bresennol ei hun yn medru bod yn rhwystr i gofrestru. Mae'n cael ei benodi drwy statud ar hyn o bryd, gan gynnwys manylion yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys. Rydym wedi argymhell y dylai'r ffurflen gofrestru etholiadol gael ei hail-gynllunio er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r defnyddwyr. Mae ein hadolygiad cofrestru etholiadol hefyd wedi argymhell mesurau a fyddai'n ehangu mynediad i gofrestru, gan gynnwys cofrestru ar-lein a chyfleoedd estynedig ar gyfer cofrestru dros y ffôn.

## Cyfle cyfartal i sefyll fel ymgeisydd

**6.7** Mae rhai ymgeiswyr, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol wedi rhoi sylwadau ar yr amrywiol faterion a allai beidio ag annog unigolion i sefyll fel ymgeiswyr etholiad. Gall amgylchiadau personol yn aml beidio ag annog rhywun i ymgeisio a gallai gael effaith anghyfartal ar y rheini sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau teuluol. Yn yr un modd, gellir cael gwrthdaro anodd rhwng gofynion cyflogaeth amser llawn ac ymgeisio.

**6.8** Mae nifer o awgrymiadau wedi cael eu rhoi ymlaen i wrthwynebu amgylchiadau o'r fath yn codi ac i annog cyfranogiad democratig.

Caniatáu oriau estynedig ar gyfer cyflwyno enwebiadau, galluogi ymgeiswyr i gyflwyno enwebiadau ar nosweithiau neu ar benwythnosau, drwy apwyntiad, fel rydym yn gwneud ar gyfer etholiadau lleol ar hyn o bryd (byddai hyn yn gwneud y broses enwebu yn fwy hygyrch yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Gallai hyn fod yn ffordd i annog ymgeiswyr sy'n gweithio neu'r rheini sydd ag ymrwymadau gofal plant i gael mynediad i'r broses ddemocratiaidd.

### Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol

**6.9** Cefnogwyd un ymgeisydd byddar gan Ganolfan Byd Gwaith drwy gydol y cyfnod ymgyrchu. Cafodd gymorth gyda nawdd am gyfieithydd i'w alluogi i gael cyfle i roi ei achos gerbron aelodau'r cyhoedd, gan na fyddai'n medru cyfathrebu â nhw fel arall.

Rydym yn cymeradwyo enghreifftiau fel hyn o arferion da ac yn annog Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol i ystyried ffyrdd o hwyluso mynediad i'r broses etholiadol megis ehangu oriau drwy apwyntiad ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

## Mynediad cyfartal i'r broses bleidleisio i bobl ag anableddau

**6.10** Mae Polls Apart Cymru yn arfarniad o hygyrchedd gorsafodd pleidleisio a ddefnyddiwyd ar 1 Mai 2003 ar gyfer etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Polls Apart yn ymgyrch i wneud gorsafodd pleidleisio yn hygyrch i bleidleiswyr anabl ledled y DU. Mae ymchwil Polls Apart blaenorol wedi edrych ar etholaethau yng Nghymru ond hwn oedd y tro cyntaf i arfarniad Cymru gyfan gael ei gynnal.

**6.11** Fe wnaeth gwirfoddolwyr ymchwil SCOPE Cwmpas Cymru arolygu 322 o wahanol orsafoedd pleidleisio yn cynnwys pob etholaeth, gan ffurfio tua 10% o gyfanswm nifer y gorsafodd pleidleisio ledled Cymru. Fe arolygwyd cyfartaledd o 14 gorsaf bleidleisio mewn amrywiaeth o amgylcheddau ymhob awdurdod lleol. Casglwyd y gwirfoddolwyr ymgyrch o draws-doriad eang o'r gymuned. Roedd y rhain yn amrywio o Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ymgyrchwyr gwraidd. Fe wnaeth Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru a SCOPE Cwmpas Cymru anfon yr arolwg at bawb ar eu rhestrau postio ac fe hyrwyddwyd yr ymgyrch yn y wasg. Gallai'r gwirfoddolwyr lawrlwytho arolygon a'r nodiadau cyfarwyddyd neu fewnbynnu eu canlyniadau yn uniongyrchol ar-lein.<sup>70</sup> Fe gynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau ar bapur, yn ddwyieithog ac mewn dulliau eraill hefyd.

**6.12** Yn ogystal, fe wnaeth SCOPE gysylltu â'r holl Swyddogion Canlyniadau a'r gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru i hysbysu eu hymchwil ymhellach. Fe wnaethant ofyn am enghreifftiau o arferion da a allai gael eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad hwn ac o bosib gael eu hannog ledled Cymru yn etholiadau'r dyfodol. Fe wnaeth chwe Swyddog Canlyniadau ymateb i'r cais hwnnw.

**6.13** Fel yn holl etholiadau Seneddol, lleol ac Ewropeaidd yn y DU, roedd yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau fod y prosesau yr oeddynt yn eu defnyddio yn hygyrch i bawb. Yn benodol, roedd yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Darpariaethau yng Ngorchymyn 2003 yn ymwneud â mynediad.

Byddai methu â sicrhau fod etholiad yn hygyrch, ac y gallai pobl anabl bleidleisio yn gudd, yn gyfystyr â thoriad difrifol o'r ddeddfwriaeth hon.

**6.14** Roedd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol, cyhyd ag yr oedd hyn yn ymarferol, i benodi llefydd pleidleisio mewn lleoliadau sy'n hwylus i bobl anabl.<sup>71</sup> O fis Hydref 2004 bydd mwyafrif y gorsafodd pleidleisio yng Nghymru hefyd yn cael eu cyfyngu gan reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 sy'n ymwneud â mynediad corfforol i adeiladau. O ganlyniad i ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth hon, bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau i ddod dros rhwystrau i fynediad, neu ddarparu dulliau rhesymol o osgoi rhwystrau i fynediad yn y llefydd hynny. Byddai hyn yn golygu mai cyfrifoldeb y person sy'n llogi lleoliad, er enghraifft i'w defnyddio fel gorsaf bleidleisio, bydd sicrhau mynediad, yn hytrach na'r person sy'n cael ei logi, er enghraifft Swyddog Canlyniadau yn llogi neuadd i'w defnyddio fel gorsaf bleidleisio.

**6.15** Er nad yw gwasanaethau etholiadau, ynddynt eu hunain yn cael eu trin yn eglur gan y ddeddfwriaeth newydd, mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd wedi awgrymu y dylai gorsafodd pleidleisio gydymffurfio â'i ofynion. Mae'r Comisiwn hefyd yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau ddehongli'r ddeddfwriaeth fel trin y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac y dylai hygyrchedd rhesymol fod ar gael i'r holl orsafoedd pleidleisio.

**6.16** Rydym yn cydnabod nad yw pobl anabl yn grŵp unffurf, ac mae gwahanol bobl yn dod ar draws rhwystrau mynediad gwahanol iawn. Wrth edrych ar rwystrau mynediad, mae SCOPE Cwmpas Cymru yn annog ystyriaeth o anghenion y grwpiau canlynol:

- pobl sydd â nam ar eu golwg gan gynnwys pobl gyda pheth golwg;
- pobl sydd â nam ar eu clyw gan gynnwys pobl gyda pheth clyw;
- pobl sydd ag amhariad cyfathrebu megis dyslecsia, lleferydd cyfyngedig neu ddim lleferydd;
- pobl sydd ag anableddau dysgu a phobl sydd â lefelau llythrennedd isel;

<sup>70</sup> [www.pollsapartcymru.org.uk](http://www.pollsapartcymru.org.uk) a [www.etholiadauneithrio.org.uk](http://www.etholiadauneithrio.org.uk).

<sup>71</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (1983), adran 18 (2) (a).

- pobl sydd ag amhariad cydlyniad neu symudedd;
- pobl sydd ag amhariad niwrolegol gan gynnwys y rheini sydd â chyflyrau affasig (colli lleferydd).

**6.17** Wrth gynnal eu harolwg ar fynediad ledled Cymru ar gyfer y Comisiwn, fe wnaeth gwirfoddolwyr SCOPE Cwmpas Cymru adolygu pob gorsaf bleidleisio a ymwelwyd â hi. Barnwyd bod gorsaf bleidleisio yn hygyrch os oedd yn ateb chwe phrawf:

1. A oes mynediad gwastad iddi?
2. A oes ramp i wella mynediad a yw wedi'i gynllunio'n briodol?
3. A oes mynediad gwastad y tu fewn i'r orsaf bleidleisio?
4. A oes digon o le i berson anabl symud o gwmpas?
5. A oes bwth pleidleisio lefel isel?
6. A oes fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos?

Roedd ymchwil Polls Apart blaenorol hefyd yn sicrhau bod arwyddion digonol tuag at y gorsafoedd pleidleisio. Tynnwyd y prawf hwn yn ôl gan fod ymchwil flaenorol yn dangos fod mwyafrif y gorsafoedd pleidleisio yn cael eu hadnabod yn ddigonol.

## Ymgynghoriad â grwpiau mynediad anabledd lleol

**6.18** Fel rhan o'n hymgyngoriad gyda Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadau, fe wnaethom ofyn faint wnaeth gysylltu â grwpiau mynediad lleol neu sefydliadau anabledd gyda bwriad o hysbysu gwelliannau i fynediad i orsafoedd pleidleisio yn eu hetholaethau. Fe wnaeth wyth Swyddog Canlyniadau adrodd eu bod wedi gwneud hynny ar gyfer yr etholiad hwn.

**6.19** Credai SCOPE Cwmpas Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ei bod hi'n bwysig fod Swyddogion Canlyniadau yn cymryd cyfle i ymgynghori'n weithredol â'r grwpiau mynediad anabledd lleol bo hyn yn bosibl. Yn ein hadroddiad *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth*, fe wnaed yr argymhelliad canlynol:

Argymhellwn y dylai'r gyfraith sydd ar hyn o bryd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon gael ei hehangu i weddill y DU, gan roi rhwymedigaeth ar Swyddogion Canlyniadau i adolygu hygyrchedd yr holl orsafoedd pleidleisio yn eu hardal dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn y cyfamser, byddem yn annog holl Swyddogion Canlyniadau, fel mater o arfer da i gynnal adolygiadau o'r adeiladau y maent yn eu defnyddio yn rheolaidd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai Swyddogion Canlyniadau gynnwys grwpiau lleol o bobl anabl yn eu hadolygiadau ac y dylai'r broses adolygu fod mor eglur ac agored â phosibl.

**6.20** Dylai'r adolygiadau bob pedair blynedd a'r pwerau newydd hyn annog lleihad mewn defnydd o garafannau a gorsafoedd pleidleisio eraill sydd yr un mor amhriodol, ac adleoli rampiau dros dro gyda rhai sefydlog, mwy diogel, fel a argymhellwyd hefyd gan SCOPE Cwmpas Cymru yn eu hadroddiad. Yn y cyfamser, rydym yn ystyried ei bod hi'n arfer da, er ddim yn fater ar gyfer newid deddfwriaethol, y dylai Swyddogion Canlyniadau gynnal rhestr o orsafoedd pleidleisio sy'n rhoi manylion o ba mor hygyrch yw'r gorsafoedd pleidleisio hynny. Byddai'r rhestr hon o ddefnydd i etholwyr ac wrth gynllunio newidiadau i orsafoedd pleidleisio, ac wrth hysbysu adolygiadau mynediad. Byddwn yn darparu cyngor pellach ar y mater hwn yn ein cyfarwyddyd arfer da nesaf.<sup>72</sup>

## Cyrraedd yr orsaf bleidleisio

**6.21** Gall trafndiaeth a phellter i'r orsaf bleidleisio fod yn bwysig wrth ystyried hygyrchedd cyffredinol. Mae natur fynyddig rhan helaeth o Gymru, darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus (neu'r diffyg) mewn ardaloedd gwledig a diffyg adeiladau cyhoeddus modern, hygyrch yn benodol mewn lleoliadau gwledig yn aml yn cael eu nodi fel cyfyngiadau ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Mae rhan helaeth o Gymru â phoblogaeth wasgarog ac mae problemau yn medru codi gyda phellter y mae'n rhaid i bobl deithio er mwyn pleidleisio. Roedd arolwg Polls Apart Cymru yn gofyn am sut roedd pobl yn cyrraedd y gorsafoedd pleidleisio a pha mor bell yr oedd yn rhaid iddynt deithio. Dyma'r tro cyntaf i arolwg Polls Apart ofyn y cwestiynau hyn. Darganfu Polls Apart Cymru, o'r bobl hynny ag anableddau a arolygwyd, dim ond 1% a ddefnyddiodd trafndiaeth gyhoeddus, teithiodd 68% i'r orsaf bleidleisio mewn car, ac aeth 31% ar droed neu yn eu cadeiriau olwyn.

<sup>72</sup> Ibid.

## Lleoliad gorsafoedd pleidleisio

**6.22** Roedd arolwg Polls Apart Cymru yn gofyn i wirfoddolwyr ymgyrchu roi manylion o ba fath o adeilad oedd yr orsaf bleidleisio ynddo.

Math o adeilad (DU)	2003 (%) (Cymru)	2001 (%)
Ysgol	24	26
Canolfan Gymunedol	41	38
Neuadd tref	2	1
Llyfrgell	1	3
Man addoli	12	10
Portacabin	3	3
Arall	17	19

Roedd y canlyniadau o Gymru yn 2003 yn adlewyrchu'n fras y mathau o adeiladau a ddefnyddiwyd ledled y DU.

**6.23** Roedd adeiladau 'eraill' a ddefnyddiwyd fel gorsafoedd pleidleisio yn cynnwys neuaddau Ffermwyr Ifanc, canolfannau celf, clybiau gweithwyr, canolfannau hamdden, coleg addysg bellach, 'cyfleuster adloniant wedi adfeilio' ac ystafell gyfarfod lawnt fowlio. Hefyd roedd cyfran uchel o neuaddau eglwysi a neuaddau pentref. Nododd SCOPE Cwmpas Cymru fod rhai awdurdodau wedi parhau i ddefnyddio carafannau teithiol fel gorsafoedd pleidleisio. Mae'n hynod annhebygol y byddai carafán deithiol yn ateb y chwe phrawf hygyrchedd a ddisgrifir yma a byddem yn annog Swyddogion Canlyniadau i chwilio am orsafoedd pleidleisio eraill ar wahân i'r carafannau hyn os yw hynny'n bosibl. Er mai adeiladau a ellir cael mynediad iddynt yn sefydlog yw'r unig ateb hirdymor real, mae portacabins ar gael fel gorsafoedd pleidleisio symudol, gyda rampiau addas, ac maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn sawl ardal.

**6.24** Yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan eu gwirfoddolwyr, casglodd SCOPE Cwmpas Cymru, o'r gorsafoedd pleidleisio hynny a arolygwyd, y gwnaeth un o bob pedwar fethu un neu fwy o'u chwe phrawf hygyrchedd. Fe nododd staff y Comisiwn a Chomisiynwyr oedd yn bresennol wrth ymweld ag etholaethau ledled Cymru ar y diwrnod pleidleisio hefyd fod gan nifer o orsafoedd pleidleisio gyfleusterau gwael iawn i'r anabl. Mewn rhai achosion mi fyddai hi wedi bod yn anodd i unrhyw un oedd â phroblem symudedd sylweddol, cadair

olwyn neu gadair wthio i fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio, er enghraifft pan ddefnyddiwyd capel gyda grisiau serth neu garafán.

**6.25** Rydym yn ymwybodol fod rhai materion lleol a allai fod wedi gwaethygu problemau gyda diffyg hygyrchedd. Fe wnaeth ddau awdurdod yn benodol wynebu problemau pan gafodd y cwmni roeddent yn ei ddefnyddio i ddarparu gorsafoedd pleidleisio symudol hygyrch eu datgan yn fethdalwyr yn fuan cyn yr etholiad. Roedd y ddau awdurdod yma wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn a sefydliadau eraill oedd â diddordeb o'r anawsterau hyn cyn yr etholiad ac o'r anawsterau y gallai hyn fod wedi'u hachosi.

**6.26** Roedd arian grant llawn ar gael yn yr etholiad hwn ar gyfer prynu rampiau dros dro i wneud gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch. Roedd hanner y gost ar gael i Swyddogion Canlyniadau i'w adennill gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, fel mewn etholiadau eraill, ac roedd hanner ar gael i'w adennill gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Croesawn benderfyniad yr Cynulliad, sy'n golygu fod mynediad dros dro yn cael ei ariannu gan grantiau. Yr un pryd, roedd rampiau dros dro ond yn ddatrysiad dros dro ac ond yn addas mewn lleoliadau addas. Credai SCOPE Cwmpas Cymru mai dim ond tua 60% o'r rampiau dros dro a welwyd yn eu harolwg oedd yn gwella hygyrchedd. Ymhellach, gall rampiau dros dro fod yn beryglus mewn rhai lleoliadau os yw ochr uchaf y ramp yn ymwithio allan uwch ben lefel y llawr. Yn yr hir dymor, buddsoddi mewn adeiladau cyhoeddus sy'n hygyrch yn sefydlog yw'r ateb ac rydym yn annog awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol i edrych ar ariannu datrysiadau sefydlog.

**6.27** Yn ein hadroddiad *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth*, fe wnaethom ystyried cwestiwn yr adeiladau a ddefnyddiwyd mewn gorsafoedd pleidleisio. Rydym wedi cefnogi'r farn fod gan bob etholwr yr hawl i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio sy'n gwbl hygyrch, yn llawn, ond rydym hefyd yn cydnabod y byddai hi'n anghywir i ni anwybyddu'r neges sy'n dod atom ni gan weinyddwyr etholiadol fod yna broblemau sylweddol wrth ddod o hyd i orsafoedd pleidleisio hygyrch. Fe wnaethom gasglu fod hygyrchedd adeiladau, nawdd a'r hawl i ddefnyddio gorsafoedd pleidleisio wedi'u cysylltu'n anorod. Heb adnabod ffynonellau nawdd, rydym yn ystyried nad yw hi'n realistig i ddisgwyl i Swyddogion Canlyniadau gyflenwi gorsafoedd pleidleisio sy'n gwbl hygyrch. Fodd bynnag, pe byddai Swyddogion Canlyniadau yn cael yr hawl i ddefnyddio unrhyw adeilad cyhoeddus hygyrch, gallai hyn

helpu i leihau'r angen am nawdd oherwydd gallai Swyddogion Canlyniadau ddefnyddio adeiladau sydd eisoes wedi'u haddasu i'w defnyddio gan bobl anabl.

**6.28** Ar hyn o bryd nid oes gan y Swyddog Canlyniadau bŵer i fynnu defnydd o adeilad sy'n ateb gofynion hygyrchedd. I helpu effeithio gwelliannau mewn mynediad i orsafoedd pleidleisio, mae *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth* yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

Dylid rhoi pwerau statudol i Swyddogion Canlyniadau i ddefnyddio pob adeilad sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sy'n hygyrch fel gorsafoedd pleidleisio i'w galluogi nhw i gyflawni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. O gofio darpariaethau'r Ddeddf honno, nid ydym yn ei gweld hi'n hanfodol ar hyn o bryd i'r rhwymedigaethau cyfreithiol ychwanegol ar Swyddogion Canlyniadau i wneud gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r sefyllfa hon dan adolygiad a byddwn yn archwilio'r cynnydd ymhen dwy flynedd.

Hefyd dylid cael adolygiad o'r polisi a'r trefniadau ar gyfer cael grantiau i ddarparu cyfleusterau mynediad i bobl anabl, gyda bwriad o wneud mwy o nawdd ar gyfer addasiadau sefydlog ynghyd ag addasiadau dros dro ar gael i Swyddogion Canlyniadau.

### Mynediad i bobl â nam ar eu clyw

**6.29** Yn eu harolwg, fe nododd SCOPE fod nifer o awdurdodau lleol wedi dod â dolenni clyw symudol i orsafoedd pleidleisio. Mae un awdurdod sy'n bennaf ddinesig wedi dechrau rhaglen dreigl o brynu dolenni clyw symudol ar gyfer yr holl orsafoedd pleidleisio fel mae'r cyllidebau yn caniatáu. Croesawn y datblygiad hwn a allai gynorthwyo hygyrchedd y broses pleidleisio i bobl â nam ar eu clyw.

**6.30** Ystyriwn ei bod hi'n arfer da i ddefnyddio dolenni clyw er ein bod yn cydnabod bod goblygiadau sylweddol yn nhermau cost i awdurdodau lleol sydd yn ceisio'u prynu nhw ar gyfer pob gorsaf bleidleisio. Byddwn yn parhau i fonitro eu cyflwyniad gan y Swyddogion Canlyniadau hynny sydd yn eu defnyddio nhw a byddwn yn adolygu eu defnydd yng nghyd-destun darpariaeth arferion gorau.

### Mynediad i bobl â nam ar eu golwg

**6.31** Fe gyflwynodd y Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 2000 ofyniad y dylai dyfais sy'n galluogi pobl â nam ar eu golwg, neu sy'n ddall, i bleidleisio heb gymorth ymhob gorsaf bleidleisio. Mae'r 'templod cyffyrddog' hwn yn cael ei roi dros y papur pleidleisio. Mae pob ymgeisydd yn cael rhif arbennig mewn Braille a gall y pleidleiswyr fwrw eu pleidlais wedi cael gwybod beth yw trefn yr ymgeiswyr.

**6.32** Un arall o ofynion RPA 2000 yw fod o leiaf un fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos ymhob gorsaf bleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr gwan eu golwg. Mae hefyd yn galluogi cyfaill i gynorthwyo pleidleisiwr sydd unai yn ddall, yn anabl neu na all ddarllen.

**6.33** Dim ond llond llaw o enghreifftiau a wyddai gweinyddwyr etholiadol amdanynt ble ddefnyddiodd aelodau'r etholaeth y templod cyffyrddog. Fel rhan o'u gwaith fe wnaeth SCOPE Cwmpas Cymru arolygu a oedd y templod ar gael. Yn y gorsafoedd pleidleisio y gwnaethant edrych arnynt, credant ei fod yn bresennol yn 82% ohonynt; fe adroddodd gwirfoddolwyr SCOPE Cwmpas Cymru nad oedd ar gael yn 18% o'r gorsafoedd pleidleisio a arolygwyd.

**6.34** Fe nododd SCOPE Cwmpas Cymru y gwnaeth un awdurdod oedd yn bennaf wledig ddarparu cymorth gweledol ar ben y blwch pleidleisio i gynorthwyo pobl â nam ar eu golwg. Roedd yr ardal o gwmpas y slot ble roedd y pleidleisiau'n cael eu rhoi ar y blwch pleidleisio wedi'i beintio'n wyn, er mwyn iddo wrthgyferbynnu â'r blwch pleidleisio du. Mae tâp llachar hyd yn oed yn fwy effeithiol. Rydym yn cymeradwyo enghreifftiau o'r fath o arfer da a byddem yn argymhell yr holl awdurdodau i ystyried mesuriadau syml a defnyddiol tebyg.

### Staff etholiadau a mynediad i bobl ag anableddau

**6.35** Fe ofynnodd arolwg Polls Apart Cymru i'w gwirfoddolwyr ynghylch eu profiadau mewn gorsafoedd pleidleisio. Darganfu SCOPE Cwmpas Cymru fod mwyafrif helaeth staff gorsafoedd pleidleisio, tua 90%, yn gyfeillgar iawn ac yn help i'r pleidleiswyr. Nododd yr arolwg fod nifer o staff etholiadau wedi gwneud popeth a fedrent i wella mynediad ar y diwrnod.

**6.36** Fe ddarparodd deunyddiau hyfforddiant y Comisiwn ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadau nifer o elfennau oedd wedi'u cynllunio i gynorthwyo gyda materion sy'n ymwneud â mynediad i bobl anabl. Fe ddatblygwyd y rhain drwy ymgynghoriad gydag uned cyfartaledd Sefydliad Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiwn Hawliau Anabledd (DRC) Cymru ac roedd yn cynnwys rhestr wirio o arferion da a gymhellwyd gan SCOPE a'r DRC. Roedd rhai o'r deunyddiau hyfforddiant wedi'u hanelu'n benodol at Swyddogion Llywyddol a chlercod gorsafoedd pleidleisio. Defnyddiwyd y deunyddiau hyn gan bob un ond un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Fe ymddengys fod elfen ymwybyddiaeth anabledd yr hyfforddiant hwn o gymorth o gofio pa mor ddefnyddiol y canfuwyd oedd staff etholiad ledled Cymru ar ddiwrnod yr etholiad.

## Yr iaith Gymraeg a mynediad i bobl ag anableddau

**6.37** Fel siaradwyr Gymraeg eraill, mae pobl sydd ag anableddau yn disgwyl i ddeunydd gael ei ddarparu yn eu dewis iaith ac iddo fod yn hygyrch.

**6.38** Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd neu'n ddryslyd pan fo'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu rhoi am yn ail ac mae'n bwysig fod anghenion y bobl hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio deunyddiau. Yn eu hadroddiad i ni, mae SCOPE Cwmpas Cymru wedi nodi ffafriaeth dros gadw'r ddwy iaith ar wahân ac wedi'u cyfod yn glir, unai mewn colofnau ar wahân neu ar ochrau gwahanol o ddarn o bapur. Rydym yn cytuno gyda'u hargymhelliad.

Argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth i bleidleiswyr ag anghenion arbennig ac anableddau wrth gynllunio deunyddiau a ffurflenni etholiad dwyieithog. Dylid diffinio'n glir elfennau Gymraeg a Saesneg o ddeunyddiau a ffurflenni a argraffir, unai ar ochrau gwahanol o'r un papur neu mewn colofnau ar wahân gydag arwahaniad clir o'r ddwy iaith wahanol.

## Arferion da

**6.39** Cymerwyd nifer o gamau gan awdurdodau lleol yng Nghymru i wella mynediad. Er enghraifft, fe wnaeth un awdurdod dinesig adrodd eu bod wedi darparu briff i Swyddogion Llywyddol cyn yr etholiad yn gofyn iddynt sicrhau fod parcio hygyrch ar gael i bobl anabl; fod rhwystrau wedi'u symud o fynedfa gorsafoedd pleidleisio; fod bythau pleidleisio a sgriniau wedi'u gosod mewn ardaloedd gyda golau da a bod y blychau pleidleisio i gyd ar lefel gyfforddus i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Fe wnaeth rhai awdurdodau ddarparu blychau pleidleisio a oedd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u gorsafoedd pleidleisio gyda mynediad lefel isel ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

**6.40** Fe wnaeth un awdurdod gwledig arolygu'r holl orsafoedd pleidleisio cyn yr etholiad a ble'r oedd problemau gyda hygyrchedd na ellid eu datrys, fe geisiant hysbysu pleidleiswyr ar eu cerdyn pleidleisio ei bod hi'n bosib y bydd eu gallu i gael mynediad i'r orsaf bleidleisio yn cael ei effeithio gan hyn. Roedd y llythyr hwn hefyd yn atgoffa pleidleiswyr y gallant ddefnyddio pleidlais bost.

Rydym wedi hysbysu'r etholwyr am y problemau mynediad (yn rhai o'n gorsafoedd pleidleisio) ac wedi gofyn iddynt os ydynt am ystyried y bleidlais bost fel dewis arall. Deallaf na fydd hyn yn dderbyniol wedi Hydref 2003, ond buasai'n well gen i gyfaddef yn awr na wynebu'r problemau ar y diwrnod. Aeth y llythyr hwn allan i tua 15,000 o etholwyr ac rydym wedi cael ymateb da iawn (iddo).

### Rheolwr Gwasanaethau Etholiad

Roedd awdurdod arall yn cynnwys gwirfoddolwyr o grŵp pobl anabl lleol wrth asesu defnydd o rampiau dros dro manteisiwyd ar eu profiad ymarferol wrth ddewis rampiau dros dro a'u rhoi nhw yn eu lle.

## Pleidleisio post a phobl ag anableddau

**6.41** Mae cyflwyno pleidleisio post ar orchymyn ymhob etholiad ym Mhrydain wedi golygu ei bod hi'n fwy pwysig nac erioed i sicrhau fod y dull yma o bleidleisio yn hygyrch i bawb. Mae pleidleisio drwy ddirprwy hefyd yn bwysig wrth alluogi etholwyr a fyddai fel arall yn wynebu sialensiau sylweddol wrth gyfranogi.

Yn *Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth* fe wnaethom ni'r argymhellion canlynol:

Argymhellwn y dylai papurau pleidleisio post, drwy gyfraith, gynnwys canllaw 'Saesneg Clir' ar sut i gwblhau pleidleisiau post sy'n cynnwys symbolau i esbonio sut i gwblhau a choladu'r gwaith papur angenrheidiol. Fel mater o arfer da, dylai hyn hefyd fod ar gael mewn dulliau eraill – er enghraifft, ieithoedd eraill, fersiwn lluniau a thâp sain – ar gais.

**6.42** Mae SCOPE Cwmpas Cymru yn ei hystyried hi'n bwysig y dylai Swyddogion Canlyniadau gymryd i ystyriaeth nad yw pleidleisio post yn darparu dull gwbl gygrch o bleidleisio. Mae ganddo sawl rhwystr cynhenid a allai rwystro rhai pobl anabl rhag cael mynediad iddo. Mae pobl â nam ar eu golwg yn un grŵp o'r fath, ond gall hefyd fod yn ddull amhriodol o bleidleisio i nifer o bobl gydag amhariad cyfathrebu, niwrolegol, dysgu a chydlynid. Mae angen i gymorth fod ar gael i bleidleiswyr o'r fath wrth ddefnyddio pleidleisiau post.

**6.43** Darganfu ymchwil farn a wnaed ar ran y Comisiwn gan NOP, o'r rhesymau a roddwyd am beidio â phleidleisio, dywedodd 10% o'r bobl dros 65 na wnaeth bleidleisio eu bod yn sâl/yn anabl/yn methu â chyrraedd yr orsaf bleidleisio yn bersonol. Mae dal i fod llawer o bobl a allai fanteisio ar bleidlais bost ac nad ydynt efallai'n ymwybodol eto o'r cyfle i gael pleidlais o'r fath ar orchymyn. Gallai hyn fod yn arbennig o wir am bobl hŷn sydd wedi arfer ag un set o reolau am nifer o flynyddoedd a ddim yn ymwybodol fod y rhain wedi'u llacio. Rydym wedi gwneud argymhellion yn gynharach ynghylch hyrwyddo pleidleisio post.

### Argymhellion SCOPE Cwmpas Cymru

**6.44** Yn eu hadroddiad i ni, ac yn Polls Apart Cymru, fe wnaeth SCOPE Cwmpas Cymru gyfres o argymhellion i wahanol gyrf gwleidyddol sydd ynghlwm â chynllunio a rheoli etholiadau yng Nghymru ac y maent yn hyderus y gallant wella mynediad i'r etholwyr.

**6.45** Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys nifer o bwyntiau penodol. Er enghraifft, sicrhau bod gwelliannau hygyrchedd syml yn cael eu gwneud; gwarantu diogelwch pleidleiswyr wrth wneud y gwelliannau hynny; a chyhoeddi bod y ffurflenni, y papurau pleidleisio enghreifftiol a'r cyfarwyddyd perthnasol hyn ar gael mewn amrywiaeth o ddulliau. Fel rhan o'u paratodau ar gyfer etholiadau'r dyfodol mae SCOPE Cwmpas Cymru hefyd yn argymhell y dylai

awdurdodau lleol gynnal rhaglen hyfforddiant llawn ar gyfer staff etholiadau ar faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd a defnydd o gymhorthion mynediad; ac arolwg o'r holl orsafoedd pleidleisio gan ddefnyddio rhestr wirio mynediad Polls Apart.

**6.46** Yn yr etholiadau hyn, fe ddarparodd y Comisiwn y Swyddog Canlyniadau â phortffolio llawn o ddeunyddiau hyfforddiant a oedd yn hwyluso hyn. Fe ddefnyddiwyd y rhain ym mhob awdurdod lleol ond un (gweler Pennod 5). Fel rhan o'r deunyddiau hyn fe wnaethom ni ddarparu Swyddogion Etholiad â rhestr wirio mynediad Polls Apart hefyd, a gafodd ei adolygu gan y Comisiwn Hawliau Anabledd unwaith eto cyn iddo gael ei gyhoeddi. Byddwn yn parhau i adolygu defnydd ac effeithiolrwydd ein deunyddiau hyfforddiant wrth hyrwyddo arfer gorau a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd a mynediad ymhlith staff gorsafoedd pleidleisio.

### Etholiadau'r dyfodol a hygyrchedd.

**6.47** Mae hi'n glir o'r arolwg a wnaed gan SCOPE Cwmpas Cymru fod nifer o bobl anabl yng Nghymru yn teimlo nad yw prosesau ac arferion etholiadol yn cymryd i ystyriaeth yn ddigonol eu hanghenion a bod y gwelliannau a wnaed ar lefel leol wrth wneud gorsafoedd pleidleisio a chofrestru etholiadol, yn hygyrch iddynt yn annigonol.

**6.48** Cymeradwywn yr enghreifftiau o arfer da wrth wella mynediad i holl elfennau'r broses ddemocratig a dynnwyr ein sylw atynt yn ystod yr etholiadau hyn. Credwn ei bod hi'n bwysig fod materion mynediad yn cael blaenoriaeth uchel gan Swyddogion Canlyniadau ymhob etholiad ledled Prydain.

**6.49** Rydym yn cydnabod fod Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yn pwyntio at gyfyngiadau ariannol ac adnoddau sy'n cyfyngu'r cymhwysedd ar gyfer gwelliannau hir dymor, ynghylch diffyg adeiladau cyhoeddus addas, cwbl hygyrch ar gael ar gyfer gorsafoedd pleidleisio, ac at faterion ymarferol, megis yr angen i ateb gofynion statudol ar y swm o wybodaeth a ddylid ei chynnwys ar ffurflenni cofrestru etholiadol.

**6.50** Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae angen dod o hyd i ffyrdd ymlaen lle y gellir gwneud gwelliannau er mwyn gwella hygyrchedd ar gyfer pobl anabl a chael eu gweld i ateb y pryderon sydd wedi'u hadnabod. Fel mae ein hymchwil farn yn adnabod, rhoddodd 10% o bobl hŷn a

oedd heb bleidleisio y ffaith nad oeddent yn medru cyrraedd yr orsaf bleidleisio oherwydd diffyg cymhwysedd fel rheswm pam na wnaethant bleidleisio. Mae nifer o'r materion eisoes wedi cael sylw yn ein hadroddiad Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth. Yn y cyfamser, mae yna arfer da sydd angen ei rannu a'i ddsbarthu'n ehangach. Mae nifer o awdurdodau yng Nghymru wedi gweithio gyda grwpiau anabledd lleol a gall y broses hon fod yn fanteisiol ac yn gynhyrchiol i'r ddwy ochr. Mae SCOPE Cwmpas Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau unigol wrth adolygu gorsafoedd pleidleisio yn effeithiol ac mae rhai datrysiadau creadigol wedi'u darganfod.

Mae rhai datblygiadau positif, ac yn aml ar gost isel, wedi'u cymryd gan rai Swyddogion Canlyniadau, er enghraifft drwy gynnig oriau estynedig o apwyntiad ar gyfer cyflwyno enwebiadau a soniwyd am hyn yn gynharach yn y bennod hon. Byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd arfer gorau i gynorthwyo ac annog Swyddogion Canlyniadau wrth ledaenu'r rhain, ac enghreifftiau eraill o arfer da o etholiadau ledled Prydain.

**6.51** Mae'r materion sydd wedi'u hadnabod yma yn berthnasol i'r holl etholiadau yng Nghymru ac nid yn unig ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol; yn 2004, bydd etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Senedd Ewrop yn cael eu cynnal. Ystyriwn ei bod hi'n bwysig iawn fod yr holl bartneriaid perthnasol, yn benodol Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, staff etholiad a grwpiau mynediad cyfartal yn parhau i weithio ar y cyd i gyflawni gwell mynediad. Bydd y Comisiwn, ar gyfer ei ran ef, yn gwneud pob ymdrech yng Nghymru i annog a dosbarthu arferion gorau.

## Crynodeb o argymhellion

*Argymhella Mynediad cyfartal i ddemocratiaeth:*

Dylid ehangu'r darpariaethau cyfreithiol presennol ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol er mwyn caniatáu ar gyfer peilotio cynlluniau sy'n cynnwys Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gofyn am anghenion mynediad unigol etholwyr wrth iddynt gofrestru, er mwyn ateb yr anghenion hynny ar adeg etholiadau.

Argymhellwn y dylai'r gyfraith sydd ar hyn o bryd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon gael ei hehangu i weddiill y DU, gan roi rhwymedigaeth ar Swyddogion Canlyniadau i adolygu hygyrchedd yr holl orsafoedd pleidleisio yn eu hardal dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn y cyfamser, byddem yn annog holl Swyddogion Canlyniadau, fel mater o arfer da i gynnal adolygiadau o'r adeiladau y maent yn eu defnyddio yn rheolaidd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai Swyddogion Canlyniadau gynnwys grwpiau lleol o bobl anabl yn eu hadolygiadau ac y dylai'r broses adolygu fod mor eglur ac agored â phosibl.

Dylid rhoi pwerau statudol i Swyddogion Canlyniadau i ddefnyddio pob adeilad sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sy'n hygyrch fel gorsafoedd pleidleisio i'w galluogi nhw i gyflawni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. O gofio darpariaethau'r Ddeddf honno, nid ydym yn ei gweld hi'n hanfodol ar hyn o bryd i roi rhwymedigaethau cyfreithiol ychwanegol ar Swyddogion Canlyniadau i wneud gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r sefyllfa hon dan adolygiad a byddwn yn archwilio'r cynnydd ymhenn dwy flynedd.

Hefyd dylid adolygu'r polisi a'r trefniadaethau ar gyfer cael grantiau i ddarparu cyfleusterau mynediad i bobl anabl, gyda bwriad o wneud mwy o nawdd ar gyfer addasiadau sefydlog ynghyd ag addasiadau dros dro ar gael i Swyddogion Canlyniadau.

Argymhellwn y dylai papurau pleidleisio post, drwy gyfraith, gynnwys canllaw 'Saesneg Clir' ar sut i gwblhau pleidleisiau post sy'n cynnwys symbolau i esbonio sut i gwblhau a choladu'r gwaith papur angenrheidiol. Fel mater o arfer da, dylai hyn hefyd fod ar gael mewn dulliau eraill – er enghraifft, ieithoedd eraill, fersiwn lluniau a thâp sain – ar gais.

### 6.52 Yn codi o'r etholiad hwn, byddem yn argymhell ymhellach:

Mae rhai datblygiadau positif, ac yn aml ar gost isel, wedi'u cymryd gan rai Swyddogion Canlyniadau, er enghraifft drwy gynnig oriau estynedig o apwyntiad ar gyfer cyflwyno enwebiadau a soniwyd am hyn yn gynharach yn y bennod hon. Byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd arfer gorau i gynorthwyo ac annog Swyddogion Canlyniadau wrth ledaenu'r rhain, ac enghreifftiau eraill o arfer da o etholiadau ledled Prydain.

Argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth i bleidleiswyr ag anghenion arbennig ac anabledau wrth gynllunio deunyddiau a ffurflenni etholiad dwyieithog. Dylid diffinio'n glir elfennau Cymraeg a Saesneg o ddeunyddiau a ffurflenni a argraffir, unai ar ochrau gwahanol o'r un papur neu mewn colofnau ar wahân gydag arwahaniad clir o'r ddwy iaith wahanol.

# Atodiad 1

## Ymchwil pŵl piniwn: cyfansoddiad grwpiau ffocws

Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad grwpiau ffocws:

Cyfansoddiad grwpiau ffocws		
Lleoliad	Dyddiad	Cwota
Caerdydd	12 Mehefin 2003	Pobl a oedd heb bleidleisio (cymysgedd o amgylchiadol a phwrpasol) Gradd cymdeithasol C2DE
Caerdydd	12 Mehefin 2003	Pleidleiswyr gwahaniaethol (wedi pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol ond nid yn etholiad y Cynulliad) Cymysgedd o ddynion a merched 35–60 oed. Gradd cymdeithasol: BC1
Llanelli	12 Mehefin 2003	Pleidleiswyr gwahaniaethol. Dynion 18–24 oed. Gradd cymdeithasol: BC1
Llanelli	12 Mehefin 2003	Pleidleiswyr Cynulliad ymrwymedig Cymysgedd o ddynion a merched 35–54 oed. Gradd cymdeithasol: C2DE
Yr Wyddgrug	11 Mehefin 2003	Pobl a oedd heb bleidleisio (cymysgedd o amgylchiadol a phwrpasol) Cymysgedd o ddynion a merched 25–39 oed. Gradd cymdeithasol: C2DE
Yr Wyddgrug	11 Mehefin 2003	Pleidleiswyr gwahaniaethol Cymysgedd o ddynion a merched 40+ oed. Gradd cymdeithasol: BC1
Caernarfon	11 Mehefin 2003	Pobl a oedd heb bleidleisio (cymysgedd o amgylchiadol a phwrpasol) Merched 18–24 oed. Gradd cymdeithasol: BC1. Cynhaliwyd y grŵp yn y Gymraeg
Caernarfon	11 Mehefin 2003	Pleidleiswyr Cynulliad ymrwymedig Cymysgedd o ddynion a merched 50+ oed. Gradd cymdeithasol: C2DE. Cynhaliwyd y grŵp yn y Gymraeg



**BALLOT  
BOX**

GOVTY GOVT  
MSTWY N K...  
B

# Atodiad 2

## Data etholiad

### Nodiadau eglurhaol

#### Dyddiad pleidleisio

Cynhaliwyd ail set o etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2003. .

#### Rhifau etholaethau

Mae'r holl etholaethau wedi'u rhifo o restr sefydliad y wasg yn seiliedig ar yr holl etholaethau yn y DU. Mewn tablau a gyhoeddir yma rydym wedi defnyddio rhifau sefydliad y wasg wrth restru pob etholaeth. Dylech nodi fod etholaethau Cymru wedi'u hintegreiddio gyda'r rheini yng ngweddill Prydain yn y rhestr ac nid yw'r rhifau yn dilyn ei gilydd yn olynol. Er enghraifft, er bod Aberafan wedi'i restru yn rhif 1 ym Mhrydain, yr etholaeth nesaf yng Nghymru yw Alun a Glannau Dyfrdwy, rhif 10.

#### Ystadegau pleidleisio

Mae nifer y pleidleisiau a fwrwyd am ymgeisydd neu blaid wleidyddol yn seiliedig ar y dychweliadau a wnaed i'r Comisiwn Etholiadol gan Swyddogion Canlyniadau.

#### Ystadegau etholwyr

O dan delerau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, fe gyflwynwyd y system gofrestru treiglol i ganiatáu i bobl gymwys gofrestru i bleidleisio mewn etholiad ym Mhrydain unrhyw adeg o'r flwyddyn. Mae'r ffigyrau etholwyr etholaeth a roddir yma fel y'u cyflwynwyd nhw i ni gan Swyddogion Canlyniadau ar gyfer 1 Mai 2003. Mae'r ffigyrau etholwyr hynny ar gyfer 1999 a 2001 yn cyfeirio at yr etholwyr ar 7 Mai 1999 yn y set cyntaf o etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ar 7 Mehefin 2001 yn yr etholiad cyffredinol, yn y drefn honno. Ble y dyfynnir ffigyrau mewn perthynas ag etholiad cyffredinol 2001 maent yn cyfeirio at Gymru yn unig, ac nid Prydain gyfan.

Cynhwysir y pleidleisiau annyls hynny a fwrwyd mewn gorsaf bleidleisio a'r rheini a fwrwyd drwy'r post yn y cyfrif hwn.<sup>73</sup>

<sup>73</sup> Nid oedd gwybodaeth ar bleidleisiau annyls/a ddifethwyd ar gyfer yr etholiad rhanbarthol a fwrwyd mewn gorsaf oedd pleidleisio ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer etholaeth Pontypridd. Yn ogydal nid yw'r wybodaeth ar nifer y pleidleisiau post a ddifethwyd a fwrwyd yng Nghaernarfon a Meirionnydd Nant Conwy ar gael. Golyga hyn fod y ffigwr ar gyfer cyfanswm nifer y pleidleiswyr yn 2001 yng Nghymru, Gogledd Cymru a'r ddwy etholaeth unigol hyn wedi'u hamcangyfrif ychydig yn rhy isel.

### Diffiniadau tablau canlyniadau

1. Etholaeth:	nifer yr etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio ar 1 Mai 2003.
2. Cyfanswm nifer y pleidleiswyr:	canran yr etholwyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad a fwrwyd unai pleidlais ddilys neu annyls/a ddifethwyd.
3. Nifer dilys y pleidleiswyr:	canran yr etholwyr oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad a fwrwyd bleidlais ddilys.
4. Ymgeisydd:	cyfenw ac enwau cyntaf yr ymgeisydd.
5. Plaid:	cysylltiad pleidiol yr ymgeisydd.
6. Pleidleisiau:	nifer y pleidleisiau a enillwyd gan yr ymgeisydd neu'r plaid.
7. Cyfran:	nifer y pleidleisiau a enillwyd gan yr ymgeisydd neu'r plaid wedi'i fynegi fel canran o'r pleidleisiau dilys a fwrwyd.
8. Newid:	canran y newid yng nghyfran y bleidlais i'r plaid ers etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 neu etholiad cyffredinol 2001.

### Rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003

Cynhwysir rhestr yn yr adran hon o'r holl ymgeisiaethau ar gyfer eu hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn etholiad 2003. Mae'r enwau'n ymddangos yn nhrefn yr wyddor – (1) enw olaf (2) enw cyntaf. Mae enwau'r ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad am aelod etholaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymddangos yn gyntaf, ac yna'r rheini sy'n sefyll i'w hethol mewn etholiad fel aelod rhanbarthol o'r Cynulliad. Mae'r ymgeiswyr a enwebwyd i'w hethol fel aelod etholaeth ac fel aelod rhanbarthol yn ymddangos yn y ddwy adran ar y rhestr.

### Blaendaliadau a gollir

Byddai ymgeisydd yn colli blaendal o £500 on na chafodd ef/hi ei (h)ethol ac na chafodd fwy nac ugeinfed rhan o'r pleidleisiau dilys a fwrwyd.

## Y canlyniadau swyddogol

Canlyniadau etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003					
Etholaeth	Etholwyr	Nifer dilys a bleidleisodd fel canran	Cyfenw	Enwau blaen	Plaid
Aberafan Canlyniad	50,208	37.4	Boult	Myr	Plaid Geidwadol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			<b>Gibbons</b>	<b>Brian</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Owen	Geraint	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Saunders	Gwenno	Annibynnol
			Waller	Claire	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Williams	Robert	Socialist Alternative
Alun a Glannau Dyfrdwy Canlyniad	60,518	24.9	Brighton	Paul	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			Coombs	Richard	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Crawford	William	United Kingdom Independence Party
			<b>Sergeant</b>	<b>Carl</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Wright	Matthew	Plaid Geidwadol Cymru
Blaenau Gwent Canlyniad	52,927	37.4	Ab Ellis	Rhys	Plaid Cymru – The Party of Wales
1999: Plaid Lafur Cymru			Bard	Stephen	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			<b>Law</b>	<b>Peter</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			O'Keefe	Barrie	Plaid Geidwadol Cymru
			Thomas	Roger	United Kingdom Independence Party
Brycheiniog a Maesfedyd Canlyniad	53,739	50	Bourne	Nicholas	Plaid Geidwadol Cymru
1999: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru			Parry	Brynach	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Phillips	Elizabeth	United Kingdom Independence Party
			Rees	David	Plaid Lafur Cymru
			<b>Williams</b>	<b>Kirsty</b>	<b>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</b>
Pen-y-bont ar Ogwr Canlyniad	62,540	35.4	Cairns	Alun Hugh	Plaid Geidwadol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			Green	Cheryl Anne	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Jenkins	Timothy Charles	United Kingdom Independence Party
			<b>Jones</b>	<b>Carwyn Howell</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Parry	Keith	Plaid Cymru – The Party of Wales
Caernarfon Canlyniad	47,173	45	Churchman	Stephen William	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
1999: Plaid Cymru – The Party of Wales			Eaglestone	Martin Robert	Plaid Lafur Cymru
			Edwards	Goronwy Owen	Plaid Geidwadol Cymru
			<b>Jones</b>	<b>Alun Ffred</b>	<b>Plaid Cymru – The Party of Wales</b>

	Pleidleisiau	Canran cyfran o'r bleidlais	Colli ernes	Newid 1999-2003 fel canran
	1,732	9.2		2.3
	11,137	59.4		8.1
	3,324	17.7		-4.6
	114	0.6	Do	
	1,840	9.8		-3.8
	608	3.2	Do	
	18,755	100.0		
	2,509	16.7		6.8
	1,160	7.7		-4.4
	826	5.5		
	7,036	46.7		-4.6
	3,533	23.5		5.5
	15,064	100.0		
	1,889	9.6		-11.6
	2,148	10.9		-0.6
	13,884	70.2		8.4
	1,131	5.7		0.2
	719	3.6	Do	
	19,771	100.0		
	8,017	29.9		5.3
	1,329	5.0		-3.1
	1,042	3.9	Do	
	3,130	11.7		-6.0
	13,325	49.6		5.1
	26,843	100.0		
	7,066	31.9		11.7
	2,980	13.5		-2.2
	677	3.1	Do	
	9,487	42.8		5.6
	1,939	8.8		-10.9
	22,149	100.0		
	1,392	6.55		3.8
	5,770	27.2		4.4
	2,402	11.3		2.7
	11,675	55.0		-10.9
	21,239	100.0		

## Canlyniadau etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003

Etholaeth	Etholwyr	Nifer dilys a bleidleisiodd fel canran	Cyfenw	Enwau blaen	Plaid
Caerffili Canlyniad	68,152	37.3	Blackman	Anne	Annibynnol
1999: Plaid Lafur Cymru			<b>Cuthbert</b>	<b>Jeffrey</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Dafydd-Lewis	Avril	Annibynnwyr Etholaeth Caerffili
			Jones	Laura	Plaid Geidwadol Cymru
			Roffe	Rob	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Vipass	Brenda	United Kingdom Independence Party
			Whittle	Lindsay	Plaid Cymru – The Party of Wales
Canol Caerdydd Canlyniad	62,470	33	Beany	Captain	New Millenium Bean Party
1999: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru			Jeremy	Madeline Elise	Cynghrair ProLife
			Mungham	Geoff Miles	Plaid Lafur Cymru
			Piper	Craig Stuart	Plaid Geidwadol Cymru
			Raiz	Raja Gul	Cynghrair Sosialaidd Cymru
			<b>Randerson</b>	<b>Jennifer Elizabeth</b>	<b>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</b>
			Thomas	Owen John	Plaid Cymru – The Party of Wales
Gogledd Caerdydd Canlyniad	64,528	43.0	Dixon	John Leslie	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			<b>Essex</b>	<b>Susan Linda</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Hulston	Donald Edwin	United Kingdom Independence Party
			Jones	Hewel William Wyn	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Morgan	Jonathan	Plaid Geidwadol Cymru
De Caerdydd a Phenarth Canlyniad	65,505	30.7	<b>Barrett</b>	<b>Lorraine Jayne</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
1999: Plaid Lafur Cymru			Bartlett	David Charles	Socialist Alternative
			Berman	Rodney Simon	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Grigg	Richard Rhys	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Rees	Dianne Elizabeth	Plaid Geidwadol Cymru
Gorllewin Caerdydd Canlyniad	60,523	34.2	Bush	Eluned Mary	Plaid Cymru – The Party of Wales
1999: Plaid Lafur Cymru			Douglas	Heather	Plaid Geidwadol Cymru
			Gasson	Jacqueline-Anne (known Jacqui)	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Hughes	Frank Roger Wynne	United Kingdom Independence Party
			<b>Morgan</b>	<b>Hywel Rhodri</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr Canlyniad	54,110	49.5	Cooper	Anthony	Plaid Lafur Cymru
1999: Plaid Cymru – The Party of Wales			John	Steffan	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Lloyd Davies	Harry	Plaid Geidwadol Cymru
			<b>Thomas</b>	<b>Rhodri Glyn</b>	<b>Plaid Cymru – The Party of Wales</b>

	Pleidleisiau	Canran cyfran o'r bleidlais	Colli ernes	Newid 1999-2003 fel canran
	1,204	4.7	Do	
	11,893	46.8		2.6
	930	3.7	Do	
	2,570	10.1		2.4
	1,281	5.0		-7.4
	590	2.3	Do	
	6,919	27.3		-6.9
	25,387	100.0		
	289	1.4	Do	
	239	1.2	Do	
	4,100	19.9		-10.1
	2,378	11.5		-0.2
	541	2.6	Do	
	11,256	54.6		12.4
	1,795	8.7		-6.0
	20,598	100.0		
	3,474	12.5		-3.6
	10,413	37.5		-1.2
	1,295	4.7	Do	
	2,679	9.7		-4.1
	9,873	35.6		4.2
	27,734	100.0		
	8,978	44.6		-3.4
	585	2.9	Do	
	3,154	15.7		3.1
	2,538	12.6		-4.4
	4,864	24.2		5.7
	20,119	100.0		
	2,859	13.8		-0.8
	3,583	17.3		2.5
	2,914	14.1		5.2
	929	4.5	Do	
	10,420	50.3		-11.3
	20,705	100.0		
	8,355	31.2		-0.5
	1,866	7.0		0.2
	3,576	13.4		4.9
	12,969	48.5		-4.6
	26,766	100.0		

## Canlyniadau etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003

Etholaeth	Etholwyr	Nifer dilys a bleidleisiodd fel canran	Cyfenw	Enwau blaen	Plaid
Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro Canlyniad 1999: Plaid Lafur Cymru	56,403	42.5	Griffiths	Llyr Hughes	Plaid Cymru – The Party of Wales
			<b>Gwyther</b>	<b>Christine Margery</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Megarry	Mary Kathleen	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Thomas	David Nicholas	Plaid Geidwadol Cymru
			Williams	Arthur Ronald	Annibynnol
Ceredigion Canlyniad 1999: Plaid Cymru – The Party of Wales	52,940	49.7	Davies	John	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			<b>Jones</b>	<b>Elin</b>	<b>Plaid Cymru – The Party of Wales</b>
			Passmore	Rhianon	Plaid Lafur Cymru
			Sheldon	Ian	United Kingdom Independence Party
			Williams	Owen	Plaid Geidwadol Cymru
De Clwyd Canlyniad 1999: Plaid Lafur Cymru	53,452	34.9	Burnham	Derek	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Edwards	Dyfed	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Fox	Albert (known as Albie)	Plaid Geidwadol Cymru
			<b>Sinclair</b>	<b>Karen</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Theunissen	Edwina	United Kingdom Independence Party
Jones	Marc	Plaid Annibynnol John Marek			
Gorllewin Clwyd Canlyniad 1999: Plaid Lafur Cymru	54,463	40.6	Burnham	Eleanor	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Murray	Peter	United Kingdom Independence Party
			<b>Pugh</b>	<b>Alun John</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Ryder	Janet	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Williams	Brynle	Plaid Geidwadol Cymru
Conwy Canlyniad 1999: Plaid Cymru – The Party of Wales	55,291	37.9	Bebb	Guto ap Owain	Plaid Geidwadol Cymru
			<b>Idris Jones</b>	<b>Denise</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Jones	Gareth	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Rees	Graham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Cwm Cynon Canlyniad 1999: Plaid Lafur Cymru	44,473	37.5	<b>Chapman</b>	<b>Christine</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Humphreys	Robert Owen	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Thomas	Daniel Clive Byron	Plaid Geidwadol Cymru
			Walters	David Alun	Plaid Cymru – The Party of Wales

	Pleidleisiau	Canran cyfran o'r bleidlais	Colli ernes	Newid 1999-2003 fel canran
	7,869	32.8		3.0
	8,384	35.0		-0.2
	2,222	9.3		2.6
	4,917	20.5		2.5
	580	2.4	Do	
	23,972	100.0		
	7,265	27.60		-2.2
	11,883	45.1		-4.2
	3,308	12.6		-5.6
	940	3.6	Do	
	2,923	11.1		-0.1
	26,319	100.00		
	1,666	8.9		-5.8
	3,923	21.0		-6.0
	3,548	19.0		4.8
	6,814	36.5		3.8
	501	2.7	Do	
	2,210	11.8		
	18,662	100.0		
	1,743	7.9		-2.6
	715	3.1	Do	
	7,693	34.8		0.8
	4,715	21.2		-6.0
	7,257	32.8		4.8
	22,123	100.0		
	5,152	24.6		6.1
	6,467	30.9		0.8
	6,395	30.6		0.0
	2,914	13.9		-2.6
	20,928	100.0		
	10,841	65.0		19.4
	1,120	6.7		-0.3
	984	5.9		1.1
	3,724	22.3		-20.1
	16,669	100.0		

## Canlyniadau etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003

Etholaeth	Etholwyr	Nifer dilys a bleidleisiodd fel canran	Cyfenw	Enwau blaen	Plaid
Delyn Canlyniad	54,426	31	Isherwood	Mark	Plaid Geidwadol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			Lloyd	David	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			<b>Mewies</b>	<b>Sandra Elaine (a elwir yn Sandy)</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Rowlinson	Paul	Plaid Cymru – The Party of Wales
Gŵyr Canlyniad	60,523	39.2	Caiach	Sian	Plaid Cymru – The Party of Wales
1999: Plaid Lafur Cymru			<b>Hart</b>	<b>Edwina</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			James	Stephen	Plaid Geidwadol Cymru
			Lewis	Richard	United Kingdom Independence Party
			Tregoning	Nicholas	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Islwyn Canlyniad	51,170	40	Hancock	Brian	Plaid Cymru – The Party of Wales
1999: Plaid Cymru – The Party of Wales			<b>James</b>	<b>Irene</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Matthews	Terri-Anne	Plaid Geidwadol Cymru
			Price	Huw	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Taylor	Paul	Tinker Against the Assembly
Llanelli Canlyniad	57,428	40.3	Jones	Gareth	Plaid Geidwadol Cymru
1999: Plaid Cymru – The Party of Wales			Jones	Helen Mary	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Rees	Kenneth	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			<b>Thomas</b>	<b>Catherine</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
Meirionnydd Nant Conwy Canlyniad	33,742	45	<b>Elis-Thomas</b>	<b>Dafydd</b>	<b>Plaid Cymru – The Party of Wales</b>
1999: Plaid Cymru – The Party of Wales			Francis	Lisa	Plaid Geidwadol Cymru
			Harris	Kenneth	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
			Woodward	Edwin	Plaid Lafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni Canlyniad	55,768	33	Ault	John	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
1999: Plaid Lafur Cymru			Cox	Alun	Plaid Cymru – The Party of Wales
			Greer	Neil	Annibynnol
			<b>Lewis</b>	<b>Huw</b>	<b>Plaid Lafur Cymru</b>
			Prosser	John	Plaid Geidwadol Cymru

	Pleidleisiau	Canran cyfran o'r bleidlais	Colli ernes	Newid 1999-2003 fel canran
	4,896	29.0		7.0
	2,880	17.1		4.1
	6,520	38.6		-6.1
	2,588	15.3		-5.0
	16,884	100.0		
	3,502	14.8		-9.2
	10,334	43.6		8.2
	4,646	19.6		5.5
	2,444	10.3		
	2,775	11.7		-0.1
	23,701	100.0		
	3,926	19.2		-22.8
	11,246	54.9		15.4
	1,848	9.0		2.2
	1,268	6.2		-3.6
	2,201	10.7		
	20,489	100.0		
	1,712	7.4		0.8
	9,895	42.7		0.5
	1,644	7.1		-3.2
	9,916	42.8		3.0
	23,167	100.0		
	8,717	57.4		-6.4
	2,485	16.4		4.9
	1,100	7.2		-0.1
	2,891	19.0		1.6
	15,193	100.0		
	1,324	7.2		0.5
	2,988	16.2		-10.9
	1,423	7.7		
	11,148	60.5		16.6
	1,539	8.3		3.4
	18,422	100.0		

## Canlyniadau etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Mai 2003

Etholaeth	Etholwyr	Nifer dilys a bleidleisiodd fel canran	Cyfenw	Enwau blaen	Plaid
Mynwy Canlyniad	62,451	44.5	<b>Davies</b>	<b>David Thomas Charles</b>	<b>Plaid Geidwadol Cymru</b>
